# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 21/05/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)
Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills

Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Lefelau Cyfranogiad mewn Chwaraeon
The Communities, Equality and Local Government Committee's Report on Participation Levels in Sport

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Perfformiad Polisïau Llafur Cymru
Welsh Conservatives Debate: Welsh Labour Policy Performance

Dadl Plaid Cymru: Cymoedd De Cymru
Plaid Cymru Debate: The South Wales Valleys

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer: Sgrinio ar gyfer Dyslecsia yng Nghymru
Short Debate: Screening for Dyslexia in Wales

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

### Band Eang Cyflym Ffibr

### Fast Fibre Broadband

13:30 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa drefniadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ar gyfer y pedwar y cant o bobl na fydd yn derbyn band eang cyflym ffibr? OAQ(4)0418(EST)*

*1. What arrangements will the Welsh Government make for the four per cent of people who will not receive fast fibre broadband? OAQ(4)0418(EST)*

13:30 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

A review identifying locations not covered by either commercial or Superfast Cymru roll-out processes has been completed. We will soon be running a public consultation on these findings. We are considering how superfast broadband can be provided to premises that are not covered by either the commercial or Superfast Cymru roll-outs.

Cwblhawyd adolygiad sy'n nodi lleoliadau nad ydynt wedi'u cynnwys mewn prosesau masnachol na Cyflymu Cymru. Cyn hir, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y canfyddiadau hyn. Rydym yn ystyried yn awr sut y gellir darparu band eang cyflym iawn ar gyfer safleoedd sydd heb eu cynnwys mewn cynlluniau masnachol na Cyflymu Cymru.

13:31 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

I had an e-mail overnight from a business in my constituency with a photo attached of its latest broadband speed checker test and it showed a reading of 0.11 MB. That means that that business cannot run the internet part of its business on such a slow speed. This business is worried that it will be in the 4% of people outside the Superfast Cymru project. Can you give a timescale for any announcement that the Government will make of programmes that it will put in place to ensure that that 4% will be able to receive intervention that will mean that, in a short time, 100% of Wales will be Superfast Cymru enabled?

Dros nos, cefais e-bost gan fusnes yn fy etholaeth yn atodi llun o'i brawf gwirio cyflymder band eang diweddaraf a ddangosai ddarlleniad o 0.11 MB. Mae hynny'n golygu na all y busnes gynnal rhan o'i fusnes sydd ar y rhyngrwyd ar gyflymder mor araf. Mae'r busnes yn poeni y bydd yn un o'r 4% o bobl sydd heb eu cynnwys ym mhrosiect Cyflymu Cymru. A allwch ddweud pa bryd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cyhoeddiad ynglŷn â rhaglenni y bydd yn eu rhoi ar waith i sicrhau ymyrraeth ar gyfer y 4% a fydd yn golygu y bydd 100% o Gymru yn rhan o Cyflymu Cymru cyn hir?

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

May I thank the Member, not only for the question but also for consistently pressing for fast and reliable broadband in all parts of Wales? I am able to share with Members that we will progress the infill programme concurrent with Superfast Cymru. We have finished the open-market review and we now propose to go to public consultation, after which the tendering process will begin. So, we will be up operating the infill programme alongside Superfast Cymru.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod, nid yn unig am y cwestiwn, ond hefyd am bwyso'n gyson am fand eang cyflym a dibynadwy ym mhob rhan o Gymru? Rwy'n gallu rhannu gyda'r Aelodau y byddwn yn bwrw ymlaen â'r rhaglen fewnlenwi ar yr un pryd â Cyflymu Cymru. Rydym wedi gorffen yr adolygiad marchnad agored ac yn awr rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r broses dendro yn dechrau ar ôl hynny. Felly byddwn yn gweithredu'r rhaglen fewnlenwi ochr yn ochr â Cyflymu Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Deputy Minister, given that parts of Pembrokeshire are likely to include the 4% of people who will not receive a fast fibre broadband service, can you tell us what specific work the Welsh Government is doing to identify those particular communities in Pembrokeshire and what digital support will be available for those areas?

Ddirprwy Weinidog, o gofio bod rhannau o Sir Benfro yn debygol o gynnwys y 4% o bobl na fyddant yn derbyn gwasanaeth band eang cyflym ffibr, a allwch ddweud wrthym pa waith penodol y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i nodi cymunedau penodol yn Sir Benfro a pha gymorth digidol a fydd ar gael i'r ardaloedd hynny?

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

As I say, the open-market review has been completed and we will now progress to a consultation. The open-market review will identify the areas that are not covered either by commercial roll-out or by Superfast Cymru, namely the 4%. We will now go to public consultation on how we respond to the 4% and what technologies we use after that tendering process will begin following that intervention.

Fel y dywedais, mae'r adolygiad marchnad agored wedi cael ei gwblhau a byddwn yn awr yn symud ymlaen i ymgynghoriad. Bydd yr adolygiad marchnad agored yn nodi'r ardaloedd nad ydynt wedi'u cynnwys gan y prosesau masnachol na Cyflymu Cymru, sef y 4%. Byddwn yn awr yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar sut rydym yn ymateb i'r 4% a pha dechnolegau a ddefnyddiwn ar ôl i'r broses dendro ddechrau yn dilyn yr ymyriad.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Superfast Cymru broadband is limited to rural intervention, as I understand it, but the Deputy Minister will know that there remains a significant notspot in the Penylan area in the centre of Cardiff. BT has confirmed to me that a number of cabinets in this area will not be included in the commercial roll-out. That means that households in that area will continue to suffer from very low broadband speeds. Can you assure me that urban interventions will also be included in your review and that those households in Cardiff can expect to have some assistance as well?

Mae band eang Cyflymu Cymru yn gyfyngedig i ymyrraeth wledig, fel y deallaf, ond bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod bod man gwan sylweddol o hyd yn ardal Pen-y-lan yng nghanol Caerdydd. Cefais gadarnhad gan BT na fydd nifer o gabinetau yn yr ardal wedi'u cynnwys yn y broses. Mae hynny'n golygu y bydd cartrefi yn yr ardal yn parhau i ddioddef cyflymder band eang isel iawn. A allwch fy sicrhau y bydd ymyriadau trefol yn cael eu cynnwys yn eich adolygiad ac y gall cartrefi yng Nghaerdydd ddisgwyl cael rhywfaint o gymorth hefyd?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Indeed. Contrary to popular belief, the 4% also covers areas that are intensely urban and not just rural. So, they are part and parcel of the open-market review and, subsequent to that, of the intervention.

Gallant yn wir. Yn groes i'r gred boblogaidd, mae'r 4% hefyd yn cynnwys ardaloedd sy'n drefol iawn, nid ardaloedd gwledig yn unig. Felly maent yn rhan annatod o'r adolygiad marchnad agored ac o'r ymyrraeth yn ei sgîl.

Senedd.tv Fideo Video

## Digwyddiadau Mawr / Major Events

13:33 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa fanteision economaidd amcangyfrifedig y mae digwyddiadau mawr yn eu sicrhau i Gymru? OAQ(4)0416 (EST)*

*2. What estimated economic benefits do major events bring to Wales? OAQ(4)0416(EST)*

13:34 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

It is estimated that the Welsh Government-supported programme of major sporting and cultural events in 2013/14 generated a direct economic impact of £61 million and supported 1,403 full-time jobs in Wales.

Amcangyfrifir bod y rhaglen a gefnogir gan Lywodraeth Cymru o ddigwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr yn 2013/14 wedi cynhyrchu effaith economaidd uniongyrchol o £61 miliwn ac wedi cefnogi 1,403 o swyddi amser llawn yng Nghymru.

13:34 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that response. How do you think that we can capitalise on the fact that the opening Ashes test of next year's series will be in Cardiff in the SWALEC stadium? It will obviously reach a huge audience, not only in Australia, but also in the whole of the sub-continent.

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb. Sut rydych chi'n meddwl y gallwn fanteisio ar y ffaith y cynhelir gêm brawf agoriadol Cyfres y Lludw y flwyddyn nesaf yn stadiwm SWALEC Caerdydd? Yn amlwg bydd yn cyrraedd cynulleidfa enfawr, nid yn unig yn Awstralia, ond dros yr holl is-gyfandir.

13:34 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We have to remember, of course, that it is the England and Wales Cricket Board, so we expect an England and Wales team to do rather better in the world rankings than they are currently, but I have not checked the score today. However, if you look at the 2009 series alone, you will see that it is estimated that it brought around £2.4 million into Wales. Our sector teams look at all of the opportunities that arise and that are presented by the Ashes, in terms of looking at new businesses and commercial prospects, and we have a very good relationship with the organisers of this event.

Mae'n rhaid i ni gofio, wrth gwrs, mai Bwrdd Criced Cymru a Lloegr ydyw, felly rydym yn disgwyl i dîm Cymru a Lloegr gyrraedd safle ychydig yn uwch yn y byd nag ar hyn o bryd, ond nid wyf wedi edrych ar y sgôr heddiw. Fodd bynnag, os edrychwch ar gyfres 2009 yn unig, byddwch yn gweld yr amcangyfrifir ei fod wedi dod â thua £2.4 miliwn i Gymru. Mae ein timau sector yn edrych ar yr holl gyfleoedd sy'n codi ac sy'n cael eu cynnig gan y Lludw o ran edrych ar fusnesau newydd a rhagolygon masnachol ac mae gennym berthynas dda iawn gyda threfnwyr y digwyddiad.

13:35 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, dywedodd prif swyddog gweithredol Gwesty'r Celtic Manor bod angen inni wneud mwy i fanteisio ar y NATO 'summit'. Ym mis Gorffennaf, wrth gwrs—ac fe fyddwch yn gwybod am hyn—bydd Abertawe yn cynnal Pencampwriaethau Athletau Ewropeaidd y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol. Yn ogystal â chyfres y Lludw, y flwyddyn nesaf byddwn yn cael wyth gêm Cwpan Rygbi'r Byd. Mae'n costio i gael digwyddiadau fel hyn yng Nghymru, felly pa fath o enillion economaidd ydych chi'n chwilio amdanynt pan fyddwch yn gwneud eich dadansoddiad cost a budd o gefnogi'r digwyddiadau hyn?

Minister, the chief executive officer of the Celtic Manor Resort said that we need to do more to take advantage of the NATO summit. In July, of course—and you will know about this—Swansea will be staging the International Paralympic Committee Athletics European Championships. In addition to the Ashes tour, next year we will have eight Rugby World Cup matches. It costs money to stage these events in Wales, so what kind of economic benefits are you seeking when you make your cost-benefit analysis of supporting these events?

13:35 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I was having a conversation the other day with someone in America, whose best memories were of when they came to the Celtic Manor and saw the golf. They said, 'If there is anything that I can do to help Wales'—and they are in business—'we would be delighted to do so, because of the way that the event was held'.

Cefais sgwrs y diwrnod o'r blaen â rhywun yn America a gofiai'n dda yr adeg y daeth i'r Celtic Manor i weld y golff. 'Os oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i helpu Cymru,' meddai—mae ganddo fusnes—'byddem wrth ein bodd yn gwneud hynny oherwydd y ffordd y cynhaliwyd y digwyddiad hwnnw.'

Can I say that, in terms of the general things, we do see the economic benefits coming in, and they are not just Cardiff and south Wales based—there are benefits across Wales? We obviously take that into account when we are giving out further money. With regard to the Celtic Manor comments, I believe that the First Minister dealt with those yesterday.

O ran y pethau cyffredinol, a gaf fi ddweud ein bod yn gweld y manteision economaidd yn dod i mewn, ac nid i Gaerdydd a de Cymru'n unig? Mae manteision ledled Cymru. Rydym yn amlwg yn ystyried hynny wrth i ni ddyrannu arian pellach. O ran y sylwadau am y Celtic Manor, credaf fod y Prif Weinidog wedi ymdrin â'r rheini ddoe.

13:36 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a allech chi roi mwy o wybodaeth inni ar sut yr ydych yn rhoi cefnogaeth i bobl sy'n dod lan â chysyniadau ynglŷn â digwyddiadau mawr—nid y bobl sydd â'r arian y tu ôl iddynt, efallai, ond y bobl sydd â'r syniadau creadigol? Er enghraifft, rydym yn gwybod y bydd hanner marathon cyntaf Abertawe yn digwydd eleni, a dau ddyn sydd wedi dod â'r syniad hwnnw gerbron, ac sydd eisiau datblygu hyn i mewn i rywbeth blynyddol. Sut ydym ni'n annog pobl sydd â'r sbarc fel unigolion i gymryd y prosiectau hyn ymhellach ar gyfer budd Cymru gyfan?

Minister, could you give us an update on how you provide support for people who come up with new concepts in terms of major events—not the people who have the funding behind them, perhaps, but the people who have the creative ideas? For example, we know that the first Swansea half marathon will be staged this year, and it is two men who have brought the idea forward, and who want to develop this into an annual event. How are we encouraging people who have that spark as individuals to take these projects further for the benefit of the whole of Wales?

13:36 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that it is important to recognise that we support events across the piece, and we do look at innovation. Some of the best events that we have in Wales are as a result of innovation, whether it be the Green Man Festival, or things like the Machynlleth Comedy Festival; they show that people have great ideas to be taken on board. We have a very open-door policy in the major events unit for any organisations that come to us. Obviously, in terms of the marathon, I thought that the Greeks started that thousands of years ago. [Laughter.]

Rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod ein bod yn cefnogi digwyddiadau o bob math, ac rydym yn edrych ar arloesedd. Mae rhai o'r digwyddiadau gorau sydd gennym yng Nghymru yn ganlyniadau arloesedd, boed yn ŵyl y Green Man neu bethau fel Gŵyl Gomedi Machynlleth; maent yn dangos bod gan bobl syniadau gwych i'w hystyried. Mae gennym bolisi drws agored pendant yn yr uned digwyddiadau mawr ar gyfer unrhyw sefydliadau sy'n dod atom. Yn amlwg, o ran y marathon, rwy'n meddwl mai'r Groegiaid ddechreuodd hynny filoedd o flynyddoedd yn ôl. [Chwerthin.]

### Uwchgynhadledd NATO

### NATO Summit

13:37 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog amlinellu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau'r cyfleoedd economaidd mwyaf posibl sy'n codi o Uwchgynhadledd NATO, ar gyfer hyrwyddo Cymru? OAQ(4)0419(EST)*

*3. Will the Minister outline the Welsh Government strategy for maximising the economic opportunities arising from the NATO Summit, for the promotion of Wales? OAQ(4)0419(EST)*

13:37 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, in terms of the NATO summit, it is being organised by the UK Government. We are working closely with it, and its agencies, to maximise the economic benefits for Wales, and are in detailed discussion on logistics, suppliers and opportunities to showcase Wales, particularly in terms of business and tourism. I also think that the Secretary of State for Wales made that quite clear last week when he was interviewed.

Yn amlwg, o ran uwchgynhadledd NATO, mae'n cael ei threfnu gan Lywodraeth y DU. Rydym yn gweithio'n agos â hi a'i hasiantaethau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y budd economaidd i Gymru ac rydym yn cynnal trafodaethau manwl ar logisteg, cyflenwyr a chyfleoedd i arddangos Cymru, yn enwedig o ran busnes a thwristiaeth. Rwy'n meddwl hefyd fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi gwneud hynny'n eithaf clir pan gafodd ei holi yr wythnos diwethaf.

13:37 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, Minister. I am most encouraged by it. Clearly, you and the rest of the house will want to take every opportunity possible from what is an extraordinary event, with so many heads of state being present in Wales, seeing what we can offer. The tourism and visitor opportunities will not come again.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae'n fy nghalonogi'n fawr. Yn amlwg, byddwch chi a gweddill y tŷ am fanteisio ar bob cyfle posibl a gynigir gan yr hyn sy'n ddigwyddiad eithriadol, gyda chymaint o benaethiaid gwladwriaethau yma yng Nghymru yn gweld beth sydd gennym i'w gynnig. Ni ddaw cyfle o'r fath eto o ran twristiaeth ac ymwelwyr.

13:37 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No. You are quite right to say that, in terms of the business benefits, the manufacturing team sector has already engaged with the NATO procurement arm in Luxembourg, to look at an UK industry day. We have had excellent involvement with the Ministry of Defence on some of these issues as well, and, based on this very good practice, I hope that we can showcase Wales. I think that we have to be acutely aware, of course, that there are major issues in terms of a NATO summit, and some of the discussions will remain confidential.

Na. O ran y manteision busnes, rydych yn llygad eich lle yn dweud bod sector y tîm gweithgynhyrchu eisoes wedi ymgysylltu â changen caffael NATO yn Lwcsembwrg i ystyried cynnal diwrnod diwydiant y DU. Rydym wedi cael ymgysylltiad ardderchog gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar rai o'r materion hyn hefyd ac yn seiliedig ar arfer da iawn o'r fath, rwy'n gobeithio y gallwn arddangos Cymru. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn ymwybodol iawn, wrth gwrs, fod materion pwysig yn codi mewn perthynas ag uwchgynhadledd NATO a bydd rhai o'r trafodaethau yn parhau'n gyfrinachol.

13:38 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, the cost of security is pretty hefty in these matters. Do we know what the cost of security will be, and do you know whether any of that cost will fall on Wales or on Welsh police forces?

Yn amlwg, mae cost diogelwch yn drwm iawn yn y materion hyn. A ydym yn gwybod beth fydd cost diogelwch ac a ydych yn gwybod a fydd Cymru neu heddluoedd Cymru yn ysgwyddo rhan o'r gost honno?

13:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I think that I indicated to you, this is an UK Government event, and I would not like to comment on any matters to do with security. It is very important that we recognise what a significant event this is, and there will be security implications. However, I can assure you that, through all the working groups that we are involved in, we are closely involved with the discussions on these particular issues.

Fel y dynodais, rwy'n meddwl, digwyddiad Llywodraeth y DU yw hwn ac ni fyddwn yn hoffi gwneud sylwadau ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod pa mor arwyddocaol yw'r digwyddiad a bydd goblygiadau o ran diogelwch. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau, drwy'r holl weithgorau rydym yn rhan ohonynt, ein bod yn cymryd rhan fawr yn y trafodaethau ar y materion penodol hyn.

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Eluned Parrott.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

13:38 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have discussed the lessons that have been learned, perhaps, from the Ryder Cup with regard to the NATO summit. However, perhaps a more comparable event, in terms of audience and impact, is the European Council meeting that took place in Cardiff in 1998, when the UK hosted the European Union presidency. Albeit it was before devolution, what assessment has the Welsh Government made of the economic impact, and the economic opportunities, that that particular event presented?

Rydym wedi trafod y gwersi a ddysgwyd, efallai, o Gwpan Ryder mewn perthynas ag uwchgynhadledd NATO. Fodd bynnag, o ran cynulleidfa ac effaith, efallai bod cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn 1998 pan oedd llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd yn nwylo'r DU, yn ddigwyddiad tebycach. Er bod hynny cyn datganoli, pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith economaidd a'r cyfleoedd economaidd a gyflwynwyd gan y digwyddiad penodol hwnnw?

13:39 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to give you an honest answer—I do not remember seeing any paperwork on that particular issue since I have been the Minister for the economy. I do not know whether anything was done historically, when we came into being in 1999. However, I am aware that they did an excellent refurbishment, I think, with Cardiff City Hall and the Mansion House, as a result of it, so there was a direct benefit to Cardiff Council. However, I will certainly make enquiries, and see whether work has been done on that basis.

Rhaid i mi roi ateb gonest i chi—nid wyf yn cofio gweld unrhyw waith papur ar y mater penodol hwnnw ers i mi fod yn Weinidog yr economi. Nid wyf yn gwybod a wnaethpwyd unrhyw beth yn y gorffennol pan ddaethom i fodolaeth yn 1999. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol eu bod wedi gwneud gwaith adnewyddu gwych, rwy'n credu, ar Neuadd y Ddinas a Mansion House yng Nghaerdydd o ganlyniad i'r digwyddiad, felly roedd budd uniongyrchol i Gyngor Caerdydd. Fodd bynnag, byddaf yn sicr o wneud ymholiadau i weld a oes gwaith wedi'i wneud ar hynny.

13:39 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. One thing that was done in advance of that European summit was the creation of the Cardiff forum, a group of various different bodies, such as the Welsh Development Agency, the Wales Tourist Board, Cardiff Chamber of Commerce, the Welsh Rugby Union, and so on, to help co-ordinate efforts to maximise the economic benefits of that event. Will you consider establishing such a body again?

Diolch i chi, Weinidog. Un peth a wnaethpwyd cyn yr uwchgynhadledd Ewropeaidd oedd creu fforwm Caerdydd, grŵp o wahanol gyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Siambr Fasnach Caerdydd, Undeb Rygbi Cymru ac yn y blaen, er mwyn helpu i gydgysylltu ymdrechion i sicrhau'r manteision economaidd gorau o'r digwyddiad. A wnewch chi ystyried sefydlu corff o'r fath eto?

13:40 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, I have the city region board currently, and I am looking at all my other arrangements with other organisations across the city region to maximise anything in terms of economic development.

Wel, wrth gwrs, mae gen i fwrdd y ddinas- ranbarth ar hyn o bryd, ac rwy'n edrych ar fy holl drefniadau eraill gyda sefydliadau eraill ar draws y ddinas-ranbarth i fanteisio i'r eithaf ar bob dim o ran datblygu economaidd.

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the opposition spokesperson, Byron Davies.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Byron Davies.

13:40 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Following on with the NATO theme, Minister, will you outline what action you have taken to ensure that Cardiff Airport plays a key role in delivering the NATO conference and to maximise the potential to sell the airport around the world?

Gan barhau â thema NATO, Weinidog, a wnewch chi amlinellu pa gamau rydych wedi'u cymryd i sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn chwarae rôl allweddol yn y broses o ddarparu cynhadledd NATO a manteisio i'r eithaf ar y potensial i werthu'r maes awyr o gwmpas y byd?

13:40 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The transportation team for the Foreign and Commonwealth Office is working to ensure that Cardiff Airport is used as the principal airport for the NATO Wales summit, and maximum use will also be made of the facilities at St Athan, if, of course, we can help the UK Government with any of the arrangements of this. Obviously, it will be good news for the airport in terms of publicity if it is used.

Mae tîm trafnidiaeth y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn gweithio i sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn cael ei ddefnyddio fel y prif faes awyr ar gyfer uwchgynhadledd NATO Cymru a bydd y defnydd llawnaf posibl yn cael ei wneud o'r cyfleusterau yn Sain Tathan hefyd, os, wrth gwrs, y gallwn helpu Llywodraeth y DU gydag unrhyw rai o'r trefniadau ar gyfer hyn. Yn amlwg, bydd yn newyddion da i'r maes awyr o ran cyhoeddusrwydd os caiff ei ddefnyddio.

13:40 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I fully follow that, and I totally agree with you, but what do you make of the comments by the chief executive officer of the Celtic Manor Resort, who said:

'At the moment it's more viable for us to have an alliance with Bristol Airport to put on an international campaign because they have more routes coming into Bristol than into Cardiff.'

Can you outline what you are doing specifically to ensure that that is not the case?

Ie, rwy'n deall hynny ac rwy'n cytuno'n llwyr â chi, ond beth rydych chi'n ei wneud o sylwadau prif swyddog gweithredol y Celtic Manor Resort, a ddywedodd:

'Ar hyn o bryd mae'n fwy ymarferol i ni gynghreirio â Maes Awyr Bryste o ran cynnal ymgyrch ryngwladol am fod ganddynt fwy o lwybrau'n dod i Fryste nag i Gaerdydd.'

A allwch amlinellu beth rydych yn ei wneud yn benodol i sicrhau nad yw hynny'n digwydd?

13:41 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, there is hard work going on in terms of the airport board, which is an arm's-length company from the Government. It is working very hard and has recently secured routes, and we very much hope that the NATO conference will put Cardiff and Wales once again on the map in terms of any future discussions that we might have.

Yn amlwg, mae gwaith caled ar y gweill o ran bwrdd y maes awyr, sy'n gwmni hyd braich o'r Llywodraeth. Mae'n gweithio'n galed iawn ac mae wedi sicrhau llwybrau yn ddiweddar a gobeithiwn yn fawr iawn y bydd cynhadledd NATO yn rhoi Caerdydd a Chymru ar y map unwaith eto o ran unrhyw drafodaethau y gallem eu cael yn y dyfodol.

### Gweithgynhyrchu

### Manufacturing

13:41 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i gynorthwyo gweithgynhyrchu yn Nhorfaen? OAQ(4)0422(EST)*

*4. Will the Minister make a statement on Welsh Government efforts to support manufacturing in Torfaen? OAQ(4)0422(EST)*

13:41 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Manufacturing is a key sector of the Welsh economy and Torfaen is a prime manufacturing location. Our priority remains to develop and strengthen the manufacturing base in Wales. Wales now has the highest contribution by manufacturing to the economy of any of the UK regions.

Mae gweithgynhyrchu yn sector allweddol o economi Cymru ac mae Torfaen yn lleoliad gweithgynhyrchu pwysig. Ein blaenoriaeth o hyd yw datblygu a chryfhau'r sylfaen weithgynhyrchu yng Nghymru. Cymru sy'n cyfrannu fwyaf i'r economi o'r sector gweithgynhyrchu o bob un o ranbarthau'r DU bellach.

13:41 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you are aware, the lack of available industrial land in Torfaen has been an ongoing concern, with a number of local manufacturers finding it difficult to expand, and some considering moving outside the borough in order to grow their business. I was very grateful that you took the time to meet with me and representatives of the local authority last week to discuss this really important issue. I know that everyone else involved felt that it was a really positive meeting, so will you continue to work both with the council and with local manufacturers to help ensure that there is land available to meet the needs of long-standing employers who wish to grow their business but remain in Torfaen?

Fel y gwyddoch, mae prinder tir diwydiannol yn Nhorfaen wedi bod yn bryder parhaus, gyda nifer o weithgynhyrchwyr lleol yn ei chael yn anodd ehangu, ac mae rhai'n ystyried symud y tu allan i'r fwrdeistref er mwyn tyfu eu busnesau. Roeddwn yn ddiolchgar iawn i chi am roi amser i gyfarfod â mi a chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol yr wythnos diwethaf i drafod y mater pwysig hwn. Gwn fod pawb arall a oedd yn gysylltiedig yn teimlo ei fod yn gyfarfod cadarnhaol iawn, felly a wnewch chi barhau i weithio gyda'r cyngor a chynhyrchwyr lleol i helpu i sicrhau bod tir ar gael i ddiwallu anghenion cyflogwyr hirsefydlog sydd am dyfu eu busnesau ac aros yn Nhorfaen?

13:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I did say, of course, that Torfaen is a prime manufacturing location and is home to key companies such as Arvin Meritor, Zodiac Seats UK Ltd and everyone, so it is important that we work with industry to keep the jobs there. I am delighted to work with the local authority, because, sometimes, in some areas, it is very difficult to find the appropriate land for industrial use, and we must be mindful that we always need to have appropriate land for industrial use to ensure that we can sell the benefits of coming to Wales and increase work in Wales.

Dywedais wrth gwrs fod Torfaen yn lleoliad gweithgynhyrchu pwysig ac yn gartref i gwmnïau allweddol megis Arvin Meritor, Zodiac Seats UK Ltd a phawb, felly mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'r diwydiant i gadw'r swyddi yno. Rwy'n falch iawn o weithio gyda'r awdurdod lleol oherwydd weithiau, mewn rhai ardaloedd, mae'n anodd iawn dod o hyd i dir priodol at ddefnydd diwydiannol ac mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol bob amser fod angen i ni gael tir priodol at ddefnydd diwydiannol er mwyn sicrhau y gallwn werthu manteision dod i Gymru a chynyddu gwaith yng Nghymru.

13:43 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a recent report by the Royal Institution of Chartered Surveyors revealed that firms looking to set up operations in Wales were being held back by the lack of sustainable sites. As you know, Minister, Torfaen is one of the best-linked areas by train and road, and it can massively attract overseas and national investors. So, what plan does the Minister have to support the development of new industrial business parks in areas such as Torfaen to promote manufacturing in Wales?

Weinidog, datgelodd adroddiad diweddar gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig fod cwmnïau sy'n ystyried sefydlu gwaith yng Nghymru yn cael eu dal yn ôl gan brinder safleoedd cynaliadwy. Fel y gwyddoch, Weinidog, mae Torfaen yn un o'r ardaloedd sydd â'r cysylltiadau trên a ffordd gorau a gall ddenu lefel aruthrol o fuddsoddiad tramor a chenedlaethol. Felly pa gynllun sydd gan y Gweinidog i gefnogi datblygiad parciau busnes diwydiannol newydd mewn ardaloedd fel Torfaen i hyrwyddo gweithgynhyrchu yng Nghymru?

13:43 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can only support future development if the land is available for development and if the local development plan allows industrial use. So, I can only help and assist when requested. Obviously, we look at all our assets across Wales, where we hold land and where local authorities hold land, to maximise what we have available. If there are shortfalls, as was drawn to my attention by Lynne Neagle, in a particular area, then we will work hard with a local authority to try to open up opportunities for land development.

Ni allaf gefnogi datblygiad yn y dyfodol os nad yw'r tir ar gael i'w ddatblygu ac os nad yw'r cynllun datblygu lleol yn caniatáu defnydd diwydiannol. Felly dim ond pan ofynnir i mi wneud hynny y gallaf helpu a chynorthwyo. Yn amlwg, rydym yn edrych ar ein holl asedau ledled Cymru, lle mae gennym dir a lle mae gan awdurdodau lleol dir, er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gennym. Os oes prinder mewn ardal benodol, fel y mae Lynne Neagle wedi tynnu fy sylw ato, byddwn yn gweithio'n galed gydag awdurdod lleol i geisio creu cyfleoedd ar gyfer datblygu tir.

### Trafnidiaeth Integredig

### Integrated Transport

13:44 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi a hyrwyddo trafnidiaeth integredig yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)0415(EST)*

*5. What is the Welsh Government doing to support and promote integrated transport in the Vale of Clwyd? OAQ(4)0415(EST)*

13:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am committed to improving integrated transport in Wales, as set out in the Wales transport strategy. I will set out more detail on my priorities in the new national transport plan, which is being developed this year.

Rwyf wedi ymrwymo i wella trafnidiaeth integredig yng Nghymru fel y nodir yn strategaeth drafnidiaeth Cymru. Byddaf yn rhoi mwy o fanylion am fy mlaenoriaethau yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol newydd sy'n cael ei ddatblygu eleni.

13:44 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Last week, you announced for Rhyl £244,000 to improve integrated transport, for which I have to thank you. That comes on the back of £350,000 for the Vale of Clwyd active travel route, focusing on improving cycling and walking paths into Denbigh town centre, and also the proposed new investment in Rhyl railway station. So, it is clear to see that the Welsh Government understands the need for that infrastructure. Minister, what can we do now to make sure that the bus companies and the train companies, and those who are making their way by means of other forms of public transport, can co-ordinate and integrate their whole journey from their home to their destination?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd eich bod yn neilltuo £244,000 ar gyfer gwella trafnidiaeth integredig y Rhyl, a rhaid i mi ddiolch i chi amdano. Daw hynny ar ben y £350,000 ar gyfer llwybr teithio llesol Dyffryn Clwyd sy'n canolbwyntio ar wella llwybrau beicio a cherdded i ganol tref Dinbych, a hefyd y buddsoddiad newydd arfaethedig yng ngorsaf reilffordd y Rhyl. Felly, mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn deall yr angen am y seilwaith hwnnw. Weinidog, beth allwn ei wneud yn awr i sicrhau bod y cwmnïau bysiau a'r cwmnïau trenau a'r rhai sy'n defnyddio mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus yn gallu cydgysylltu ac integreiddio eu taith gyfan o'u cartref i'w cyrchfan ?

13:45 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you know, I recently established the bus advisory group, whose main objective is to advise on how we might renew the Welsh Government's policy on bus services and develop a new approach to funding. They need to find improved ways of ensuring this transport and, as you are probably also aware, I have been doing some work with Mark Drakeford around community transport links into the health service. I am also discussing actively with some local authorities in north Wales some of the difficulties they have had with their individual bus companies and whether there should be greater involvement of the local authorities and us in the future running of key core services.

Fel y gwyddoch, yn ddiweddar sefydlais y grŵp cynghori ar fysiau, a'i brif nod yw rhoi cyngor ar sut y gallem adnewyddu polisi Llywodraeth Cymru ar wasanaethau bysiau a datblygu dull newydd o gyllido. Mae angen iddynt ddod o hyd i ffyrdd gwell o sicrhau'r drafnidiaeth hon ac fel y gwyddoch mae'n siŵr, rwyf wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith gyda Mark Drakeford ar gysylltiadau trafnidiaeth gymunedol â'r gwasanaeth iechyd. Hefyd, mae trafodaethau ar y gweill rhyngof a rhai o awdurdodau lleol gogledd Cymru ar rai o'r anawsterau y maent wedi'u cael gyda'u cwmnïau bysiau unigol ac a ddylai awdurdodau lleol a ninnau ymwneud mwy yn y gwaith o redeg gwasanaethau craidd allweddol yn y dyfodol.

13:45 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Many of my constituents, too, will be benefiting from the Vale of Clwyd active travel route. I know that Denbighshire county council is progressing with a planning application on this issue at this very moment in time. Minister, what will you do to ensure that other local authorities follow that example, which is being set by Denbighshire, to ensure that their local residents can also benefit from this sort of approach in terms of integrated transport in the future? It appears to me that some are quite slugging in making progress in this area.

Bydd llawer o fy etholwyr innau hefyd yn elwa o lwybr teithio llesol Dyffryn Clwyd. Gwn fod Cyngor Sir Ddinbych yn symud ymlaen â chais cynllunio ar y mater ar hyn o bryd. Weinidog, beth a wnewch i sicrhau bod awdurdodau lleol eraill yn dilyn esiampl Sir Ddinbych er mwyn sicrhau y gall eu trigolion lleol hefyd elwa o'r math hwn o ymagwedd tuag at drafnidiaeth integredig yn y dyfodol? Mae'n ymddangos i mi fod rhai ohonynt yn llusgo'u traed braidd o ran gwneud cynnydd yn y maes hwn.

13:46 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, there are differences across local authorities even in such simple matters as safe routes to schools, whereas I see the opportunity of ensuring safe routes to schools, mapping them against what Sustrans wants on cycle tracks and everything. It is win, win, win and not just in terms of schoolchildren, but in terms of people accessing employment. We are trying to do more work in that area and I have been discussing with local authority leaders how we need to overlay each other's plans to get maximum use for the public purse in relation to these particular issues.

Ydynt, mae awdurdodau lleol yn amrywio hyd yn oed o ran materion mor syml â llwybrau diogel i ysgolion, tra rwy'n gweld y cyfle sy'n deillio o sicrhau llwybrau diogel i ysgolion, drwy eu mapio yn erbyn yr hyn y mae Sustrans ei eisiau ar gyfer llwybrau beicio a phopeth. Mae pawb ar ei ennill ac nid plant ysgol yn unig, ond o ran pobl yn mynd i'w gwaith. Rydym yn ceisio gwneud mwy o waith yn y maes a bûm yn trafod gydag arweinwyr awdurdodau lleol sut y mae angen i ni gyfosod cynlluniau ein gilydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar y pwrs cyhoeddus mewn perthynas â'r materion penodol hyn.

13:46 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch eich bod chi, Weinidog, wedi cyfeirio at drafodaethau yr ydych yn eu cael â'r Gweinidog iechyd ynglŷn â sicrhau hygyrchedd gwasanaethau iechyd, oherwydd mae'n ymddangos bod pobl yn gorfod teithio'n bellach mewn rhai ardaloedd i gyrraedd y gwasanaethau hynny. Roedd adroddiad diweddar gan Age Cymru yn tanlinellu pwysigrwydd gwasanaeth bysiau i bobl hŷn yn enwedig, ac i bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn benodol hefyd. Rwy'n cymryd y byddwch chi, Weinidog, yn cytuno â mi mai economi ffals yw torri gwasanaethau trafnidiaeth i arbed pres oherwydd mae'n effeithio ar ansawdd bywyd ac annibyniaeth unigolion ac, yn y pen draw, bydd yn costio mwy i'r pwrs cyhoeddus.

I am pleased, Minister, that you have referred to negotiations that you are having with the Minister for health in terms of ensuring access to health services, because it appears that people are now having to travel further in certain areas to access those services. A recent report by Age Cymru highlighted the importance of bus services to older people in particular, and even more so to older people living in rural areas. I assume, therefore, Minister, that you would agree with me that it is a false economy to cut transport services in order to save money, because it does impact upon the quality of life and the independence of individuals, and this, ultimately, will cost more to the public purse.

13:47 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that some things save money. I do not think that people look at all the implications of stopping a bus service and how that puts costs on others and ups the ante in many terms. That is what we have to start to understand: what real value for money is and what real accessibility is. I take your point about older people, but I am also very concerned about young people. Their ability to travel, engage, socialise and work is also particularly important to us as a Government.

Nid wyf yn meddwl bod rhai pethau'n arbed arian. Nid wyf yn meddwl bod pobl yn edrych ar holl oblygiadau dod â gwasanaeth bws i ben a sut y mae hynny'n creu costau i eraill ac yn codi disgwyliadau mewn sawl ystyr. Dyna'r hyn sy'n rhaid i ni ddechrau ei ddeall: beth yw gwir werth am arian a beth yw hygyrchedd go iawn. Rwy'n derbyn eich pwynt am bobl hŷn ond rwyf hefyd yn bryderus iawn am bobl ifanc. Mae eu gallu i deithio, i ymgysylltu, i gymdeithasu ac i weithio hefyd yn arbennig o bwysig i ni fel Llywodraeth.

## Gwasanaeth Rheilffordd rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl

## Rail Service between North Wales and Liverpool

13:47 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i ailsefydlu gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl? OAQ(4)0413(EST)*

*6. Will the Minister provide an update on Welsh Government efforts to re-establish a direct rail service between North Wales and Liverpool? OAQ(4)0413(EST)*

13:47 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have jointly commissioned two demand studies with Merseytravel to examine the potential reinstatement of the Halton curve, allowing direct services between north Wales and Liverpool, and improvements to services on the Borderlands line between Wrexham and Merseyside. I am expecting these reports in the summer and I will make them available to Members when I have received them.

Rwyf wedi comisiynu dwy astudiaeth o'r galw gyda Merseytravel i archwilio'r posibilrwydd o adfer troad Halton er mwyn caniatáu gwasanaethau uniongyrchol rhwng gogledd Cymru a Lerpwl a gwelliannau i wasanaethau ar reilffordd y Gororau rhwng Wrecsam a Glannau Mersi. Rwy'n disgwyl yr adroddiadau hyn yn yr haf a byddaf yn sicrhau eu bod ar gael i'r Aelodau pan fyddaf wedi'u derbyn.

13:48 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to hear that progress is being made on this important issue. As you know, the benefits to the north Wales economy of re-establishing a direct rail link between the north Wales mainline and the metropolis of Liverpool could be very great indeed. Minister, I assume that your officials are aware that there is an opportunity in Network Rail's maintenance and works programme for some work to be undertaken on the line in 2016. Can you assure us that the work that you have in progress will be able to inform a decision early enough to be able to fit a piece of work to re-establish the Halton curve, which is of course the necessary part of the route that needs to be established within the appropriate time frame to get that piece of work done in 2016?

Rwy'n falch iawn o glywed bod cynnydd yn cael ei wneud ar y mater pwysig hwn. Fel y gwyddoch, gallai'r manteision i economi gogledd Cymru o ailsefydlu cyswllt rheilffordd uniongyrchol rhwng prif reilffordd gogledd Cymru a metropolis Lerpwl fod yn fawr iawn yn wir. Weinidog, rwy'n cymryd bod eich swyddogion yn ymwybodol fod rhaglen waith cynnal a chadw Network Rail yn cynnig cyfle i wneud rhywfaint o waith ar y rheilffordd yn 2016. A allwch ein sicrhau y bydd y gwaith sydd gennych ar y gweill yn llywio penderfyniad yn ddigon cynnar i allu cynnwys gwaith ailsefydlu troad Halton, sef, wrth gwrs, y rhan angenrheidiol o'r llwybr sydd angen ei sefydlu o fewn yr amser priodol er mwyn i'r gwaith hwnnw gael ei wneud yn 2016?

13:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I listened to the points that you made in your supplementary question. It is certainly something that I will take up with the director of transport to ensure that we are streamlined on all these issues. I am concerned about some of the issues that are arising in north Wales in terms of rail. I have had other queries from other Members in the Chamber regarding what Network Rail is doing et cetera, and I have to have certainty in terms of what is available for us to be able to improve transport infrastructure.

Gwrandewais ar y pwyntiau a wnaethoch yn eich cwestiwn atodol. Mae'n sicr yn rhywbeth y byddaf yn ei godi gyda'r cyfarwyddwr trafnidiaeth i sicrhau ein bod yn symleiddio gwaith ar yr holl faterion hyn. Rwy'n pryderu ynghylch rhai o'r materion sy'n codi yng ngogledd Cymru o ran rheilffyrdd. Rwyf wedi cael ymholiadau eraill gan Aelodau eraill yn y Siambr ynglŷn â beth y mae Network Rail yn ei wneud ac ati ac mae'n rhaid i mi gael sicrwydd ynglŷn â'r hyn sydd ar gael er mwyn i ni allu gwella'r seilwaith trafnidiaeth.

13:49 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod y daith bresennol o orsaf Lime Street yn Lerpwl i Gyffordd Llandudno, er enghraifft, yn cymryd rhyw ddwy awr, gan newid unwaith yng Nghaer, a bod y daith yn debyg o Wrecsam drwodd i orsaf ganolog Lerpwl drwy Bidston, gan gymryd rhyw awr a hanner. Onid yw'r Gweinidog o'r farn y byddai'n dda, wrth baratoi ar gyfer masnachfraint nesaf Cymru a'r Mers —os caf i ddefnyddio'r hen air am y Gororau—ein bod yn edrych ar yr holl deithiau hyn sy'n dod ar draws y Gororau, neu'r Mers, oherwydd mae'r daith honno o Fanceinion Piccadilly i Gaerdydd a'r gorllewin yn asgwrn cefn i'r gwasanaeth de-gogledd, gan roi cyfle i'r rhai ohonom sy'n defnyddio Amwythig gael 25 trên bob dydd rhwng Caerdydd a'r fan honno. Felly, mae llawer o bethau y gallem eu gwneud i gynllunio'n fwy effeithiol ar draws y Mers, rwy'n credu, Weinidog, os ydych yn cytuno.

The Minister will be aware that the current journey from Liverpool Lime Street to Llandudno Junction, for example, takes some two hours, with one change in Chester, and that the journey from Wrexham to Liverpool central, through Bidston, takes an hour and a half or so. Is the Minister not of the opinion that it would be good, in preparing for the next franchise for Wales and the Marches —if I may use the old name for the borders—that we look at all the routes that cut across the borders, or Marches, because that journey from Manchester Piccadilly to Cardiff and the west is the backbone of the north-south service, and it gives those of us using Shrewsbury the option of 25 trains a day between Cardiff and that station. Therefore, there are a number of things that we can do to plan more effectively across the Marches, I believe, Minister, should you agree.

13:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

If we are fortunate enough to have devolution of rail and we are able to control our own destiny, I think the points that you make are absolutely valid in terms of looking at an integrated service across Wales that is also a service that includes the Marches, because we travel through them. So, I concur with the broad points that you make.

Os ydym yn ddigon ffodus i weld datganoli'r rheilffyrdd a gallu rheoli ein tynged ein hunain, rwy'n meddwl bod y pwyntiau a wnewch yn gwbl ddilys o ran edrych ar wasanaeth integredig ar draws Cymru sydd hefyd yn wasanaeth sy'n cynnwys y Gororau, oherwydd ein bod yn teithio drwyddynt. Felly rwy'n cytuno â'r pwyntiau cyffredinol a wnewch.

Senedd.tv Fideo Video

## Prosiect Sirolli

## Sirolli Project

13:50 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu'r prosiect Sirolli ym Mhowys? OAQ(4)0423(EST)*

*7. Will the Minister make a statement on the development of the Sirolli project in Powys? OAQ(4)0423(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I am today announcing my intention to provide funding towards the Sirolli project in Powys, which will take forward the model of community-based economic development in and around Newtown and the Severn Valley for the period up to March 2016. I thank the Member particularly for his interest in and support for this.

Heddiw, rwy'n cyhoeddi fy mwriad i ddarparu cyllid tuag at brosiect Sirolli ym Mhowys a fydd yn symud ymlaen â'r model datblygu economaidd yn y gymuned yn ardal y Drenewydd a Dyffryn Hafren a'r cylch am y cyfnod hyd at fis Mawrth 2016. Diolch yn arbennig i'r Aelod am ei ddiddordeb a'i gefnogaeth i hyn.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for your response, which is welcome. One of the issues that I wanted to see underpin the delivery of Sirolli was a more targeted business rate scheme, like the one you have in place in enterprise zones. I think that that would obviously be beneficial to the Newtown area. In your response to the Powys growth zones report, you said that you would review the effectiveness of the new enterprise zones scheme after 12 months and then take a decision on a targeted scheme in the Powys local growth zone area. Reduced business rates would obviously be welcomed by shops in Newtown. Do you intend to implement such a scheme in Powys?

Weinidog, diolch i chi am eich ymateb, sydd i'w groesawu. Un o'r materion roeddwn am eu gweld yn tanategu darpariaeth Sirolli oedd cynllun ardrethi busnes wedi'i dargedu'n well fel yr un sydd gennych ar waith mewn ardaloedd menter. Rwy'n meddwl y byddai hynny o fudd amlwg i ardal y Drenewydd. Yn eich ymateb i'r adroddiad ar ardaloedd twf Powys, dywedasoch y byddech yn adolygu effeithiolrwydd y cynllun ardaloedd menter newydd ar ôl 12 mis ac yna'n gwneud penderfyniad ar gynllun wedi'i dargedu yn ardal twf lleol Powys. Mae'n amlwg y byddai ardrethi busnes is yn cael croeso gan siopau yn y Drenewydd. A ydych yn bwriadu gweithredu cynllun o'r fath ym Mhowys?

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes, I intend to do some further work on this particular area in the Powys context, and I will report back when all the developments that have arisen from the Powys local growth zone initiative. Of course, we can use the Sirolli project in its rural context to see what further work we can do.

Ydw, rwy'n bwriadu gwneud gwaith pellach ar y maes penodol hwn yng nghyd-destun Powys a byddaf yn adrodd yn ôl ar yr holl ddatblygiadau a ddeilliodd o fenter ardal twf lleol Powys. Wrth gwrs, gallwn ddefnyddio prosiect Sirolli yn ei gyd-destun gwledig i weld pa waith pellach y gallwn ei wneud.

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Hoffwn wybod gan y Gweinidog beth sydd gan Sirolli sy'n wahanol i'r cynlluniau datblygu economaidd eraill rydym wedi eu gweld mewn lleoedd eraill yng Nghymru. A yw hwn yn batrwm y mae'r Gweinidog am ei weld yn cael ei ddefnyddio'n fwy eang, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu ardaloedd twf lle mae'r iaith Gymraeg yn bwysig?

I would like to hear from the Minister what Sirolli has that is different from the various other economic plans that we have seen elsewhere in Wales. Is this a pattern that the Minister wants to see rolled out more broadly, particularly in the context of developing growth areas where the Welsh language is an important factor?

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Sirolli Institute seems to work well with individual businesses and people, and it seems to build up an element of trust and understanding that you are taking control of your own destiny. We found that to be particularly positive. If Members are interested, Presiding Officer, I would be delighted to organise an event for Members to take them through the success of the Sirolli projects in some areas and how they have developed. I think that that would be helpful, to show that it is money well spent and to show how the local communities have engaged, and perhaps we could have some of the individuals involved at ground level to be part of that presentation for Members.

Mae Sefydliad Sirolli i'w weld yn gweithio'n dda gyda busnesau unigol ac unigolion, ac mae i'w weld yn datblygu elfen o ymddiriedaeth a dealltwriaeth eich bod yn cymryd rheolaeth ar eich tynged eich hun. Gwelsom fod hynny'n arbennig o gadarnhaol. Lywydd, os oes diddordeb ganddynt, byddwn yn falch iawn o drefnu digwyddiad i'r Aelodau yn cyflwyno llwyddiant prosiectau Sirolli yn rhai o'r ardaloedd a sut y maent wedi datblygu. Credaf y byddai hynny'n ddefnyddiol i ddangos ei fod yn arian wedi'i wario'n dda a dangos sut y mae cymunedau lleol wedi cymryd rhan, ac efallai y gallem gael rhai o'r unigolion sydd ynghlwm â'r prosiect ar lawr gwlad yn rhan o'r cyflwyniad ar gyfer yr Aelodau.

13:52 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to welcome your announcement, Minister, on the Sirolli project here today. In doing so, I would also like to thank you very much for your direct interest and input in several regeneration projects in Newtown and the wider Montgomeryshire area. I particularly have in mind the facilitation and seedcorn funding that you have recently provided for the Treowen community hub project led by Councillor Joy Jones and her team, whom you met in Newtown back in January. Do you agree with me that, on some occasions, it is more effective to have small-scale targeted funding coming in, working with the grain of local communities, rather than large-scale external agencies?

Hoffwn groesawu eich cyhoeddiad ar brosiect Sirolli yma heddiw, Weinidog. Wrth wneud hynny, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi hefyd am eich diddordeb uniongyrchol a'ch mewnbwn i nifer o brosiectau adfywio yn y Drenewydd ac ardal Sir Drefaldwyn yn ehangach. Rwy'n meddwl yn benodol am y modd rydych wedi hwyluso a darparu cyllid sbarduno ar gyfer prosiect canolfan gymunedol Treowen dan arweiniad y Cynghorydd Joy Jones a'i thîm y cyfarfuoch â hwy yn y Drenewydd yn ôl ym mis Ionawr. A ydych yn cytuno ei bod yn fwy effeithiol weithiau i gael cyllid ar raddfa fach wedi'i dargedu yn dod i mewn, gan weithio gyda'r graen â chymunedau lleol, yn hytrach nag asiantaethau allanol ar raddfa fawr?

13:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will begin by thanking the Member for the help and assistance that I have had in various meetings that he has helped to facilitate for discussion on this. I totally concur with what he has said. I sometimes think that small amounts of money, in hand with the local community, can actually get us the results we want because I think it makes various projects secure for the long term.

Dechreuaf drwy ddiolch i'r Aelod am yr help a'r cymorth a gefais mewn gwahanol gyfarfodydd y mae wedi helpu i'w hwyluso er mwyn trafod hyn. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedodd. Weithiau, byddaf yn meddwl bod symiau bach o arian, a gweithio law yn llaw â'r gymuned leol, yn gallu sicrhau'r canlyniadau rydym eu heisiau mewn gwirionedd oherwydd credaf ei fod yn gwneud gwahanol brosiectau'n ddiogel yn hirdymor.

### Cynllun y Bathodyn Glas

### Blue Badge Scheme

13:54 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda chynghorau lleol ynglŷn â gweithredu cynllun y bathodyn glas? OAQ(4)0411(EST)*

*8. What discussions has the Minister had with local councils regarding the operation of the blue badge scheme? OAQ(4)0411(EST)*

13:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are in regular contact with local councils to monitor the operation of the scheme. As the Member will be aware, there are problems with it across Wales.

Rydym mewn cysylltiad rheolaidd â chynghorau lleol i fonitro gweithrediad y cynllun. Fel y gŵyr yr Aelod, mae problemau gyda'r cynllun ledled Cymru.

13:54 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I have had a number of people contacting me about problems they are experiencing, including elderly people without a consultant having no way to provide medical evidence, as you have excluded GPs from doing so; having unqualified council officers making assessments; and councils refusing to carry out occupational therapist assessments on appeal even though the guidance says they should do so. Also, I have had one constituent complaining that a council in my region wanted to charge them for an occupational therapist assessment, and that councils insist that the condition affecting the applicant must be permanent, even though the badge only lasts three years. What action are you taking on these particular issues, and, in particular, when will the toolkit be available for local councils to address these issues?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae nifer o bobl wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r problemau y maent yn eu cael, gan gynnwys pobl oedrannus heb feddyg ymgynghorol a heb ffordd o ddarparu tystiolaeth feddygol, gan eich bod wedi gwahardd meddygon teulu rhag gwneud hynny; swyddogion y cyngor heb gymwysterau yn gwneud asesiadau; a chynghorau'n gwrthod cynnal asesiadau ar apêl gan therapyddion galwedigaethol er bod y cyfarwyddyd yn dweud y dylent wneud hynny. Hefyd, cefais un etholydd yn cwyno bod cyngor yn fy rhanbarth yn awyddus i godi tâl arnynt am asesiad gan therapydd galwedigaethol, a bod cynghorau'n mynnu bod yn rhaid i'r cyflwr sy'n effeithio ar y ceisydd fod yn barhaol, er bod y bathodyn ond yn para tair blynedd. Pa gamau sydd ar waith gennych i fynd i'r afael â'r materion penodol hyn ac yn benodol, pa bryd fydd y pecyn cymorth ar gael i gynghorau lleol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn?

13:55 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have just today been signing off some paperwork on some of these issues around the blue badge, because, as you know, I established a small expert review group to make recommendations and improvements on the scheme. In addition, we have been gathering information about users' experience of the scheme, which beggars belief in some areas, and the complaints I have had from Members indicate that there is no understanding of how the scheme operates. There is no compassion or understanding for the individuals who are involved, either, in the way that it is dealt with. Therefore, we are currently reviewing the current application assessment processes to develop consistent guidance. If it would be helpful for Members, I should be able to issue a written statement updating them fully on matters within the next week.

Heddiw ddiwethaf bûm yn llofnodi peth o'r gwaith papur ar rai o'r materion hyn sy'n ymwneud â'r bathodyn glas oherwydd, fel y gwyddoch, sefydlais grŵp adolygu arbenigol bach i wneud argymhellion a gwelliannau i'r cynllun. Yn ogystal, rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am brofiad defnyddwyr o'r cynllun, sy'n anghredadwy mewn rhai ardaloedd, ac mae'r cwynion a gefais gan yr Aelodau yn dynodi nad oes dealltwriaeth o'r modd y mae'r cynllun yn gweithredu. Nid oes dealltwriaeth na chydymdeimlad yn cael ei ddangos at yr unigolion dan sylw chwaith o ran y ffordd yr ymdrinnir â'r materion hyn. Felly rydym yn adolygu'r prosesau asesu ceisiadau presennol ar hyn o bryd er mwyn datblygu arweiniad cyson. Os byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau, dylwn allu cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o fewn yr wythnos nesaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn llawn iddynt ynglŷn â'r materion hyn.

13:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

After I wrote to you last December on behalf of a constituent who was advocating a temporary blue badge, after she had injured herself and was in a wheelchair for a number of weeks and was suffering access problems accordingly, you replied helpfully by referring to the blue badge review group and stated that it had identified obstacles to temporary badges, such as recovering the badge when it was no longer required and the consequent potential for abuse. What consideration has been given, or will or could be given, to temporary badges being provided with dates of duration or expiry or renewal dates on them so that they could not be recycled in that way?

Ysgrifennais atoch fis Rhagfyr diwethaf ar ran etholwr a oedd yn dadlau dros gael bathodyn glas dros dro ar ôl iddi anafu ei hun a gorfod defnyddio cadair olwyn am nifer o wythnosau, a olygai ei bod yn wynebu problemau mynediad yn sgîl hynny. Cefais ateb defnyddiol gennych yn cyfeirio at grŵp adolygu'r bathodyn glas ac yn datgan ei fod wedi nodi rhwystrau i fathodynnau dros dro, o ran dychwelyd y bathodyn pan nad oedd ei angen mwyach a'r posibilrwydd o'i gamddefnyddio yn sgîl hynny. Pa ystyriaeth a roddwyd, neu sy'n mynd i gael ei rhoi, neu y gellid ei rhoi, i ddarparu bathodynnau dros dro gyda dyddiadau hyd at neu ddod i ben neu adnewyddu arnynt fel na ellid eu hailgylchu yn y ffordd honno?

13:56 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that helpful contribution today. I will forward it to my officials for further discussion, because we have to get this scheme right and it has to be implemented fairly across Wales.

Diolch i chi am eich cyfraniad defnyddiol heddiw. Byddaf yn ei anfon ymlaen i fy swyddogion i'w drafod ymhellach gan fod yn rhaid i ni gael y cynllun hwn yn iawn ac mae'n rhaid iddo gael ei roi ar waith yn deg ym mhob rhan o Gymru.

13:56 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In recent years, driven by the Department for Work and Pensions in Westminster, tens of thousands of people have experienced poor treatment as a result of assessments relating to their disabilities. I, as have many others in this Chamber, have had numerous constituents coming to me with cases of delays in assessments, disabilities not being recognised and wrong conclusions being reached, which causes real hardship. Have you considered how this may have impacted on the numbers receiving a blue badge, and have you had any discussions with the DWP regarding the matter?

Yn y blynyddoedd diwethaf, dan law'r Adran Gwaith a Phensiynau yn San Steffan, mae degau o filoedd o bobl wedi cael eu trin yn wael o ganlyniad i asesiadau'n ymwneud â'u hanableddau. Rwyf i, fel llawer un arall yn y Siambr hon, wedi cael etholwyr yn dod ataf i sôn am achosion o oedi cyn cael asesiadau, anableddau nad ydynt yn cael eu cydnabod a chasgliadau anghywir yn cael eu cyrraedd, sy'n achosi caledi go iawn. A ydych wedi ystyried sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar y niferoedd sy'n derbyn bathodyn glas ac a ydych wedi cael trafodaethau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â'r mater?

13:57 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I, personally, have not had any discussions with the DWP on that issue. I have not been advised of any difficulties arising from the points that you have made to me today, but I will make enquiries with my officials to find out whether there is any further information that I can share with you on that particular issue.

Nid wyf yn bersonol wedi cael trafodaethau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar y mater. Nid wyf wedi cael gwybod am unrhyw anawsterau sy'n codi o'r pwyntiau rydych wedi'u gwneud heddiw ond byddaf yn holi fy swyddogion i weld a oes rhagor o wybodaeth y gallaf ei rhannu â chi ar y mater dan sylw.

13:57 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv
Fideo Video

Before you issue your written statement, could you look at the operation of domestic disability parking bays in conjunction with blue badges? Powys County Council only permits disabled parking bays in conjunction with a blue badge if the driver of a car is disabled. My constituent has a disabled child, hence the need for her blue badge. The child is in receipt of what was the disability living allowance, but Powys County council refuses to let her have a disability parking bay outside her property because her child is not the driver of the car. Would you agree that this is nonsensical and that councils should be much more pragmatic when looking at the issuing of the blue badge and at requests for disabled parking bays?

Cyn i chi gyflwyno eich datganiad ysgrifenedig, a allech edrych ar weithrediad mannau parcio domestig i bobl anabl ar y cyd â bathodynnau glas? Nid yw Cyngor Sir Powys ond yn caniatáu mannau parcio i bobl anabl ar y cyd â bathodyn glas os yw gyrrwr y car yn anabl. Mae gan fy etholwr blentyn anabl a dyna pam y mae hi angen bathodyn glas. Mae'r plentyn yn derbyn yr hyn a arferai fod yn lwfans byw i'r anabl, ond mae Cyngor Sir Powys yn gwrthod gadael iddi gael man parcio i bobl anabl y tu allan i'w heiddo gan nad ei phlentyn yw gyrrwr y car. A fyddech yn cytuno bod hyn yn hurt ac y dylai cynghorau fod yn llawer mwy pragmataidd wrth roi'r bathodyn glas ac wrth edrych ar geisiadau am fannau parcio i bobl anabl?

13:58 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would be very pleased to look at the issue that the Member has raised with me today, but I might still go ahead with my statement and give you the guarantee that we will look at these wider issues, because I think that there are wider issues to do with the blue badge than what is said in rules and regulations.

Byddwn yn falch iawn o edrych ar y mater y mae'r Aelod wedi'i godi heddiw ond efallai y byddaf yn dal i fwrw ymlaen gyda fy natganiad ac yn rhoi sicrwydd i chi y byddwn yn edrych ar y materion ehangach hyn gan fy mod yn credu bod materion ehangach ynghlwm wrth y bathodyn glas na'r hyn y mae'n ei ddweud yn y rheolau a'r rheoliadau.

## Cyfleoedd Buddsoddi Economaidd

## Economic Investment Opportunities

13:58 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyfleoedd buddsoddi economaidd sydd ar gael drwy gyllid Ewropeaidd? OAQ(4)0420(EST)*

*9. Will the Minister make a statement on the economic investment opportunities available through European funding? OAQ(4)0420(EST)*

13:58 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Since 2000, our economy and people across Wales have benefited from some £4 billion of EU structural funds. From 2014, Wales will receive another £2 billion of structural funds to help support growth and increase jobs.

Ers 2000, mae ein heconomi a phobl ledled Cymru wedi elwa o tua £4 biliwn o gronfeydd strwythurol yr UE. O 2014, bydd Cymru yn derbyn £2 biliwn arall o'r cronfeydd strwythurol i helpu i gefnogi twf a chynyddu swyddi.

13:58

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

The latest figures show the west Wales and the Valleys GDP slipping from 65% to 64% of the EU average. Does the Minister agree that more focused use of EU structural funding might have helped to halt that decline?

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod CMC gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi llithro o 65% i 64% o gyfartaledd yr UE. A yw'r Gweinidog yn cytuno y gallai sicrhau mwy o ffocws i'r defnydd o gyllid strwythurol yr UE helpu i atal y dirywiad hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

13:59

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

It is important now that we have the opportunity with a new round of structural funds—and I have been discussing this with my colleague, Jane Hutt, with responsibility in this area—that we have focused funds, that we have greater private sector involvement and that we need to use the structural funds to really get a change across the whole region in how we develop projects.

Mae'n bwysig yn awr ein bod yn cael cyfle gyda chylch newydd o gronfeydd strwythurol—ac rwyf wedi bod yn trafod hyn gyda fy nghydweithiwr, Jane Hutt, sydd â chyfrifoldeb yn y maes hwn—i sicrhau ffocws i gyllid, ein bod yn ymwneud mwy â'r sector preifat a bod angen i ni ddefnyddio'r cronfeydd strwythurol i gael newid go iawn ar draws y rhanbarth cyfan o ran y ffordd rydym yn datblygu prosiectau.

Senedd.tv Fideo Video

13:59

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Plaid Cymru's consultation, Open for Business, published last week, outlines our call for a stronger voice for business in deciding how best to use EU funds to strengthen the Welsh economy. Does the Minister agree that that would help to develop a more proactive approach to seeking investment opportunities?

Mae ymgynghoriad Plaid Cymru, Ar Agor am Fusnes, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yn amlinellu ein galwad am lais cryfach i fusnes yn y broses o benderfynu ar y ffordd orau i ddefnyddio arian yr UE er mwyn cryfhau economi Cymru. A yw'r Gweinidog yn cytuno y byddai hynny'n helpu i ddatblygu dull mwy rhagweithiol wrth chwilio am gyfleoedd buddsoddi?

Senedd.tv Fideo Video

13:59

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

I hope that we will not descend into discussion of your report and the report that the Welsh Conservatives might have done, which normally seems to occur in my questions. I look at anything that has been published by any political party in this Chamber, and if I think that it could be of any help or assistance in delivering Government policy, I will take it on board.

Rwy'n gobeithio na fyddwn yn ymroi i drafod eich adroddiad a'r adroddiad y gallai'r Ceidwadwyr Cymreig fod wedi'i wneud, sydd fel arfer i'w weld yn digwydd yn fy nghwestiynau. Rwy'n edrych ar unrhyw beth a gyhoeddwyd gan unrhyw blaid wleidyddol yn y Siambr hon, ac os credaf y gallai helpu neu gynorthwyo i gyflawni polisi'r Llywodraeth, byddaf yn ei ystyried.

Senedd.tv Fideo Video

14:00

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Minister, will you outline what opportunties are available for infrastructure spending? We have seen, across the EU, other countries building motorways, railways and ports, but I feel that we have been less than constructive in Wales with these funds. I know that your Government has learned lessons following the Wales Adudit Office's major projects report, and I hope that the next tranche of funding will see significant funding being spent on major infrastructure. You have outlined in the past that infrastructure will support your enterprise zones; do you envisage opportunities here, and when will we see a detailed plan of projects?

Weinidog, a wnewch chi amlinellu pa gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gwario ar seilwaith? Ar draws yr UE, gwelsom wledydd eraill yn adeiladu traffyrdd, rheilffyrdd a phorthladdoedd ond rwy'n teimlo nad ydym wedi bod yn adeiladol gyda'r cronfeydd hyn yng Nghymru. Gwn fod eich Llywodraeth wedi dysgu gwersi yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar brosiectau mawr ac rwy'n gobeithio y bydd y gyfran nesaf o gyllid yn cynnwys gwariant sylweddol ar seilwaith mawr. Yn y gorffennol, rydych wedi nodi y bydd seilwaith yn cefnogi eich ardaloedd menter; a ydych yn rhagweld cyfleoedd yn hyn o beth a pha bryd y gwelwn gynllun manwl o'r prosiectau?

Senedd.tv Fideo Video

14:00

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

It is important for us to recognise that the lead is taken by the Welsh European Funding Office in negotiations with the Commission. We are still, obviously, looking at the issues that will arise from the use of structural funds. It is important to realise that the main push-back from the Commission is on ICT and transport infrastructure. We need to ensure a very strong economic case based on any specific transport proposals and where structural funds add genuine value, hence the discussion that we have on the metro—and I am looking at the Minister for Finance as I say this.

Mae'n bwysig i ni gydnabod bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn arwain y trafodaethau gyda'r Comisiwn. Yn amlwg, rydym yn dal i edrych ar y materion a fydd yn codi o'r defnydd o'r cronfeydd strwythurol. Mae'n bwysig sylweddoli bod y gwrthwasgu mwyaf o gyfeiriad y Comisiwn yn ymwneud â'r seilwaith TGCh a thrafnidiaeth. Mae angen i ni sicrhau achos economaidd cryf iawn yn seiliedig ar gynigion trafnidiaeth penodol a lle y gall cronfeydd strwythurol ychwanegu gwerth gwirioneddol, sef y drafodaeth rydym yn ei chael ar y metro—ac rwy'n edrych ar y Gweinidog Cyllid wrth ddweud hyn.

Senedd.tv Fideo Video

The Commission has already indicated that it would like to see EU funds supporting intermodal connectivity options, which is important. We also need to look at issues in relation to the trans-European transport network as well. So, I am confident that we are going in the right direction, and I am confident that the city regions now understand fully their role in developing projects that go across local authority boundaries and make a significant difference in terms of the expenditure of these future funds.

Mae'r Comisiwn eisoes wedi nodi y byddai'n hoffi gweld arian yr UE yn cefnogi opsiynau cysylltedd rhyngfoddol ac mae hynny'n bwysig. Mae angen i ni edrych hefyd ar faterion yn ymwneud â'r rhwydwaith trafnidiaeth traws-Ewropeaidd yn ogystal. Felly rwy'n hyderus ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir ac rwy'n hyderus bod y dinas-ranbarthau bellach yn deall yn llawn beth yw eu rôl yn y gwaith o ddatblygu prosiectau sy'n mynd ar draws ffiniau awdurdodau lleol a gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran gwario'r cronfeydd hyn ar gyfer y dyfodol.

### Unedau Busnes mwy Hyblyg

### Flexible Business Units

14:01

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i anghenion busnesau yn Sir Drefaldwyn ar gyfer unedau busnes mwy hyblyg? OAQ(4)0424(EST)*

*10. How is the Welsh Government responding to the needs of businesses in Montgomeryshire for more flexible business units? OAQ(4)0424(EST)*

14:01

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is a range of property and development sites available to businesses in Montgomeryshire. However, we are aware of growing demand for property in the area and I am exploring this issue further with my officials.

Mae amrywiaeth o eiddo a safleoedd datblygu ar gael i fusnesau yn Sir Drefaldwyn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r galw cynyddol am eiddo yn yr ardal ac rwy'n ystyried y mater hwn ymhellach gyda fy swyddogion.

14:01

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister; I am glad that you are aware of those demands. Businesses have been telling me that they are looking for more flexible units to develop in mid Wales that are suitable not just for business start-ups, but also businesses looking to expand, as well as properties that are large enough to attract major employers to the region. There are a number of factory sites that are empty and have been left to become derelict—and I would suggest that this is because they are certainly not fit for modern business needs. So, how is the Welsh Government reacting to current business demand in mid Wales, and how is it facilitating the development of the region to include large business units that are efficient and able to meet the demands of the twenty-first century?

Diolch i chi, Weinidog; rwy'n falch eich bod yn ymwybodol o'r galwadau hynny. Mae busnesau wedi bod yn dweud wrthyf eu bod yn chwilio am unedau mwy hyblyg i'w datblygu yng nghanolbarth Cymru sy'n addas, nid yn unig ar gyfer busnesau sy'n cychwyn, ond hefyd ar gyfer busnesau sy'n ceisio ehangu, yn ogystal ag eiddo sy'n ddigon mawr i ddenu cyflogwyr mawr i'r rhanbarth. Mae nifer o safleoedd ffatri gwag wedi'u gadael i ddadfeilio—a byddwn yn awgrymu mai'r rheswm am hyn yw nad ydynt yn addas ar gyfer anghenion busnes modern. Felly sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r galw busnes presennol yng nghanolbarth Cymru a sut y mae'n hwyluso datblygiad y rhanbarth i gynnwys unedau busnes mawr sy'n effeithlon ac yn gallu ateb gofynion yr unfed ganrif ar hugain?

14:02

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You also have to recognise that there is a role and responsibility for local government in terms of the sites it manages or the influence it might have on the market in the area. We are obviously supporting some major employers to look at additional premises there, and we are also looking at the availability of development plots in places such as Llanidloes and Welshpool. There is a good supply, apparently, of private sector premises throughout the area. We are taking all of this into account and one of my senior officials is exploring what recommendations can be made to me regarding whether I can make any further improvements in the area.

Rhaid i chi hefyd gydnabod bod rôl a chyfrifoldeb gan y llywodraeth leol o ran y safleoedd y mae'n eu rheoli neu'r dylanwad y gallai ei gael ar y farchnad yn yr ardal. Yn amlwg, rydym yn cynorthwyo rhai cyflogwyr mawr i edrych ar safleoedd ychwanegol yno ac rydym hefyd yn edrych i weld faint o safleoedd datblygu sydd ar gael mewn mannau megis Llanidloes a'r Trallwng. Mae'n debyg fod cyflenwad da o adeiladau sector preifat ledled yr ardal. Rydym yn ystyried hyn oll ac mae un o fy uwch swyddogion yn archwilio pa argymhellion y gellir eu rhoi i mi ynglŷn ag unrhyw welliannau pellach y gallwn eu gwneud yn yr ardal.

14:03 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Chemostrat Ltd is just one Montgomeryshire-based business that the Government has supported. Thanks to the £100,000 funding from the Wales economic growth fund, the geological mapping company has expanded to new premises at Buttington Cross Enterprise Park in Welshpool and has taken on new staff. Now that the second phase of the fund has come to an end, will there be an evaluation of its success, and are there any plans to extend the fund to a third phase?

Weinidog, un busnes yn Sir Drefaldwyn y mae'r Llywodraeth wedi'i gefnogi yw Chemostrat Ltd. Diolch i'r cyllid o £100,000 o gronfa twf economaidd Cymru, mae'r cwmni mapio daearegol wedi ehangu i safle newydd ym Mharc Menter Buttington Cross yn y Trallwng ac mae wedi penodi staff newydd. Gan fod ail gam y cyllid bellach wedi dod i ben, a fydd ei lwyddiant yn cael ei werthuso ac a oes cynlluniau i ymestyn y cyllid i drydydd cam?

14:03 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, we will look at what the fund did and consider what good it did, and we will do the appropriate evaluation. We will be looking to see what we can do in terms of further funding, because it has proven to be very popular and very successful.

Yn amlwg, byddwn yn edrych ar yr hyn a wnaeth y cyllid ac yn ystyried pa dda a wnaeth, a byddwn yn cynnal gwerthusiad priodol. Byddwn yn edrych i weld beth y gallwn ei wneud o ran cyllid pellach gan ei fod wedi profi'n boblogaidd ac yn llwyddiannus iawn.

### Cynllun Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

### Swansea Bay City Region Scheme

14:03 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun Dinas-Ranbarth Bae Abertawe? OAQ(4)0414(EST)*

*11. Will the Minister make a statement on the Swansea Bay City Region scheme? OAQ(4)0414(EST)*

14:04 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Swansea bay city region board meets on a regular basis. Its focus is on identifying transformational projects that would deliver economic change for the whole region.

Mae bwrdd dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'n canolbwyntio ar nodi prosiectau trawsnewidiol a fyddai'n sicrhau newid economaidd ar gyfer y rhanbarth cyfan.

14:04 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth sôn am greu sefyllfa lle mae economi'r rhanbarth yn cael ei thrawsnewid, mae twristiaeth yn arbennig o bwysig. A fyddech yn cytuno bod y cynllun gerddi yn sir Gaerfyrddin yn atyniad twristaidd arbennig o bwysig a bod cyfle yn y fan honno, o gefnogi'r cynllun hwnnw, i sicrhau bod economi de-orllewin Cymru yn cael ei gweddnewid?

When we talk about creating a situation where the region's economy is transformed, tourism is particularly important. Would you agree that the gardens scheme in Carmarthenshire is a very important tourist attraction and that there is an opportunity there, by supporting that plan, to ensure that the south-west Wales economy is transformed?

14:04 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I totally concur with you. There have been some excellent schemes on the tourism side, particularly in west Wales, and I have been particularly excited when they have looked at the role of the National Botanic Garden of Wales and Aberglasney House and Gardens and the linkages that can be made in that area. We are very supportive, as a department, because of the economic development opportunities, the benefits to business locally and to the tourism agenda. It is very important that we recognise the contribution that tourism makes to the economy in the Swansea bay region.

Cytunaf yn llwyr â chi. Cafwyd cynlluniau ardderchog ar yr ochr dwristiaeth, yn enwedig yng ngorllewin Cymru, ac roeddwn yn gyffrous iawn eu bod wedi edrych ar rôl Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Thŷ a Gerddi Aberglasne a'r cysylltiadau y gellir eu gwneud yn yr ardal. Fel adran, rydym yn gefnogol iawn oherwydd y cyfleoedd datblygu economaidd, y manteision i fusnesau lleol ac i agenda twristiaeth. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod cyfraniad twristiaeth i'r economi yn rhanbarth Bae Abertawe.

14:05 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the major advantages of city regions is the potential that they have to create and support businesses. I know that you are aware of the disappointing redundancy announcements made earlier this week by Morganite Electrical Carbon Ltd, formerly known as Morganite, and Save Britain Money, which collectively left over 200 people without a job in Swansea. Minister, will you meet with me as the constituency AM for where these businesses are based so that we can discuss what support the Welsh Government can give to Morganite and Save Britain Money to protect and support the workers there?

Weinidog, un o brif fanteision dinas-ranbarthau yw eu potensial ar gyfer creu a chefnogi busnesau. Gwn eich bod yn ymwybodol o'r cyhoeddiadau siomedig a wnaed yn gynharach yr wythnos hon ynghylch diswyddiadau gan Morganite Electrical Carbon Ltd, a elwid gynt yn Morganite, a Save Britain Money, sydd gyda'i gilydd wedi gadael 200 o bobl heb swydd yn Abertawe. Weinidog, a wnewch chi gyfarfod â mi fel yr Aelod Cynulliad dros yr etholaeth lle mae'r busnesau hyn wedi'u lleoli fel y gallwn drafod pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei roi i Morganite a Save Britain Money er mwyn diogelu a chefnogi'r gweithwyr yno?

14:05 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Local Government and Government Business has already agreed, in response to questions yesterday, that I would be providing an update on Morganite when I had anything further to add. I am happy to meet with any Members who have concerns—like you and I do—about it. With regard to Save Britain Money, this is to do with something that the UK Government is funding for energy improvements, and it has indicated that it will take the staff back on when all these matters are settled, if they want to come back into employment.

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth eisoes wedi cytuno, mewn ymateb i gwestiynau ddoe, y byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf am Morganite pan fyddai gennyf rywbeth pellach i'w ychwanegu. Rwy'n fodlon cwrdd ag unrhyw Aelodau sydd â phryderon—fel rydych chi a finnau'n ei wneud—i drafod y mater. O ran Save Britain Money, mae'n ymwneud â rhywbeth y mae Llywodraeth y DU yn ei ariannu ar gyfer gwelliannau ynni ac mae wedi dynodi y bydd yn ailgyflogi'r staff ar ôl i'r holl faterion hyn gael eu setlo os ydynt am yn dymuno cael eu hailgyflogi.

14:06 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one way of ensuring the success of the city region would be for businesses within the city region to work with local schools and colleges to design courses that meet the local skills need, and skills which may be needed to develop the economy in any particular city region environment. How can you assist the boards in securing the support of some of your ministerial colleagues in achieving that?

Weinidog, un ffordd o sicrhau llwyddiant y ddinas-ranbarth fyddai i fusnesau yn y ddinas-ranbarth weithio gydag ysgolion a cholegau lleol er mwyn cynllunio cyrsiau sy'n ateb yr angen sgiliau lleol a sgiliau y gallai fod eu hangen i ddatblygu'r economi mewn amgylchedd dinas-ranbarthol penodol. Sut y gallwch helpu'r byrddau i sicrhau cefnogaeth rhai o'ch cyd-Weinidogion ar gyfer cyflawni hynny?

14:06 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The boards have not complained to me about a lack of support from any of my ministerial colleagues in any area. I have regular dialogue with Huw Lewis's Deputy Minister, who also happens to be my Deputy Minister, in terms of how we can assist the city regions. I know that the city region boards, particularly because there has been a discussion about it in the Cardiff city region, have had helpful discussions about the wider planning agenda, which I know Members are concerned about in the context of a city region.

Nid yw'r byrddau wedi cwyno wrthyf am ddiffyg cefnogaeth gan unrhyw un o fy nghyd-Weinidogion mewn unrhyw ardal. Rwy'n trafod yn rheolaidd gyda Dirprwy Weinidog Huw Lewis, sydd hefyd yn digwydd bod yn Ddirprwy Weinidog i mi, ynglŷn â sut y gallwn gynorthwyo'r dinas-ranbarthau. Gwn fod byrddau'r dinas-ranbarthau wedi cael trafodaethau defnyddiol am yr agenda gynllunio ehangach, yn benodol am eu bod wedi cael trafodaeth yn ei gylch yn ninas-ranbarth Caerdydd, a gwn fod yr Aelodau'n bryderus ynghylch yr agenda honno yng nghyd-destun dinas-ranbarthau.

14:07 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for agreeing to provide a statement in response to my question to the Minister for Local Government and Government Business yesterday in relation to Morganite Electrical Carbon Ltd. Is there a role for the city region in helping to address this issue, and how will you be engaged with the various partners in the Swansea area in trying to preserve as many jobs as we can in this very important business?

Weinidog, diolch i chi am gytuno i gyhoeddi datganiad mewn ymateb i fy nghwestiwn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ddoe mewn perthynas â Morganite Electrical Carbon Ltd. A oes rôl i'r ddinas-ranbarth i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, a sut y byddwch yn ymgysylltu â'r partneriaid amrywiol yn ardal Abertawe wrth geisio cadw cymaint o swyddi ag y gallwn yn y mater pwysig hwn?

14:07 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do think that there is a role for the city region to look at preserving jobs in the area and for expanding the opportunities for new work to come into the area. Once we have got over some of the teething problems of city regions, I think that they will go that further stage and will be fully integrated into discussions around these issues.

Rwy'n credu bod rôl i'r ddinas-ranbarth o ran edrych ar gadw swyddi yn yr ardal ac ehangu'r cyfleoedd i waith newydd ddod i'r ardal. Ar ôl i ni oresgyn rhai o broblemau cychwynnol y dinas-ranbarthau, rwy'n meddwl y byddant yn cymryd y cam ymhellach hwnnw ac yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn y trafodaethau ar y materion hyn.

## Rhwydwaith Rheilffyrdd y Gogledd

## North Wales Rail Network

14:07 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ynglŷn â'r tasglu ar foderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd y gogledd? OAQ(4)0425(EST)*

*12. Will the Minister provide an update on the task force on modernising the north Wales rail network? OAQ(4)0425(EST)*

14:07 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good progress has been made, and I am expecting that the strategic outline case will be completed later this year.

Mae cynnydd da wedi'i wneud ac rwy'n disgwyl y bydd yr achos amlinellol strategol yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni.

14:08 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb. Rydych wedi sôn am ddau adroddiad sydd i'w derbyn yn ystod yr haf. Rwyf hefyd yn meddwl bod gwaith i'w gwblhau erbyn y mis diwethaf gan Network Rail. Mae'r gwaith ar ddeuoli'r rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer, fodd bynnag, i'w gwblhau erbyn mis Mawrth flwyddyn nesaf. Os oes problemau ynglŷn â chapasiti ar y rhwydwaith er mwyn gwella cysylltiadau â Lerpwl a Manceinion, a oes digon o amser i Lywodraeth Cymru newid y cynllun?

Thank you for the answer. You have mentioned two reports to be received during the summer. I also think that there was work to be completed by last month by Network Rail. The work on dualling the line between Wrexham and Chester, however, is to be completed by March of next year. If there are problems regarding capacity on the network in order to improve links with Liverpool and Manchester, is there enough time for the Welsh Government to change the scheme?

14:08 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not sure about sufficient time, in answer to that particular question. I have been concerned, as a result of matters that you have raised with me, about a whole range of issues within north Wales with regard to Network Rail. I will get its formal response on 23 May, and I will immediately enlighten Members when we return from recess about anything that impacts on anything that I may or may not have said in this Chamber on this matter.

Nid wyf yn siŵr ynglŷn â digon o amser, i ateb y cwestiwn hwnnw. O ganlyniad i'r materion rydych wedi'u codi gyda mi, rwyf wedi bod yn pryderu ynghylch amrywiaeth eang o faterion yng ngogledd Cymru mewn perthynas â Network Rail. Byddaf yn cael ei ymateb ffurfiol ar 23 Mai a byddaf yn goleuo'r Aelodau'n syth pan fyddwn yn dychwelyd o'r toriad ynglŷn ag unrhyw beth sy'n effeithio ar unrhyw beth y byddaf, neu na fyddaf wedi'i ddweud yn y Siambr ar y mater hwn.

14:09 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In reply to me last week, you quite rightly said that it is critical that there is a joined-up Government approach to the north Wales ambition board in respect of the north Wales transport taskforce. The north Wales ambition board connectivity manager issued a recent factual newsletter confirming that it is imperative to present a compelling business case justifying investment in north Wales, as there are competing calls for funding allocations from other parts of the UK. It also confirmed that phase 1 had identified the strategic case for investment and confirmed that improved rail connectivity would support regeneration, jobs and economic growth plans. In light of your positive response last week, what engagement is there between the two bodies and the UK Government as the other partner in this, or what proposals are there to drive that forward, on the back of the stage 1 completion by the ambition board?

Wrth ymateb i fy nghwestiwn yr wythnos diwethaf, dywedasoch yn gwbl briodol ei bod yn hanfodol bod gan y Llywodraeth ymagwedd gydgysylltiedig tuag at fwrdd uchelgais gogledd Cymru mewn perthynas â thasglu trafnidiaeth gogledd Cymru. Cyhoeddodd rheolwr cysylltedd bwrdd uchelgais gogledd Cymru gylchlythyr ffeithiol yn ddiweddar yn cadarnhau'r rheidrwydd i gyflwyno achos busnes cryf sy'n cyfiawnhau buddsoddi yng ngogledd Cymru, gan fod galw cystadleuol am ddyraniadau cyllid o rannau eraill o'r DU. Roedd hefyd yn cadarnhau bod cam 1 wedi nodi'r achos strategol dros fuddsoddi a chadarnhaodd y byddai gwella cysylltedd rheilffyrdd yn cefnogi cynlluniau adfywio, swyddi a thwf economaidd. Yng ngoleuni eich ymateb cadarnhaol yr wythnos diwethaf, pa ymgysylltiad a geir rhwng y ddau gorff a Llywodraeth y DU fel y partner arall yn hyn, neu pa gynigion a geir i symud hynny yn ei flaen, yn sgîl cwblhau cyfnod 1 gan y bwrdd uchelgais?

14:10 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am meeting the chair of the economic ambition board tomorrow morning. He has a range of issues that he wishes to raise with me and I am sure that transport will be among them.

Rwy'n cyfarfod â chadeirydd y bwrdd uchelgais economaidd bore yfory. Mae ganddo amryw o faterion y mae'n dymuno eu codi gyda mi ac rwy'n siŵr y bydd trafnidiaeth yn eu plith.

### Buddsoddiad gan Croeso Cymru

### Investment by Visit Wales

14:10 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*13. Beth oedd cyfanswm y buddsoddiad gan Groeso Cymru yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar gyfer tymor 2013-14? OAQ(4)0412(EST)*

*13. What was the total investment by Visit Wales in the Cardiff City Stadium for the 2013-14 season? OAQ(4)0412(EST)*

14:10 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We entered into a sponsorship agreement with Cardiff City Football Club to maximise the opportunities for marketing and promoting Wales to a worldwide audience via the Premier League. The total cost was £149,500, exclusive of VAT.

Lluniwyd cytundeb nawdd rhyngom a Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer marchnata a hyrwyddo Cymru i gynulleidfa fyd-eang drwy gyfrwng yr Uwch-gynghrair. Cyfanswm y gost oedd £149,500, heb gynnwys TAW.

14:10 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to the Minister. Outside the Cardiff City Stadium, the Malaysian tourist board has a very interesting advertisement, funnily enough, in a fetching shade of blue. I am not going to suggest that Visit Wales changes its colours to blue, because obviously that is not a colour normally associated with Wales. However, can I ask the Minister if she will carry out a full evaluation of the investment at the Cardiff City Stadium by Visit Wales, in particular as to its impact in far eastern markets?

Diolch i'r Gweinidog. Y tu allan i Stadiwm Dinas Caerdydd, mae gan fwrdd croeso Malaysia hysbyseb diddorol iawn mewn gwawr las atyniadol, yn rhyfedd ddigon. Nid wyf am awgrymu bod Croeso Cymru yn newid ei liwiau i las gan ei bod yn amlwg nad yw hwnnw'n lliw sydd fel arfer yn cael ei gysylltu â Chymru. Fodd bynnag, gallaf ofyn i'r Gweinidog a fydd yn cynnal gwerthusiad llawn o'r buddsoddiad yn Stadiwm Dinas Caerdydd gan Croeso Cymru, yn enwedig o ran ei effaith ym marchnadoedd y dwyrain pell?

14:11 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am more than happy to do so, because one of the areas that we have to look at is attracting tourists from far eastern markets and other markets. I will certainly ask Visit Wales to undertake some work for you.

Rwy'n fwy na pharod i wneud hynny gan mai un o'r meysydd sy'n rhaid i ni edrych arno yw denu twristiaid o farchnadoedd y dwyrain pell a marchnadoedd eraill. Byddaf yn sicr yn gofyn i Croeso Cymru wneud rhywfaint o waith i chi.

14:11 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

In August, Minister, the Super Cup is to be played at the Cardiff City Stadium. Obviously, this is a big showcase event that will bring teams from around Europe to it, hopefully building on and supporting the platform for the UEFA bid. What work are your officials undertaking to see how both these events—and the latter in particular, if it is successful—could boost tourism here in Wales and raise Wales's profile on the international stage?

Ym mis Awst, Weinidog, chwaraeir y Cwpan Super yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Yn amlwg, mae hwn yn ddigwyddiad arddangos mawr a fydd yn dod â thimau o bob cwr o Ewrop ynghyd, gyda'r gobaith o gefnogi a datblygu llwyfan ar gyfer y cais UEFA. Pa waith y mae eich swyddogion yn ei wneud i weld sut y gallai'r ddau ddigwyddiad—yn enwedig yr olaf, os yw'n llwyddiannus—roi hwb i dwristiaeth yma yng Nghymru a chodi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol?

14:11 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is a lot of work going on with my officials to look at the economic benefits and the image of Wales in terms of tourists and everything. Of course, in due course, if we are successful, or if Members want anything further, I would be delighted to report on that. There are ongoing committee discussions about various things around tourism and I am more than happy to pick those points up in committee if necessary.

Mae llawer o waith ar y gweill gyda fy swyddogion o ran edrych ar y manteision economaidd a delwedd Cymru i dwristiaid a phopeth. Wrth gwrs, maes o law, os ydym yn llwyddiannus neu os yw'r Aelodau'n dymuno unrhyw beth pellach, byddwn yn falch o adrodd ar hynny. Mae trafodaethau ar y gweill mewn pwyllgorau ynghylch gwahanol agweddau ar dwristiaeth ac rwy'n fwy na pharod i godi'r pwyntiau hynny mewn pwyllgor os bydd angen.

### Trydaneiddio'r Rheilffyrdd

### Electrification of the Railway Lines

14:12 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drydaneiddio'r rheilffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)0417(EST)*

*14. Will the Minister make a statement on the electrification of the railway lines in Wales? OAQ(4)0417(EST)*

14:12 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are involved in ongoing discussion with the UK Government regarding the funding of rail electrification in Wales.

Rydym yn rhan o drafodaethau sydd ar y gweill gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllido'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd yng Nghymru.

14:12 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the continuing political row around one of Wales's biggest ever investment projects, initiated by the First Minister, is putting the south Wales metro and the electrification of the Valleys lines and the line to Swansea in jeopardy. Do you share my regret at the political hijacking of this issue, and will you commit to work constructively with the UK Government and deliver electrification of the south Wales lines as previously set out in ministerial correspondence, which outlined the offer and acceptance in clear terms?

Weinidog, mae'r dadlau gwleidyddol parhaus ynghylch un o brosiectau buddsoddi mwyaf erioed Cymru, a gychwynnwyd gan y Prif Weinidog, yn peryglu metro de Cymru a'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r rheilffordd i Abertawe. A ydych yn rhannu fy siom fod y mater hwn wedi'i herwgipio'n wleidyddol ac a wnewch chi ymrwymo i weithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU ar drydaneiddio rheilffyrdd de Cymru fel y nodwyd yn flaenorol mewn gohebiaeth weinidogol, a amlinellai'r cynnig a'i dderbyniad mewn termau clir?

14:12 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I feel as though this is almost a question to you, not a question to me, as I have made it clear here all along that rail is not devolved. At the end of the day, I do not have the devolution powers. The UK Government has made its position perfectly clear about wanting electrification to Swansea and we made our position perfectly clear. All the letters are out in the public domain. As far as I am concerned, I am working with the Department for Transport to make sure that we get the best deal for Wales in terms of what we are undertaking. I will, hopefully, be dealing with correspondence from the Department for Transport this week on this very matter and I will update Members appropriately and accordingly.

Rwy'n teimlo bron fel pe bai hwn yn gwestiwn i chi nid i mi, gan fy mod wedi egluro yma ar hyd yr amser nad yw rheilffyrdd yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Yn y pen draw, nid oes gennyf y pwerau datganoli. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud ei safbwynt yn gwbl eglur ynglŷn â bod eisiau trydaneiddio i Abertawe ac rydym ninnau wedi gwneud ein safbwynt yn berffaith glir. Mae pob un o'r llythyrau ar gael i'r cyhoedd eu gweld. O'm rhan i, rwy'n gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau ein bod yn cael y fargen orau i Gymru o ran yr hyn rydym yn ei wneud. Rwy'n gobeithio y byddaf yn ymdrin â gohebiaeth gan yr Adran Drafnidiaeth yr wythnos hon ar yr union fater hwn a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau yn briodol ac yn unol â hynny.

Senedd.tv
Fideo Video

### Hybu Twf Economaidd

### Boosting Economic Growth

14:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

*15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer hybu twf economaidd? OAQ(4)0421(EST)*

*15. Will the Minister make a statement on her priorities for boosting economic growth? OAQ(4)0421(EST)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:13 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

My priorities are supporting business, sustainable jobs and strengthening our infrastructure. We have supported over 37,000 jobs in the last financial year and will continue with wide-ranging actions to improve our economic prospects.

Fy mlaenoriaethau yw cefnogi busnes, swyddi cynaliadwy a chryfhau ein seilwaith. Rydym wedi cefnogi dros 37,000 o swyddi yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a bydd hynny'n parhau gyda chamau eang i wella ein rhagolygon economaidd.

Senedd.tv
Fideo Video

14:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

You will be aware that Sir Howard Stringer recently said that Welsh manufacturing firms could beat off Asian competition because of Wales's preferential location. I know that you visited Tri-Wall just outside Monmouth in my constituency, which is already one example of a south-east Asian company that has located in Monmouth, using local expertise and exporting as far as India. Tri-Wall has said that its future success in Wales is based upon clear and effective lines of distribution and supply across the UK. Other companies need the assurance that those lines are in place and are clear for them to come here as well. What are you doing to identify, map, locate and package those distribution lines so that companies looking to Wales will see that this is the best place to come?

Byddwch yn ymwybodol fod Syr Howard Stringer wedi dweud yn ddiweddar y gallai cwmnïau gweithgynhyrchu Cymru drechu cystadleuaeth o Asia oherwydd lleoliad ffafriol Cymru. Rwy'n gwybod eich bod wedi ymweld â Tri-Wall ychydig y tu allan i Drefynwy yn fy etholaeth, sydd eisoes yn un enghraifft o gwmni o dde-ddwyrain Asia sydd wedi lleoli yn Nhrefynwy. Mae'n defnyddio arbenigedd lleol ac yn allforio cyn belled ag India. Dywedodd Tri-Wall bod ei lwyddiant yng Nghymru yn y dyfodol yn seiliedig ar linellau dosbarthu a chyflenwi clir ac effeithiol ar draws y DU. Mae angen sicrwydd ar gwmnïau eraill hefyd fod y llinellau hynny yn eu lle ac yn glir er mwyn eu denu yma. Beth ydych chi'n ei wneud i nodi, mapio, lleoli a phecynnu'r llinellau dosbarthu hynny fel bod cwmnïau sy'n edrych ar Gymru yn gweld mai dyma'r lle gorau i ddod?

Senedd.tv
Fideo Video

14:14

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I think that we have seen that. Tri-Wall is an excellent example of a company that has fitted so well into Monmouthshire in terms of the employment opportunities given. Of course, its zest for doing more business across the globe will benefit its employees in Monmouthshire. In terms of lines, we obviously look at supply chain lines straight away. One of the biggest and most successful companies in recent years has been Jaguar Land Rover in the west midlands, and what we have done is enhance our supply chains and lines of communication in to it and done the work around that. In terms of the wider issue about supply, we have this opportunity now with Hitachi on Ynys Môn, and it is about how we link everybody into that chain as well for Welsh businesses to be involved. That work is already moving ahead quite successfully.

Rwy'n meddwl ein bod wedi gweld hynny. Mae Tri-Wall yn enghraifft ardderchog o gwmni sydd wedi ffitio mor dda yn Sir Fynwy o ran y cyfleoedd gwaith y mae'n eu cynnig. Wrth gwrs, bydd ei frwdfrydedd i greu mwy o fusnes ar draws y byd yn fuddiol i'w weithwyr yn Sir Fynwy. O ran llinellau, rydym yn amlwg yn edrych ar linellau'r gadwyn gyflenwi ar unwaith. Un o'r cwmnïau mwyaf a mwyaf llwyddiannus yn y blynyddoedd diwethaf yw Jaguar Land Rover yng ngorllewin canolbarth Lloegr, a'r hyn rydym wedi ei wneud yw gwella ein cadwyni cyflenwi a'n llinellau cyfathrebu â'r cwmni a gwneud y gwaith sydd ynghlwm wrth hynny. O ran cyflenwi ehangach, mae gennym gyfle yn awr gyda Hitachi ar Ynys Môn ac mae'n ymwneud â sut rydym yn cysylltu pawb â'r gadwyn honno yn ogystal â sut i gynnwys busnesau o Gymru. Mae'r gwaith hwnnw eisoes yn symud ymlaen yn eithaf llwyddiannus.

14:15

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

# Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

# Questions to the Minister for Education and Skills

### Dalgylchoedd Ysgolion

### School Catchment Areas

14:15

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion? OAQ(4)0425(ESK)*

*1. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's guidance to local authorities on changes to school catchment areas? OAQ(4)0425(ESK)*

14:15

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for Pontypridd. The statutory school admissions code that was issued in July 2013 provides that catchment areas must not be set or changed after applications for places have been made. Information on any catchment areas set must be included in the admission arrangements that are subject to annual consultation and determination.

Diolch i'r Aelod dros Bontypridd. Mae'r cod statudol ar gyfer derbyn i ysgolion a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013 yn datgan na ddylid gosod na newid dalgylchoedd ar ôl i geisiadau am leoedd gael eu gwneud. Rhaid cynnwys y wybodaeth am ddalgylchoedd yn y trefniadau derbyn sy'n destun ymgynghoriad a phenderfyniadau blynyddol.

14:15

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You may be aware of a recent charity's report that says that more than 40% of parents say that their children, while walking to school, have had a near-miss accident, which is a significant figure. So, safety in travelling to school is obviously an important factor and, when the school catchment areas change, there are often non-established routes to the alternative schools. Will the Minister consider revisiting the current guidance on school consultations to ensure that parents are given all the relevant information at the outset in order to give them the opportunity to consider that as an issue and also to make that an issue for the consultation process when catchment area changes are being considered?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Efallai eich bod yn ymwybodol o adroddiad gan elusen yn ddiweddar sy'n dweud bod mwy na 40% o rieni yn dweud bod eu plant bron â chael damwain wrth gerdded i'r ysgol, sy'n ffigwr sylweddol. Felly mae diogelwch wrth deithio i'r ysgol yn amlwg yn ffactor pwysig a phan fydd dalgylchoedd ysgolion yn newid, yn aml bydd llwybrau heb eu pennu i'r ysgolion eraill hynny. A wnaiff y Gweinidog ystyried edrych eto ar y canllawiau cyfredol ar ymgynghoriadau ysgol i sicrhau bod rhieni yn cael yr holl wybodaeth berthnasol ar y cychwyn er mwyn rhoi cyfle iddynt ystyried hynny a hefyd i godi'r mater yn ystod y broses ymgynghori pan fydd newidiadau i ddalgylchoedd dan ystyriaeth?

14:16 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to tell the Member that I have no current plans to review the school admissions code. The current code was issued just back in July 2013. However, I will undertake that, when a review next takes place, I will consider whether guidance on changes to catchment areas should be expanded in the way you suggest. While policy on safe routes to school is the responsibility of the Minister for the Economy, Science and Transport, I understand that the Learner Travel (Wales) Measure 2008 places a duty on local authorities to assess the travel needs of learners in their area, and this includes the nature of the routes that learners are expected to take. Local authorities must publish the information relating to the assessments carried out with regard to learner travel.

Rhaid i mi ddweud wrth yr Aelod nad oes gennyf gynlluniau ar hyn o bryd i adolygu'r cod derbyn i ysgolion. Ym mis Gorffennaf 2013 y cyhoeddwyd y cod presennol. Fodd bynnag, pan gynhelir yr adolygiad nesaf, byddaf yn ystyried a ddylid ymestyn canllawiau ar newidiadau i ddalgylchoedd yn y ffordd rydych yn ei awgrymu. Er mai cyfrifoldeb Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw polisi ar lwybrau diogel i'r ysgol, rwy'n deall bod Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn creu dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr yn eu hardal ac mae hyn yn cynnwys natur y llwybrau y mae disgwyl i ddysgwyr eu dilyn. Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r asesiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr.

14:17 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On the issue of catchment areas for schools, two of the three local authorities that make up South Wales Central—Rhondda Cynon Taf and the Vale of Glamorgan—have just gone through some reorganisation, and both have referred to what they believe is the straitjacket of Welsh Government guidance or regulation. How much flexibility do local authorities actually have when interpreting this guidance for their own education areas? For parents in particular, it is very confusing when they are trying to seek answers and they are constantly being pushed back against, 'Well, we can't do anything because it's dictated to us by the Welsh Government'. Do local authorities have the ability to be flexible within the guidance?

Ar fater dalgylchoedd ysgolion, mae dau o'r tri awdurdod lleol sy'n ffurfio rhanbarth Canol De Cymru—Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg—newydd fynd drwy broses ad-drefnu ac mae'r ddau wedi cyfeirio at yr hyn y credant sy'n ganllawiau neu'n rheoliadau caethiwus gan Lywodraeth Cymru. Faint o hyblygrwydd sydd gan awdurdodau lleol mewn gwirionedd wrth ddehongli'r canllawiau hyn ar gyfer eu hardaloedd addysg eu hunain? I rieni yn benodol, mae'n ddryslyd iawn pan fyddant yn ceisio chwilio am atebion ac yn gyson yn wynebu'r ymateb, 'Wel, ni allwn wneud unrhyw beth am mai Llywodraeth Cymru sy'n dweud wrthym beth i'w wneud'. A all awdurdodau lleol fod yn hyblyg o fewn y canllawiau?

14:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, this is a matter for local government. Ministers do not generally become involved in local admissions matters unless there are issues over compliance with legislation. It is a matter for local authorities, which must comply with the code.

Wel, mater i lywodraeth leol yw hyn. Yn gyffredinol, nid yw Gweinidogion yn cymryd rhan mewn materion lleol yn ymwneud â derbyn i ysgolion oni bai bod materion yn codi ynghylch cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Mater i awdurdodau lleol ydyw, ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r cod.

14:18 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the consultation document on the creation of the new super school in Port Talbot said that there will be a necessary requirement to change the current catchment areas for Cwrt Sart, Glanafan, Sandfields, Cefn Saeson and Dyffryn secondary schools. I wonder what guidance you can put in in future because, obviously, many of these schools, and especially Cwrt Sart, have been defined as successful community schools. If we are going to be amalgamating schools, we need to understand which policy takes precedence over another. On the ground, people have not been clear as to what that is when a new school has been put in place. I think that local people would welcome such guidance.

Weinidog, mae'r ddogfen ymgynghori ar greu uwchysgol newydd ym Mhort Talbot yn dweud y bydd gofyniad angenrheidiol i newid y dalgylchoedd presennol ar gyfer ysgolion uwchradd Cwrt Sart, Glan Afan, Sandfields, Cefn Saeson a Dyffryn. Tybed pa arweiniad allwch ei roi yn y dyfodol gan ei bod hi'n amlwg fod llawer o'r ysgolion hyn, yn enwedig Cwrt Sart, wedi'u diffinio fel ysgolion cymunedol llwyddiannus. Os ydym yn mynd i uno ysgolion, mae angen i ni ddeall pa bolisi sy'n cael blaenoriaeth dros y lleill. Nid yw pobl ar lawr gwlad wedi deall yn iawn beth yw hynny pan fo ysgol newydd yn cael ei sefydlu. Rwy'n credu y byddai pobl leol yn croesawu canllawiau o'r fath.

14:19 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, such guidance already exists. It is there in the public domain and these are matters substantially, as I say, for local authorities.

Wel, mae canllawiau o'r fath eisoes yn bodoli. Maent ar gael i'r cyhoedd ac fel y dywedais, materion i awdurdodau lleol yw'r rhain yn bennaf.

## Celfyddydau o fewn Ysgolion

## Arts in Schools

14:19 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am le y celfyddydau o fewn ysgolion? OAQ(4)0424(ESK)*

*2. Will the Minister make a statement on the role of the arts in schools? OAQ(4)0424(ESK)*

14:19 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Arfon. I am totally committed to the arts and cultural activities playing a central role in our schools and also to closer partnership between our schools and arts and cultural organisations. The Welsh Government has responded positively to all 12 recommendations of Professor Dai Smith's recent report.

Diolch i'r Aelod dros Arfon. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn chwarae rhan ganolog yn ein hysgolion a hefyd i waith partneriaeth agosach rhwng ein hysgolion a'n sefydliadau celfyddydol a diwylliannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i bob un o 12 argymhelliad adroddiad diweddar yr Athro Dai Smith.

14:19 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Rydym yn edrych ymlaen at weld yr adroddiad hwn yn cael ei weithredu. Mae cynllun cyffrous o dan yr enw 'Codi'r To!' wedi dechrau yn nwy o ysgolion yn fy etholaeth-Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon ac Ysgol Glancegin ym Maesgeirchen ym Mangor. Cynllun hyfforddi cerddoriaeth uchelgeisiol iawn ydyw i blant yn yr ardaloedd difreintiedig hyn, ac mi hoffwn eich gwahodd i weld ffrwyth y fenter gyffrous hon rhyw dro yn ystod y flwyddyn hon.

Thank you very much. We look forward to seeing that report implemented. There is an exciting scheme called 'Raising the Roof!' that has started in two schools in my consituency—Ysgol Maesincla in Caernarfon and Ysgol Bryncegin in Maesgyrchan in Bangor. It is an ambitious musical training course for children from these deprived areas, and I would like to invite you to see the fruits of this very exciting venture sometime during this year.

14:20 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Arfon. I am always very keen to get myself up to date in terms of exciting new initiatives. I am also very keen that we do get our response to the letter and the spirit of Professor Dai Smith's report absolutely right in terms of joint working with schools and I would very gladly accept the Member's invitation to take a look at 'Raising the Roof!'—yes, of course.

Diolch i'r Aelod dros Arfon. Rwyf bob amser yn awyddus iawn i gael y newyddion diweddaraf am fentrau newydd cyffrous. Rwyf hefyd yn awyddus iawn i sicrhau bod ein hymateb i lythyren ac ysbryd adroddiad yr Athro Dai Smith yn gwbl gywir o ran gweithio ar y cyd gydag ysgolion a byddwn yn falch iawn o dderbyn gwahoddiad yr Aelod i gael golwg ar 'Codi'r To!'—byddwn, wrth gwrs.

14:21 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae adroddiad Dai Smith yn galw am rôl gliriach i'r celfyddydau mewn datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, yn ogystal â mentora i athrawon gyda sefydliadau celfyddydol. Pa mor ddylanwadol yw'r argymhelliad ar ddatblygiad proffesiynol athrawon ar hyn o bryd, ac a ydych chi wedi trafod yr argymhelliad mentora gyda'r Gweinidog dros ddiwylliant?

Minister, the Dai Smith report calls for a clearer role for the arts in continuing professional development for teachers, as well as mentoring for teachers with arts organisations. How influential is the recommendation on teacher CPD and have you discussed the recommendation on mentoring with the Minister for culture?

14:21 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have, of course, discussed the implications of Professor Dai Smith's review with the Minister for culture, and we work jointly on these issues. As you know, in March this year, I published our joint response to Professor Dai Smith's review of the arts in education in the schools of Wales. That was a joint response from the Minister for Culture and Sport and me. That review is accepted, including the issues surrounding teacher CPD.

Ydw, wrth gwrs fy mod wedi trafod goblygiadau adolygiad yr Athro Dai Smith gyda'r Gweinidog diwylliant ac rydym yn gweithio ar y cyd ar y materion hyn. Fel y gwyddoch, ym mis Mawrth eleni, cyhoeddais ein hymateb ar y cyd i adolygiad yr Athro Dai Smith ar y celfyddydau mewn addysg yn ysgolion Cymru. Ymateb ar y cyd gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon a finnau oedd hwnnw. Mae'r adolygiad wedi'i dderbyn, gan gynnwys y materion sy'n ymwneud â DPP athrawon.

There is a job of work to be done here and one of the things that the review makes very clear is that although there are responsibilities now upon the Welsh Government to take forward elements within that plan—CPD clearly being an issue primarily for myself—there is also a new expectation within Wales of closer working between arts organisations, artists themselves, musicians and schools. It is that kind of new atmosphere, if you like, that will be necessary in order to get the real value out of the changes in CPD, which I will be considering as part of our response to the report.

Mae gwaith i'w wneud yma ac er bod cyfrifoldebau bellach ar Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen ag elfennau o'r cynllun —ac mae DPP yn amlwg yn fater ar fy nghyfer i'n bennaf— un o'r pethau y mae'r adolygiad yn ei wneud yn eglur iawn yw bod disgwyliad newydd yng Nghymru i sefydliadau celfyddydol, artistiaid eu hunain, cerddorion ac ysgolion weithio'n agosach â'i gilydd. Dyna'r math o awyrgylch newydd, os dymunwch, y bydd ei angen er mwyn sicrhau gwerth go iawn o'r newidiadau i DPP y byddaf yn eu hystyried fel rhan o'n hymateb i'r adroddiad.

### Bwlio

### Bullying

14:22 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â bwlio yn ysgolion Cymru? OAQ(4)0418(ESK)*

*3. What is the Welsh Government doing to tackle bullying in Welsh schools? OAQ(4)0418(ESK)*

14:22 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the Vale of Clwyd. Our aim is to provide schools with the tools they need to combat bullying. In addition to the existing Welsh Government guidance, known as 'Respecting Others', we have been working with schools to develop two short films with an anti-bullying message. These will be available on Learning Wales later this term.

Diolch i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd. Ein nod yw rhoi adnoddau i'r ysgolion sydd eu hangen ar gyfer mynd i'r afael â bwlio. Yn ogystal â chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru, a elwir yn 'Parchu Eraill', rydym wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu dwy ffilm fer gyda negeseuon gwrth-fwlio. Bydd y rhain ar gael ar Dysgu Cymru yn ddiweddarach y tymor hwn.

14:23 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister. May I refer you to the successful I Spy initiative that is run in Prestatyn? It centres on the high school in Prestatyn, but includes safe havens for children to go to on their way home from and to school. A number of businesses in the high street and community organisations are, in fact, buddies and friends of this initiative. That will now, hopefully, be rolled out into Rhyl. It might be a bit of a different organisation in Rhyl, because of the additional problems that we have with schools and the wider walk to school area, or even the drive to school. So, will you take a look at the initiative? I think that the papers are in your department. Your predecessor visited Prestatyn High School and was impressed with the scheme. Will you take a look at the way in which the scheme operates and will you look to roll it out as good practice across the rest of Wales?

Diolch i chi, Weinidog. A gaf fi eich cyfeirio at fenter lwyddiannus I Spy sydd ar y gweill ym Mhrestatyn? Mae'n canolbwyntio ar yr ysgol uwchradd ym Mhrestatyn ond mae'n cynnwys hafanau diogel i blant fynd iddynt ar eu ffordd i ac o'r ysgol. Mae nifer o fusnesau'r stryd fawr a sefydliadau cymunedol yn gyfeillion ac yn ffrindiau i'r fenter hon. Gobeithio y caiff ei gyflwyno yn y Rhyl yn awr. Gallai fod yn sefydliad ychydig yn wahanol yn y Rhyl oherwydd y problemau ychwanegol sydd gennym gydag ysgolion a'r ardal gerdded i'r ysgol ehangach, neu yrru i'r ysgol hyd yn oed. Felly, a wnewch chi edrych ar y fenter? Credaf fod y papurau yn eich adran. Ymwelodd eich rhagflaenydd ag Ysgol Uwchradd Prestatyn ac roedd yn llawn edmygedd o'r cynllun. A wnewch chi edrych ar y ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu ac a wnewch chi ystyried ymestyn y cynllun i weddill Cymru fel enghraifft o arfer da?

14:24 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course I will. I am well aware of the I Spy initiative in Prestatyn and also of my predecessor's respect for the initiative and the scheme. I have read about it, but have not had the opportunity to take a look myself as yet. I hope that that is something that I will be able to rectify soon, because although the duty is on schools, centrally, to have a behaviour policy in place that includes strategies on tackling bullying, this is not a matter for schools alone. It is a matter for the wider community and for Government too. This does sound like an interesting community-based grass-roots initiative that I would like to learn more about in order to inform our wider policy on bullying across Wales.

Wrth gwrs y gwnaf. Rwy'n ymwybodol o fenter I Spy ym Mhrestatyn a hefyd o barch fy rhagflaenydd at y fenter a'r cynllun. Rwyf wedi darllen am y peth ond heb gael cyfle i'w weld drosof fy hun eto. Rwy'n gobeithio bod hynny'n rhywbeth y gallaf ei unioni'n fuan, oherwydd er mai ysgolion sydd â'r ddyletswydd, yn ganolog, i sicrhau bod polisi ymddygiad ar waith sy'n cynnwys strategaethau ar fynd i'r afael â bwlio, nid mater i ysgolion yn unig yw hwn. Mae'n fater ar gyfer y gymuned ehangach ac i'r Llywodraeth hefyd. Mae'n swnio fel menter gymunedol ddiddorol ar lawr gwlad yr hoffwn ddysgu mwy amdani er mwyn llywio ein polisi ehangach ar fwlio ledled Cymru.

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the opposition spokesperson, Suzy Davies.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Suzy Davies.

14:25 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Yesterday, Minister, we debated the Welsh Government's new framework to deliver policy to tackle hate crime, and your department is taking the lead on eight delivery areas, reflecting the framework's inclusion of hate crime in incidents aimed at and perpetrated by school children and young people in education. Estyn will be researching how schools tackle bullying around protected characteristics, but how are you ensuring that existing guidance on preventing bullying more generally is actually being followed and implemented?

Diolch, Lywydd. Ddoe, Weinidog, cawsom ddadl ar fframwaith newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno polisi ar fynd i'r afael â throseddau casineb ac mae eich adran yn arwain ar wyth maes cyflawni, gan adlewyrchu'r ffaith fod y fframwaith yn cynnwys troseddau casineb mewn digwyddiadau wedi'u hanelu at, ac wedi'u cyflawni gan blant ysgol a phobl ifanc mewn addysg. Bydd Estyn yn ymchwilio i'r modd y mae ysgolion yn mynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchodedig ond sut rydych yn sicrhau bod canllawiau presennol ar atal bwlio yn fwy cyffredinol yn cael eu dilyn a'u rhoi ar waith mewn gwirionedd?

14:25 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies is quite right to point out that Estyn has an important role to play here. Part of its 2013-14 remit is to carry out a thematic survey on this subject area, looking at the effectiveness of action taken by schools to address bullying on the grounds of protected characteristics. We will be expecting that report and that review to be available next month, and I am looking forward very much to learning more about Estyn's insights here. However, this is also a question of good implementation of current guidance, for instance, the Welsh Government's guidance around the good recording procedures that all schools should undertake. It is also about continuing professional development, as has been touched upon, and our new Master's in educational practice for newly qualified teachers will include a behaviour management module, which, of course, will include training on issues of bullying. All schools must, by law, have a school behaviour policy in place and an effective anti-bullying strategy should be central to that behaviour policy. Having said that, it is an issue, as I have said, that is not for schools alone.

Mae Suzy Davies yn llygad ei lle yn tynnu sylw at y rôl bwysig sydd gan Estyn i'w chwarae yma. Rhan o'i gylch gwaith ar gyfer 2013-14 yw cynnal arolwg thematig ar y pwnc, gan edrych ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchodedig. Disgwyliwn yr adroddiad a'r adolygiad y mis nesaf ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at ddysgu mwy am safbwyntiau Estyn ar y mater. Fodd bynnag, mae hwn hefyd yn fater o weithredu arweiniad cyfredol yn dda, er enghraifft, canllawiau Llywodraeth Cymru ar weithdrefnau cofnodi da y dylai pob ysgol eu dilyn. Mae hefyd yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus, fel y crybwyllwyd, a bydd ein gradd Meistr newydd mewn ymarfer addysgol i athrawon newydd gymhwyso yn cynnwys modiwl rheoli ymddygiad a fydd, wrth gwrs, yn cynnwys hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â bwlio. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob ysgol weithredu polisi ymddygiad a dylai strategaeth gwrth-fwlio effeithiol fod yn ganolog i'r polisi ymddygiad hwnnw. Wedi dweud hynny, fel y dywedais, nid mater ar gyfer ysgolion yn unig yw hyn.

14:26 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I was pleased that you referred to the planned improvements to the Master's programme, because leadership in schools is critical to the success of an anti-bullying strategy, let alone anything else. Will you be planning any complementary upskilling of local education authority and consortia officers?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n falch eich bod wedi cyfeirio at y gwelliannau arfaethedig i'r rhaglen Meistr oherwydd bod arweinyddiaeth mewn ysgolion yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth gwrth-fwlio heb sôn am unrhyw beth arall. A fyddwch yn cynllunio unrhyw raglenni uwchsgilio ategol ar gyfer swyddogion awdurdodau addysg a chonsortia lleol?

14:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that that will feature in the thinking of Estyn. When we receive that report, as I say, in June, just next month, I am sure that the implications for local authorities and consortia will be issues that we will all need to discuss within this Chamber and elsewhere.

Rwy'n siŵr y bydd hynny'n ymddangos yn ystyriaethau Estyn. Fel y dywedais, pan ddaw'r adroddiad i law ym mis Mehefin, y mis nesaf, rwy'n siŵr y bydd y goblygiadau i awdurdodau lleol a chonsortia yn faterion y bydd angen i ni i gyd eu trafod yn y Siambr hon ac mewn mannau eraill.

14:27 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I recently sent you the research findings from Professor Reynolds at Cardiff University that found that harassment and sexism are everyday experiences for Welsh primary school pupils. Obviously, teaching healthy relationships is by far the best way to tackle this. Would you consider ensuring that even very young children are able to learn about healthy relationships as part of the curriculum?

Weinidog, yn ddiweddar anfonais ganfyddiadau ymchwil yr Athro Reynolds ym Mhrifysgol Caerdydd atoch. Canfu'r ymchwil fod aflonyddu a rhywiaeth yn brofiadau bob dydd i ddisgyblion ysgolion cynradd Cymru Yn amlwg, dysgu am berthnasoedd iach yw'r ffordd orau o bell ffordd i fynd i'r afael â hyn. A fyddech yn ystyried sicrhau bod plant ifanc iawn hyd yn oed yn gallu dysgu am berthnasoedd iach fel rhan o'r cwricwlwm?

14:28 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. It is an important question, actually. Yes, this is already part of my considerations, in terms, particularly, of the work that Professor Graham Donaldson is undertaking at the moment in moulding the first ever curriculum for Wales. There are implications here, of course, for how we might develop our personal and social education work within schools. I think that there are implications for the workforce in terms of skills, and there are implications for the way that agencies might work together better in the future. We are certainly, I would accept, not where we need to be in terms of the support, information and guidance that we offer to young people, even the youngest of our school pupils, in this regard.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n gwestiwn pwysig, mewn gwirionedd. Ydy, mae hyn eisoes yn rhan o fy ystyriaethau, yn arbennig o safbwynt y gwaith y mae'r Athro Graham Donaldson yn ei wneud ar hyn o bryd ar lunio'r cwricwlwm cyntaf erioed ar gyfer Cymru. Wrth gwrs mae goblygiadau yma o ran y modd y gallem ddatblygu ein gwaith addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion. Rwy'n meddwl bod goblygiadau ar gyfer y gweithlu o ran sgiliau ac mae goblygiadau o ran y ffordd y gallai asiantaethau weithio gyda'i gilydd yn well yn y dyfodol. Byddwn yn derbyn yn bendant nad ydym lle y dylem fod o ran y gefnogaeth, y wybodaeth a'r arweiniad rydym yn eu cynnig yn hyn o beth i bobl ifanc, hyd yn oed yr ieuengaf o ddisgyblion ein hysgolion.

14:29 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one group of young people who are particularly vulnerable to bullying are those with additional learning needs, especially those on the autistic spectrum. In February, at the cross-party group on autism, chaired by our colleague Mark Isherwood, Professor Judy Hutchings of Bangor University revealed the initial findings of her recent project on the bullying of those on the autistic spectrum. Minister, in this context, what steps are you prepared to take to ensure that, in terms of any future policy development in this area, the specific needs of those with such conditions are fully taken on board?

Weinidog, un grŵp o bobl ifanc sy'n arbennig o agored i fwlio yw'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig rhai ar y sbectrwm awtistig. Ym mis Chwefror, yn y grŵp trawsbleidiol ar awtistiaeth a gadeiriwyd gan ein cydweithiwr Mark Isherwood, datgelodd yr Athro Judy Hutchings o Brifysgol Bangor ganfyddiadau cychwynnol ei phrosiect diweddar ar fwlio rhai sydd ar y sbectrwm awtistig. Weinidog, yn y cyd-destun hwn, o ran datblygu polisi yn y maes yn y dyfodol, pa gamau rydych yn barod i'w cymryd i sicrhau bod anghenion penodol y rhai sydd â chyflyrau o'r fath yn cael eu hystyried yn llawn?

14:29 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will, of course, ensure that issues around the autistic spectrum are taken into account in terms of the wider picture. It is a group of young people who face particular challenges, the greatest of which, really, is the lack of wider understanding of the challenges of autism and I will take this opportunity to guarantee that young people with autism will have their needs and concerns addressed during this work.

Byddaf yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r sbectrwm awtistig yn cael eu hystyried o ran y darlun ehangach wrth gwrs. Dyma grŵp o bobl ifanc sy'n wynebu heriau penodol, a'r mwyaf o'r rhain, mewn gwirionedd, yw diffyg dealltwriaeth ehangach o heriau awtistiaeth a byddaf yn manteisio ar y cyfle i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag anghenion a phryderon pobl ifanc ag awtistiaeth yn ystod y gwaith hwn.

### Gwasanaethau Addysg Uwchradd

### Secondary Education Services

14:30 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau addysg uwchradd a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych? OAQ(4)0419(ESK)*

*4. Will the Minister make a statement on secondary education services provided by Denbighshire County Council? OAQ(4)0419(ESK)*

14:30 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have approved the national model for regional working that will clarify and strengthen regional education consortia working. While there is no change to local authority statutory responsibilities, the model will ensure a more consistent approach in the way that authorities commission the services of consortia to achieve whole-school improvement.

Rwyf wedi cymeradwyo model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol a fydd yn egluro a chryfhau gwaith consortia addysg rhanbarthol. Er nad oes newid i gyfrifoldebau statudol yr awdurdod lleol, bydd y model yn sicrhau dull mwy cyson o ran y ffordd y mae awdurdodau'n comisiynu gwasanaethau consortia er mwyn gwella'r ysgol gyfan.

14:30 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that, Minister. Can I say that I welcome Schools Challenge Cymru? I think that that has been a fantastic way of looking at those schools that need the most support. Can I also say that I am very pleased that none of the schools in my constituency are looking for some additional money from that fund? That is not something that you will hear me say very often in the Chamber. I am pleased that the schools in Denbighshire appear to be operating reasonably well. That is not to say that Denbighshire local education authority can rest on its laurels. You will know that I have had major concerns about how it has operated previously. It now appears to have accepted that it has to change and we know that good leadership is critical to raising standards. The headteacher at Rhyl High School, Claire Armistead, is an exemplar in how she has done this and the way in which she engages all of the pupils and not just those about to get A* grades. How can the Government look to ensure that not only do those good teachers survive in an LEA but are nurtured and are supported, helped and valued?

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. A gaf fi ddweud fy mod yn croesawu Her Ysgolion Cymru? Rwy'n meddwl ei bod yn ffordd wych o edrych ar yr ysgolion hynny sydd fwyaf o angen cymorth. A gaf fi ddweud hefyd fy mod yn falch iawn nad oes yr un o'r ysgolion yn fy etholaeth yn chwilio am arian ychwanegol o'r gronfa honno? Nid yw hynny'n rhywbeth y byddwch yn fy nghlywed yn ei ddweud yn aml iawn yn y Siambr. Rwy'n falch fod ysgolion Sir Ddinbych i'w gweld yn gweithredu'n weddol dda. Nid yw hynny'n golygu y gall awdurdod addysg lleol Sir Ddinbych orffwys ar ei rhwyfau. Gwyddoch fy mod wedi bod yn bryderus iawn ynghylch y modd y gweithredai o'r blaen. Mae'n ymddangos yn awr ei fod wedi derbyn yr angen i newid a gwyddom fod arweinyddiaeth dda yn hanfodol er mwyn codi safonau. Mae pennaeth Ysgol Uwchradd Y Rhyl, Claire Armistead yn esiampl o ran y modd y mae hi wedi gwneud hyn a'r modd y mae hi'n cynnwys yr holl ddisgyblion, nid y rhai sydd ar fin cael gradd A * yn unig. Sut y gall y Llywodraeth sicrhau, nid yn unig fod AALl yn cadw athrawon da, ond eu bod yn cael eu meithrin a'u cefnogi, eu helpu a'u gwerthfawrogi hefyd?

14:32 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that. I acknowledge the great improvement that we have seen in Rhyl High School in particular and across Denbighshire as a whole. A journey has been undertaken. It is certainly not a journey that is complete, but key people in leadership positions, such as Claire Armistead, lead me to readily acknowledge the need for strong leadership in these improvement processes. I am absolutely committed, through the national leadership development board, to introduce a progressive, career-long professional development for the whole-school workforce. This is embodied in the leadership development pathway, which will create a conveyer belt of leadership talent from which the leaders of the future will come.

Diolch i'r Aelod. Rwy'n cydnabod y gwelliant mawr a welsom yn Ysgol Uwchradd y Rhyl yn arbennig ac ar draws Sir Ddinbych gyfan. Rydym wedi dechrau ar daith. Yn sicr, nid yw'r daith wedi'i chwblhau ond mae pobl allweddol mewn swyddi arweiniol, megis Claire Armistead, yn gwneud i mi gydnabod yn barod yr angen am arweinyddiaeth gref yn y prosesau gwella hyn. Drwy'r bwrdd datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol, rwy'n ymrwymo'n llwyr i gyflwyno datblygiad proffesiynol cynyddol dros yrfa gyfan ar gyfer gweithlu'r ysgol gyfan. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y llwybr datblygu arweinyddiaeth a fydd yn creu cronfa barhaus o dalent arwain ar gyfer cynhyrchu arweinwyr y dyfodol.

14:32 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the Welsh Government's announcement of its approval of the business plan for Rhyl High School has been well received, as has careful planning by Denbighshire to find the match funding to allow this to be hopefully built over this forthcoming summer. However, in terms of secondary schools generally across Wales, you will be aware of concerns about the high levels, or growing numbers of exclusions of non-statemented young people in special educational needs schools over recent years. In fact, they have doubled in over a decade. What consideration, across the counties of Wales, are you giving to addressing this in our secondary schools to ensure that the needs of those young people and children are identified and met rather than them simply being kicked out of the classroom?

Yn amlwg, mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar ei chymeradwyaeth i'r cynllun busnes ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl wedi cael derbyniad da, fel y mae cynllunio gofalus gan Sir Ddinbych i ddod o hyd i'r arian cyfatebol ar gyfer datblygu hyn dros yr haf sydd i ddod, gobeithio. Fodd bynnag, o ran ysgolion uwchradd yn gyffredinol ledled Cymru, gwyddoch am y pryderon ynglŷn â'r lefelau uchel, neu'r nifer cynyddol o bobl ifanc heb fod ar ddatganiad a waharddwyd o ysgolion anghenion addysgol arbennig dros y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, maent wedi dyblu mewn ychydig dros ddegawd. Ar draws siroedd Cymru, pa ystyriaeth rydych yn ei rhoi i dynnu sylw at hyn yn ein hysgolion uwchradd er mwyn sicrhau bod anghenion y bobl ifanc a'r plant dan sylw yn cael eu nodi a'u diwallu yn hytrach na dim ond eu gwahardd o'r ystafell ddosbarth?

14:33 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark Isherwood puts his finger on a very important issue. Although the picture around the numbers when it comes to exclusions is rather mixed across Wales—we always seem to have to acknowledge that the picture across Wales is very mixed—greater coherence in these matters will always be welcome. I have recently written to local authorities, encouraging them all to study and work towards the pattern around the management of such issues exemplified by Ceredigion. In Ceredigion, we have our first local authority rated 'excellent' in terms of education, of course. An important aspect of Ceredigion's good work across its schools system is the way in which it deals with issues around exclusion, pupil referral units and issues around behaviour management. It really does seem to be able to keep these numbers to a minimum and it does so through good working in schools and between schools and also through good professional development for staff. There is an example there that, if rolled out across the country, would have a major positive impact on the figures about which Mark Isherwood is concerned.

Mae Mark Isherwood yn codi mater pwysig iawn. Er mai cymysg yw'r darlun o ran niferoedd y gwaharddiadau ledled Cymru—ymddengys bod yn rhaid i ni bob amser gydnabod mai cymysg yw'r darlun ar draws Cymru—bydd croeso bob amser i fwy o gydlyniant yn y materion hyn. Yn ddiweddar, ysgrifennais at awdurdodau lleol yn eu hannog i astudio a gweithio tuag at batrwm Ceredigion ar gyfer rheoli materion o'r fath. Ceredigion yw'r enghraifft gyntaf o awdurdod lleol a raddiwyd yn 'rhagorol' o ran addysg, wrth gwrs. Agwedd bwysig ar waith da Ceredigion ar draws ei system ysgolion yw'r ffordd y mae'n delio â materion yn ymwneud â gwahardd, unedau cyfeirio disgyblion a materion yn ymwneud â rheoli ymddygiad. Mae'n bendant yn ymddangos bod yr awdurdod yn gallu cadw'r rhifau hyn mor isel â phosibl ac mae'n gwneud hynny drwy waith da mewn ysgolion a rhwng ysgolion a hefyd drwy ddatblygiad proffesiynol da i staff. Pe bai'n cael ei gyflwyno ar draws y wlad, mae'n enghraifft a fyddai'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y ffigurau sy'n pryderu Mark Isherwood.

### Cyfleoedd Prentisiaeth

### Apprenticeship Opportunities

14:35 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc yng Nghymru? OAQ(4)0422(ESK)*

*5. What action is the Welsh Government taking to promote apprenticeship opportunities for young people in Wales? OAQ(4)0422(ESK)*

14:35 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Apprenticeships are promoted through focused communications and marketing plans, and by designing an apprenticeship programme that is attractive to young people and employers.

Caiff prentisiaethau eu hyrwyddo drwy sicrhau ffocws ar gynlluniau cyfathrebu a marchnata, a thrwy gynllunio rhaglen brentisiaeth sy'n ddeniadol i bobl ifanc a chyflogwyr.

14:35 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am concerned, though, that young women are still less likely to take up apprenticeships opportunities in areas such as engineering or construction. We touched on this in the last women in the economy cross-party meeting, where we also heard about some of the barriers that women face while on these apprenticeships. Deputy Minister, how are we encouraging young women to apply for these opportunities, and what work is being done to understand why they are less likely to apply in the first place?

Fodd bynnag, rwy'n pryderu bod menywod ifanc yn dal i fod yn llai tebygol o fanteisio ar gyfleoedd prentisiaeth mewn meysydd fel peirianneg neu adeiladu. Crybwyllwyd hyn yn y cyfarfod trawsbleidiol diwethaf ar fenywod yn yr economi, lle y clywsom hefyd am rai o'r rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu tra'u bod ar y prentisiaethau hyn. Ddirprwy Weinidog, sut rydym yn annog menywod ifanc i ymgeisio am y cyfleoedd hyn a pha waith sy'n cael ei wneud er mwyn deall pam y maent yn llai tebygol o ymgeisio yn y lle cyntaf?

14:36 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Can I thank the Member for her very important question? I share her concerns about equality issues within education, the workplace and, of course, the apprenticeships systems. There is no doubt that we need to work very closely with female ambassadors, with schools, with employers, and with colleges to challenge the long-standing, deep-rooted gender stereotyping in our culture. As a Government, in terms of apprenticeships, we are promoting gender equality through a range of measures, for example by placing expectations on apprenticeship providers to promote equality, and through our marketing activity, we are targeting gender disparity. We have also commissioned Estyn to examine the barriers facing women who wish to participate in apprenticeship frameworks.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei chwestiwn pwysig? Rwy'n rhannu ei phryderon ynglŷn â materion cydraddoldeb ym myd addysg, y gweithle a'r systemau prentisiaeth wrth gwrs. Nid oes amheuaeth fod angen i ni weithio'n agos iawn gyda llysgenhadon benywaidd, ysgolion, cyflogwyr a cholegau i herio'r stereoteipio hirsefydlog ar sail rhyw sydd wedi gwreiddio yn ein diwylliant. Fel Llywodraeth, o ran prentisiaethau, rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau drwy amryw o fesurau, er enghraifft drwy ei gwneud hi'n ddisgwyliedig i ddarparwyr prentisiaethau hyrwyddo cydraddoldeb, a thrwy ein gweithgarwch marchnata, rydym yn targedu gwahaniaeth rhwng y rhywiau. Rydym hefyd wedi comisiynu Estyn i edrych ar y rhwystrau sy'n wynebu menywod sy'n dymuno cymryd rhan mewn fframweithiau prentisiaeth.

14:36 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Deputy Minister, can I ask you about data collection, in terms of where people doing apprenticeships are ending up? You will recall that the Enterprise and Business Committee's inquiry report into apprenticeships—which is hopefully not acquiring dust on a ministerial shelf somewhere—back in 2012 included recommendation 2, which is to publish the number of apprentices that progress into employment at the end of their apprenticeship, according to destination sector. The Welsh Government accepted this in principle, and agreed at that point to undertake work to match the lifelong learning Wales record data to Department for Work and Pensions records, to try to determine where apprentices are ending up. Can you tell us what progress has been made on acquiring these data? If we do not have the data, then it is very difficult to make an assessment about the success.

Ddirprwy Weinidog, a gaf fi ofyn i chi ynglŷn â chasglu data, o ran ble y mae pobl sydd ar brentisiaeth yn cyrraedd yn y pen draw? Byddwch yn cofio bod adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i brentisiaethau—nad yw, gobeithio, yn hel llwch ar silff weinidogol yn rhywle—yn ôl yn 2012 yn cynnwys argymhelliad 2, sef cyhoeddi nifer y prentisiaid sy'n symud ymlaen i waith ar ddiwedd eu prentisiaeth yn ôl sector. Derbyniodd Llywodraeth Cymru hyn mewn egwyddor a chytunwyd ar y pwynt y dylid cyflawni gwaith i baru data cofnod dysgu gydol oes Cymru â chofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn ceisio penderfynu ble y mae prentisiaid yn cyrraedd yn y pen draw. A allwch ddweud wrthym pa gynnydd a wnaed ar gaffael y data? Os nad yw'r data gennym, mae'n anodd iawn asesu llwyddiant.

14:37 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Can I thank Nick Ramsay for his question, and for the inquiry that took place into apprenticeships? It provided us with some very valuable information and suggestions, which we are acting on—

Hoffwn ddiolch i Nick Ramsay am ei gwestiwn ac am yr ymchwiliad a gynhaliwyd i brentisiaethau. Rhoddodd wybodaeth ac awgrymiadau gwerthfawr iawn i ni, ac rydym yn gweithredu ar—

14:37 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

You were on it.

Roeddech yn rhan ohono.

14:37 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Yes, you are right—I was on it, but not for the whole time, I believe.

Oeddwn, rydych chi'n iawn—roeddwn yn rhan ohono ond drwy gydol yr amser, rwy'n credu.

We have been collecting data, and I can inform Members that 90% of apprentices now continue, within the first three months of their frameworks being completed, in sustained employment. Only 1% of apprentices go on to unemployment within the first three months. I will write to the Member, if I may, with a full and comprehensive update on the point within the recommendations that he raises.

Rydym wedi bod yn casglu data a gallaf hysbysu'r Aelodau fod 90% o brentisiaid yn awr yn parhau i fod mewn gwaith cyson o fewn y tri mis cyntaf ar ôl cwblhau eu fframweithiau. Dim ond 1% o brentisiaid sy'n mynd ymlaen i fod yn ddi-waith o fewn y tri mis cyntaf. Os caf, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod i roi diweddariad llawn a chynhwysfawr ar y pwynt yn yr argymhellion y mae'n eu codi.

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

14:38 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf fi ddechrau drwy ategu sylwadau Christine Chapman ynglŷn â'r angen i ehangu'r dewisiadau i ferched, yn arbennig, o ran prentisiaethau?

A gaf fi droi yn benodol at adroddiad Estyn yr wythnos hon, ar wasanaethau cymorth i ddisgyblion 14 i 16? Mae brawddeg yn yr adroddiad hwnnw yn nodi bod blwyddyn 9 yn flwyddyn hollbwysig ym mywyd disgyblion, ac nad ydynt yn cael cyngor yn ddigon cynnar. Y pwynt y mae Estyn yn ei wneud, wrth gwrs, yw, os ydych eisiau rhyw fath o gydraddoldeb rhwng y dewis academaidd a'r dewis o ran prentisiaethau, mae angen y wybodaeth mewn da bryd ar gyfer disgyblion, ac mae angen y wybodaeth fwyaf diweddar. Canfyddiad arall yn yr adroddiad yw bod y wybodaeth mewn ysgolion a chan Gyrfaoedd Cymru yn hen. Beth, felly, mae'r Dirprwy Weinidog yn ei wneud yn awr i weithredu ar yr adroddiad hwn, i wneud yn siŵr bod y dewis hwnnw yn ddewis go iawn i'n disgyblion ni?

May I start by endorsing the comments made by Christine Chapman on the need to expand opportunities for girls, in particular, in terms of apprenticeships?

May I turn specifically to the Estyn report of this week on support services for 14 to 16-year-old students? There is a sentence in that report that notes that year 9 is a crucial year in the life of students, and that they are not given advice at an early enough stage. The point that Estyn makes, of course, is that if you want some sort of parity between the academic option and the apprenticeship option, you need the information in good time for students, and the most up-to-date information is needed. Another finding in the report is that the information held in schools and by Careers Wales is old. Therefore, what is the Deputy Minister doing now to implement this report, to make sure that that option is a real option for our students?

14:39 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that the Member raises some critically important points there. We are dealing with the concerns that he raises through a number of measures. First of all, there is the youth guarantee and the youth guarantee prospectus, which will be available to young people; they will have to go through a process online of applying for a suitable place in training, or further learning, post-16. That will ensure that they are familiarised with all opportunities post-16, including vocational pathways. In addition to this, with the support of European Union money, we are rolling out an enhanced employer engagement programme, which, again, will bring together employers and learners, so that they can understand and appreciate the value of apprenticeships. Finally, through the youth engagement and progression framework, we will also be ensuring that young people recognise the value of education, and all opportunities, post-16.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn codi rhai pwyntiau hanfodol bwysig. Rydym yn ymdrin â'r pryderon y mae'n eu lleisio drwy nifer o ddulliau. Yn gyntaf oll, mae'r warant ieuenctid a phrosbectws y warant ieuenctid a fydd ar gael i bobl ifanc; bydd yn rhaid iddynt fynd drwy broses ar-lein o wneud cais am le addas mewn hyfforddiant neu ddysgu pellach ôl-16. Bydd hynny'n sicrhau eu bod yn gyfarwydd â phob cyfle ôl-16 gan gynnwys llwybrau galwedigaethol. Yn ogystal â hyn, gyda chefnogaeth arian yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn cyflwyno rhaglen ar gyfer ymgysylltu'n well â chyflogwyr, a fydd unwaith eto'n dod â chyflogwyr a dysgwyr at ei gilydd er mwyn iddynt allu deall a sylweddoli gwerth prentisiaethau. Yn olaf, drwy'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieunectid, byddwn hefyd yn sicrhau bod pobl ifanc yn sylweddoli gwerth addysg a phob cyfle ôl-16.

14:39 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am yr ateb hwnnw. Rwy'n gobeithio'n fawr y gwelwn welliant yn y cyd-destun hwnnw.

I droi at fater arall ym maes prentisiaethau, mae datblygiad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i gwmnïau rannu prentisiaid. Cynhaliwyd digwyddiad ym Mhowys yr wythnos diwethaf gyda People's 1st Cymru ym maes lletygarwch, lle'r oedd nifer o brentisiaid wedi llwyddo i rannu prentisiaethau rhwng gwahanol gwmnïau. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i ehangu'r posibiliadau hyn, ac i wneud yn siŵr y bydd mwy o gwmnïau llai a chanolig yn gallu manteisio ar y cyfle?

I thank the Deputy Minister for that response. I very much hope that we see an improvement in that context.

Turning to another issue in the area of apprenticeships, there is a development, particularly in rural areas, for companies to share apprentices. An event took place in Powys last week with People's 1st Cumru in terms of hospitality, where a number of apprentices had successfully shared apprenticeships between different companies. What steps is the Government taking to expand these possibilities, and to make sure that more smaller and medium-sized companies can take advantage of the opportunity?

14:40 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, the Member raises a very important point—one on which we are taking proactive action. This evening another event will be hosted by Joyce Watson to bring together employers on a shared apprenticeship programme in the construction sector. This is precisely the sort of shared apprenticeship model that we are looking to roll out across rural areas, and indeed across urban areas. It is absolutely vital that the Government goes on working with training bodies and with the sector skills councils to recognise that, in some cases, individual employers are not able to provide the apprenticeships. Therefore, there is a need to bring them together under an umbrella organisation, whether that is a training body or through the sector skills councils.

Unwaith eto, mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig iawn—pwynt rydym yn rhoi camau rhagweithiol ar waith yn ei gylch. Heno, cynhelir digwyddiad arall gan Joyce Watson i ddod â chyflogwyr at ei gilydd yn rhan o raglen rhannu prentisiaethau yn y sector adeiladu. Dyma'r union fath o fodel rhannu prentisiaeth rydym yn ystyried ei gyflwyno ar draws ardaloedd gwledig, ac ar draws ardaloedd trefol yn wir. Mae'n gwbl hanfodol fod y Llywodraeth yn dal ati i weithio gyda chyrff hyfforddi a'r cynghorau sgiliau sector i gydnabod nad yw cyflogwyr unigol yn gallu darparu'r prentisiaethau mewn rhai achosion. Felly mae angen dod â hwy at ei gilydd o dan sefydliad ymbarél, boed yn gorff hyfforddi neu drwy'r cynghorau sgiliau sector.

14:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you have acknowledged, Deputy Minister, it can be difficult in rural areas to access an apprenticeship, given the nature of the private sector, which is dominated by micro and very small companies. However, we do have a very vibrant third sector in rural areas, which potentially, with the right levels of support, could provide opportunities. I am thinking, for instance, of the Wildlife Trusts, which is very keen to look at offering apprenticeships in traditional countryside skills and countryside management. What work are you doing with the third sector, as well as the private sector in rural areas, to expand the opportunities for rural young people to access apprenticeships?

Fel rydych wedi cydnabod, Ddirprwy Weinidog, gall fod yn anodd cael mynediad at gyfleoedd prentisiaeth mewn ardaloedd gwledig o ystyried natur y sector preifat, sy'n cynnwys cwmnïau micro a bach iawn yn bennaf. Fodd bynnag, mae gennym drydydd sector bywiog iawn mewn ardaloedd gwledig a allai gynnig cyfleoedd o gael y lefelau cywir o gymorth. Rwy'n meddwl, er enghraifft, am yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, sy'n awyddus iawn i gynnig prentisiaethau mewn sgiliau cefn gwlad traddodiadol a rheoli cefn gwlad. Pa waith rydych yn ei wneud gyda'r trydydd sector, yn ogystal â'r sector preifat mewn ardaloedd gwledig, i ymestyn y cyfleoedd i bobl ifanc yng nghefn gwlad gael mynediad at brentisiaethau?

14:42 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member raises some valid points about the value of the third sector in ensuring that, where there is a lack of presence of appropriate private sector, there are opportunities for young people nonetheless. In addition to the third sector, there is the public sector. Both are relevant in terms of positive progressions, via Jobs Growth Wales, whereby participants within the third sector scheme—and the progression rate is 66% at present—are able then to move on to a programme, such as the Young Recruits programme, which is specifically aimed at ensuring that small businesses and third sector organisations can get the necessary support, given that it is often the case of not having the financial support upfront. So, they can get the necessary support to take on a Jobs Growth Wales participant as an apprentice.

Mae'r Aelod yn codi rhai pwyntiau dilys am werth y trydydd sector wrth sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc er gwaethaf diffyg presenoldeb sector preifat priodol. Yn ogystal â'r trydydd sector, ceir y sector cyhoeddus. Mae'r ddau'n berthnasol o ran dilyniant cadarnhaol, drwy Twf Swyddi Cymru, lle bydd rhai sy'n cymryd rhan yng nghynllun y trydydd sector—ac mae cyfradd y rhai sy'n symud ymlaen yn 66% ar hyn o bryd—yn gallu symud ymlaen wedyn i raglen fel y rhaglen Recriwtiaid Ifanc sydd â'r nod penodol o sicrhau y gall busnesau bach a sefydliadau trydydd sector gael cymorth angenrheidiol, o ystyried mai'r sefyllfa'n aml yw nad oes cymorth ariannol ar gael ymlaen llaw. Felly gallant gael y cymorth angenrheidiol ar gyfer cynnig prentisiaeth i rywun sy'n cymryd rhan yng nghynllun Twf Swyddi Cymru.

## Cymwysterau Galwedigaethol y Cadetiaid

## Cadet Vocational Qualifications

14:42 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o Gymwysterau Galwedigaethol y Cadetiaid yn ysgolion Cymru? OAQ(4)0417(ESK)*

*6. Will the Minister make a statement on the use of the Cadet Vocational Qualifications in Welsh schools? OAQ(4)0417(ESK)*

14:42 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government issues a small grant to CVQO to deliver post-16 provision. The grant allows it to deliver vocational qualifications at levels 1 and 2 to cadets in areas such as engineering, public services and music. CVQO targets disadvantaged youngsters and delivers in both colleges and schools.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant bach i CVQO ar gyfer cyflwyno darpariaeth ôl-16. Mae'r grant yn ei alluogi i ddarparu cymwysterau galwedigaethol ar lefelau 1 a 2 i gadetiaid mewn meysydd fel peirianneg, gwasanaethau cyhoeddus a cherddoriaeth. Mae CVQO yn targedu pobl ifanc dan anfantais ac yn darparu gwasanaethau mewn colegau ac ysgolion.

14:43 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Deputy Minister. I know of your personal commitment to cadet vocational qualifications. You will be aware that a number of schools across Wales operate cadet schemes. I just wondered what other additional support you might be able to make available as a Welsh Government to expand the number of schools involved in operating cadet schemes so that other individuals and pupils, particularly those who are disengaged from learning, can have an opportunity to achieve qualifications through the benefits that cadet vocational qualifications can bring.

Diolch i chi am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Gwn am eich ymrwymiad personol i gymwysterau galwedigaethol y cadetiaid. Byddwch yn ymwybodol fod nifer o ysgolion ledled Cymru yn gweithredu cynlluniau cadetiaid. Tybed pa gefnogaeth ychwanegol arall y gallech ei sicrhau fel Llywodraeth Cymru i ehangu nifer yr ysgolion sy'n ymwneud â gweithredu cynlluniau cadetiaid fel bod unigolion a disgyblion eraill, yn enwedig rhai sydd wedi ymddieithrio o ddysgu, yn cael cyfle i ennill cymwysterau drwy'r manteision y mae cymwysterau galwedigaethol y cadetiaid yn eu cynnig.

14:43 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Darren Millar for his question, and also for his strong support of the role of the uniformed services in preventing young people from disengaging from education. That is a crucial role that they have. Cadet schemes are very close to my heart because one scheme in the Member's constituency ensured that one of my nephews remained in formal education until the age of 16.

Diolch i Darren Millar am ei gwestiwn a hefyd am ei gefnogaeth gref i rôl y gwasanaethau mewn lifrai yn atal pobl ifanc rhag ymddieithrio o addysg. Mae honno'n rôl hanfodol sydd ganddynt. Mae cynlluniau cadetiaid yn agos iawn at fy nghalon oherwydd bod un cynllun yn etholaeth yr Aelod wedi sicrhau bod un o fy neiaint wedi aros mewn addysg ffurfiol hyd nes ei fod yn 16 oed.

I am delighted to inform Members that I have recently established a strategic forum on careers development, and I have invited the cadet services to become members. I expect the role of cadet services and cadet vocational qualifications to be pivotal in delivering the desired outcomes of the youth engagement and progression framework, and also in our ambition to raise the skills levels of the entire nation. At the core of the youth engagement and progression framework is the role of lead workers in helping young people to stay in education, along with the youth guarantee prospectus, which will map all local provision. I also see the cadet services and cadet vocational qualifications as essential to the new youth work strategy, and I would welcome more schools to work with CVQO in offering its brand of learning to pre-16 learners as well.

Rwy'n falch iawn o roi gwybod i'r Aelodau fy mod wedi sefydlu fforwm strategol ar ddatblygu gyrfa yn ddiweddar ac rwyf wedi gwahodd gwasanaethau cadetiaid i ddod yn aelodau. Rwy'n disgwyl y bydd rôl gwasanaethau cadetiaid a chymwysterau galwedigaethol y cadetiaid yn ganolog yn y gwaith o sicrhau canlyniadau dymunol y fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid, a hefyd yn ein huchelgais i godi lefelau sgiliau'r genedl gyfan. Wrth wraidd y fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid, mae rôl gweithwyr arweiniol yn helpu pobl ifanc i aros mewn addysg, ynghyd â phrosbectws y warant ieuenctid a fydd yn mapio'r holl ddarpariaeth leol. Rwyf hefyd yn ystyried bod y gwasanaethau cadetiaid a chymwysterau galwedigaethol y cadetiaid yn hanfodol i'r strategaeth gwaith ieuenctid newydd, a byddwn yn croesawu mwy o ysgolion i weithio gyda CVQO wrth i'r sefydliad gynnig ei frand o ddysgu i ddysgwyr cyn-16 yn ogystal.

14:44 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I, too, welcome the cadet vocational qualifications programme, and I thank you for continuing it. I am interested in what criteria will be used to find out whether these CVQs are providing good value for money.

Ddirprwy Weinidog, rwyf innau hefyd yn croesawu rhaglen gymwysterau galwedigaethol y cadetiaid a diolch i chi am ei pharhau. Mae gennyf ddiddordeb yn y meini prawf a ddefnyddir i ganfod a yw'r CVQs hyn yn darparu gwerth da am arian.

14:45 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

An assessment of this will form part and parcel of the new funding framework that is being introduced to ensure that the qualifications that are offered meet local needs. Therefore, there will be ân onus on providers to ensure that they are matched up to the local labour market, so that they are delivering positive pathways for young people.

Bydd asesiad o hyn yn rhan annatod o'r fframwaith ariannu newydd sy'n cael ei chyflwyno i sicrhau bod y cymwysterau sy'n cael eu cynnig yn bodloni anghenion lleol. Felly bydd cyfrifoldeb ar ddarparwyr i sicrhau eu bod yn cyfateb i'r farchnad lafur leol fel eu bod yn darparu llwybrau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc.

Senedd.tv Fideo Video

### Technocamps

### Technocamps

14:45 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y Technocamps yng Nghymru? OAQ(4)0421(ESK)*

*7. Will the Minister make a statement on the future of the Technocamps in Wales? OAQ(4)0421(ESK)*

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for South Wales West. I understand that the Welsh European Funding Office is having ongoing discussions in relation to a possible extension and continuation of funding. Given the stage of negotiation, it would not be appropriate for me to comment further.

Diolch i'r Aelod dros Orllewin De Cymru. Rwy'n deall bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru mewn trafodaethau ar hyn o bryd ynglŷn â'r posibilrwydd o ymestyn a pharhau'r cyllid. O ystyried bod trafodaethau ar y gweill, ni fyddai'n briodol i mi roi sylwadau pellach.

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

In that case, that kind of stifles my next question. Having spoken at length to people who deliver Technocamps and the people who use them, there is no doubt that this experience is an extremely positive one. I know that local employers, students and academia see them as a positive step forward. The current regime of Technocamps is in danger, as you are aware, of funding withdrawal in September. This, to me, seems counterintuitive, as the camps deliver the kind of skills and workforce that Wales will need. I was going to ask you whether you would outline what exactly is happening with the funding element of this innovative programme, but I appreciate your position.

Os felly, mae hynny'n llyffetheirio fy nghwestiwn nesaf. Ar ôl siarad yn hir â phobl sy'n darparu Technocamps a'r bobl sy'n eu defnyddio, nid oes amheuaeth fod y profiad yn un hynod o gadarnhaol. Gwn fod cyflogwyr lleol, myfyrwyr a'r byd academaidd yn eu gweld fel cam cadarnhaol ymlaen. Mae perygl y bydd trefn ariannu bresennol Technocamps yn dod i ben ym mis Medi fel y gwyddoch. I mi, mae hyn i'w weld yn mynd yn groes i'r graen, gan fod y gwersylloedd yn darparu'r math o sgiliau a gweithlu y bydd eu hangen ar Gymru. Roeddwn yn mynd i ofyn i chi a fyddech yn amlinellu beth yn union sy'n digwydd o ran ariannu'r rhaglen arloesol hon, ond rwy'n ymwybodol o'ch sefyllfa.

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Yes, but I think that I can help the Member. First of all, I should say that I am more than aware of—and do not deny for a moment—the very positive reception that Technocamps and Technoteach have received during the time that they have been working. I can say that I understand that officials have been in contact with the project, and that they are currently awaiting the detailed financial and project information that they require to assess the proposal.

Iawn, ond rwy'n meddwl y gallaf helpu'r Aelod. Yn gyntaf oll, dylwn ddweud fy mod yn dra ymwybodol o'r derbyniad cadarnhaol iawn y mae Technocamps a Technoteach wedi'u cael yn yr amser y maent wedi bod yn weithredol—nid wyf yn gwadu hynny am eiliad. Gallaf ddweud fy mod yn deall bod swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â'r prosiect a'u bod ar hyn o bryd yn aros am wybodaeth fanwl am y trefniadau ariannol a'r prosiect sydd ei hangen arnynt er mwyn asesu'r cais.

Senedd.tv Fideo Video

### System Bandio Ysgolion

### School Banding System

14:47 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y system bandio ysgolion? OAQ(4)0420(ESK)*

*8. Will the Minister make a statement on the school banding system? OAQ(4)0420(ESK)*

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Ynys Môn. The planned review of the measures included in the secondary school banding model and the development of a primary school grading model are now under way.

Diolch i'r Aelod dros Ynys Môn. Mae'r adolygiad arfaethedig o'r mesurau a gynhwysir yn y model bandio ysgolion uwchradd a'r gwaith o ddatblygu model graddio ysgolion cynradd bellach ar y gweill.

14:47 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn ichi. Mae llythyr a anfonwyd ataf gan etholwraig sy'n athrawes yn codi pryderon gwirioneddol ynglŷn â'r system fandio. Mae'n sôn mewn manylder am effaith negyddol bandio ar forâl athrawon ac ar y berthynas â rhieni—rhestr faith o faterion. Mae'r llythyr hefyd yn dweud bod y system hon yn niweidiol i gydweithio rhwng ysgolion er mwyn codi safonau. Mae hynny, fel y mae'r Gweinidog yn ei wybod, yn rhywbeth sy'n cael ei godi fel pryder hefyd yn adroddiad diweddar yr OECD, sy'n dweud bod bandio'n ansensitif i'r amrywiaeth naturiol a geir o flwyddyn i flwyddyn mewn ysgol, a'r amser y mae'n cymryd i gyflwyno gwelliannau, ac yn y blaen. A yw'r Gweinidog yn cytuno â'r OECD mai'r ateb hirdymor, ni waeth beth fo'r newidiadau a allai gael eu cyflwyno yn y byrdymor, yw cael gwared ar y system fandio yng Nghymru?

Thank you very much. A letter sent to me by a constituent who is a teacher raises serious concerns about the banding system. She goes into some detail about the negative impact of banding on the morale of teachers and on the relationship with parents—there is a long list of issues. The letter also states that the system is damaging to collaboration between schools with the aim of raising standards. As the Minister knows, that point is raised as a concern in the recent OECD report, which says that banding is insensitive to the natural year-on-year variation in schools and the time it takes to introduce changes, and so on. Does the Minister agree with the OECD that the long-term solution, regardless of the changes that could be introduced in the short term, is to abolish the banding system in Wales?

14:48 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I would not. Banding is here to stay, certainly for the foreseeable future. Banding works. If you take a look at the difference that banding has made just in its very short lifetime thus far to the performance of band 4 and band 5 schools, you can see that it is making a positive difference. Sixty-five out of the 83 band 4 and 5 schools last year saw improvements in the percentage of pupils achieving the level 2 threshold, including English and Welsh first language and mathematics—level 2 inclusive, in other words—between 2012 and 2013. Band 5 schools have seen the overall percentage of pupils achieving level 2 inclusive increase from 35% in 2012 to 45% in 2013. Behind those figures lie near to 500 young people in just this short stretch of time who have been handed a passport to a different future through gaining five good GCSEs, which I believe they might not have been in receipt of prior to banding.

Nac ydw. Mae bandio yma i aros, yn sicr ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Mae bandio'n gweithio. Os edrychwch ar y gwahaniaeth y mae bandio wedi'i wneud yn ystod ei oes fer hyd yma i berfformiad ysgolion band 4 a band 5, gallwch weld ei fod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae chwe deg-pump o'r 83 ysgol band 4 a 5 y llynedd wedi gwella o ran canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg a Saesneg iaith gyntaf a mathemateg—trothwy cynwysedig lefel 2, mewn geiriau eraill—rhwng 2012 a 2013. Mae canran gyffredinol y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy cynwysedig lefel 2 yn yr ysgolion band 5 wedi codi o 35% yn 2012 i 45% yn 2013. Y tu ôl i'r ffigurau hynny, mae bron i 500 o bobl ifanc dros y cyfnod byr hwn yn unig wedi cael pasbort i ddyfodol gwahanol drwy ennill pum TGAU da, nad wyf yn credu y byddent wedi'u cael cyn cyflwyno'r bandiau.

14:49 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, following on from that point, I very much welcome what you have just said about banding because I very much support it. My only concern, however, is that there are misconceptions and misperceptions about what it is and how it works. Would you give consideration to renewing publicity and information that explains that to parents, because it is an issue that arises regularly in constituencies?

Weinidog, gan ddilyn ymlaen o'r pwynt hwnnw, rwy'n croesawu'n fawr yr hyn rydych newydd ei ddweud am fandio oherwydd fy mod yn gefnogol iawn iddo. Fy unig bryder, fodd bynnag, yw bod camsyniadau a chamddealltwriaeth yn bodoli ynghylch beth ydyw a sut y mae'n gweithio. A fyddech yn ystyried adnewyddu cyhoeddusrwydd a gwybodaeth sy'n esbonio hynny i rieni, gan ei fod yn fater sy'n codi'n rheolaidd yn yr etholaethau?

14:50 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is indeed; the Member for Pontypridd is quite right. Those misconceptions and misunderstandings are not helped by the ill-thought-out comments of opposition parties, the semi-informed opinions of some journalists and commentators, and, I have to say, unfortunately, the naysayers in some of our teaching unions, who seem to think that the spreading of misinformation and alarm about what school banding is all about somehow pushes the prospects of Welsh education forward. I am bewildered by it myself. However, I must say this to the Member for Pontypridd: we publish a guide to school banding on the Welsh Government website. This guide is circulated to schools and local authorities every year, and they are encouraged to share the guide with parents and carers. It is to that that I would primarily point concerned parents and carers. It includes a link to the guide on school websites. There is also a comprehensive question-and-answer document published on the Welsh Government website, and this is updated annually in advance of the banding publication.

Ydy'n wir; mae'r Aelod dros Bontypridd yn llygad ei le. Nid yw camsyniadau a chamddealltwriaeth yn cael eu helpu gan sylwadau byrbwyll y gwrthbleidiau, barn led-wybodus rhai newyddiadurwyr a sylwebyddion, ac yn anffodus, rhaid i mi ddweud, y drwgdybwyr yn rhai o'n hundebau athrawon sydd i'w gweld yn meddwl bod lledaenu camwybodaeth a dychryn ynghylch yr hyn y mae a wnelo bandio ysgolion rywsut yn gwella rhagolygon addysg yng Nghymru. Mae'n fy synnu i. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddweud hyn wrth yr Aelod dros Bontypridd: rydym yn cyhoeddi canllaw ar fandio ysgolion ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r canllaw'n cael ei ddosbarthu i ysgolion ac awdurdodau lleol bob blwyddyn a chânt eu hannog i'w rannu â rhieni a gofalwyr. At hynny yr hoffwn dynnu sylw rhieni a gofalwyr yn bennaf. Mae'n cynnwys dolen at y canllaw ar wefannau ysgolion. Hefyd, cyhoeddwyd dogfen holi ac ateb ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei diweddaru bob blwyddyn cyn y cyhoeddiad bandio.

Banding is very simply about driving up performance in all schools and identifying schools that are in most need of support. That is it, simply put.

Ymwneud â gwella perfformiad pob ysgol y mae bandio yn syml iawn, a nodi'r ysgolion sydd fwyaf o angen cymorth. Dyna ydyw, yn syml iawn.

14:51 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your previous answers. What I would like to know is how the school banding system will serve to drive standards up and not reward failure, and, in particular, how it will deliver your commitment to break the link between poverty and attainment.

Diolch i chi, Weinidog, am eich atebion blaenorol. Yr hyn yr hoffwn ei wybod yw sut y bydd y system fandio ysgolion yn fodd o wella safonau yn hytrach na gwobrwyo methiant, ac yn benodol, sut y bydd yn cyflawni eich ymrwymiad i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad.

14:51 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have already outlined the very real difference, at least in terms of one particular measure, namely the level 2 inclusive at GCSE, that banding has made in 12 months of its existence, and I am confident that we will see, as banding continues year-on-year, a continued improvement, particularly within those band 4 and band 5 schools. That alone, I think, is worth the effort of gathering the information and publishing the banding scores.

Rwyf eisoes wedi amlinellu'r gwahaniaeth real iawn, o leiaf o ran un mesur penodol, sef trothwy cynwysedig lefel 2 y TGAU, y mae bandio wedi'i wneud yn ystod y 12 mis y bu'n weithredol ac rwy'n hyderus y byddwn yn gweld gwelliant parhaus wrth i fandio barhau o un flwyddyn i'r llall, yn enwedig mewn ysgolion band 4 a band 5. Yn fy marn i, mae hynny ynddo'i hun yn werth yr ymdrech o gasglu'r wybodaeth a chyhoeddi'r sgoriau bandio.

The primary purpose, as I say, is to identify those schools that are in most need of support, to ensure that, in partnership with local authorities and consortia, we direct our support and resources most effectively to secure the improvements necessary in our school system. It also, of course, helps us to identify those schools and school leaders that are the very best in terms of people from whom the sector as a whole can learn, and we are using those people more and more. The headteacher of Rhyl High School was mentioned; that headteacher is now not just working in Rhyl High School, but assisting in terms of improvement in Blaenau Gwent for instance.

Fel y dywedais, y prif ddiben yw nodi'r ysgolion sydd fwyaf o angen cymorth, er mwyn sicrhau ein bod, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chonsortia, yn cyfeirio ein cefnogaeth a'r adnoddau mwyaf effeithiol i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol yn ein system ysgolion. Mae hefyd, wrth gwrs, yn ein helpu i nodi'r ysgolion a'r arweinwyr ysgol gorau o ran y bobl y gall y sector cyfan ddysgu ganddynt ac rydym yn defnyddio'r bobl hynny fwy a mwy. Soniwyd am bennaeth Ysgol Uwchradd Y Rhyl; nid yn Ysgol Uwchradd Y Rhyl yn unig y mae'r pennaeth yn gweithio bellach; mae hi hefyd yn helpu i wella ym Mlaenau Gwent er enghraifft.

14:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Aled Roberts.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

14:53 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Weinidog, mae'n rhaid imi ddweud, a minnau wedi bod yn llywodraethwr am ryw 20 mlynedd mewn ysgolion cynradd, nad wyf yn cytuno â chi ynglŷn â graddio. Er hynny, os ydych yn datblygu eich polisi ynglŷn â graddio ysgolion cynradd mewn modd tebyg i fandio, a ydych yn ystyried rhoi cymorth ariannol, fel yr ydych yn ei wneud gyda'r ysgolion uwchradd hynny lle, yn eich tyb chi, mae angen cymorth ychwanegol?

Thank you, Presiding Officer. Minister, I have to say that, having been a school governor for some 20 years in primary schools, I do not agree with you about grading. However, if you are to develop your policy on the grading of primary schools in a similar way to that of banding, are you considering the provision of financial assistance, as you are doing in the case of secondary schools that, in your view, need additional support?

14:53 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Aled Roberts does not agree with primary school grading, although I do not believe that he has really seen anything that really describes what primary school grading is going to look and feel like, since it has not been published. Nevertheless, he already disagrees with it. That is an interesting stance for the Welsh Liberal Democrats to take. This model is being developed, again to help us to better identify schools that are in most need of support, and I will have to consider the second part of his question on how we need to address that issue of need when it comes to support. It will also give parents across Wales a clear picture of how their local school is performing. It will be simple in essence and straightforward, relying on data that tell us some important truths about how a school is performing.

Nid yw Aled Roberts yn cytuno â graddio ysgolion cynradd er nad wyf yn credu ei fod wedi gweld unrhyw beth sy'n disgrifio sut beth fydd graddio ysgolion cynradd, gan nad oes dim wedi'i gyhoeddi mewn gwirionedd. Serch hynny, mae eisoes yn anghytuno ag ef. Dyna safbwynt diddorol i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ei arddel. Unwaith eto, mae'r model yn cael ei ddatblygu i'n helpu i nodi'n fwy effeithiol pa ysgolion sydd fwyaf o angen cymorth, a bydd yn rhaid i mi ystyried ail ran ei gwestiwn ar sut y mae angen i ni ymdrin â'r mater o angen wrth ystyried cymorth. Bydd hefyd yn rhoi darlun clir i rieni ledled Cymru o sut y mae eu hysgol leol yn perfformio. Bydd yn syml yn ei hanfod ac yn uniongyrchol, gan ddibynnu ar ddata sy'n dweud rhai gwirioneddau pwysig wrthym ynglŷn â sut y mae ysgol yn perfformio.

14:54 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I disagree with grading because, at the end of the day, you have so many different categorisations as a Government, and the time that you take to develop your degree categorisations means that a lot of the effort of schools is put into actually responding to Government and consortia requests, rather than getting on with the job. Be that as it may, we currently have a review of your secondary banding system. That sits alongside a regional consortia categorisation scheme that was developed entirely differently in different consortia. From April of this year, you have agreed on a national categorisation scheme for those consortia. How does the national categorisation scheme sit alongside the school banding system?

Rwy'n anghytuno â graddio oherwydd yn y pen draw, mae gennych gymaint o wahanol gategorïau fel Llywodraeth ac mae'r amser a gymerwch i ddatblygu eich categorïau graddio yn golygu bod llawer o ymdrech ysgolion yn mynd ar ymateb i geisiadau'r Llywodraeth a chonsortia mewn gwirionedd, yn hytrach na bwrw ymlaen â'r gwaith. Boed hynny fel y bo, ar hyn o bryd mae gennym adolygiad o'ch system fandio uwchradd. Mae'n cydredeg â chynllun categoreiddio consortia rhanbarthol sydd wedi'i ddatblygu'n hollol wahanol gan wahanol gonsortia. Ers mis Ebrill eleni, rydych wedi cytuno ar gynllun categoreiddio cenedlaethol ar gyfer y consortia hynny. Sut y mae'r cynllun categoreiddio cenedlaethol yn cydweddu â'r system fandio ysgolion?

14:55 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I hope very much that the efforts of schools are connected with working alongside consortia since the reason for the existence of consortia is that we travel on a journey of school improvement. If schools were not putting effort into that, I would be worried. If the Welsh Liberal Democrats think that schools ought to put less effort into improvement, they should say so plainly. There is no confusion here, apart from the confusion that opposition parties are trying to stir up. The categorisation of schools has been a feature of the educational landscape for a very long time. It is something that local authorities have done for as long as I can recall, and this now, with the coming of consortia, is something that is important in terms of that detailed examination of how schools are performing that the consortia and schools need in order to plan and map out their school improvement journey. So, nothing has changed there. That categorisation is largely a matter for people internal to the system. That does not affect banding, which faces outwards, in any way, and which is about informing the community and parents about where the school stands in terms of its improvement journey at the moment and providing grading for primary schools, because primary schools are a very different type of institution. For instance, they do not have GCSEs and A-levels to worry about, so we have to look at primary schools in a very different way. I do not think that the Welsh public is as easily confused as the Welsh Liberal Democrats.

Yn gyntaf oll, rwy'n gobeithio'n fawr iawn fod ymdrechion yr ysgolion yn gysylltiedig â gweithio ochr yn ochr â chonsortia gan mai'r rheswm dros fodolaeth y consortia yw ein bod ar daith i wella ysgolion. Pe na bai ysgolion yn ymdrechu yn hynny o beth, byddwn yn poeni. Os yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y dylai ysgolion wneud llai o ymdrech i wella, dylent ddweud hynny'n eglur. Nid oes dryswch yma, ar wahân i'r dryswch y mae'r gwrthbleidiau'n ceisio ei gymell. Mae categoreiddio ysgolion wedi bod yn nodwedd o'r dirwedd addysgol ers amser hir iawn. Mae'n rhywbeth y mae awdurdodau lleol wedi'i wneud cyhyd ag y gallaf gofio, ac mae hyn yn awr, gyda datblygu'r consortia, yn bwysig o ran yr archwiliad manwl o'r modd y mae ysgolion yn perfformio sydd ei angen ar gonsortia ac ysgolion er mwyn cynllunio a mapio eu taith tuag at welliant. Felly nid oes dim wedi newid yn hynny o beth. Mater i bobl o fewn y system i raddau helaeth yw categoreiddio o'r fath. Nid yw hynny'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar fandio, sy'n wynebu tuag allan, ac sy'n ymwneud â hysbysu'r gymuned a rhieni ble y mae'r ysgol wedi cyrraedd ar hyn o bryd ar ei thaith tuag at welliant a darparu graddau ar gyfer ysgolion cynradd, gan fod ysgolion cynradd yn fath gwahanol iawn o sefydliad. Er enghraifft, nid oes ganddynt arholiadau TGAU a Safon Uwch i boeni amdanynt, felly mae'n rhaid i ni edrych ar ysgolion cynradd mewn ffordd wahanol iawn. Nid wyf yn credu bod y cyhoedd yng Nghymru yn drysu mor hawdd â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now move on to question 9, and slightly more succinct answers would be very much appreciated, Minister.

Symudwn yn awr at gwestiwn 9, a byddem yn gwerthfawrogi atebion ychydig yn fwy cryno, Weinidog.

### Cyfleoedd Addysgol

### Educational Opportunities

14:57 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyfleoedd addysgol i bobl ifanc o Gwm Cynon? OAQ(4)0423(ESK)*

*9. What is the Welsh Government doing to improve educational opportunities for young people from the Cynon Valley? OAQ(4)0423(ESK)*

14:57 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the Cynon Valley. We are implementing a range of actions to improve educational standards and improve the learning experience across Wales. It is important that we have appropriate environments for our learners, and, this month, the First Minister and I launched our twenty-first century schools programme at the fantastic new Aberdare Community School site.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon. Mae gennym amryw o gamau gweithredu ar waith i wella safonau addysgol a gwella'r profiad dysgu ledled Cymru. Mae'n bwysig fod gennym amgylcheddau priodol ar gyfer ein dysgwyr, a'r mis hwn, lansiodd y Prif Weinidog a minnau ein rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ar safle newydd gwych Ysgol Gymunedol Aberdâr.

14:57 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was very pleased that you did that. This is one of the early start projects to benefit from funding. As a result of the work that you have done with the Minister for Finance, Jane Hutt, £200 million of the twenty-first century schools funding has been brought forward through the local government borrowing initiative to help to complete the programme by 2018-19, which is two years ahead of schedule. Minister, would you agree with me that this is an example of the sort of innovative financing that Wales needs to make more use of in accelerating capital investment projects in education, which will help to transform learning environments in Aberdare and right across Wales?

Rwy'n falch iawn eich bod wedi gwneud hynny. Mae hwn yn un o'r prosiectau dechrau'n gynnar sydd wedi elwa ar gyllid. O ganlyniad i'r gwaith rydych wedi'i wneud gyda'r Gweinidog Cyllid, Jane Hutt, mae £200 miliwn o'r cyllid ar gyfer ysgolion yr unfed ganrif ar hugain wedi'i ddwyn ymlaen drwy fenter benthyca llywodraeth leol i helpu i gwblhau'r rhaglen erbyn 2018-19, ddwy flynedd yn gynt na'r disgwyl. Weinidog, a fyddech yn cytuno bod hon yn enghraifft o'r math o ariannu arloesol sydd angen i Gymru wneud mwy o ddefnydd ohono wrth gyflymu prosiectau buddsoddi cyfalaf mewn addysg, a fydd yn helpu i drawsnewid amgylcheddau dysgu yn Aberdâr ac ym mhob rhan o Gymru?

14:58 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would agree, as it is important that we consider a range of funding options to enable investment to take place. That might involve using innovative finance in conjunction with capital funding, and this will undoubtedly help us to deliver that accelerated programme, as the Member described, for schools and colleges in Wales both now and in the future. Here in Wales, we remain committed to that transformative capital investment in our educational estate—something that has been abandoned across the border in England.

Byddwn yn cytuno, gan ei bod yn bwysig i ni ystyried ystod o opsiynau cyllido er mwyn galluogi buddsoddiadau. Gallai hynny gynnwys defnyddio cyllid arloesol ar y cyd â chyllid cyfalaf a bydd hyn yn sicr yn ein helpu i gyflawni'r rhaglen garlam honno, fel y disgrifiodd yr Aelod, ar gyfer ysgolion a cholegau yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Yma yng Nghymru, rydym yn parhau'n ymrwymedig i fuddsoddi cyfalaf trawsnewidiol yn ein hystâd addysgol-rhywbeth y maent wedi rhoi'r gorau i'w wneud ar draws y ffin yn Lloegr.

14:58 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the first ports of call for many young people if they want to advance their educational experience and get better qualifications is the further education sector. We can argue about the fact that the Welsh Government's budget has been cut this year and, therefore, your delivery to FE has been cut as well, but it is a fact that £7.5 million less is going into further education this year. What are your officials doing to monitor that courses are sustainable in the FE sector and, indeed, that as many students as possible who wish to access the FE sector to increase their learning experience and their earning potential in the employment market can achieve success on those courses?

Weinidog, un o'r mannau cyntaf y bydd llawer o bobl ifanc yn troi atynt er mwyn datblygu eu profiad addysgol a chael cymwysterau gwell yw'r sector addysg bellach. Gallwn ddadlau ynglŷn â'r ffaith fod cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cael ei thorri eleni ac felly, fod eich darpariaeth addysg bellach wedi'i thorri hefyd ond mae'n ffaith fod £7.5 miliwn yn llai yn mynd tuag at addysg bellach eleni. Beth y mae eich swyddogion yn ei wneud i fonitro bod cyrsiau'n gynaliadwy yn y sector addysg bellach ac yn wir, fod cymaint o fyfyrwyr â phosibl sy'n dymuno cael mynediad at y sector addysg bellach er mwyn gwella eu profiad dysgu a'u potensial ar gyfer ennill cyflog yn y farchnad gyflogaeth yn gallu llwyddo ar y cyrsiau hynny?

14:59 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government is working very hard to protect our learners in FE. I am very proud of the efforts that the Welsh Government has made and that further education institutions have made to make best use of the resources available, and, thus far, I think that it is true to say that most learners under 19, at least, have noticed very little difference, even in these times of austerity, to what is on offer in their local further education institution. I hope that we can sustain that. The Member would do best, perhaps, directing this question to his colleagues in Whitehall who continue to pressurise the Welsh block grant. That will feed through, and it will do harm to educational prospects and the spend within FE and elsewhere, right across the public sector here in Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed iawn i ddiogelu ein dysgwyr yn y sector addysg bellach. Rwy'n falch iawn o ymdrechion Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg bellach i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, a hyd yn hyn, rwy'n meddwl ei bod yn wir dweud mai ychydig iawn o wahaniaeth a welodd y rhan fwyaf o ddysgwyr o dan 19 oed o leiaf, hyd yn oed yn y cyfnod hwn o galedi, o ran yr hyn sy'n cael ei gynnig gan eu sefydliad addysg bellach lleol. Rwy'n gobeithio y gallwn gynnal hynny. Efallai y byddai'n well i'r Aelod gyfeirio'r cwestiwn at ei gydweithwyr yn Whitehall sy'n parhau i wasgu ar grant bloc Cymru. Bydd hynny'n bwydo drwodd ac yn niweidio rhagolygon addysgol a gwariant mewn addysg bellach ac mewn mannau eraill ar draws y sector cyhoeddus yma yng Nghymru.

15:00 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Improving educational opportunities for young people is particularly important in a Valleys constituency like the Cynon Valley, where chronic youth unemployment has meant that one in two 18 to 24-year-olds has been out of work, or not in education, according to data published over the last 18 months. Are you concerned, like me and plenty of other residents in Rhondda Cynon Taf, about the proposed council cuts to nursery education, and the impact that this will have on children later in their academic life? Or, perhaps, are we just semi-informed? Are you also, as Minister for education, being kept informed of the civil action that the parents of pupils in RCT are taking against the actions of the Labour-run council, which was heard in Cardiff this week and is due for judgment soon?

Mae gwella cyfleoedd addysgol i bobl ifanc yn arbennig o bwysig mewn etholaeth yn y Cymoedd fel Cwm Cynon lle mae diweithdra cronig ymysg pobl ifanc wedi golygu bod un o bob dau berson rhwng 18 a 24 mlwydd oed wedi bod allan o waith neu heb fod mewn addysg yn ôl data a gyhoeddwyd dros y 18 mis diwethaf. A ydych yn bryderus, fel finnau a llawer o drigolion eraill yn Rhondda Cynon Taf, am doriadau arfaethedig y Cyngor i addysg feithrin a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar blant yn ddiweddarach yn eu bywyd academaidd? Neu ai ni sy'n lled-wybodus, efallai? A ydych hefyd, fel y Gweinidog addysg, yn cael gwybod am y camau sifil y mae rhieni disgyblion yn Rhondda Cynon Taf yn eu cymryd yn erbyn gweithredoedd y cyngor Llafur a gafodd eu clywed yng Nghaerdydd yr wythnos hon ac y disgwylir dyfarniad yn eu cylch cyn bo hir?

Senedd.tv
Fideo Video

15:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Of course I am concerned. Of course I am concerned about the damage that austerity does to valued public services—nursery education in RCT being just one of those. However, I do not confuse myself or my constituents about where the blame lies for the very difficult decisions that local authorities are having to face. The blame lies not with Rhondda Cynon Taf County Borough Council; it lies with Westminster.

Wrth gwrs fy mod yn pryderu. Wrth gwrs fy mod yn pryderu am y niwed y mae caledi yn ei wneud i wasanaethau cyhoeddus gwerthfawr—a dim ond un o'r rheini yw addysg feithrin yn Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, nid wyf yn drysu fy hun na fy etholwyr ynghylch pwy sydd ar fai am y penderfyniadau anodd iawn y mae awdurdodau lleol yn gorfod eu hwynebu. Nid bai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw hyn ond bai San Steffan.

Senedd.tv
Fideo Video

15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv
Fideo Video

15:02

## Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Lefelau Cyfranogiad mewn Chwaraeon

## The Communities, Equality and Local Government Committee's Report on Participation Levels in Sport

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on Christine Chapman to move the motion.

Galwaf ar Christine Chapman i gynnig y cynnig.

Senedd.tv
Fideo Video

Cynnig NDM5509 Christine Chapman

Motion NDM5509 Christine Chapman

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Lefelau Cyfranogiad Mewn Chwaraeon, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2014.

Notes the report of the Communities, Equality and Local Government Committee into Participation Levels in Sport, which was laid in the Table Office on 13 March 2014.

15:02 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Senedd.tv
Fideo Video

It is widely accepted that keeping active is important in order to maintain a healthy lifestyle. As far as participating in sport is concerned, this is something that can have a substantial knock-on benefit for our communities and the way we live our lives. As this is such an important issue, the Communities, Equality and Local Government Committee decided to undertake an inquiry to look at how the Welsh Government was performing in this regard. Members were particularly concerned about the extent to which the Welsh Government and Sport Wales were achieving the goals set out in the programme for government, the 'Creating an Active Wales' action plan and the vision for Sport Wales.

Derbynnir yn eang fod cadw'n egnïol yn bwysig er mwyn cynnal ffordd o fyw iach. O ran cymryd rhan mewn chwaraeon, mae hyn yn rhywbeth a all gael effaith ganlyniadol sylweddol ar ein cymunedau a'r ffordd rydym yn byw ein bywydau. Gan fod hwn yn fater mor bwysig, penderfynodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gynnal ymchwiliad i edrych ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn perfformio yn y cyswllt hwn. Roedd yr Aelodau yn arbennig o bryderus ynglŷn ag i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn cyrraedd y nodau a amlinellir yn y rhaglen lywodraethu, cynllun gweithredu 'Creu Cymru Egnïol' a'r weledigaeth ar gyfer Chwaraeon Cymru.

We received 17 responses to our call for evidence, and heard oral evidence from 10 witnesses. I would like to thank all those who gave evidence and took the time to respond in writing. The committee made 12 recommendations and we are delighted that the Minister has accepted 10 of our recommendations and agreed in principle to the remaining two.

Cawsom 17 o ymatebion i'n galwad am dystiolaeth a chlywsom dystiolaeth ar lafar gan 10 o dystion. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth a rhoi amser i ymateb yn ysgrifenedig. Gwnaeth y pwyllgor 12 o argymhellion, ac rydym yn falch fod y Gweinidog wedi derbyn 10 o'n hargymhellion ac wedi cytuno mewn egwyddor ar y ddau arall.

During our inquiry the Welsh Government published its annual review of its programme for government, which stated that

Yn ystod ein hymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadolygiad blynyddol o'i rhaglen lywodraethu, a nododd fod

'participation in sports has shown a worrying decline for all age groups.'

'dirywiad sy'n peri pryder yn lefelau cyfranogiad pob grŵp oedran mewn chwaraeon.'

This made our inquiry timely and pertinent. The Welsh Government sets out the general policy direction for sports and physical activity programmes in Wales. Most of the funding is then provided to Sport Wales to deliver those objectives on its behalf. We heard from Sports Wales that men are more likely to participate in sports than women, and that adults in higher social grade households are more likely to participate in sports and leisure activities. The National Union of Teachers also pointed out that the situation in schools is bleak, reporting a decline in the percentage of primary and secondary school children participating in sport or recreation.

Roedd hyn yn gwneud ein hymchwiliad yn amserol ac yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y cyfeiriad polisi cyffredinol ar gyfer rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Yna, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddarparu i Chwaraeon Cymru er mwyn iddo gyflawni'r amcanion hynny ar ei rhan. Clywsom gan Chwaraeon Cymru fod dynion yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon na menywod a bod oedolion mewn cartrefi ar radd gymdeithasol uwch yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon hefyd fod y sefyllfa mewn ysgolion yn wael, gan nodi gostyngiad yng nghanran y plant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden.

During our session with the Minister, he accepted that further work was needed and we were pleased with his commitment to join up Welsh Government policies for physical activity. We are pleased that the Minister has agreed our first recommendation to publish a joint delivery plan produced by Sport Wales and Public Health Wales, along with a timetable for its implementation.

Yn ystod ein sesiwn gyda'r Gweinidog, derbyniai fod angen gwneud rhagor o waith ac roeddem yn falch gyda'i ymrwymiad i gydgysylltu polisïau Llywodraeth Cymru ar weithgarwch corfforol. Rydym yn falch fod y Gweinidog wedi cytuno ar ein hargymhelliad cyntaf i gyhoeddi cynllun cyflawni ar y cyd ac wedi'i gynhyrchu gan Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei weithredu.

We understand that there are a number of sources of data available for the purpose of measuring participation, and evidence suggests that there are concerns about the reliability of these data. We therefore welcome the Minister's commitment to undertake a review of all existing sources of data, and are pleased that he has agreed to work with Sport Wales and other organisations to identify alternative and more effective means of collecting data within black and minority ethnic communities.

Deallwn fod nifer o ffynonellau data ar gael at ddibenion mesur cyfranogiad ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pryderon ynglŷn â pha mor ddibynadwy yw'r data hwn. Felly rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gynnal adolygiad o'r holl ffynonellau presennol o ddata ac rydym yn falch ei fod wedi cytuno i weithio gyda Chwaraeon Cymru a sefydliadau eraill i nodi ffyrdd amgen a mwy effeithiol o gasglu data ymhlith cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

The need for a cultural shift in attitudes towards sport was identified by a number of respondents during our consultation, and Sport Wales emphasised the importance of schools shaping attitudes towards sport. We made a number of recommendations in this area that we feel will help to address these issues.

Nododd nifer o'r ymatebwyr i'n hymgynghoriad yr angen am newid diwylliannol mewn agweddau tuag at chwaraeon a phwysleisiodd Chwaraeon Cymru ei bod hi'n bwysig i ysgolion ffurfio agweddau tuag at chwaraeon. Gwnaethom nifer o argymhellion yn y maes y teimlwn y byddant yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

First of all, we recommended that the Minister give further consideration to addressing the lack of BME physical education teachers in Wales. The Minister has agreed in principle, and said that this is a matter for the Minister for education. We urge him to raise this matter with the Minister for education. However, we welcome the Minister's commitment to work with Sport Wales to put in place a programme to identify, and subsequently address, the barriers that are specific to people from BME backgrounds.

Yn gyntaf oll, gwnaethom argymhelliad y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i fynd i'r afael â'r diffyg athrawon addysg gorfforol o blith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae'r Gweinidog wedi cytuno mewn egwyddor a dywedodd mai mater i'r Gweinidog addysg yw hyn. Rydym yn ei annog i godi'r mater gyda'r Gweinidog addysg. Fodd bynnag, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i weithio gyda Chwaraeon Cymru i sefydlu rhaglen ar gyfer nodi a mynd i'r afael â rhwystrau penodol i bobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.

According to Sport Wales, the trends in participation have remained steady over the past 25 years, with men more likely to participate than women. We have, therefore, asked the Minister to ensure that further work is undertaken to identify ways to encourage girls, in particular, into sport, and to look at the types of sport or activities that appeal specifically to girls. On this point, I would like to draw Members' attention to some new research by Dr Nicola Williams-Burnett on the reasons women are not always attracted to sport. We also look forward to hearing from the Minister in the future.

Yn ôl Chwaraeon Cymru, mae'r tueddiadau o ran cyfranogiad wedi aros yn gyson dros y 25 mlynedd diwethaf, gyda dynion yn fwy tebygol o gymryd rhan na merched. O'r herwydd, rydym wedi gofyn i'r Gweinidog sicrhau bod rhagor o waith yn cael ei wneud i nodi ffyrdd o annog merched yn arbennig i gymryd rhan mewn chwaraeon ac i edrych ar y mathau o chwaraeon neu weithgareddau sy'n apelio'n benodol at ferched. Ar y pwynt hwn, hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at ymchwil newydd gan Dr Nicola Williams-Burnett ar y rhesymau pam nad yw merched bob amser yn cael eu denu at chwaraeon. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at glywed gan y Gweinidog yn y dyfodol.

On the role of local authorities, we heard evidence about the financial pressures faced by local authorities and that there is a need for greater collaboration between local authorities at a regional and national level in the delivery of sport and leisure services. We are pleased that the Minister has agreed to assess the impact of the reductions in local authority budgets on sport and leisure services.

O ran rôl yr awdurdodau lleol, clywsom dystiolaeth am y pwysau ariannol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu a bod angen mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol o ran darparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden. Rydym yn falch fod y Gweinidog wedi cytuno i asesu effaith y gostyngiadau yng nghyllidebau awdurdodau lleol ar wasanaethau chwaraeon a hamdden.

Many witnesses spoke about the valuable contribution of the free swimming scheme, and we are glad that the Minister will carry out a review to identify areas where take up is low and the reasons for that. In our final recommendation, we asked the Minister to publish an action plan setting out how he intends to increase the number of children under the age of 11 who can swim. While the Minister agreed in principle, we understand that this variance will form part of the review of free swimming, and we welcome that. I am therefore pleased to commend this report to the Assembly and I look forward to the debate.

Soniodd sawl tyst am gyfraniad gwerthfawr y cynllun nofio am ddim ac rydym yn falch y bydd y Gweinidog yn cynnal adolygiad i nodi ardaloedd lle y mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun yn isel a'r rhesymau am hynny. Yn ein hargymhelliad olaf, gofynnwyd i'r Gweinidog gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cynyddu nifer y plant o dan 11 oed sy'n gallu nofio. Er bod y Gweinidog yn cytuno mewn egwyddor, deallwn y bydd yr amrywiant hwn yn rhan o'r adolygiad o nofio am ddim ac mae hynny i'w groesawu. Rwy'n falch felly o gymeradwyo'r adroddiad hwn i'r Cynulliad ac edrychaf ymlaen at y ddadl.

15:07 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the committee for its work on this particular area. I am pleased to have had a chance to read the report, because, obviously, I am not a member of the committee. I have to say that I thought it was pretty blunt about the committee's unhappiness that, after a decade of stasis, there was even some decline in participation, despite the existence of Sport Wales. While that may invite the question about how far into national sloth we might have descended without Sport Wales, it invites some questions about whether, for £25 million of taxpayers' money, we have had value for money on that score. That, of course, is the purpose of scrutiny, and while, as I say, I was not a member of this committee, I was curious about this very upfront focus on monitoring and evaluation as well as any new evidence about what you may have found about barriers to participation.

Diolch i'r pwyllgor am ei waith ar y maes penodol hwn. Rwy'n falch o fod wedi cael cyfle i ddarllen yr adroddiad gan nad wyf yn rhan o'r pwyllgor. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn meddwl ei fod yn eithaf di-flewyn-ar-dafod ynghylch anhapusrwydd y pwyllgor fod ychydig o ostyngiad yn y lefelau cyfranogiad, a hynny ar ôl degawd o sefyll yn ei unfan, er gwaethaf bodolaeth Chwaraeon Cymru. Er y gallai hynny wahodd y cwestiwn i ba raddau o syrthni cenedlaethol y gallem fod wedi disgyn iddynt heb Chwaraeon Cymru, mae'n codi cwestiynau ynglŷn ag a ydym wedi cael gwerth am arian yn hynny o beth o'r £25 miliwn a wariwyd o arian y trethdalwyr. Dyna yw diben craffu wrth gwrs ac er nad oeddwn yn aelod o'r pwyllgor, fel y dywedais, roeddwn yn chwilfrydig ynghylch y ffocws parod ar fonitro a gwerthuso yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth newydd ar yr hyn y gallech fod wedi'i ddarganfod am y rhwystrau i gyfranogiad.

The report, as you say, questions data captured by Sport Wales in its annual school sport survey. When I see figures like 78% of pupils taking part in sport at a club outside school in the last year, I am not entirely sure whether I should be thrilled or cynical. Given that these data form a central role in measuring the outcomes in the programme for government, as well as influencing other sports bodies in their own work, I am pleased that the Minister has agreed to review the data, not least because I think that it will help Sport Wales.

Fel y dywedwch, mae'r adroddiad yn cwestiynu data a gasglwyd gan Chwaraeon Cymru yn ei arolwg blynyddol o chwaraeon ysgol. Pan welaf ffigyrau sy'n dangos bod 78% o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb y tu allan i'r ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf, nid wyf yn hollol siŵr a ddylwn fod yn falch iawn neu'n sinigaidd. O ystyried bod y data'n rhan ganolog o'r gwaith o fesur canlyniadau'r rhaglen lywodraethu, yn ogystal â dylanwadu ar gyrff chwaraeon eraill yn eu gwaith eu hunain, rwy'n falch fod y Gweinidog wedi cytuno i adolygu'r data, nid yn lleiaf oherwydd fy mod yn credu y bydd yn helpu Chwaraeon Cymru.

The report may well say that Sport Wales needed to up its game, but I think, Minister, it may hint that you need to do likewise, in terms of monitoring and evaluating work carried out in your name.

Efallai'n wir fod yr adroddiad yn dweud bod angen i Chwaraeon Cymru wella'i gêm ond yn fy marn i, Weinidog, efallai ei fod yn awgrymu bod angen i chi wneud yr un peth o ran monitro a gwerthuso gwaith a gyflawnir yn eich enw chi.

However, while I still have questions about the reach of Sport Wales consistently into rural Wales, for example, I am encouraged by how it, and other bodies, are capitalising on the Olympic bounce and on the Swans prestige in the west of my region. Locally, they seem to have grasped the agenda set out in your remit letter, Minister, in a sincere relationship with Neath Port Talbot County Borough Council, for example, and, more importantly, perhaps, in proactive attempts to penetrate particular communities, which are involved directly in deciding how money is spent on sports locally. Perhaps Communities First needs to give some serious thought as to how it can help Sport Wales—arts organisations, for that matter—become part of a community's identity, rather than looking at them as outsiders.

Fodd bynnag, er bod cwestiynau gennyf o hyd ynghylch cyrhaeddiad cyson Chwaraeon Cymru i gefn gwlad Cymru, er enghraifft, rwyf wedi fy nghalonogi gan y modd y mae'r corff hwn, a chyrff eraill, yn manteisio ar fowns y gemau Olympaidd ac ar fri'r Elyrch yng ngorllewin fy rhanbarth. Yn lleol, mae'n ymddangos eu bod wedi deall yr agenda a nodir yn eich llythyr cylch gwaith, Weinidog, mewn perthynas ddidwyll â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, er enghraifft, ac yn bwysicach efallai, mewn ymdrechion rhagweithiol i dreiddio i gymunedau penodol sy'n ymwneud yn uniongyrchol yn y broses o benderfynu sut y caiff arian ei wario ar chwaraeon yn lleol. Efallai fod angen i Cymunedau yn Gyntaf ystyried yn ddifrifol sut y gall helpu Chwaraeon Cymru—sefydliadau celfyddydol o ran hynny—i ddod yn rhan o hunaniaeth cymuned yn hytrach nag edrych arnynt fel dieithriaid.

Witnesses called for a greater emphasis on sport in schools and for a wider range of sports and physical activity to be on offer. I agree with that, because, like speaking Welsh, if it is something that you do just in school, you will not necessarily be that enthusiastic about it outside. While we do not fully understand the barriers, the fact that young people do not all rush to take part in traditional school sports surely must tell us something. Becoming a nation hooked on sport, and not just sports television channels, is clearly complicated.

Galwodd tystion am fwy o bwyslais ar chwaraeon mewn ysgolion ac am weld ystod ehangach o chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu cynnig. Rwy'n cytuno â hynny, oherwydd fel siarad Cymraeg, os yw'n rhywbeth rydych yn ei wneud yn yr ysgol yn unig, ni fyddwch mor frwdfrydig yn ei gylch y tu allan i'r ysgol o reidrwydd. Er nad ydym yn deall y rhwystrau'n llawn, rhaid bod y ffaith nad yw pob person ifanc yn rhuthro i gymryd rhan mewn chwaraeon ysgol traddodiadol yn dweud rhywbeth wrthym. Mae amlwg fod dod yn genedl sy'n gwirioni ar chwaraeon, yn hytrach na sianeli chwaraeon ar y teledu yn unig, yn fater cymhleth.

However often you put a picture of a healthy, young Jessica Ennis-Hill on a magazine cover, the inside pages of that magazine are still yelling at young women that they need to be skinny—or, skinny and orange, as seems increasingly to be the case. If you are not skinny, sport goes into the box marked 'difficult and humiliating', rather than 'let's do this with my mates', or 'let's see if I can get the hang of this'. However positively you promote sport in school and however sensitively you timetable extra-curricular activities, in some ethnic minority households, the father will say 'No', and that is the end of the discussion. Therefore, I am especially pleased to see the recommendation about having more PE teachers from BME backgrounds.

Pa mor aml bynnag y byddwch yn rhoi llun o Jessica Ennis-Hill ifanc iach ar glawr cylchgrawn, mae tudalennau y tu mewn i'r cylchgrawn yn dal i weiddi ar ferched ifanc fod angen iddynt fod yn denau—neu'n denau ac yn oren, yn ôl pob golwg. Os nad ydych yn denau, mae chwaraeon yn mynd i mewn i'r bocs pethau sy'n 'anodd ac yn codi cywilydd', yn hytrach na 'beth am i wneud hyn gyda fy ffrindiau', neu 'beth am i mi weld os gallaf i wneud hyn'. Pa mor gadarnhaol bynnag yr ewch ati i hyrwyddo chwaraeon yn yr ysgol a pha mor sensitif bynnag yr ewch ati i lunio amserlen ar gyfer gweithgareddau allgwricwlaidd, mewn rhai cartrefi lleiafrifol ethnig, bydd y tad yn dweud 'Na', a dyna ddiwedd ar y drafodaeth. Felly rwy'n arbennig o falch o weld yr argymhelliad ynghylch cael mwy o athrawon Addysg Gorfforol o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.

Last weekend, I had an unexpectedly lively morning watching wheelchair rugby—a festival of legalised, ritualised violence and skill. It was brilliant, but will it lead to a surge of participation in sport by people with disabilities? I think that 'a surge' is asking a lot, but things like the International Paralympic Committee games in Swansea later this year are likely to prompt an increase in both interest and participation and it will then be down to Sport Wales and associated bodies to make the most of that in terms of sustainability.

Y penwythnos diwethaf, cefais fore annisgwyl o fywiog yn gwylio rygbi cadair olwyn—gŵyl o drais defodol cyfreithlon a sgil. Roedd yn wych, ond a fydd yn arwain at ymchwydd yn niferoedd y bobl ag anableddau sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon? Rwy'n meddwl fod 'ymchwydd' yn gofyn llawer ond mae pethau fel gemau y Pwyllgor Paralympaidd Rhyngwladol yn Abertawe yn ddiweddarach eleni yn debygol o ysgogi cynnydd yn y diddordeb a lefelau cyfranogiad, a mater i Chwaraeon Cymru a chyrff cysylltiedig fydd manteisio i'r eithaf ar hynny wedyn o ran cynaliadwyedd.

Some barriers are just hurdles and can be jumped—and I was very keen to squeeze a sporting metaphor into this debate today, although I should perhaps have kept away from hurdling this week. Therefore, let us look at cricket instead. Cricket Wales and Chance to Shine recently welcomed the captain of the England women's team to Wales to promote the women's game. Unlike their male counterparts, the women's team won the Ashes and are hoping to capitalise on their success. The captain is taking part in coaching sessions at Welsh schools to try to encourage more girls to take up a sport that, I believe, is accessible to both genders equally. This is certainly a sport that we could look to offer more forcefully in schools, especially as there is a good network of local clubs to develop interest outside schools. Of course, the Ashes, which Julie Morgan mentioned earlier today, is a big opportunity for Cricket Wales to convert enthusiasm into the kind of participation levels that you would like to see, Minister.

Mae rhai clwydi'n hawdd eu neidio—ac roeddwn yn awyddus iawn i wasgu trosiad chwaraeon i mewn i'r ddadl hon heddiw, er efallai y dylwn fod wedi cadw'n glir o'r clwydi yr wythnos hon. Felly gadewch i ni edrych ar griced yn lle hynny. Yn ddiweddar, croesawodd Criced Cymru a Cyfle i Ddisgleirio gapten tîm merched Lloegr i Gymru i hyrwyddo gêm y merched. Yn wahanol i'w cymheiriaid gwrywaidd, enillodd tîm y merched Gyfres y Lludw ac maent yn gobeithio manteisio ar eu llwyddiant. Mae'r capten yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi mewn ysgolion yng Nghymru i geisio annog mwy o ferched i gymryd rhan mewn camp sydd, yn fy marn i, yr un mor hygyrch i'r ddau ryw. Mae'n sicr yn gamp y gallem fynd ati i'w chynnig yn fwy brwd mewn ysgolion, yn enwedig gan fod rhwydwaith da o glybiau lleol ar gyfer datblygu diddordeb y tu allan i'r ysgolion. Wrth gwrs, mae'r Lludw, fel y soniodd Julie Morgan yn gynharach heddiw, yn gyfle mawr i Criced Cymru droi brwdfrydedd yn lefelau cyfranogiad o'r math y byddech yn hoffi eu gweld, Weinidog.

15:12 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I attended an all-boy secondary school in what is now a Communities First area, where winter meant football and rugby, and the summer meant cricket and athletics. It appears that, as the breadth of opportunity to engage in different sports has increased, participation levels have gone in the opposite direction. I was there at a time when teenage obesity was caused by health problems, as opposed to the situation today, where teenage obesity is causing health problems.

Mynychais ysgol uwchradd i fechgyn yn unig mewn ardal sydd bellach yn ardal Cymunedau yn Gyntaf lle golygai'r gaeaf bêl-droed a rygbi a golygai'r haf griced ac athletau. Gyda chynyddu ehangder y cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon gwahanol, mae'n ymddangos bod lefelau cyfranogiad wedi mynd i'r cyfeiriad arall. Roeddwn i yno ar adeg pan oedd gordewdra ymhlith rhai yn eu harddegau yn cael ei achosi gan broblemau iechyd yn hytrach na'r sefyllfa sydd gennym heddiw, pan fo gordewdra ymhlith rhai yn eu harddegau'n achosi problemau iechyd.

I want to discuss five of the recommendations. The first is recommendation 5 on community sport and child poverty. First, I commend the City and County of Swansea for the number of multi-use games areas—known locally as MUGAs—football goal posts, basketball hoops, keep-fit equipment and skateboard areas, which are made available through the parks. This provides an opportunity for people to go out, keep fit and engage in activity. The football goalposts are incredibly popular and anybody who is used to visiting parks will know that children quite often use the football goalposts when they are not supposed to on pitches that do not necessarily benefit from being used outside organised games.

Rwyf am drafod pump o'r argymhellion. Y cyntaf yw argymhelliad 5 ar chwaraeon cymunedol a thlodi plant. Yn gyntaf, rwy'n cymeradwyo Dinas a Sir Abertawe ar y nifer o fannau chwarae amlddefnydd—a elwir yn MUGA yn lleol—sydd ar gael drwy'r parciau ac sy'n darparu pyst gôl pêl-droed, cylchoedd pêl-fasged, offer cadw'n heini ac ardaloedd sgrialu. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl fynd allan, cadw'n heini a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r pyst gôl pêl-droed yn hynod boblogaidd a bydd unrhyw un sy'n arfer ymweld â pharciau'n gwybod bod plant yn aml yn defnyddio pyst gôl pêl-droed pan nad ydynt i fod i wneud hynny ar gaeau nad ydynt o reidrwydd yn elwa o gael eu defnyddio at ddibenion heblaw gemau wedi'u trefnu.

The council's commitment to providing sports facilities for young people is an example to other local authorities across Wales. I was fortunate enough to attend the launch of Street Sport Wales in Blaenymaes last week. For children living in Communities First areas, there is a need to have sporting activities that are cost-free. It is pointless having activities that will cost £3 or £5 per day or per session for people to take part. It is important that these activities are available at a cost of zero so that children can just turn up and do it—a bit like we used to, when we used to play football on bits of grass.

Mae ymrwymiad y Cyngor i ddarparu cyfleusterau chwaraeon i bobl ifanc yn esiampl i awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru. Roeddwn yn ddigon ffodus i fynychu lansiad Chwaraeon Stryd Cymru ym Mlaenymaes yr wythnos diwethaf. I blant sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, mae angen gweithgareddau chwaraeon sy'n ddigost. Nid oes diben cael gweithgareddau a fydd yn costio £3 neu £5 y dydd neu y sesiwn i bobl allu cymryd rhan. Mae'n bwysig fod y gweithgareddau hyn ar gael am ddim fel mai dim ond dod yno a chymryd rhan sydd angen i blant ei wneud-yn debyg i fel roedd hi o'r blaen, pan fyddem yn chwarae pêl-droed ar dameidiau o laswellt.

I now want to discuss recommendation 8 on identifying ways to encourage girls to take part in sport. It has been shown that the drop-out rate in sport for teenage girls is much greater than it is for boys. Research is essential in order to find out why many teenage girls want to stop being involved in sporting activity, and what can be done to encourage them to become more involved in exercise as opposed to sporting activity. My own expectation is that dance, Zumba and keep-fit, carried out in a school gym, would interest more girls than outdoor activities. That is not to take away from the number of girls who are very successful at a whole range of sports, including one of my constituents who was one of the best footballers in Wales and represented Wales at every age level. However, we do need to ask teenage girls questions that get to the real reasons for lack of activity, and what they would like to take part in, rather than what we are going to provide for them. That is another one of the problems we have: someone else knows best.

Rwyf am drafod argymhelliad 8 ar nodi ffyrdd o annog merched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Dangoswyd bod y gyfradd sy'n rhoi'r gorau iddi mewn chwaraeon i ferched yn eu harddegau yn llawer uwch nag ymhlith bechgyn. Mae ymchwil yn hanfodol er mwyn canfod pam y mae llawer o ferched yn eu harddegau eisiau rhoi'r gorau i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, a beth y gellir ei wneud i'w hannog i gymryd mwy o ran mewn ymarfer corff yn hytrach na gweithgaredd chwaraeon. Yr hyn y byddwn yn ei ddisgwyl yw bod dawns, Zumba a chadw'n heini wedi'i gynnal yng nghampfa'r ysgol o ddiddordeb i fwy o ferched na gweithgareddau awyr agored. Nid yw hyn yn tynnu dim i ffwrdd oddi wrth y nifer o ferched sy'n llwyddiannus iawn mewn ystod eang o chwaraeon, gan gynnwys un o fy etholwyr a oedd yn un o'r pêl-droedwyr gorau yng Nghymru ac a gynrychiolai Gymru ar bob lefel oedran. Fodd bynnag, mae angen i ni ofyn cwestiynau i ferched yn eu harddegau sy'n cyrraedd y rhesymau go iawn dros y diffyg gweithgarwch corfforol a'r hyn y byddent yn hoffi cymryd rhan ynddo, yn hytrach na'r hyn rydym yn bwriadu ei ddarparu ar eu cyfer. Dyna un arall o'r problemau sydd gennym: rhywun arall sy'n gwybod orau o hyd.

Recommendation 9 asks for an assessment of the reduction in local government budgets on access to sport and leisure facilities. As local government budgets are reduced and the increase in the cost of elderly care and of children's social services continues, the pressure on non-statutory services such as sport and leisure has increased. Increasing the cost of sport facilities acts as a huge barrier to children and younger people, especially those from less well-off areas, and, once activity stops, it is very difficult to get people to start up again. I reiterate my view that cutting back on leisure facilities and increasing their costs will lead to a much higher cost for the health service in the future. If we end up with a group of people coming through who are unfit, that is going to cost a lot of money in the future.

Mae argymhelliad 9 yn gofyn am asesiad o effaith gostyngiad yng nghyllidebau llywodraeth leol ar fynediad at gyfleusterau chwaraeon a hamdden. Wrth i gyllidebau llywodraeth leol leihau ac wrth i'r cynnydd yng nghost gofal i'r henoed a gwasanaethau cymdeithasol i blant barhau, mae'r pwysau ar wasanaethau anstatudol megis chwaraeon a hamdden wedi cynyddu. Mae cynyddu cost cyfleusterau chwaraeon yn rhwystr mawr i blant a phobl ifanc, yn enwedig rhai o ardaloedd llai cefnog, a phan fydd pobl yn rhoi'r gorau i weithgaredd, mae'n anodd iawn eu cael i ddechrau eto. Rwy'n ailadrodd fy marn y bydd torri'n ôl ar gyfleusterau hamdden a chynyddu'r gost am eu defnyddio yn arwain at gost lawer uwch i'r gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Mae grŵp o bobl nad ydynt yn ffit yn mynd i gostio llawer o arian yn y dyfodol.

Recommendation 10 looks at opportunities to increase access to leisure facilities across Wales. This could be an opportunity to link two areas that I regularly talk about here—3G and 4G pitches and invest-to-save funding. I would urge the Government to engage in discussion with local authorities regarding accessing invest-to-save funding to increase the number of 3G and 4G pitches. This will reduce maintenance costs, and the pitches are also available for continual use.

Mae argymhelliad 10 yn edrych ar gyfleoedd i gynyddu mynediad at gyfleusterau hamdden ledled Cymru. Gallai fod cyfle yma i gysylltu dau faes y byddaf yn siarad amdanynt yn rheolaidd yma—caeau 3G a 4G ac arian buddsoddi i arbed. Byddwn yn annog y Llywodraeth i gymryd rhan mewn trafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch dod o hyd i arian buddsoddi i arbed er mwyn cynyddu nifer y caeau 3G a 4G. Bydd hyn yn lleihau costau cynnal a chadw ac mae'r caeau ar gael at ddefnydd parhaus hefyd.

The final recommendation that I want to discuss is a review of free swimming. I believe that a review of where take-up is low is needed, and whether this is caused by the opportunity to swim in the sea, as a number of my constituents are closer to the sea than they are to any swimming pool, so obviously the sea takes priority. Is it the cost of getting to the venue? It is nice to have free swimming, but how do you get there? If free swimming is a bus ride or a four or five mile walk away, its being free does not necessarily solve all the problems.

Yr argymhelliad olaf rwyf am ei drafod yw'r adolygiad o nofio am ddim. Rwy'n credu bod angen adolygu lle mae lefelau defnydd yn isel, ac a yw hynny'n cael ei achosi gan y cyfle i nofio yn y môr gan fod nifer o fy etholwyr yn agosach at y môr nag y maent at bwll nofio, felly mae'n amlwg mai'r môr sy'n cael blaenoriaeth. A yw'n deillio o'r gost o gyrraedd y lleoliad? Mae'n braf cael nofio am ddim, ond sut ydych chi'n cyrraedd yno? Os yw nofio am ddim yn golygu taith mewn bws neu gerdded pedair neu bum milltir, nid yw'r ffaith ei fod am ddim o reidrwydd yn datrys yr holl broblemau.

I welcome the Government's positive response to the recommendations, and I hope that we can increase activity and participation, because, if we do not, it will have an effect on the Welsh economy and increase pressure on the Welsh health budget. So, it is important that we get people active and taking part in sport, but, more importantly, taking part in the sports that they want to take part in rather than the ones we think they ought to.

Rwy'n croesawu ymateb cadarnhaol y Llywodraeth i'r argymhellion ac rwy'n gobeithio y gallwn gynyddu gweithgaredd a lefelau cyfranogiad, oherwydd os na wnawn hynny, bydd yn cael effaith ar economi Cymru ac yn cynyddu'r pwysau ar gyllideb iechyd Cymru. Felly mae'n bwysig ein bod yn ysgogi pobl i fod yn egnïol a chymryd rhan mewn chwaraeon, ond yn bwysicach, i gymryd rhan yn y chwaraeon y maent am gymryd rhan ynddynt yn hytrach na'r rhai rydym yn credu y dylent gymryd rhan ynddynt.

15:17

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

A gaf i groesawu'r adroddiad yn fawr iawn? Roeddwn yn falch iawn o gael bod yn rhan o gasglu'r dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad a llunio'r argymhellion. Mae ein dyled yn fawr iawn, fel bob amser, i'r ysgrifenyddiaeth am ei gwaith ac i'r tystion am roi amser i gyflwyno'r dystiolaeth i ni. Yn anffodus, y teimlad a gawsom ar ddiwedd yr holl broses oedd bod y dystiolaeth yn cadarnhau yr hyn yr oeddem yn ei gwybod eisoes, sef bod anghyfartaledd yn bodoli o fewn chwaraeon yng Nghymru, a bod grwpiau yn teimlo fod rhwystrau iddynt ymwneud â chwaraeon yng Nghymru. Mae Chris Chapman, Cadeirydd y pwyllgor, wedi amlinellu'r ystadegau hynny yn barod—nid wyf am eu hailadrodd; rydym yn ymwybodol o'r problemau sydd yn bodoli.

May I very much welcome this report? I was very pleased to be able to be part of collecting the evidence for the report and drawing up the recommendations. We are most indebted, as always, to the secretariat for its work and to the witnesses for taking time to present the evidence to us. Unfortunately, the feeling that we had at the end of the whole process was that the evidence confirmed what we already knew, that is, that there is an inequality that exists within sport in Wales, and that there are groups that feel that there are obstacles to their involvement in sport in Wales. Chris Chapman, the committee Chair, has outlined those statistics already—I will not repeat them; we are aware of the problems that exist.

Rydym yn falch iawn, Weinidog, eich bod wedi derbyn 10 o’r argymhellion, eich bod yn derbyn mewn egwyddor y ddau arall, a’ch bod yn bwriadu cynnal asesiad o ymwneud â chwaraeon a chymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru. A gaf ofyn rhai cwestiynau i chi ynglŷn â’r asesiad hwnnw? Mae Chwaraeon Cymru wedi cyhoeddi adroddiad y mis hwn, ‘Cyflwr y Genedl’, lle mae’n sôn am y sefyllfa o ran chwaraeon yng Nghymru. Mae’n sôn yn benodol am anghyfartaledd o fewn chwaraeon, ac mae’n clustnodi swm o arian—£3 miliwn—i fynd i’r afael â hyn. A ydych chi wedi cael trafodaethau gyda Chwaraeon Cymru er mwyn gweld sut yn union y gellir buddsoddi’r arian hwn yn y ffordd fwyaf ymarferol er mwyn gwneud gwahaniaeth? Fel roeddwn yn ei ddweud, mae’r anghyfartaledd hwn yn wybodaeth sydd wedi bod gyda ni ers peth amser, ac eto nid oes newid sylfaenol wedi digwydd. Rwyf yn ymwybodol fod Chwaraeon Cymru wedi lansio cynllun newydd, ‘Sut mae’ch symud chi?’, sydd yn benodol yn edrych ar sicrhau bod menywod a merched yn teimlo bod ganddynt fwy o gyfleoedd o ran cymryd rhan mewn chwaraeon. Sut y bydd eich asesiad chi yn plethu i mewn i adroddiad Chwaraeon Cymru ynglŷn â chyflwr y genedl ar hyn o bryd a’r gweithgareddau y mae’n eu cyflawni?

We are very pleased, Minister, that you have accepted 10 of the recommendations, that you accept the other two in principle, and that you intend to carry out an assessment into sport and participation in sport in Wales. May I ask you some questions about that assessment? Sport Wales has published a report this month, ‘The State of the Nation’, in which it talks about the situation of sport in Wales. It talks specifically about inequality within sport, and it has earmarked an amount of money—£3 million—to address this. Have you had discussions with Sport Wales in order to see how exactly that funding can be invested in the most practical way in order to make a difference? As I was saying, we have been aware of this inequality for some time, and yet no fundamental change has occurred. I am aware that Sport Wales has launched a new scheme, ‘What moves you?’, which looks specifically at ensuring that women and girls feel that they have more opportunities to participate in sport. How will your assessment tie into Sport Wales’s report regarding the state of the nation at present and the activities that it is undertaking?

Un o’r ystadegau a oedd yn newydd i fi oedd y ffigur hwn o 10% o oedolion sy’n gwirfoddoli mewn chwaraeon. Rwy’n meddwl y byddai’n ddiddorol, o ran eich asesiad chi, Weinidog, i wybod a yw’r ganran honno wedi bod yn codi neu’n gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. A yw pobl yn teimlo bod rhwystrau iddynt wirfoddoli erbyn hyn, oherwydd bod y rheolau mor gaeth? Rydym ni i gyd yn gwybod pam fod y rheolau hynny yn eu lle a’u bod angen nhw er mwyn sicrhau ein bod ni’n amddiffyn ein plant a’n pobl ifanc ni, ond a ydy hynny wedi creu problemau o ran y gwirfoddolwyr hyn, sydd mor bwysig o ran sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon?

One of the statistics that was news to me was this figure of 10% of adults who volunteer in sport. I think it would be interesting, in terms of your assessment, Minister, to know whether that percentage has increased or decreased over recent years. Do people feel that there are obstacles to volunteering by now, because the rules are so strict? We all know why they are in place and that they are needed to ensure that we protect our children and young people, but has that created problems as regards these volunteers, who are so vital in ensuring that opportunities are available for people to participate in sport?

Y peth olaf byddwn yn ei ddweud, Weinidog, yw bod gennym le mawr i ymfalchïo yn y modd y mae pobl ag anabledd wedi llwyddo ym myd chwaraeon ar y lefel uchaf. Mae ein hathletwyr ni yn arbennig, a’n seiclwyr ni, wedi cyflawni gwaith mawr iawn, ac rwy’n siŵr y byddwch chi’n ymuno â mi i ddymuno’n dda iawn iddynt yng Ngemau’r Gymanwlad. Gobeithio, unwaith eto, y byddwn ni’n gweld y lefel honno o lwyddiant yn cynyddu, a’r medalau yn cynyddu. Fodd bynnag, mae gwersi i’w dysgu yn y fan honno o’r hyn sydd wedi digwydd gydag Anabledd Cymru yn sicrhau bod y llwyddiant hwn’n dod. Mae’n rhaid inni sicrhau bod hynny i’w gael ar bob lefel, nid yn unig i bobl ag anabledd, ond i ferched, i bobl sy’n dod o gefndiroedd tlawd a hefyd i bobl o gefndiroedd ethnig sy’n teimlo bod problemau iddyn nhw hefyd, a bod y rhwystrau hynny yn cael eu dymchwel. Rwy’n edrych ymlaen yn fawr iawn at weld eich asesiad chi o’r modd y gallwch chi gydweithio gyda’r asiantaethau hyn yn cael ei gyhoeddi, er mwyn sicrhau ein bod ni’n gallu newid y ffigurau hyn, sydd wedi bod gyda ni cyhyd.

The final thing that I would say, Minister, is that we can take great pride in the way in which people with disabilities have succeeded in the field of sports at the highest level. Our athletes in particular, and our cyclists, have achieved great things, and I am sure that you would join me in wishing them well in the Commonwealth Games. I hope, once again, that we will see that level of success increase, and the medals increase. However, there are lessons to be learned from what has happened with Disability Wales ensuring that this success has happened. We must ensure that that is available at all levels, not only for people with disabilities, but for girls, for those from poor backgrounds and also for people from minority ethnic backgrounds who feel that they face problems too, and that those obstacles are removed. I very much look forward to seeing your assessment of the way in which you can collaborate with these agencies being published, in order to ensure that we can change these statistics, which we have had for so long.

15:22 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Apparently, it is my turn to mention that Swansea remains the only premiership football team in Wales. I do so to make a serious point, which is that success encourages people to take part in sport. Certainly, since both Swansea and Cardiff have been in the premiership, I am sure that the level of interest in football—certainly in Swansea, and I am sure in Cardiff too—has increased and more people are interested in at least playing football at an informal level, if not a formal level. I am sure that, when Cardiff gets back into the premiership, that will continue.

Mae'n ymddangos mai dyma fy nhro i i sôn mai Abertawe yw'r unig dîm pêl-droed o Gymru sy'n parhau yn yr uwch-gynghrair. Rwy'n gwneud hynny er mwyn gwneud pwynt difrifol, sef bod llwyddiant yn annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon. Yn sicr, gan fod Abertawe a Chaerdydd wedi bod yn yr uwch-gynghrair, rwy'n siŵr bod lefel y diddordeb mewn pêl-droed—yn sicr yn Abertawe, ac yng Nghaerdydd hefyd rwy'n siŵr—wedi cynyddu a bod mwy o bobl â diddordeb mewn chwarae pêl-droed ar lefel anffurfiol o leiaf, os nad ar lefel ffurfiol. Pan aiff Caerdydd yn ôl i'r uwch-gynghrair, rwy'n siŵr y bydd hynny'n parhau.

I was involved recently in a turf-cutting exercise for a new school in my ward as a councillor, Burlais school in Cwmbwrla park, which is where some very famous footballers started off playing in an informal context. Mel Nurse is one of the people who was involved in the cutting of the turf and, of course, John Charles started off in that park as well. Part of the construction process of that school is new changing rooms so that the football pitches in that park can now be much more properly utilised in terms of more formal access to sport. I think the important point here is that access to facilities locally—whether on an informal or formal basis—is absolutely key if young people in particular are going to take part in sport, of whatever type and at whatever level. Mike Hedges's point earlier about the availability of sports that people wish to do—Zumba classes et cetera in the local community centre, for example—is certainly important here in ensuring that people take part in exercise and sporting opportunities. Clearly, there are opportunities available that they want to take part in and that they are interested in. That is absolutely crucial in terms of promoting access in sport.

Yn ddiweddar, roeddwn yn torri'r dywarchen gyntaf ar gyfer ysgol newydd yn fy ward fel cynghorydd, sef ysgol Burlais ym mharc Cwmbwrla, lle dechreuodd rhai pêl-droedwyr enwog iawn chwarae mewn cyd-destun anffurfiol. Roedd Mel Nurse yn un o'r bobl a gymerodd ran yn seremoni torri'r dywarchen ac wrth gwrs, dechreuodd John Charles ei yrfa yn y parc hwnnw hefyd. Rhan o broses adeiladu'r ysgol yw'r ystafelloedd newid newydd fel y gellir defnyddio'r caeau pêl-droed yn y parc yn fwy priodol o lawer bellach o ran mynediad mwy ffurfiol at chwaraeon. Rwy'n meddwl mai'r pwynt pwysig yma yw bod mynediad at gyfleusterau lleol—boed ar sail anffurfiol neu ffurfiol—yn gwbl allweddol os yw pobl ifanc yn enwedig yn mynd i gymryd rhan mewn chwaraeon o ba fath bynnag ac ar ba lefel bynnag. Mae pwynt a wnaeth Mike Hedges yn gynharach am argaeledd chwaraeon y mae pobl yn dymuno'u gwneud—dosbarthiadau Zumba ac ati yn y ganolfan gymunedol leol, er enghraifft—yn sicr yn bwysig yma o ran sicrhau bod pobl yn cymryd rhan mewn ymarfer corff a chyfleoedd chwaraeon. Yn amlwg, mae yna gyfleoedd ar gael y byddant eisiau cymryd rhan ynddynt ac y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Mae hynny'n gwbl allweddol o ran hyrwyddo mynediad at chwaraeon.

I think the point was made earlier in terms of the volunteers; I think Rhodri Glyn Thomas was talking about volunteers helping to run sporting occasions. That is also an absolutely important point, particularly in terms of more formal opportunities. It is always difficult, as I know from many, many years of trying to get youth clubs going in my area and helping with trying to get other activities going in my region. The availability of volunteers and people who are prepared to give up their time on a daily or weekly basis and put themselves out to help organise those events is absolutely crucial in terms of making sure that those opportunities are available. I take my hat off to those who give their time and efforts to do that, because, clearly, they play a very important part in providing these opportunities for a whole range of people of whatever age in communities all across Wales.

Rwy'n meddwl bod y pwynt wedi'i wneud yn gynharach ynghylch gwirfoddolwyr; rwy'n meddwl bod Rhodri Glyn Thomas wedi sôn am wirfoddolwyr yn helpu i gynnal digwyddiadau chwaraeon. Mae hwn hefyd yn bwynt hollol bwysig, yn enwedig o ran cyfleoedd mwy ffurfiol. Mae bob amser yn anodd, fel y gwn wedi sawl, sawl blwyddyn o geisio cychwyn clybiau ieuenctid yn fy ardal a helpu i gynnal gweithgareddau eraill yn fy rhanbarth. Mae faint o wirfoddolwyr sydd ar gael, a phobl sy'n barod i roi o'u hamser bob dydd neu bob wythnos a mynd allan o'u ffordd i helpu i drefnu digwyddiadau o'r fath yn gwbl hanfodol o ran gwneud yn siŵr bod y cyfleoedd hynny ar gael. Rwy'n codi fy het i'r rhai sy'n rhoi eu hamser a'u hymdrech i wneud hynny, oherwydd mae'n amlwg eu bod yn chwarae rhan bwysig iawn yn darparu'r cyfleoedd hyn ar gyfer ystod eang o bobl o bob oedran mewn cymunedau ledled Cymru.

In terms of the report that the committee has produced, one of the issues that was raised was the availability of data on participation. This may seem to be a particularly dry topic but, actually, it is very important because, if you do not actually know who is taking part in sport and who is not—if you do not actually know where opportunities are not in place—you cannot direct resources, direct volunteers or put in place the facilities to make sure that those opportunities are available. I was concerned, as I think was the whole committee, about the evidence from Show Racism the Red Card Wales, which queried the relevance of questions in Sports Wales surveys, particularly with regard to black and minority ethnic communities, who felt strongly that they were not being encouraged to take part in sporting activities. It may well be that part of the problem there is that the opportunities that they want to take part in are not available in the communities in which they live. However, that is why the data are important—because we have to identify what exactly they want and match that up with the facilities. So, I am pleased that the Minister has accepted the recommendations in relation to those particular points and I hope that, as a result of that, we are able to improve on that data collection and start to direct resources more appropriately.

O ran yr adroddiad a gynhyrchodd y pwyllgor, un o'r materion a godwyd oedd y data sydd ar gael ar lefelau cyfranogiad. Gall hwn ymddangos yn bwnc eithriadol o sych, ond mewn gwirionedd, mae'n bwysig iawn oherwydd os nad ydych yn gwybod pwy sydd, a phwy sydd ddim yn cymryd rhan mewn chwaraeon—os nad ydych yn gwybod mewn gwirionedd lle mae diffyg cyfleoedd—ni allwch gyfeirio adnoddau a gwirfoddolwyr na rhoi cyfleusterau yn eu lle i wneud yn siŵr bod y cyfleoedd hynny ar gael. Roeddwn yn bryderus, fel y pwyllgor cyfan, rwy'n credu, ynglŷn â thystiolaeth Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru, a gwestiynai berthnasedd cwestiynau yn arolygon Chwaraeon Cymru, yn enwedig mewn perthynas â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a deimlai'n gryf na chaent eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae'n ddigon posibl mai rhan o'r broblem yw nad yw'r cyfleoedd y maent am gymryd rhan ynddynt ar gael yn y cymunedau lle maent yn byw. Fodd bynnag, dyna pam y mae data mor bwysig—oherwydd mae'n rhaid i ni nodi beth yn union y maent ei eisiau a pharu hynny â'r cyfleusterau. Felly rwy'n falch fod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhellion mewn perthynas â'r pwyntiau penodol hynny ac rwy'n gobeithio, o ganlyniad, y gallwn wella'r broses o gasglu data a dechrau cyfeirio adnoddau'n fwy priodol.

In conclusion, Presiding Officer, it seems to me that this report is a very important one, simply because it has identified a number of issues that may be contributing to falling participation levels in sport. However, it has also highlighted for many of us the issues around why people take part in sporting activities and what opportunities need to be made available to them so that facilities such as those that are being put in place in my local park as a result of the new school being built, which are being replicated elsewhere in Wales, become more and more important in attracting people to take part in physical activity in the first place.

I gloi, Lywydd, mae'n ymddangos i mi fod yr adroddiad hwn yn un pwysig iawn, yn syml am ei fod wedi nodi nifer o faterion a allai fod yn cyfrannu at ostwng lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon. Fodd bynnag, mae hefyd wedi amlygu i lawer ohonom y materion sy'n ymwneud â pham y mae pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a pha gyfleoedd sydd angen eu cynnig iddynt fel bod cyfleusterau fel y rhai yn fy mharc lleol o ganlyniad i adeiladu ysgol newydd, sydd i'w gweld mewn mannau eraill yng Nghymru hefyd, yn dod yn fwyfwy pwysig yn y broses o ddenu pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn y lle cyntaf.

15:27

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to speak in this debate. I am not a member of the committee, but I think that it is such an important subject and I congratulate the committee on its report because I think that this is one of the ways in which the Assembly and the Welsh Government can really make a big impact on people's health and wellbeing and their general enjoyment of life. In view of the current financial climate, I think that recommendation 9 is very important. It recommends that the Minister for sport work with the Minister for local government to assess the impact of the reduction in local authority budgets on sport and leisure services, particularly for access and affordability. I think that some very good points have already been made here today about access for BME communities, women and disabled people.

Rwy'n falch iawn o gael siarad yn y ddadl hon. Nid wyf yn aelod o'r pwyllgor, ond rwy'n meddwl ei fod yn bwnc mor bwysig ac rwy'n llongyfarch y pwyllgor ar ei adroddiad am fy mod yn credu bod hyn yn un o'r ffyrdd y gall y Cynulliad a Llywodraeth Cymru wneud effaith wirioneddol fawr ar iechyd a lles pobl a'u mwynhad o fywyd yn gyffredinol. O ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, credaf fod argymhelliad 9 yn bwysig iawn. Mae'n argymell y dylai'r Gweinidog chwaraeon weithio gyda'r Gweinidog llywodraeth leol i asesu effaith y gostyngiad yng nghyllidebau awdurdodau lleol ar wasanaethau chwaraeon a hamdden, yn enwedig yr effaith ar fynediad a fforddiadwyedd. Rwy'n credu bod rhai pwyntiau da iawn wedi'u gwneud yma eisoes heddiw ynglŷn â mynediad ar gyfer cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, menywod a phobl anabl.

I want to speak a bit about the importance of bowling to many of my constituents. The proposals of Cardiff Council to cut the number of bowling greens it maintains brought home to me so strongly how important access to a sport like bowls is for many, many people. Although bowls, of course, is a sport for all ages, certainly the bowlers who came to me and those I see bowling in Cardiff North tend to be older, and we all know that the health advice is that you need to keep active as you get older. Budget cuts are threatening the sport of bowls because more than 75% of clubs affiliated to the national governing bodies for the outdoor game play their bowls at facilities that have traditionally been maintained by local authorities, and many of the current clubs have very small memberships of 20 or so and a lack of access to funding. So, first of all, I think that it is very important that, if a club is threatened with closure or has to end up maintaining the green itself, the local authority gives ample time for alternative solutions to be found. I think that that is what we are talking about in many fields in this time of local authority cuts. I am very pleased that a solution seems to have been found in my own constituency, where constituents lobbied me about a site in Llwyn Fedw Gardens in Birchgrove. There, it was possible to come up with a solution. St Joseph's bowls club was forced to relocate from the Maindy site and has moved to Llwyn Fedw Gardens, joining forces with Birchgrove Ladies and with local residents to make a constitution of all of these groups together. I was really pleased to attend an open day recently, where more than 100 new people turned out to try the sport. At the open day, John Price, the Welsh international player, who is the national development officer for the Welsh Bowls Federation, was very supportive of this new community initiative and I am very hopeful that it will be successful.

Rwyf am siarad ychydig am bwysigrwydd bowlio i lawer o fy etholwyr. Dangosodd cynigion Cyngor Caerdydd i gyfyngu ar nifer y lawntiau bowlio y mae'n eu cynnal yn amlwg iawn i mi pa mor bwysig yw mynediad at chwaraeon fel bowls i lawer iawn o bobl. Er bod bowls wrth gwrs, yn gamp ar gyfer pob oedran, yn sicr roedd y bowlwyr a ddaeth ataf a'r rhai rwy'n eu gweld yn bowlio yng ngogledd Caerdydd yn tueddu i fod yn hŷn, ac rydym i gyd yn gwybod mai'r cyngor iechyd yw bod angen i chi ddal ati i fod yn egnïol wrth i chi fynd yn hŷn. Mae toriadau yn y gyllideb yn bygwth bowls fel camp oherwydd bod dros 75% o'r clybiau sy'n gysylltiedig â'r cyrff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer y gêm yn yr awyr agored yn chwarae eu bowls mewn cyfleusterau a gynhelir yn draddodiadol gan awdurdodau lleol, ac mae aelodaeth llawer o'r clybiau presennol yn fach iawn, weithiau cyn lleied ag 20, ac nid oes ganddynt gyllid at eu defnydd. Felly, yn gyntaf oll, os yw clwb dan fygythiad o gau neu o orfod cynnal ei lawnt ei hun, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn fod yr awdurdod lleol yn rhoi digon o amser i ddod o hyd i atebion amgen. Rwy'n meddwl mai dyna rydym yn sôn amdano mewn sawl maes yn y cyfnod hwn o doriadau awdurdodau lleol. Rwy'n falch iawn eu bod i'w gweld wedi dod o hyd i ateb yn fy etholaeth lle mae etholwyr wedi bod yn fy lobïo ynghylch safle yng Ngerddi Llwyn Fedw yn Birchgrove. Yno, roedd hi'n bosibl dod o hyd i ateb. Bu'n rhaid i glwb bowls St Joseph symud o safle Maendy i Erddi Llwyn Fedw, gan uno â Chlwb Merched Birchgrove a thrigolion lleol i greu un grŵp o'r holl grwpiau hyn. Roeddwn yn falch iawn i fynychu diwrnod agored yn ddiweddar, lle daeth mwy na 100 o bobl newydd ynghyd i roi cynnig ar y gamp. Ar y diwrnod agored, roedd John Price, chwaraewr rhyngwladol dros Gymru sy'n swyddog datblygu cenedlaethol ar ran Ffederasiwn Bowlio Cymru, yn gefnogol iawn o'r fenter gymunedol newydd ac rwy'n obeithiol iawn y bydd yn llwyddiannus.

However, I know that these issues are arising all over Wales and I think that we must find some strategic way of helping to keep these bodies alive. I think that we must find some way of helping with small grants to keep clubs going because, at the moment, there is no assistance available through Sport Wales towards general or day-to-day maintenance or purchase of equipment, which is likely to end up, as the situation is now, being the responsibility of struggling clubs.

Fodd bynnag, gwn fod y materion hyn yn codi ym mhob rhan o Gymru ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni ddod o hyd i ffordd strategol o helpu i gadw'r cyrff hyn yn fyw. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni ddod o hyd i ryw ffordd o helpu gyda grantiau bach i gadw clybiau i fynd oherwydd, ar hyn o bryd, nid oes cymorth ar gael drwy Chwaraeon Cymru tuag at waith cynnal a chadw cyffredinol o ddydd i ddydd na phrynu offer, a phen draw hynny, fel y mae hi bellach, yw mai'r clybiau sy'n ei chael hi'n anodd fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am hynny.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 15:30.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 15:30.*

## Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the sport of bowls is very important in providing regular exercise, in particular for older people, and the opportunity to have a social life. To many of the people who came to see me, it was absolutely catastrophic that their bowls team should cease to be because their lives were based around it—certainly their social lives and the fact that they had somewhere to go and people to relate to. It seems to me that saving these small initiatives is the way that we can make a real difference to people in the community. In addition to its importance to older people, bowls is a core sport in the Commonwealth Games and some of the very small clubs provide a pathway to the elite area. So, I am making a plea today for the Minister to strategically plan for a way forward for the sport of bowls, which is very much concerned with health, wellbeing and the good of communities in our constituencies.

Rwy'n credu bod camp bowls yn bwysig iawn am ei bod yn cynnig ymarfer corff rheolaidd, yn enwedig i bobl hŷn, a'r cyfle i gael bywyd cymdeithasol. I lawer o'r bobl a ddaeth i fy ngweld, roedd gweld eu clwb bowls yn dod i ben yn gwbl drychinebus am fod eu bywydau'n troi o'i gwmpas-eu bywydau cymdeithasol yn bendant a'r ffaith fod ganddynt rywle i fynd a phobl i uniaethu â hwy. Mae'n ymddangos i mi mai achub y mentrau bychain hyn yw'r ffordd y gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i bobl yn y gymuned. Yn ogystal â'i bwysigrwydd i bobl hŷn, mae bowls yn un o'r chwaraeon craidd yng Ngemau'r Gymanwlad ac mae rhai o'r clybiau bach iawn yn darparu llwybr i'r adran elitaidd. Felly rwy'n apelio heddiw ar y Gweinidog i gynllunio'n strategol ar gyfer ffordd ymlaen i bowls, sy'n ymwneud i raddau helaeth ag iechyd, lles a budd cymunedau yn ein hetholaethau.

15:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Culture and Sport to speak—John Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i siarad—John Griffiths.

15:32

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I very much welcome the committee's report and this debate. I would like to thank the committee for its useful report and thank all representatives who gave evidence. The report raises important issues that help to reinforce the important links and synergies between sport and physical activity. So, its recommendations can contribute to increasing rates of participation, which, of course, will result in us becoming healthier and more physically active. So, I was very pleased to accept the recommendations and work has already begun to address priority areas.

Rwy'n croesawu'n adroddiad y pwyllgor a'r ddadl hon yn fawr iawn. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad defnyddiol a diolch i'r holl gynrychiolwyr a roddodd dystiolaeth. Mae'r adroddiad yn codi materion pwysig sy'n gymorth i atgyfnerthu'r cysylltiadau a'r synergedd pwysig rhwng chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Felly gall ei argymhellion gyfrannu at gyfraddau cynyddol o gyfranogiad a fydd yn arwain, wrth gwrs, at ein gwneud yn iachach ac yn ein hysgogi i wneud rhagor o weithgarwch corfforol. Felly roeddwn yn falch iawn o dderbyn yr argymhellion ac mae gwaith eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth.

Together with the Minister for Health and Social Services, our physical activity executive group is working across departments and with outside organisations, developing an action plan, which includes participation in sport. The plan that we will shortly consider, then publish, will set out a timetable for delivery as well as specific outcomes against which progress can be measured.

Gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae ein grŵp gweithredol ar weithgarwch corfforol yn gweithio ar draws adrannau a chyda sefydliadau allanol, yn datblygu cynllun gweithredu sy'n cynnwys cymryd rhan mewn chwaraeon. Bydd y cynllun y byddwn yn ei ystyried yn fuan cyn ei gyhoeddi yn nodi amserlen ar gyfer cyflawni yn ogystal â chanlyniadau penodol y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn.

Collecting data, as Members have mentioned, is, of course, absolutely vital. We accept that this is an area that can be improved on. We need to better understand some of the cultural barriers that exist in sport. We need to better recognise what is needed to help more black and ethnic minority communities, women and girls into sport and to enjoy it. These are priority areas that we will focus on. A number of Members mentioned that we need to provide the opportunities that people want. I think that our young ambassadors are very important here as part of the Olympics legacy, because they are working with our young people to understand what is required and to help to make sure that it is provided.

Mae casglu data, fel y crybwyllodd yr Aelodau, yn gwbl hanfodol wrth gwrs. Rydym yn derbyn bod hwn yn faes y gellir ei wella. Mae angen i ni gael gwell dealltwriaeth o rai o'r rhwystrau diwylliannol sy'n bodoli mewn chwaraeon. Mae angen i ni gael gwell gwybodaeth am yr hyn sydd ei angen i helpu mwy o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, menywod a merched i ddechrau cymryd rhan mewn chwaraeon ac i fwynhau gwneud hynny. Mae'r rhain yn feysydd blaenoriaeth y byddwn yn canolbwyntio arnynt. Crybwyllodd nifer o'r Aelodau fod angen i ni ddarparu'r cyfleoedd y mae pobl eu heisiau. Credaf fod ein llysgenhadon ifanc yn bwysig iawn yma fel rhan o etifeddiaeth y Gemau Olympaidd am eu bod yn gweithio gyda'n pobl ifanc i ddeall yr hyn sydd ei angen ac i helpu i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddarparu.

In many ways, we are on the front foot. Sport Wales, under its Calls for Action programme, is investing in participation. A sum of £1.5 million has been set aside to support local projects, targeted towards BME communities. A further £1.5 million is being used to encourage more women and girls to play sport. Of course, I work very closely with Sport Wales in terms of strategy and monitoring the implementation of that strategy. That investment, which I mentioned, is supported by Sport Wales through its What Moves You? programme, changing the approach to promoting sport to women and girls, involving and challenging our sport governing bodies.

Mewn sawl ffordd, rydym ar y droed flaen. O dan ei raglen Galw am Weithredu, mae Chwaraeon Cymru yn buddsoddi mewn cyfranogiad. Mae swm o £1.5 miliwn wedi'i neilltuo i gefnogi prosiectau lleol wedi'u targedu tuag at gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae £1.5 miliwn pellach yn cael ei ddefnyddio i annog mwy o fenywod a merched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Wrth gwrs, rwy'n gweithio'n agos iawn gyda Chwaraeon Cymru o ran strategaeth a monitro gweithrediad y strategaeth honno. Mae'r buddsoddiad a grybwyllais yn cael ei gefnogi gan Chwaraeon Cymru drwy ei raglen Sut Mae'ch Symud Chi?, gan newid y dull o hyrwyddo chwaraeon i fenywod a merched, gan gynnwys a herio ein cyrff rheoli chwaraeon.

I will be discussing with the Minister for Education and Skills the committee's concern at the lack of physical education teachers from black and minority ethnic backgrounds.

Byddaf yn trafod pryder y pwyllgor am y diffyg athrawon addysg gorfforol o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

We are very committed in Welsh Government to making our communities more active. We do not accept that any hurdles are too high. We want to provide sustainable solutions and opportunities, with long-term benefits. It is important that all age, gender and social groups have equal opportunities, irrespective of circumstance. So, to help support those aims, Sport Wales has in place community and child poverty strategies. It has adopted a results-based accounting approach to these strategies, in order that it can analyse their delivery, and measure their impact.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig iawn i wneud ein cymunedau'n fwy egnïol. Nid ydym yn derbyn bod unrhyw rwystrau'n rhy fawr. Rydym am greu atebion a chyfleoedd cynaliadwy gyda manteision hirdymor. Mae'n bwysig bod pob oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol yn cael cyfle cyfartal, beth bynnag fo'u hamgylchiadau. Felly, er mwyn helpu i gefnogi'r nodau hynny, mae Chwaraeon Cymru wedi sefydlu strategaethau cymunedol a thlodi plant. Mae wedi mabwysiadu dull o gyfrif sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn y strategaethau hyn er mwyn gallu dadansoddi'r modd y cânt eu cyflawni, a mesur eu heffaith.

Local government has rightly been mentioned by a number of Members. I think that all of us are acutely aware of the pressures that local government faces. It is important that we understand its budgetary pressures, and that we work very closely with it. Local authorities are a key partner. Budgets can impact on non-statutory services, such as leisure provision. So, I will work very closely with the Minister for Local Government and Government Business, as well as with other Ministers, the Welsh Local Government Association and local authorities, to look at alternative models of leisure service delivery. I am sure that that will incorporate bowls and, indeed, volunteering issues, and I am pleased to be able to tell Rhodri Glyn Thomas that we have seen substantial progress in volunteering in sport, which is evidenced by Sport Wales statistics and research.

Mae nifer o'r Aelodau wedi cyfeirio'n gwbl briodol at lywodraeth leol. Credaf fod pob un ohonom yn ymwybodol iawn o'r pwysau y mae llywodraeth leol yn ei wynebu. Mae'n bwysig ein bod yn deall y pwysau ar eu cyllidebau a gweithio'n agos iawn ag awdurdodau lleol. Maent yn bartneriaid allweddol. Gall cyllidebau effeithio ar wasanaethau anstatudol megis y ddarpariaeth hamdden. Felly byddaf yn gweithio'n agos iawn â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, yn ogystal â Gweinidogion eraill, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol, er mwyn edrych ar fodelau amgen o ddarparu gwasanaethau hamdden. Rwy'n siŵr y bydd hynny'n cynnwys bowls a materion gwirfoddoli yn wir, ac rwy'n falch o allu dweud wrth Rhodri Glyn Thomas ein bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n gwirfoddoli mewn chwaraeon, fel y mae ystadegau ac ymchwil Chwaraeon Cymru yn ei ddangos.

I was very pleased, in fact, today to be in Caerphilly, where there was a really good example of these new, innovative delivery models and progress being made, pulling key partners together. We had the launch in Ystrad Mynach of state-of-the-art 3G pitches—and, as Mike Hedges mentioned, 3G is very important—for rugby and football. This was a case of the local authority being quite visionary, and then realising that vision, working with the local college of further education, the Welsh Rugby Union, the Welsh Football Trust, Sport Wales and Welsh Government—a range of partners—to produce first-class facilities for the future.

Roeddwn yn falch iawn o gael bod yng Nghaerffili heddiw yn wir, lle gwelais enghraifft dda iawn o'r modelau cyflawni newydd, arloesol hyn a'r cynnydd sy'n cael ei wneud, gan dynnu partneriaid allweddol at ei gilydd. Yn Ystrad Mynach, cynhaliwyd lansiad caeau 3G o'r radd flaenaf—ac fel y soniodd Mike Hedges, mae 3G yn bwysig iawn ar gyfer rygbi a phêl-droed. Dyma enghraifft o awdurdod lleol yn cael gweledigaeth ac yna'n gwireddu'r weledigaeth honno gan weithio gyda'r coleg addysg bellach lleol, Undeb Rygbi Cymru, Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru—ystod o bartneriaid—i gynhyrchu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer y dyfodol.

To provide support for that sort of development by local authorities, I will be introducing a new capital loan scheme, which all local authorities in Wales can consider, and pilot projects will commence next year.

Er mwyn cefnogi'r math hwn o ddatblygiad gan awdurdodau lleol, byddaf yn cyflwyno cynllun benthyciadau cyfalaf newydd, y gall pob awdurdod lleol yng Nghymru ei ystyried a bydd prosiectau peilot yn dechrau y flwyddyn nesaf.

Swimming was mentioned. Swimming is very important. It is a life skill that really matters, and can, indeed, save lives. I am keen to ensure that we get as much as possible from our investment in free swimming, and I have asked Sport Wales to review the programme. We need greater focus on narrowing participation gaps, particularly with regard to those in socially deprived areas, and we want to see more opportunities for our BME communities, and for people with a disability. However, again, we should recognise success. We have a system in place that enables every child to have that opportunity to learn to swim by age 11. That is done through co-ordination—school swimming, with local authority learn-to-swim programmes, and our free swimming initiative. We should celebrate the fact that 54% of our children aged under 11 can swim at least 25m, which compares favourably with England, where the figure is 49%.

Soniwyd am nofio. Mae nofio'n bwysig iawn. Mae'n sgil bywyd sy'n wirioneddol bwysig a gall achub bywydau yn wir. Rwy'n awyddus i sicrhau ein bod yn cael cymaint ag y bo modd allan o'n buddsoddiad mewn nofio am ddim ac rwyf wedi gofyn i Chwaraeon Cymru adolygu'r rhaglen. Mae arnom angen mwy o ffocws ar leihau bylchau mewn cyfranogiad, yn enwedig ymhlith pobl mewn ardaloedd difreintiedig yn gymdeithasol, ac rydym am weld mwy o gyfleoedd i'n cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anabledd. Eto i gyd, dylem gydnabod llwyddiant. Mae gennym system ar waith sy'n galluogi pob plentyn i gael cyfle i ddysgu nofio erbyn ei fod yn 11 oed. Gwneir hynny drwy gydgysylltiad—nofio ysgol, gyda rhaglenni dysgu nofio awdurdodau lleol a'n cynllun nofio am ddim. Dylem ddathlu'r ffaith y gall 54% o'n plant sydd o dan 11 oed nofio o leiaf 25m, sy'n cymharu'n ffafriol â Lloegr, lle mae'r ffigur yn 49%.

Engaging young people at an early age is absolutely vital to this agenda. That is why I am so pleased that, working with the Minister for Education and Skills, we have announced funding of £1.75 million to support a physical literacy programme for schools, responding to the physical activity task and finish group. A delivery plan is being developed by Sport Wales, and this will focus on sustained increase in physical literacy among school-aged children in Wales, particularly those in deprived areas, again, to make sure that they are hooked on sport and healthy lifestyles.

Mae ymgysylltu â phobl ifanc o oedran cynnar yn gwbl hanfodol i'r agenda hon. Dyna pam rwyf mor falch ein bod, gan weithio gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, wedi cyhoeddi cyllid o £1.75 miliwn i gefnogi rhaglen llythrennedd corfforol ar gyfer ysgolion, gan ymateb i waith y grŵp gorchwyl a gorffen ar weithgarwch corfforol. Mae cynllun cyflawni yn cael ei ddatblygu gan Chwaraeon Cymru i ganolbwyntio ar gynnydd cyson mewn llythrennedd corfforol ymysg plant oedran ysgol yng Nghymru yn enwedig plant mewn ardaloedd difreintiedig, unwaith eto i wneud yn siŵr eu bod yn gwirioni ar chwaraeon a ffyrdd o fyw iach.

I congratulate Sport Wales for carrying out extensive work on its school sport and active adults surveys. These have produced encouraging results, which we can all take pride in. The active adults survey shows that the percentage of adults taking part in sport, on three or more occasions a week, has increased by 10%. That equates to 262,000 extra people across Wales. This is supported by the fact that 27% of Welsh adults are members of a sports club, up 16% from 2008.

Rwy'n llongyfarch Chwaraeon Cymru ar gyflawni gwaith helaeth ar ei arolygon chwaraeon ysgol ac arolygon o oedolion egnïol. Mae'r rhain wedi cynhyrchu canlyniadau calonogol y gallwn i gyd ymfalchïo ynddynt. Mae'r arolwg o oedolion egnïol yn dangos bod canran yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu ragor yr wythnos wedi cynyddu 10%. Mae hynny'n cyfateb i 262,000 o bobl ychwanegol ledled Cymru. Caiff hyn ei gefnogi gan y ffaith bod 27% o oedolion Cymru yn aelodau o glybiau chwaraeon, 16% yn uwch nag yn 2008.

So, this is the transition progress that we want to see, and we are making good progress, but we know, as Members have mentioned, that there are gaps and those gaps need to be addressed. We need a cultural and attitudinal shift. I pay tribute to Disability Sport Wales, as other Members have, for the good example that it shows and from which we can learn.

Felly, dyma'r cynnydd trawsnewidiol rydym am ei weld ac rydym yn gwneud cynnydd da, ond gwyddom fod bylchau o hyd, fel y mae Aelodau wedi sôn, ac mae angen cau'r bylchau hynny. Mae angen newid diwylliant ac agwedd. Rwy'n talu teyrnged i Chwaraeon Anabledd Cymru, fel y mae Aelodau eraill wedi'i wneud, am yr esiampl dda y mae'n ei roi, a gallwn ddysgu ohoni.

In conclusion, we do have challenges, of course, but we are up for the challenge. We will work in Welsh Government with Sport Wales, key partners and stakeholders to continue on this path to making Wales more and more a sporting nation.

I gloi, rydym yn wynebu heriau wrth gwrs, ond rydym yn barod amdanynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid i barhau ar y llwybr hwn er mwyn gwneud Cymru yn genedl sy'n gwirioni mwy a mwy ar chwaraeon.

15:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the committee Chair, Christine Chapman, to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, Christine Chapman, i ymateb i'r ddadl.

15:40 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First, may I thank the Members for their contributions today and may I also thank the clerking team for putting the report together? I think that today's debate is a very important one. If Wales is to be a healthy nation, we have to take the messages about increased participation very seriously.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw ac a gaf fi hefyd ddiolch i'r tîm clercio am baratoi'r adroddiad? Rwy'n credu bod y ddadl heddiw yn un bwysig iawn. Os yw Cymru am fod yn genedl iach, mae'n rhaid i ni roi sylw o ddifrif i'r negeseuon ynghylch cynyddu cyfranogiad.

I have some highlights from the Members' contributions. Suzy Davies and others highlighted the need for accurate data and that that data must be meaningful, which will help us to decide what needs to be done. Suzy also reminded us about how communities at a local level can be involved—it is important that activities are local and that people can identify with them—and how different groups can and must be involved in making these activities meaningful.

Mae gennyf rai uchafbwyntiau o gyfraniadau'r Aelodau. Amlygodd Suzy Davies ac eraill yr angen am ddata cywir a'r angen i'r data fod yn ystyrlon, er mwyn ein helpu i benderfynu beth sydd angen ei wneud. Atgoffodd Suzy ni hefyd ynglŷn â sut y gall cymunedau gymryd rhan ar lefel leol—mae'n bwysig bod gweithgareddau'n lleol ac y gall pobl uniaethu â hwy—a sut y gall ac y dylai gwahanol grwpiau fod yn rhan o'r broses o wneud y gweithgareddau hyn yn ystyrlon.

Mike Hedges drew attention to the very good examples of areas such as Swansea that are delivering vital activities in poorer areas. I am pleased that he highlighted, in particular, the barriers that women are facing and that it is important that we understand the reasons why certain groups do not identify with sporting activities.

Tynnodd Mike Hedges sylw at yr enghreifftiau da iawn o ardaloedd megis Abertawe sy'n darparu gweithgareddau hanfodol mewn ardaloedd tlotach. Rwy'n falch ei fod wedi tynnu sylw penodol at y rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu a'i bod yn bwysig i ni ddeall y rhesymau pam nad yw rhai grwpiau yn uniaethu â gweithgareddau chwaraeon.

I thought that Rhodri Glyn Thomas put some very pertinent questions to the Minister regarding the funding that Sport Wales distributes. He asked questions about how the funding actually gets to where it is needed, particularly around disability groups, BME groups and women.

Roeddwn yn meddwl bod Rhodri Glyn Thomas wedi gofyn rhai cwestiynau perthnasol iawn i'r Gweinidog ynghylch y cyllid y mae Chwaraeon Cymru yn ei ddosbarthu. Gofynnodd gwestiynau ynglŷn â sut y mae'r arian yn cyrraedd lle mae ei angen mewn gwirionedd, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau anabledd, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a menywod.

I thought that Peter Black made a very good point about building on success; he mentioned Cardiff and Swansea. I think that if you build on success, it helps to motivate others. I think that that is a very good lesson to learn. Also, Peter made a point about the challenge of getting volunteers. We know that volunteers have a huge role in helping to motivate people to take part.

Roeddwn i'n meddwl bod Peter Black wedi gwneud pwynt da iawn am adeiladu ar lwyddiant; soniodd am Gaerdydd ac Abertawe. Os ydych yn adeiladu ar lwyddiant, rwy'n credu y gall helpu i ysgogi eraill. Rwy'n meddwl bod honno'n wers dda iawn i'w dysgu. Hefyd, gwnaeth Peter bwynt ynghylch yr her o gael gwirfoddolwyr. Gwyddom fod gan wirfoddolwyr rôl enfawr i'w chwarae yn helpu i ysgogi pobl i gymryd rhan.

Julie Morgan talked about bowls and its popularity, and how certain sports are absolutely vital to people's lives, because, without them, people's lives are lessened, I think. So, it is important that we try to understand this. Obviously, there are problems and challenges for us to face, for example when there are cuts within local authorities, but I am pleased that solutions can be found if there is a will to address this.

Siaradodd Julie Morgan am bowls a'i boblogrwydd a sut y mae chwaraeon penodol yn gwbl hanfodol i fywydau pobl, oherwydd hebddynt, rwy'n credu y byddai bywydau pobl yn cael eu lleihau. Felly mae'n bwysig ein bod yn ceisio deall hyn. Yn amlwg, mae yna broblemau a heriau i ni eu hwynebu, er enghraifft, pan fo toriadau o fewn awdurdodau lleol, ond rwy'n falch fod modd dod o hyd i atebion os oes ewyllys i fynd i'r afael â hyn.

I thank the Minister for the very positive responses that he made to the recommendations of our report and I know that the Minister is a great example to us all here in keeping active. I am glad that you have committed to working with the Minister for local government to look at some alternative innovative models of delivery.

Diolch i'r Gweinidog am yr ymatebion cadarnhaol iawn a wnaeth i argymhellion ein hadroddiad, a gwn fod y Gweinidog yn enghraifft wych i ni i gyd yma o ran cadw'n egnïol. Rwy'n falch eich bod wedi ymrwymo i weithio gyda'r Gweinidog llywodraeth leol er mwyn edrych ar rai modelau amgen arloesol ar gyfer cyflawni.

In conclusion, I will quote what Mike Hedges said. As Mike said, if we do not get this agenda right, there is going to be a huge cost to the health and economy of Wales. So, I think that today's report is a call for real action and I look forward to the debate continuing.

I gloi, dyfynnaf yr hyn a ddywedodd Mike Hedges. Fel y dywedodd Mike, os nad ydym yn cael yr agenda hon yn iawn, mae'n mynd i fod yn gost enfawr i iechyd ac economi Cymru. Felly credaf fod adroddiad heddiw yn galw am weithredu go iawn ac edrychaf ymlaen at weld y ddadl yn parhau.

15:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to note the Communities, Equality and Local Government Committee's report. Does any Member object? No. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Mae'r cynnig wedi'i dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Perfformiad Polisïau Llafur Cymru

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones.*

# Welsh Conservatives Debate: Welsh Labour Policy Performance

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones.*

15:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Nick Ramsay to move the motion.

Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5512 Paul Davies

Motion NDM5512 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi methiannau polisi Llafur Cymru yn ystod 15 mlynedd mewn llywodraeth yng Nghymru;

1. Notes Welsh Labour's policy failures during 15 years in government in Wales;

2. Yn gresynu at y diffyg perfformiad yn:

2. Regrets the lack of performance in:

a) Yr economi, gyda gwerth ychwanegol crynswth (GYC) bellach ar 72.3% o gyfartaledd y DU;

a) The economy, with gross value added (GVA) now at 72.3% of the UK average;

b) Addysg, lle mae safle Cymru yn safleoedd PISA wedi dirywio ym mhob cyfnod asesu;

b) Education, where Wales' standing in the PISA rankings has declined in each assessment period;

c) Y GIG, gydag un o bob saith yng Nghymru ar restr aros.

c) The NHS, with one person in seven in Wales on a waiting list.

15:44

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Deputy Presiding Officer, fifteen years ago, Tony Blair said, 'Things can only get better'. [Interruption.] D:Ream, indeed. Devolution burst into life with the creation of the National Assembly for Wales and we were promised a bright new dawn of improved public services; a new era of localism and more efficient spending. The buzzword of 'outcomes' was put centre stage and the fruits of devolution would be seen to be apparent very quickly, and—you will like this next line—never again would those Tories be allowed to spoil things. Unfortunately, it did not quite work out that way, did it? One party, the Labour Party—I am sorry, Welsh Labour; I did not mean to insult you—has been in the driving seat through all that time, with the odd other party's hand on the steering wheel at various points. Therefore, has there been a wonderful turnaround in standards of living here in Wales—in the health service, education or the economy?

Ddirprwy Lywydd, bymtheg mlynedd yn ôl, dywedodd Tony Blair, 'Things can only get better'. [Torri ar draws.] D:Ream, yn wir. Blodeuodd datganoli gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i Gymru a chawsom addewid o wawr newydd ddisglair o wasanaethau cyhoeddus gwell; oes newydd o leoliaeth a gwariant mwy effeithlon. Gosodwyd y gair mawr 'canlyniadau' ar ganol y llwyfan a byddai ffrwyth datganoli i'w weld yn amlwg yn gyflym iawn a—byddwch yn hoffi'r frawddeg nesaf—ni fyddai'r hen Doriaid yna'n cael eu gadael i ddifetha pethau byth eto. Yn anffodus, nid felly'n hollol y bu, oni chytunwch? Un blaid, y Blaid Lafur—mae'n ddrwg gen i, Llafur Cymru; nid oeddwn yn bwriadu eich sarhau—sydd wedi bod yn sedd y gyrrwr drwy gydol yr amser, gydag ambell blaid arall â'i llaw ar y llyw ar wahanol adegau. Felly a ydym wedi gweld newid llwyr yn y safonau byw yma yng Nghymru—yn y gwasanaeth iechyd, addysg neu'r economi?

Let us pick one of those—education. There is great news in education. We have free school breakfasts. That is great; they are free. I love free things, do you not? No-one ever has to pay for them. The latest Program for International Student Assessment results, however, were less than favourable, were they not? Education standards have slipped again, and what does that mean? A whole generation of young people is unequipped for the global race, with a significant number lacking basic numeracy and literacy skills, and some universities having to educate students in basic skills before anything else. There are good programmes such as twenty-first century schools—credit where credit is due—but, aside from that—it is on the next page. [Laughter.] However, there are major challenges. Teachers are doing their best within the buildings, but skills are simply not being taught as well as they should be.

Gadewch i ni ddewis un o'r rhain—addysg. Mae newyddion gwych ym maes addysg. Mae gennym frecwast am ddim mewn ysgolion. Mae hynny'n wych; mae'n rhad ac am ddim. Rwyf wrth fy modd â phethau rhad ac am ddim, onid ydych chi? Nid oes yn rhaid i neb dalu amdanynt byth. Roedd canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ddiweddaraf er hynny yn llai na ffafriol, onid oeddynt? Mae safonau addysg wedi llithro eto, a beth y mae hynny'n ei olygu? Mae cenhedlaeth gyfan o bobl ifanc heb eu cyfarparu ar gyfer y ras fyd-eang, gyda nifer sylweddol heb sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol ac mae rhai prifysgolion yn gorfod dysgu sgiliau sylfaenol i fyfyrwyr cyn dysgu unrhyw beth arall. Ceir rhaglenni da megis ysgolion yr unfed ganrif ar hugain—i roi clod lle y mae'n ddyledus—ond ar wahân i hynny—mae ar y dudalen nesaf. [Chwerthin.] Fodd bynnag, ceir heriau mawr. Mae athrawon yn gwneud eu gorau o fewn yr adeiladau ond yn syml, nid yw'r sgiliau'n cael eu dysgu cystal ag y dylent.

Let us try the health service—

Beth am droi at y gwasanaeth iechyd

15:46

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

15:46

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In one moment. Let us try the health service—I will give way now because of your education interests.

Mewn un eiliad. Beth am droi at y gwasanaeth iechyd—ildiaf yn awr oherwydd eich diddordeb ym maes addysg.

15:46

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we are all interested to see that they have allowed the Member to propose this motion on their behalf. I do not know if that means that he is halfway back to the frontbench, but may I ask him this—

Rwy'n meddwl ein bod i gyd â diddordeb gweld eu bod wedi caniatáu i'r Aelod gynnig y cynnig hwn ar eu rhan. Nid wyf yn gwybod a yw hynny'n golygu ei fod hanner ffordd yn ôl i'r fainc flaen ond a gaf fi ofyn hyn iddo—

15:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are not. [Laughter.]

Nid ydych chi. [Chwerthin.]

15:47

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I walked into that one. However, may I ask him this: does he think that unqualified teachers should teach in Welsh schools?

Cerddais yn syth i mewn i honna. Fodd bynnag, a gaf fi ofyn hyn iddo: a yw'n credu y dylai athrawon heb gymhwyso addysgu yn ysgolion Cymru?

15:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I think that I am probably nearer than you are, as to the comment that has been made there, Leighton.

O ran y sylw a wnaethoch, rwy'n meddwl fy mod yn ôl pob tebyg yn nes na chi, Leighton.

15:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Answer the question.

Atebwch y cwestiwn.

15:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

What was your answer when you were Minister for education? There were not many answers forthcoming that improved the standards in Welsh schools, were there?

Beth oedd eich ateb chi pan oeddech yn Weinidog addysg? Ni chyflwynwyd llawer o atebion a lwyddodd i wella'r safonau yn ysgolion Cymru, oni chytunwch?

Let us try the health service. The NHS is overstretched, underfunded –[Interruption.]

Gadewch i ni droi at y gwasanaeth iechyd. Mae'r GIG o dan bwysau, nid yw'n cael digon o arian—[Torri ar draws.]

15:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. I genuinely cannot hear the proposer of the motion, and this is not tolerable. I realised when I saw the subject of this debate that a certain pantomime element might creep into it, but I will make sure that it is expelled and that any Member who is misbehaving will be held accountable. Now, quiet, please. I call on Nick Ramsay.

Trefn. O ddifrif, nid wyf yn gallu clywed y sawl a gynigiodd y cynnig ac ni ellir goddef hyn. Pan welais bwnc y ddadl hon, sylweddolais y gallai wahodd elfen o bantomeim ond byddaf yn sicr o gael ei gwared a bydd unrhyw Aelod sy'n camymddwyn yn cael ei wneud yn atebol. Yn awr, tawelwch os gwelwch yn dda. Galwaf ar Nick Ramsay.

15:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Let us look at the health service. The NHS is overstretched and underfunded, with the worst financial settlement in the UK. Staff are doing their best, but waiting times are persistently high and, in some cases, double the waiting times across the border in England. However, yes, we do have free prescriptions, do we not? There is that word again, 'free'. The First Minister will tell us, 'At least we don't live in England'. We hear that all the time. It is where things are allegedly so bad, because Labour does not like the NHS reforms there. However, what about outcomes? In England, there are shorter waiting times in key areas, and there is a cancer drugs fund. Okay, do not copy England if you do not want to but, for goodness's sake, at least do something. At least in England they are trying to get to grips with the issues that face the NHS.

Gadewch i ni edrych ar y gwasanaeth iechyd. Mae'r GIG o dan bwysau ac nid yw'n cael ei ariannu'n ddigonol, gyda'r setliad ariannol gwaethaf yn y DU. Mae'r staff yn gwneud eu gorau ond mae amseroedd aros yn parhau'n uchel ac mewn rhai achosion, maent ddwywaith mor hir â'r amseroedd aros dros y ffin yn Lloegr. Fodd bynnag, oes, mae gennym bresgripsiynau am ddim, onid oes? Y geiriau hynny eto, 'am ddim'. Byddai'r Prif Weinidog yn dweud wrthym, 'O leiaf nid ydym yn byw yn Lloegr'. Rydym yn clywed hynny drwy'r amser. Dyna lle mae pethau mor ddrwg yn ôl yr honiad, oherwydd nad yw Llafur yn hoffi diwygiadau'r GIG yno. Fodd bynnag, beth am ganlyniadau? Yn Lloegr, mae'r amseroedd aros yn fyrrach mewn meysydd allweddol a cheir cronfa cyffuriau canser. Iawn, peidiwch â chopïo Lloegr os nad ydych am wneud hynny ond er mwyn popeth, gwnewch rywbeth o leiaf. Yn Lloegr, maent o leiaf yn ceisio mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r GIG.

Let us look at the economy for a glimmer of light, and, to be fair, the unemployment rate is looking good—better than it did under the last UK Labour Government. Clearly, there is a better relationship between the First Minister and David Cameron than there was with Gordon Brown, perhaps understandably. Yes, we have Jobs Growth Wales. You would expect to have a scheme that supports jobs, but look at the unemployment rate for the 16-24 age group, which is currently 22.5% and the worst of all UK nations. It has been like that for five years. Therefore, this is not a new phenomenon. I appreciate that this is a long-running problem, dating back pre-devolution, but why has devolution not done something to get to grips with it? Why has the Labour Party not done something with the tools that it has to get to grips with it?

Gadewch i ni edrych ar yr economi er mwyn cael llygedyn o obaith, ac i fod yn deg, mae'r gyfradd ddiweithdra yn edrych yn dda-yn well nag oedd o dan Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU. Yn amlwg, mae perthynas well rhwng y Prif Weinidog a David Cameron nag a oedd rhyngddo a Gordon Brown, sydd efallai'n ddealladwy. Oes, mae gennym Twf Swyddi Cymru. Byddech yn disgwyl cael cynllun sy'n cefnogi swyddi, ond edrychwch ar y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y grŵp 16-24 oed, sy'n 22.5% ar hyn o bryd a'r gyfradd waethaf o holl wledydd y DU. Mae wedi bod felly ers pum mlynedd. Nid yw hon yn ffenomen newydd felly. Rwy'n sylweddoli bod hon yn hen broblem sy'n dyddio'n ôl cyn datganoli ond pam nad yw datganoli wedi gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r mater? Pam nad yw'r Blaid Lafur wedi gwneud rhywbeth gyda'r adnoddau sydd ganddi i fynd i'r afael â'r mater?

I turn to overall economic indicators, such as gross value added. This internationally recognised measure of wealth is often ignored by the Welsh Government, probably because it annoys it, because it is bad. In 1997, it was 78% of the UK average. The Welsh Labour Government aspired to get to at least 90% of the UK average. It was a great plan, as so many plans often are, but it is currently 72% and even lower, as we know, in west Wales and the Valleys, which is set to qualify for yet another round of EU funding, despite assurances in 1999 that the first round would be a silver bullet that would set Wales on a sustainable road to prosperity. No; it got worse.

Trof at ddangosyddion economaidd cyffredinol, megis gwerth ychwanegol crynswth. Yn aml, caiff y mesur hwn o gyfoeth a gydnabyddir yn rhyngwladol ei anwybyddu gan Lywodraeth Cymru, yn ôl pob tebyg am ei fod yn ei chythruddo am ei fod yn wael. Yn 1997, roedd yn 78% o gyfartaledd y DU. Roedd Llywodraeth Lafur Cymru yn dyheu am gyrraedd o leiaf 90% o gyfartaledd y DU. Roedd yn gynllun gwych, fel y bydd cynifer o gynlluniau'n aml, ond ar hyn o bryd, mae'n 72% a hyd yn oed yn is, fel y gwyddom, yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n mynd i fod yn gymwys i gael cylch arall eto o arian yr UE er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd yn 1999 mai'r cylch cyntaf fyddai'r ateb rhwydd a fyddai'n gosod Cymru ar lwybr cynaliadwy tuag at ffyniant. Ni wnaeth hynny; gwaethygu a wnaeth.

Of course, we did have the abolition of the Welsh Development Agency, which successfully removed the internationally known brand of Wales in one stroke. That was really successful, was it not? When we question why the brand of Wales is not right, I think that we can see some key decisions that were made that stopped that from happening.

Wrth gwrs, gwelsom ddiddymu Awdurdod Datblygu Cymru, gan lwyddo i gael gwared ar amrantiad ar frand Cymru a oedd yn gyfarwydd yn rhyngwladol. Roedd hynny'n llwyddiant mawr, onid oedd? Pan fyddwn yn cwestiynu pam nad yw brand Cymru yn iawn, rwy'n meddwl y gallwn weld rhai penderfyniadau allweddol a wnaed a lwyddodd i atal hynny rhag digwydd.

Aside from all of this, of course, there have been the media-grabbing sideshows. Who can forget AWEMA? There was also Plas Madoc, Communities First, and the purchase of River Lodge Hotel in Llangollen. In all of these cases the Welsh Government's monitoring has been found to be ineffective in identifying financial management and governance issues. Nineteen reports have identified poor management in these areas. If the Welsh Conservatives had been in power over that time—[Assembly Members: 'Oh'.]—can you imagine what they would be like? I dread to think what Lynne Neagle would be like. She would be shouting at us and saying how terrible everything was, but, because the Labour Party is running things, we are all supposed to turn a blind eye and not scrutinise where scrutiny is due. No, First Minister, it is not David Cameron, and it is not David Jones. As President Harry S. Truman's plaque on his desk said, 'The buck stops here'. The buck stops with you, First Minister, and for the Assembly to hold you effectively to account. Different views and different ideologies aside, we are all here because we are entrusted with the cause of our constituents, their families, their futures and their hopes. When historians look back at this span of political time, it may be a brief span of political time, relatively speaking, but it is 15 years in which devolution has been given a chance to improve the lot of the people in this corner of the British isles. What will those historians think? Will they think that it has been woefully bad, that it was good enough or that it was adequate? Well, adequate is not good enough. Let us learn the lessons of the past and make sure that the next 15 years are better than the past 15 years.

Ar wahân i hyn i gyd, wrth gwrs, mae'r materion ymylol sy'n denu sylw'r cyfryngau. Pwy all anghofio AWEMA? Hefyd, roedd Plas Madog, Cymunedau yn Gyntaf a phrynu Gwesty River Lodge yn Llangollen. Ym mhob un o'r achosion hyn, gwelwyd bod gwaith monitro Llywodraeth Cymru yn aneffeithiol wrth nodi materion rheoli ariannol a llywodraethu. Nododd pedwar ar bymtheg o adroddiadau fod rheolaeth yn y meysydd hyn yn wael. Pe bai'r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod mewn grym dros y cyfnod hwnnw—[Aelodau'r Cynulliad:. 'O.'] —a allwch ddychmygu sut y byddent? Mae'n gas gennyf feddwl sut y byddai Lynne Neagle wedi bod. Byddai'n gweiddi arnom ac yn dweud pa mor ofnadwy oedd popeth, ond oherwydd mai'r Blaid Lafur sy'n rhedeg pethau, rydym i gyd i fod i droi llygad dall a pheidio â chraffu lle y dylem fod yn craffu. Na, Brif Weinidog, nid David Cameron na David Jones sydd ar fai. Fel y dywedai'r plac ar ddesg yr arlywydd Harry S. Truman, 'The buck stops here'. Chi pia'r cyfrifoldeb, Brif Weinidog, a lle'r Cynulliad yw mynd ati'n effeithiol i'ch dwyn i gyfrif. Gan roi ein safbwyntiau a'n hideolegau gwahanol o'r neilltu, rydym i gyd yma am mai ein swyddogaeth yw dadlau dros ein hetholwyr, eu teuluoedd, eu dyfodol a'u gobeithion. Pan fydd haneswyr yn edrych yn ôl ar y cyfnod hwn o amser gwleidyddol, efallai mai cyfnod cymharol fyr o amser gwleidyddol ydyw, ond mae'n 15 mlynedd sydd wedi rhoi cyfle i ddatganoli wella bywydau'r bobl yn y gornel hon o ynysoedd Prydain. Beth fydd yr haneswyr hynny'n ei feddwl? A fyddant yn meddwl ei fod wedi bod yn druenus o wael, ei fod yn ddigon da neu ei fod yn ddigonol? Wel, nid yw digonol yn ddigon da. Gadewch i ni ddysgu gwersi o'r gorffennol a gwneud yn siŵr fod y 15 mlynedd nesaf yn well na'r 15 mlynedd diwethaf.

15:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the amendment to the motion. I call on Simon Thomas to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddysgu o lwyddiant Llywodraeth yr Alban o ran gwella twf economaidd a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus mewn cyd-destun datganoledig.*

*Calls on the Welsh Government to learn from the success of the Scottish Government in improving economic growth and public service delivery in a devolved context.*

15:52

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 1. I am concerned that we are not perhaps having quite the level of scrutiny of the actions of Welsh Labour over the past 15 years that we might have hoped to have the night before an election, but there we are. If it is going to be a pantomime, let us hope that we can keep away from the dames and the 'Who's behind yous?', at least. [Laughter.] Keep up.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 1. Rwy'n bryderus nad ydym o bosibl yn cael y lefel o graffu ar gamau a gymerwyd gan Lafur Cymru dros y 15 mlynedd diwethaf y gallem fod wedi gobeithio'i chael ar noson cyn etholiad, ond dyna ni. Os yw'n mynd i fod yn bantomeim, gadewch i ni obeithio y gallwn gadw draw oddi wrth y gwrachod a'r 'Tu ôl chi!' o leiaf. [Chwerthin.] Dewch 'mlaen.

The reason we brought forward this amendment to this debate is quite simple—it is in order to differentiate, if that was not very clear—and it still is not very clear, I think, from the opening remarks—between devolution, as such, and government, and who is responsible for policy and who is responsible for the levels of governance. I think that it is important that we bear that in mind. No matter what the failures of Welsh Labour have been over the past 15 years—and the successes, because there have been successes—we have to bear in mind that Wales today is an infinitely more confident, successful and progressive nation than it was 15 years ago. Of that I have no doubt, and I have no doubt that devolution has played its part in that. I have no doubt either that it is far better to have an elected Welsh Government, albeit that it has been Labour for 15 years, or even if the people of Wales ever decided that it would be Conservative for 15 years, than governance straight from London by colonial rule—by Governments that are not ever elected by the people of Wales. That is just so obvious as a choice that the people of Wales have made. We see that between the gap in the referendum in 1997 and the referendum in 2011. The growth in support for devolution was clear. It was not a growth, necessarily, in support of one party, but it was a growth in support for a method of governance.

Mae ein rheswm dros gyflwyno'r gwelliant yn y ddadl hon yn eithaf syml-mae'n cael ei gyflwyno er mwyn gwahaniaethu, os nad oedd hynny'n glir iawn-ac mae'n dal yn aneglur yn fy marn i, o'r sylwadau agoriadol-rhwng datganoli fel y cyfryw a'r llywodraeth, a phwy sy'n gyfrifol am bolisi a phwy sy'n gyfrifol am lefelau llywodraethu. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn cadw hynny mewn cof. Ni waeth beth yw methiannau Llafur Cymru dros y 15 mlynedd diwethaf-a'r llwyddiannau, oherwydd bu llwyddiannau-mae'n rhaid i ni gofio bod Cymru heddiw yn genedl lawer iawn mwy hyderus, llwyddiannus a blaengar nag a oedd 15 mlynedd yn ôl. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth am hynny ac nid oes gennyf amheuaeth fod datganoli wedi chwarae ei ran yn hynny. Nid oes gennyf amheuaeth chwaith ei bod yn llawer gwell cael Llywodraeth Cymru etholedig, er mai'r Blaid Lafur yw hi wedi bod ers 15 mlynedd neu hyd yn oed pe bai pobl Cymru yn penderfynu cael llywodraeth Geidwadol am 15 mlynedd, nag y byddai cael ein llywodraethu'n syth o Lundain drwy reolaeth drefedigaethol-gan Lywodraethau na chawsant erioed mo'u hethol gan bobl Cymru. Mae hynny mor amlwg yn ddewis y mae pobl Cymru wedi'i wneud. Gwelwn hynny yn y bwlch rhwng refferendwm 1997 a refferendwm 2011. Roedd y twf yn y gefnogaeth i ddatganoli yn glir. Nid twf yn y gefnogaeth i un blaid ydoedd o reidrwydd, ond twf yn y gefnogaeth i ddull o lywodraethu.

However, because we have devolution throughout the British isles, we see something different happening in Scotland. I think that that is where we can underline that policy changes can make a difference to public services.

Fodd bynnag, gan fod gennym ddatganoli ar draws ynysoedd Prydain, rydym yn gweld rhywbeth gwahanol yn digwydd yn yr Alban. Rwy'n meddwl mai dyna lle y gallwn danlinellu'r modd y gall newidiadau mewn polisïau wneud gwahaniaeth i wasanaethau cyhoeddus.

If we look at the health service in Scotland, we see that there is some difficulty in comparisons because it has different timings, response times and targets, for example, but, broadly speaking, ambulances in Scotland always meet their response times within 1%. As we know, in Wales, they have met a lesser response time of 65%, I think, only once in the past three years. If we look at waiting times in Scotland, on a like-for-like basis, we see that 90% of patients are treated within 18 weeks; in Wales, it is only 63% of patients.

Os edrychwn ar y gwasanaeth iechyd yn yr Alban, gwelwn fod rhywfaint o anhawster wrth gymharu oherwydd bod ganddi wahanol amseriadau, amseroedd ymateb a thargedau, er enghraifft, ond yn fras, mae ambiwlansys yn yr Alban bob amser o fewn 1% i gyrraedd eu targed amser ymateb. Fel y gwyddom, yng Nghymru, rwy'n credu mai dim ond unwaith yn y tair blynedd diwethaf y cyrhaeddwyd y targed amser ymateb is o 65%. Os edrychwn ar amseroedd aros yn yr Alban, ar sail gyfatebol, gwelwn fod 90% o gleifion yn cael eu trin o fewn 18 wythnos; yng Nghymru, dim ond 63% o gleifion sy'n cael eu trin o fewn yr amser hwnnw.

*Julie Morgan a gododd—*

*Julie Morgan rose—*

15:55 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will give way in a second. I know that the target in Wales is different to that in Scotland, but I am comparing like for like there. I will now give way to the Member.

Ildiaf mewn eiliad. Gwn fod y targed yng Nghymru yn wahanol i'r un yn yr Alban ond rwy'n cymharu ar sail gyfatebol yno. Ildiaf i'r Aelod yn awr.

15:55 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for giving way. What are his views about the independent Nuffield report, which came out a few weeks ago and said that, in fact, there is virtually no difference in health performance between the individual countries in the UK?

Diolch i'r Aelod am ildio. Beth yw ei farn am adroddiad annibynnol Nuffield a gyhoeddwyd ychydig wythnosau yn ôl, ac a ddywedai nad oes fawr o wahaniaeth, mewn gwirionedd, rhwng perfformiad iechyd y gwledydd unigol yn y DU?

15:55 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the health spokesperson for Plaid Cymru muttered under her breath, it did not say that. One of the disappointing things about the Nuffield report was—. I agree that it did not feed the beast over on the other side of the Chamber. I agree with that. However, neither did it say that there was a single example of excellence in the NHS in Wales. We have to own the NHS in Wales and think that if we are proper about governance, we want to see the NHS in Wales being superb—not in every area; perhaps we cannot achieve that. However, in some areas, we would want that to be an ambition. Nuffield says that, in most areas, there was nothing measurably different between England and Wales. However, if you compare us with Scotland, we are behind. Accident and emergency is identified as being poor in Wales, and ambulance response times. As I said, there were no examples of excellence.

Fel y sibrydodd llefarydd iechyd Plaid Cymru o dan ei gwynt, nid oedd yn dweud hynny. Un o'r pethau siomedig am adroddiad Nuffield oedd—. Rwy'n cytuno nad oedd yn bwydo'r anifail draw ar ochr arall y Siambr. Rwy'n cytuno â hynny. Fodd bynnag, nid oedd yn dweud chwaith fod yna un enghraifft o ragoriaeth yn y GIG yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni berchenogi'r GIG yng Nghymru a chredu, os ydym am ei lywodraethu'n briodol, ein bod am i'r GIG yng Nghymru fod yn wych—nid ym mhob maes; efallai na allwn gyflawni hynny. Ond mewn rhai meysydd, byddem eisiau i hynny fod yn uchelgais. Dywed Nuffield nad oedd dim y gellid ei fesur yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr yn y rhan fwyaf o feysydd. Fodd bynnag, pe baech yn ein cymharu â'r Alban, rydym ar ei hôl hi. Nodwyd bod gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn wael yng Nghymru, ac amseroedd ymateb ambiwlansys. Fel y dywedais, ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o ragoriaeth.

I could say the same for the education system as well. We have muddled along. In Scotland, they have succeeded in breaking the link between deprivation and poverty. It is the only part of the United Kingdom that has achieved that in measurable statistical terms, as identified in the 'State of the Nation 2013' report under Alan Milburn. The Member is right to point out that, sometimes, things are exaggerated. On the other hand, we cannot really blow our own trumpet too much either. There have been policy failures. There has been a failure to deliver sufficient public services to the level of excellence that we really would want devolution to achieve. To the level that that is the responsibility of Welsh Labour, we will be supporting today's motion, although point 2. c), relating to the NHS and noting that one person in seven is on a waiting list, does not make much sense at all. What does it mean? Although we will be supporting it, we want to have a wider and more proper debate, going forward, in Wales about what are public services now delivered by national Government, allied with regional government in Wales, which takes us, of course, to the future of the Williams commission.

Gallwn ddweud yr un peth am y system addysg yn ogystal. Rydym wedi straffaglu yn ein blaenau. Yn yr Alban, maent wedi llwyddo i dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a thlodi. Dyma'r unig ran o'r Deyrnas Unedig sydd wedi llwyddo i wneud hynny mewn termau ystadegol mesuradwy, fel y nodwyd yn adroddiad 'Cyflwr y Genedl 2013' o dan Alan Milburn. Mae'r Aelod yn iawn i nodi bod pethau weithiau'n cael eu gorliwio. Ar y llaw arall, ni allwn ganu ein clodydd ein hunain ormod chwaith. Cafwyd methiannau o ran polisi. Cafwyd methiant i ddarparu digon o wasanaethau cyhoeddus ar lefel o ragoriaeth y byddem eisiau i ddatganoli ei chyrraedd mewn gwirionedd. I'r graddau mai cyfrifoldeb Llafur Cymru yw hynny, byddwn yn cefnogi'r cynnig heddiw, er nad yw pwynt 2. c), sy'n ymwneud â'r GIG ac sy'n nodi bod un person o bob saith ar restr aros yn gwneud llawer o synnwyr o gwbl. Beth y mae'n ei olygu? Er y byddwn yn ei gefnogi, rydym yn awyddus i gael trafodaeth ehangach a mwy priodol yng Nghymru yn y dyfodol ynglŷn â'r hyn yw'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn awr gan Lywodraeth genedlaethol, ynghyd â llywodraeth ranbarthol yng Nghymru, sy'n dod â ni, wrth gwrs, at ddyfodol comisiwn Williams.

15:57 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

This First Minister appears not to be able to grasp that Wales and Labour are different things, and that we are holding his Labour Government to account because Wales deserves so much better. The Government denies Wales the independent inquiry into standards of care within the Welsh NHS, which the UK Government has delivered for the English NHS. The Welsh Labour Government target for ambulance handover time of less than 15 minutes was missed more than 17,000 times at just two north Wales hospitals last year. The British Medical Association—BMA Cymru—states that general practice in north Wales is in crisis. Several practices have been unable to fill vacancies, and many GPs are seriously considering retirement because of the current expanding workload. This is a huge issue for the NHS in general and your constituents in particular. E-mails sent to me by north Wales nurses include claims that patients are at risk and that nursing staff are stressed and exhausted. They say that not only are staffing levels dropping, but the skill mix is constantly being reduced, and that concerns are constantly raised with managers, but to no avail—nobody is listening. Only this week, the Royal College of Nursing in Wales warned that hospitals in Wales face a shortage of qualified nurses, which could compromise patient care. A Rhyl resident e-mailed the following message:

Mae'n ymddangos nad yw'r Prif Weinidog yn gallu dirnad bod Cymru a Llafur yn bethau gwahanol a'n bod yn dwyn ei Lywodraeth Lafur i gyfrif am fod Cymru yn haeddu cymaint gwell. Mae'r Llywodraeth yn gwrthod cynnal ymchwiliad annibynnol i safonau gofal yn y GIG yng Nghymru y mae Llywodraeth y DU wedi'i ddarparu ar gyfer y GIG yn Lloegr. Methwyd â chyrraedd targed Llywodraeth Lafur Cymru ar gyfer amser trosglwyddo ambiwlansys o lai na 15 munud fwy na 17,000 o weithiau mewn dau ysbyty yng ngogledd Cymru yn unig y llynedd. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain-BMA Cymru-yn datgan bod meddygfeydd yn y gogledd yn wynebu argyfwng. Mae nifer o feddygfeydd wedi methu â llenwi swyddi gwag a llawer o feddygon teulu o ddifrif yn ystyried ymddeol oherwydd y llwyth gwaith cyfredol sy'n cynyddu. Mae hwn yn fater enfawr i'r GIG yn gyffredinol ac i'ch etholwyr yn arbennig. Mae e-byst a anfonwyd ataf gan nyrsys yng ngogledd Cymru yn cynnwys honiadau bod cleifion mewn perygl a bod staff nyrsio dan straen ac wedi gorflino. Maent yn dweud, nid yn unig fod lefelau staffio'n disgyn, ond fod y gymysgedd sgiliau'n cael ei lleihau'n gyson a bod pryderon yn cael eu codi'n rheolaidd gyda'r rheolwyr, ond yn ofer-nid oes unrhyw un yn gwrando. Yr wythnos hon, rhybuddiodd Coleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru bod ysbytai yng Nghymru yn wynebu prinder nyrsys cymwys, a allai beryglu gofal cleifion. E-bostiodd un o drigolion Y Rhyl y neges ganlynol:

'As an ex-Stafford Hospital patient, I can say without a shadow of doubt that NHS Wales is not another Stafford about to happen; it is another Stafford happening right now.' [Interruption.]

'Fel cyn glaf yn ysbyty Stafford, gallaf ddweud heb rithyn o amheuaeth nad yw GIG Cymru yn Stafford arall sydd ar fin digwydd; mae'n Stafford arall sy'n digwydd ar hyn o bryd.' [Torri ar draws.]

I am only quoting a constituent. A Flintshire resident e-mailed the following message:

Dyfynnu geiriau etholwr rwyf fi, dyna i gyd. Anfonodd un o drigolion Sir y Fflint y neges e-bost ganlynol:

'The ongoing changes to healthcare in Wales prevent patients living in Wales being transferred to specialist care in England. I underwent two lots of surgery and was extremely surprised when my GP told me that he was unable to refer me to the same specialist because he works out of the Countess of Chester due to these changes.'

'Mae'r newidiadau parhaus i ofal iechyd yng Nghymru yn atal cleifion sy'n byw yng Nghymru rhag cael eu trosglwyddo i ofal arbenigol yn Lloegr. Cefais ddwy lawdriniaeth ac fe'm synnwyd yn fawr pan ddywedodd fy meddyg teulu wrthyf na allai fy nghyfeirio at yr un arbenigwr oherwydd ei fod yn gweithio yn ysbyty Countess of Chester oherwydd y newidiadau hyn.'

A close family member was diagnosed with cancer and was told that he was being referred to the Christie in Manchester, one of the leading cancer care units in the UK. However, he was then told that he could not be referred there as it was not within Wales. He said that he had spoken to several professionals in the health service in Wales, and had yet to find anyone who thinks that what is happening will lead to improved care for patients.

Mae aelod agos o'r teulu yn dioddef o ganser a dywedwyd wrtho ei fod yn cael ei gyfeirio at ysbyty'r Christie ym Manceinion, un o unedau gofal canser mwyaf blaenllaw y DU. Fodd bynnag, cafodd wybod wedyn na ellid ei gyfeirio yno gan nad oedd o fewn Cymru. Dywedodd ei fod wedi siarad â nifer o weithwyr proffesiynol yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a'i fod eto i ddod o hyd i neb sy'n meddwl y bydd yr hyn sy'n digwydd yn arwain at well gofal i gleifion.

Another Flintshire resident wrote:

Ysgrifennodd un arall o drigolion Sir y Fflint:

'I was told that, had I been a patient from England, the operation would have been carried out within 18 weeks from the consultation date in January. However, as I am a patient from Wales, I will be required to wait at least 36 weeks. These discriminatory arrangements highlight what the Prime Minister has been saying about the two-tier NHS in England and Wales, and a north Wales nurse told me last week that after she had made a complaint,

'Dywedwyd wrthyf, pe bawn yn glaf yn Lloegr, y byddwn wedi cael y llawdriniaeth o fewn 18 wythnos i ddyddiad yr ymgynghoriad ym mis Ionawr. Fodd bynnag, gan fy mod yn glaf yng Nghymru, bydd gofyn i mi aros am o leiaf 36 wythnos. Mae'r trefniadau gwahaniaethol hyn yn tynnu sylw at yr hyn y mae'r Prif Weinidog wedi bod yn ei ddweud am y GIG dwy haen yng Nghymru a Lloegr, a'r wythnos diwethaf, dywedodd nyrs o'r gogledd a oedd wedi gwneud cwyn,

'They tried to break the person making the complaint, to make it go away as if it never happened. They shouldn't be allowed to get away with it'.

'Maent yn ceisio torri'r person sy'n gwneud y gŵyn, i geisio cael gwared ar y gŵyn fel pe na bai erioed wedi digwydd. Ni ddylent gael yr hawl i wneud hyn'.

Again, she said, 'It's like Stafford'.

Unwaith eto, dywedodd, 'Mae fel Stafford'.

The term 'housing supply crisis' was first coined by the Welsh housing sector—[Interruption.] Sorry, are you intervening? Oh, I did not hear you.

Cafodd yr ymadrodd 'argyfwng cyflenwad tai' ei fathu gyntaf gan y sector tai yng Nghymru [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, a ydych yn ymyrryd? O, nid oeddwn yn clywed.

16:00

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. Did you also take note—given that you keep referring to Stafford—that, this week in the press, there is reference to the damage that you are doing to the staff who currently work in the NHS? Did you take note of the bodies that represent the people who work in the NHS who have said that they wished it would stop here, because this is actually doing huge damage to those people—nurses particularly—who work in the health service?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. A sylwoch hefyd—o ystyried eich bod yn cyfeirio at Stafford o hyd—fod y wasg yn cyfeirio yr wythnos hon at y niwed rydych yn ei wneud i'r staff sy'n gweithio yn y GIG ar hyn o bryd? A sylwoch ar y cyrff sy'n cynrychioli'r bobl sy'n gweithio yn y GIG a ddywedodd eu bod yn dymuno iddo stopio, am ei fod mewn gwirionedd yn gwneud niwed enfawr i'r bobl hynny—nyrsys yn arbennig—sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd?

16:01

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Had you been listening, you would have noticed that I quoted the RCN, the BMA and others.

Pe baech wedi bod yn gwrando, byddech wedi sylwi fy mod yn dyfynnu Coleg Brenhinol y Nyrsys, Cymdeithas Feddygol Prydain ac eraill.

During the first 12 devolution years, the Labour Welsh Government cut the supply of new homes for social rent in Wales by almost three quarters, and the number of homes for social rent in Wales by 29,000 as waiting lists and overcrowding increased. Although new home registrations in the UK rose 28% last year, Wales was the only part of the UK to see a fall, and the numbers fell again in Wales during the first quarter of this year, but not around the rest of the UK. Construction for Growth Wales said recently that the cost of regulation to the sector means that companies, particularly SMEs, are increasingly unable to compete and that regulations must be assessed as a whole, so that industry investment continues to flow into Wales.

Yn ystod y 12 mlynedd gyntaf ers datganoli, torrodd Llywodraeth Lafur Cymru bron i dri chwarter y cyflenwad o gartrefi newydd rhent cymdeithasol a 29,000 oddi ar nifer y cartrefi i'w rhentu'n gymdeithasol yng Nghymru wrth i restrau aros a lefelau gorlenwi tai gynyddu. Er bod cofrestriadau cartrefi newydd yn y DU wedi codi 28% y llynedd, Cymru oedd yr unig ran o'r DU i weld gostyngiad a disgynnodd y niferoedd unwaith eto yng Nghymru yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn hon, er na ddigwyddodd hynny yng ngweddill y DU. Dywedodd Construction for Growth Cymru yn ddiweddar fod cost rheoleiddio i'r sector yn golygu bod mwy a mwy o gwmnïau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, yn methu â chystadlu a bod yn rhaid asesu'r rheoliadau yn eu cyfanrwydd, fel bod buddsoddiadau diwydiant yn parhau i lifo i mewn i Gymru.

As CLA Cymru states in its 'Tackling the Housing Crisis in Wales' report:

Fel y mae CLA Cymru yn datgan yn ei adroddiad, 'Tackling the Housing Crisis in Wales':

'At a time of housing supply crisis, we must not compromise condition and standards, but neither must they become a barrier to housing more people.'

'Ar adeg argyfwng o ran cyflenwad tai, rhaid inni beidio â pheryglu amodau a safonau, ond ni ddylent ychwaith fod yn rhwystr i ddarparu tai ar gyfer mwy o bobl.'

It said that the

Mae'n dweud bod

'Welsh Government's Housing Bill focuses more on measures dealing with the symptoms of the crisis than its causes'.

'Bil Tai Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio mwy ar fesurau sy'n ymdrin â symptomau'r argyfwng na'i achosion'.

Amen to that. The housing supply crisis in Wales has developed over 15 years of Labour-led Welsh Government, while Carwyn Jones and his music hall cast of musical-chair Ministers owe the people of Wales a big, big apology—[Interruption.] However, we get the typical, sneering, smug, swaggering grin—[Interruption.]

Amen i hynny. Mae'r argyfwng cyflenwad tai yng Nghymru wedi datblygu dros 15 mlynedd Llywodraeth Lafur Cymru, ac mae ar Carwyn Jones a'i gast o Weinidogion drama sy'n chwarae gêm o newid cadeiriau ymddiheuriad mawr, mawr i bobl Cymru— [Torri ar draws.] Fodd bynnag, cawn y wên wawdlyd, hunanfodlon, falch arferol— [Torri ar draws.]

16:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Order. You are not to shout at other Members, and other Members ought not to shout back. Let us have a calm debate, please. I am the only person who is allowed to shout here—or the PO, obviously, if she is present. [Laughter.] Mr Isherwood.

Trefn. Rhaid i chi beidio â gweiddi ar Aelodau eraill, ac ni ddylai Aelodau eraill weiddi'n ôl. Gadewch i ni gael dadl bwyllog, os gwelwch yn dda. Fi yw'r unig berson sy'n cael gweiddi yma—a'r Llywydd wrth gwrs, os yw'n bresennol. [Chwerthin.] Mr Isherwood.

16:02

## Mark Isherwood [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

As always, I defer to your wisdom in this area.

Fel bob amser, ildiaf i'ch doethineb yn y maes hwn.

I will simply conclude by stating that if you wish to challenge what I have said, please refer to the facts and provide alternative evidence if you are going to say that they are incorrect.

Rwyf am gloi'n syml drwy ddweud os dymunwch herio'r hyn rwyf wedi'i ddweud, edrychwch ar y ffeithiau a rhowch dystiolaeth amgen os ydych am ddweud eu bod yn anghywir.

16:03

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We have become accustomed in Welsh Labour in the last few months to talking about the Conservative war on Wales, but today, they seem to be fighting that war with plastic tanks, which suggests that they are not going to go very far. I was actually very relieved by the contribution of the Plaid Cymru spokesperson, who introduced an element of seriousness into the debate, which I think is necessary. It is quite possible to have a coherent debate on some of these issues, but not in the selective way that the Conservatives present their arguments today—it is a selective motion, and the Plaid Cymru Member has already, rightly, challenged the nature of the bullet point on the health service. I would do the same on education, which I think is a gross simplification in terms of what they are saying. It is worth bearing in mind, of course, that the Secretary of State for Education in Westminster has already been taken to the Office for National Statistics for the way in which he has misinterpreted standings in England in relation to PISA.

Rydym wedi dod yn gyfarwydd yn Llafur Cymru dros yr ychydig fisoedd diwethaf â sôn am ryfel y Ceidwadwyr ar Gymru, ond heddiw, mae'n ymddangos eu bod yn ymladd y rhyfel hwnnw â thanciau plastig, sy'n awgrymu nad ydynt yn mynd i fynd yn bell iawn. Rhyddhad mewn gwirionedd oedd clywed cyfraniad llefarydd Plaid Cymru, a gyflwynodd elfen o ddifrifoldeb i'r ddadl, ac rwy'n credu bod angen hynny. Mae'n gwbl bosibl cael dadl gydlynol ar rai o'r materion hyn, ond nid yn y ffordd ddethol y mae'r Ceidwadwyr yn cyflwyno'u dadleuon heddiw—mae'n gynnig dethol ac mae'r Aelod Plaid Cymru eisoes, yn gwbl briodol, wedi herio natur y pwynt bwled ar y gwasanaeth iechyd. Byddwn yn gwneud yr un peth ar addysg, y credaf ei fod yn symleiddio'n ormodol yr hyn y maent yn ei ddweud. Mae'n werth cadw mewn cof, wrth gwrs, fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn San Steffan eisoes wedi cael ei ddwyn gerbron y Swyddfa Ystadegau Gwladol oherwydd y modd y mae wedi camddehongli safleoedd yn Lloegr mewn perthynas â PISA.

What I want to say today is that there is a complete mismatch between the perceptions of the Welsh Conservatives and what is happening in Wales. One of the reasons for that, of course, is that, in order to have this debate, they have to isolate Wales from the policies of their own Government, and the reality of life, as we all know in our communities, is that the policies of their Government in Westminster—the Conservative-led Government in Westminster—are having a serious, fundamental and damaging impact on our communities in Wales, and will—

Yr hyn rwyf am ei ddweud heddiw yw bod diffyg cysylltiad llwyr rhwng canfyddiadau'r Ceidwadwyr Cymreig a'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Un o'r rhesymau am hynny wrth gwrs yw eu bod, er mwyn cael y ddadl hon, yn gorfod ynysu Cymru oddi wrth bolisïau eu Llywodraeth eu hunain ac fel y gwyddom i gyd, realiti bywyd yn ein cymunedau yw bod polisïau eu Llywodraeth yn San Steffan—y Llywodraeth sy'n cael ei harwain gan y Ceidwadwyr yn San Steffan—yn cael effaith ddifrifol, sylfaenol a niweidiol ar ein cymunedau yng Nghymru, a bydd y—

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R.T. Davies rose—*

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

In a moment. Those policies will continue to do so, because we know that the austerity policies of the Conservative Government will last well beyond the time they were originally planned to last and that, so far, we have only seen 40% of the expenditure cuts that we can expect to see overall.

Mewn munud. Bydd y polisïau hynny'n parhau i wneud hynny, oherwydd gwyddom y bydd polisïau caledi'r Llywodraeth Geidwadol yn para ymhell y tu hwnt i'r amser y cawsant eu cynllunio i bara'n wreiddiol, a hyd yn hyn ni welsom ond 40% o'r toriadau ar wariant y gallwn ddisgwyl eu gweld.

16:05

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the Rhondda for giving way. Does he not think that one of the biggest losses of service to the community that he represents is the downgrading of A&E provision at the Royal Glamorgan Hospital, which is something that his party and the Government in which he served inflicted on the people of his constituency?

Diolch i'r Aelod dros y Rhondda am ildio. Onid yw'n meddwl mai un o'r colledion mwyaf yn y gwasanaethau i'r gymuned y mae'n eu cynrychioli yw israddio'r ddarpariaeth ddamweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sy'n rhywbeth y mae ei blaid a'r Llywodraeth y gwasanaethai ynddi wedi'i achosi i bobl ei etholaeth ?

16:05

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A consultation has been going on that has not yet concluded on that issue, and there are meetings still going on in relation to that issue. I think that the Member could do with being a bit better informed about the region that he is supposed to represent.

Mae ymgynghoriad ar y gweill nad yw eto wedi dod i gasgliad terfynol ar y mater hwnnw ac mae cyfarfodydd yn dal i gael eu cynnal mewn perthynas â hynny. Rwy'n meddwl y gallai'r Aelod geisio bod yn fwy gwybodus ynglŷn â'r rhanbarth y mae i fod i'w chynrychioli.

The thing that has had the biggest impact on my constituency, I think, is the welfare reform cuts that are being inflicted by his Government, which will amount across Wales to cuts of some £900 million on a per annum basis into the next year. That is a serious impact that is being felt in all of our communities and is damaging the life chances of our constituents.

Yr hyn sydd wedi cael fwyaf o effaith ar fy etholaeth, rwy'n meddwl, yw'r toriadau diwygio lles a achoswyd gan ei Lywodraeth, a fydd yn gyfystyr â thoriadau o tua £900 miliwn ledled Cymru yn flynyddol nes y flwyddyn nesaf. Mae hynny'n effaith ddifrifol sy'n cael ei theimlo ym mhob un o'n cymunedau ac yn niweidio cyfleoedd bywyd ein hetholwyr.

However, I think that there is a positive story that we should be telling as well about the many things that have been going right in Wales: the fact that the unemployment figures in Wales have been better than in other parts of the UK, because of the impact of Welsh Government policies such as Jobs Growth Wales. One of the scandalous things about the Conservative and Liberal Democrat coalition right at the outset was its scrapping of the Future Jobs Fund so that we had to step in and put something in its place in Wales.

Fodd bynnag, credaf fod yna stori gadarnhaol y dylem fod yn ei hadrodd yn ogystal am y nifer o bethau sydd wedi bod yn mynd yn iawn yng Nghymru: y ffaith fod y ffigurau diweithdra yng Nghymru wedi bod yn well nag mewn rhannau eraill o'r DU oherwydd effaith polisïau Llywodraeth Cymru megis Twf Swyddi Cymru. Un o'r pethau gwarthus ynglŷn â chlymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol o'r cychwyn oedd iddi gael gwared ar Gronfa Swyddi'r Dyfodol fel bod angen i ni gamu i mewn a sefydlu rhywbeth yn ei le yng Nghymru.

Also, what has been said recently about the indebtedness of students across the United Kingdom? Students from Wales will be the least indebted of students anywhere in the United Kingdom—including, can I say to Plaid Cymru, in Scotland. That is the reality, because of the policies that we put in place. Of course, on top of that, we know that the system in England is now approaching the point at which it will be more expensive than the system it was designed to replace. So there is a complete collapse of that system.

Hefyd, beth sydd wedi cael ei ddweud yn ddiweddar am ddyledion myfyrwyr ar draws y Deyrnas Unedig? Bydd gan fyfyrwyr o Gymru lai o ddyledion na myfyrwyr mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig—gan gynnwys yr Alban, gallaf ddweud wrth Blaid Cymru. Dyna'r realiti, oherwydd y polisïau rydym wedi'u rhoi ar waith. Wrth gwrs, ar ben hynny, gwyddom fod y system yn Lloegr yn awr yn agosáu at y pwynt pan fydd yn fwy costus na'r system y'i lluniwyd i gymryd ei lle. Felly mae'r system honno wedi mynd â'i phen iddi'n llwyr.

I return to the subject that I raised with the backbench Member for Monmouthshire earlier. In England, we are starting to see an atomised and highly competitive school system that is essentially on the road to privatisation and in which unqualified teachers are allowed to teach, unlike the situation here in Wales where we have kept our support for a proper system based on qualified teachers and where we are investing in our teachers through the Master's programme and through other initiatives. We are on the right course with the policies that we have put in place in this Government over the last three years. The Conservatives—I am afraid to say the Deputy Presiding Officer was right to use the phrase—have introduced a pantomime today simply because tomorrow is an election day, but what they have failed to do, of course, is to put any real context behind what they are saying. They have failed even, in my view, to land a punch.

Dychwelaf at y pwnc a godais yn gynharach gyda'r Aelod dros Sir Fynwy ar y meinciau cefn. Yn Lloegr, rydym yn dechrau gweld system ysgolion ddarniog a hynod gystadleuol sydd yn ei hanfod ar y ffordd i breifateiddio a lle caiff athrawon heb gymhwyso yr hawl i addysgu, yn wahanol i'r sefyllfa yma yng Nghymru lle rydym wedi parhau i gefnogi system briodol sy'n seiliedig ar athrawon cymwysedig a lle rydym yn buddsoddi yn ein hathrawon drwy'r rhaglen Meistr a mentrau eraill. Rydym ar y trywydd cywir o ran y polisïau rydym wedi'u rhoi ar waith yn y Llywodraeth hon dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r Ceidwadwyr—ofnaf fod y Dirprwy Lywydd wedi defnyddio'r ymadrodd cywir—wedi cyflwyno pantomeim heddiw yn syml am fod etholiad yn cael ei gynnal yfory, ond yr hyn y maent wedi methu â'i wneud, wrth gwrs, yw rhoi unrhyw gyd-destun go iawn yn sail i'r hyn y maent yn ei ddweud. Yn fy marn i, maent wedi methu â tharo'r un hoelen ar ei phen.

16:08

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government's major events strategy states clearly that

'building a positive external reputation and brand image for Wales is an important challenge recognised by the Welsh Assembly Government.'

These are fine words indeed, but the sad fact is that, after 15 years of Labour's complete failure in Government, fine words are, in many cases, all it has to deliver. Welsh Labour has a track record of failing to take full advantage of the opportunities that are presented by major events to promote Wales, both home and abroad. It has failed on numerous occasions—for example, advertising during the Six Nations tournament in the capitals of Ireland, Italy and France. The tournament provided many opportunities to advertise Wales to Europe, yet the Welsh Government continued to ignore any potential benefits for the Welsh economy. The Olympic Games in 2012 delivered £10 billion in a year for the UK economy, yet the Welsh Labour Government completely failed to showcase Welsh businesses during the games. Freedom of information requests reveal that the Welsh Government made no commercial contracts at this time, completely failing to ensure that the people of Wales would benefit from this unique opportunity.

Now we face another great opportunity presented by holding the Nato summit at Celtic Manor Resort in Newport, south Wales. The Nato summit is the second-largest gathering of world leaders after the United Nations general assembly. The previous summit was held in Chicago, which made a huge amount of money—£113 million—on that summit. We should seize this opportunity to make our economy grow.

Mae strategaeth digwyddiadau mawr Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir bod

'adeiladu enw da allanol cadarnhaol a delwedd brand ar gyfer Cymru yn her bwysig a gydnabyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.'

Mae'r rhain yn eiriau gwych yn wir ond y ffaith drist ar ôl 15 mlynedd o fethiant llwyr y Llywodraeth Lafur yw mai dim ond geiriau gwych sydd ganddi i'w rhoi yn y rhan fwyaf o achosion. Mae gan Lafur Cymru hanes o fethu â chymryd mantais lawn o'r cyfleoedd y mae digwyddiadau mawr i hyrwyddo Cymry yn eu cynnig, gartref a thramor. Mae wedi methu ar sawl achlysur-er enghraifft, hysbysebu yn ystod pencampwriaeth y Chwe Gwlad ym mhrifddinasoedd Iwerddon, yr Eidal a Ffrainc. Cynigiai'r bencampwriaeth lawer o gyfleoedd i hysbysebu Cymru i Ewrop ond parhaodd Llywodraeth Cymru i anwybyddu unrhyw fanteision posibl i economi Cymru. Denodd y Gemau Olympaidd yn 2012 £1 biliwn mewn blwyddyn i economi'r DU ac eto, methodd Llywodraeth Lafur Cymru yn llwyr â thynnu sylw at fusnesau Cymru yn ystod y gemau. Mae ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn dangos na luniodd Llywodraeth Cymru unrhyw gontractau masnachol ar yr adeg honno, gan fethu'n gyfan gwbl â sicrhau bod pobl Cymru yn elwa ar y cyfle unigryw hwn.

Yn awr, rydym yn wynebu cyfle gwych arall yn sgîl cynnal uwchgynhadledd NATO yn y Celtic Manor Resort yng Nghasnewydd, de Cymru. Uwchgynhadledd NATO yw'r cynulliad mwyaf ond un o arweinwyr y byd ar ôl cynulliad cyffredinol y Cenhedloedd Unedig. Cynhaliwyd yr uwchgynhadledd flaenorol yn Chicago, a gwnaed arian enfawr—£113 miliwn o'r uwchgynhadledd honno. Dylem achub ar y cyfle i dyfu ein heconomi.

Deputy Presiding Officer, I represent South Wales East, and some of the poorest regions in the United Kingdom are in my area: Blaenau Gwent, Islwyn, Torfaen and Merthyr. Those areas. This Government must be ashamed of giving people such bad unemployment. There is no better education, no better housing, and the people in those areas are screaming for help. If we were in power, the Conservatives, we would take jobs to them. We will take jobs to them. You have not given them anything. In the flower show in Ebbw Vale not long ago, one overseas businessman offered Blaenau Gwent council the setting up of a theme park in Ebbw Vale. The application was rejected, mainly because the council wanted to build houses there. Look at the thinking: there is no sense of business there. In this part of the world, if you look at Newport, Merthyr, Caerphilly, Pontypool, Hengoed, Bargoed, you will see the empty shops. You are proudly saying—[Interruption.] Do not tell me. I go there every week. I go there every week, Deputy Presiding Officer. The record that they have is virtually the worst in the world. We are getting this European funding. You have failed to deliver. You make this part of the world like the third world—like eastern European countries. [Interruption.]

Ddirprwy Lywydd, rwy'n cynrychioli Dwyrain De Cymru ac mae rhai o ranbarthau tlotaf yn y Deyrnas Unedig yn fy ardal: Blaenau Gwent, Islwyn, Torfaen a Merthyr. Yr ardaloedd hynny. Rhaid bod cywilydd ar y Llywodraeth hon am roi cymaint o ddiweithdra i bobl. Nid yw'r addysg fymryn gwell, nid yw'r tai'n ddim gwell ac mae pobl yn yr ardaloedd hyn yn sgrechian am gymorth. Pe baem ni mewn grym, y Ceidwadwyr, byddem yn rhoi swyddi iddynt. Byddem yn mynd â swyddi iddynt. Nid ydych wedi rhoi dim iddynt. Yn y sioe flodau yng Nglyn Ebwy heb fod yn hir yn ôl, cynigiodd un dyn busnes o dramor sefydlu parc thema yng Nglyn Ebwy i gyngor Blaenau Gwent. Cafodd y cais ei wrthod, yn bennaf oherwydd bod y cyngor yn awyddus i adeiladu tai yno. Edrychwch ar y meddylfryd: nid oes unrhyw synnwyr busnes ynddi. Yn y rhan hon o'r byd, os edrychwch ar Gasnewydd, Merthyr, Caerffili, Pont-y-pŵl, Hengoed, Bargoed, byddwch yn gweld siopau gwag. Rydych yn dweud yn falch- [Torri ar draws.] Peidiwch â dweud wrthyf. Rwy'n mynd yno bob wythnos. Rwy'n mynd yno bob wythnos, Ddirprwy Lywydd. Mae eu record gyda'r waethaf yn y byd. Rydym yn cael arian Ewropeaidd. Rydych wedi methu â chyflawni. Rydych yn gwneud y rhan hon o'r byd yn debyg i'r trydydd byd yn debyg i wledydd dwyrain Ewrop. [Torri ar draws.]

16:12

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. I had thought things had calmed down. I say to Members on the Conservative benches, you should not shout when you make your arguments. Arguments are not strengthened by screaming them out, and it is a discourtesy to others in this Chamber.

Trefn. Roeddwn i wedi meddwl fod pethau wedi tawelu. Dywedaf wrth yr Aelodau ar feinciau'r Ceidwadwyr, ni ddylech weiddi pan fyddwch yn cyflwyno eich dadleuon. Nid yw dadleuon yn cael eu cryfhau trwy eu sgrechian ac mae'n anghwrtais i eraill yn y Siambr hon.

16:13

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We are still a part of the United Kingdom, two hours away from London. We are not 1 million miles away. The best things in those parts—. Why cannot we improve and have exactly the same level of prosperity? We are very close by. Only one and a half hours away. The difference between the other side of the channel and this side of the channel is 1 million miles. Whether you look at health, education, transport—as my honourable colleague has already mentioned, there is a long list of failures. Five minutes is not enough time. I let Welsh people know this: if they vote for us, we will bring prosperity to Wales.

Rydym yn dal i fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig, ddwy awr i ffwrdd o Lundain. Nid miliwn o filltiroedd i ffwrdd. Mae'r pethau gorau yn y rhannau hynny—. Pam na allwn wella a chael yr un lefel o ffyniant? Rydym yn agos iawn. Oriau Dim ond awr a hanner i ffwrdd. Mae miliwn o filltiroedd o wahaniaeth rhwng ochr arall y sianel a'r ochr hon i'r sianel. Pa un a ydych yn edrych ar iechyd, addysg, trafnidiaeth—fel y mae fy nghydweithiwr anrhydeddus eisoes wedi crybwyll, ceir rhestr hir o fethiannau. Nid yw pum munud yn ddigon o amser. Rwy'n gadael i bobl Cymru wybod hyn: os byddant yn pleidleisio i ni, byddwn yn dod â ffyniant i Gymru.

16:13

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I had hoped that this afternoon would be an opportunity to reflect on how far devolution has progressed in Wales over the last 15 years. I have to say that I regret that, in opening this afternoon's debate, Nick Ramsay constantly conflated devolution with outcomes from a particular Government. Whatever the rights and wrongs and ups and downs, I remain absolutely convinced that, whatever the mistakes, the things that have gone well and the things that have gone badly, it is the right of the Government elected by the people of Wales to make those decisions. I think that we have come an awfully long way since the Assembly first gathered together 15 years ago, and I consider it a privilege to have been able to be part of those changes.

Roeddwn wedi gobeithio y byddai'r prynhawn yma'n gyfle i fyfyrio ynghylch y modd y mae datganoli wedi datblygu yng Nghymru dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn gresynu bod Nick Ramsay wrth agor y ddadl y prynhawn yma, wedi cyfosod datganoli'n gyson â chanlyniadau Llywodraeth benodol. Beth bynnag yw'r camgymeriadau, y pethau sydd wedi mynd yn dda a'r pethau sydd wedi mynd yn wael, rwy'n dal yn gwbl argyhoeddedig mai hawl Llywodraeth a etholwyd gan bobl Cymru yw gwneud y penderfyniadau hynny. Rwy'n credu ein bod wedi dod yn bell eithriadol ers i'r Cynulliad ymgynnull gyntaf 15 mlynedd yn ôl, ac rwy'n ei hystyried yn fraint cael bod yn rhan o'r newidiadau hynny.

We have come a long way. Ministers used to sit on committees on a weekly basis, and the body corporate structure prevented proper scrutiny and accountability and often inhibited the policy processes. However, let us not forget that, even in those times when we had very little power, we still tried our best to do the right thing by the people of Wales. We created the first ever Children's Commissioner for Wales, even within the constraints of our powers. When the Labour Government in London was passing draconian mental health legislation, we found a different way to treat people with mental illness in Wales, and, actually, Simon, what that report into comparisons of the health services across the UK did not point out was that Wales does have something that is Europe beating, if not world beating, and that is an eye health initiative that was launched way back in the 2000s, which was ahead of its time. It is important to recognise the things that we got right.

Since the 2011 referendum, we have enhanced our legislative powers in Wales, and the Assembly, I think, is really starting to find its feet in creating a distinctive path for public services and public policy in Wales, and I hope that the recent publication of the Silk commission will take us further along that journey, in terms of greater powers and greater accountability.

There is much to be welcomed as a young and evolving institution, but we still have a long way to go. I am concerned that we have seen, over the last year, three successive pieces of legislation fast tracked as emergency Bills, which I think threatens the capacity for effective scrutiny of legislation.

Civic society in Wales has been strengthened, and now plays a key part in helping to shape policy and legislation, but there is still more to be done to increase opportunities for that kind of engagement. More and more frequently we are seeing framework Bills introduced that rely heavily on the negative procedure, which, again, limits our ability as an institution to scrutinise Government.

What is most frustrating of all is the outcomes that some of the policy initiatives that have been pursued have delivered. I do not think for a minute that anybody in this Chamber, let alone the First Minister, is happy that less than 50% of our children leave school without decent grades in maths, English and Welsh first language. I do not think for a minute that the First Minister thinks that that is good enough and do not doubt that he wants to change it. However, whatever the rhetoric from Leighton Andrews, the reality is that we are not doing as well as we should. Our rankings in the Programme for International Student Assessment are getting worse and not better, and we are not going to meet the Government's own targets for success in that particular arena. According to Estyn's latest reports, the proportion of secondary schools branded as unsatisfactory is increasing, not getting less. We can have all the qualified teachers in the world, Leighton Andrews, and I agree that they should be qualified, but the reality is that our students are not doing as well as you, or I, would want them to do.

Rydym wedi dod yn bell. Arferai Gweinidogion eistedd ar bwyllgorau ar sail wythnosol ac roedd strwythur corff corfforaethol yn atal rhag craffu ac atebolrwydd priodol ac yn aml yn cyfyngu ar brosesau polisi. Fodd bynnag, gadewch i ni beidio ag anghofio, hyd yn oed yn yr amseroedd hynny pan nad oedd gennym ond ychydig iawn o bŵer, roeddem yn dal i wneud ein gorau i wneud y peth iawn i bobl Cymru. Crëwyd y Comisiynydd Plant Cymru cyntaf erioed, hyd yn oed o fewn ein pwerau cyfyngedig. Pan oedd y Llywodraeth Lafur yn Llundain yn pasio deddfwriaeth iechyd meddwl llym iawn, daethom o hyd i ffordd wahanol o drin pobl â salwch meddwl yng Nghymru, ac mewn gwirionedd, Simon, yr hyn nad yw'r adroddiad ar gymharu gwasanaethau iechyd ledled y DU yn tynnu sylw ato oedd bod gan Gymru rywbeth sy'n well nag Ewrop, os nad yn well na gweddill y byd, sef menter iechyd llygaid a lansiwyd dro'n ôl yn y 2000au, a oedd o flaen ei amser. Mae'n bwysig cydnabod y pethau rydym wedi'u gwneud yn iawn.

Ers refferendwm 2011, rydym wedi gwella ein pwerau deddfwriaethol yng Nghymru, ac mae'r Cynulliad, rwy'n meddwl, yn dechrau dod o hyd i'w ffordd go iawn o ran creu llwybr amlwg i wasanaethau cyhoeddus a pholisi cyhoeddus yng Nghymru ac rwy'n gobeithio y bydd cyhoeddiad diweddar comisiwn Silk yn mynd â ni ymhellach ar y daith i sicrhau mwy o bwerau a mwy o atebolrwydd.

Mae llawer i'w groesawu fel sefydliad ifanc sy'n esblygu ond mae gennym ffordd bell i fynd o hyd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n poeni ein bod wedi gweld tri darn olynol o ddeddfwriaeth yn cael eu rhoi ar lwybr carlam fel Biliau brys, ac rwy'n credu bod hyn yn bygwth y gallu i graffu'n effeithiol ar ddeddfwriaeth.

Mae cymdeithas ddinesig yng Nghymru wedi'i chryfhau ac mae bellach yn chwarae rhan allweddol yn helpu i lunio polisi a deddfwriaeth, ond mae mwy eto i'w wneud i gynyddu cyfleoedd ar gyfer y math hwnnw o ymgysylltiad. Yn fwy a mwy mynych, gwelwn Filiau fframwaith yn cael eu cyflwyno sy'n dibynnu'n helaeth ar y weithdrefn negyddol, ac mae hyn unwaith eto yn cyfyngu ar ein gallu fel sefydliad i graffu ar y Llywodraeth.

Yr hyn sydd fwyaf rhwystredig yw canlyniadau rhai o'r mentrau polisi a roddwyd ar waith. Nid wyf yn credu am funud fod unrhyw un yn y Siambr hon, heb sôn am y Prif Weinidog, yn hapus fod llai na 50% o'n plant yn gadael yr ysgol heb raddau boddhaol mewn mathemateg, a Chymraeg a Saesneg iaith gyntaf. Nid wyf yn credu am funud fod y Prif Weinidog yn credu bod hynny'n ddigon da ac nid wyf yn amau ei fod am newid hyn. Fodd bynnag, beth bynnag yw rhethreg Leighton Andrews, y realiti yw nad ydym yn gwneud cystal ag y dylem. Mae ein safle yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yn gwaethygu yn hytrach na gwella ac nid ydym yn mynd i gyrraedd targedau'r Llywodraeth ei hun ar gyfer llwyddiant yn y maes penodol hwnnw. Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, mae cyfran yr ysgolion uwchradd a frandiwyd yn anfoddhaol yn cynyddu yn hytrach na gostwng. Gallwn gael yr holl athrawon cymwys yn y byd, Leighton Andrews, a chytunaf y dylent fod yn gymwys, ond y gwir amdani yw nad yw ein myfyrwyr yn gwneud cystal ag y byddech chi neu finnau'n dymuno.

16:18 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You were doing so well. I do not disagree with you on some of the points that you have made, although I think that people have to be careful about how they analyse the PISA figures, and I think the Organisation for Economic Co-operation and Development's recent report demonstrates that. What I would say to you is that it is very clear that we are starting to close the gap with England now at GCSE level. That was what our reforms were designed to do, and I think that we should praise our teachers for that.

Roeddech yn gwneud mor dda. Nid wyf yn anghytuno â chi ynglŷn â rhai o'r pwyntiau a wnaethoch, er y dylai pobl fod yn ofalus sut y maent yn mynd ati i ddadansoddi ffigurau PISA yn fy marn i ac rwy'n credu bod adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dangos hynny. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud wrthych yw ein bod yn amlwg iawn yn dechrau cau'r bwlch rhyngom a Lloegr bellach ar lefel TGAU. Dyna oedd yr hyn y lluniwyd ein diwygiadau i'w wneud ac rwy'n meddwl y dylem ganmol ein hathrawon am hynny.

16:18 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What I know is that so many of our children are failing to leave school with a C or above in maths or English. We cannot be satisfied after 15 years of devolution that that is the case. One wonders how much longer we will continue to have that situation here in Wales.

Yr hyn rwy'n ei wybod yw bod cynifer o'n plant yn methu â gadael yr ysgol gyda gradd C neu uwch mewn mathemateg neu Saesneg. Ni allwn fod yn fodlon ar hynny ar ôl 15 mlynedd o ddatganoli. Tybed am ba hyd y byddwn yn parhau yn y sefyllfa honno yng Nghymru.

Undoubtedly, there are aspects of our NHS that are comparable to other parts of the UK, but the reality is that patients, if they are treated within Government waiting times, still wait 26 weeks from referral to treatment, and that is often too long for people who find themselves in pain and distress. We know that issues around diagnostics continue to trouble this Government, and that we do not make progress. That is before we even start on the ambulance service.

Yn ddi-os, mae agweddau ar ein GIG sy'n debyg i rannau eraill o'r DU ond y gwir amdani yw bod cleifion, os cânt eu trin o fewn amseroedd aros y Llywodraeth, yn dal i aros 26 wythnos rhwng cael eu hatgyfeirio a chael triniaeth ac mae hynny'n aml yn rhy hir i bobl sy'n dioddef poen a gofid. Gwyddom fod materion yn ymwneud â diagnosteg yn parhau i flino'r Llywodraeth hon ac nad ydym yn gwneud cynnydd. Mae hynny cyn i ni ddechrau ystyried y gwasanaeth ambiwlans.

There is much to celebrate in the last 15 years, but we are deluding ourselves if we think that we do not have a million miles more to travel.

Mae llawer i'w ddathlu yn y 15 mlynedd diwethaf ond rydym yn twyllo ein hunain os credwn nad oes gennym filiwn o filltiroedd eto i'w teithio.

16:19 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with the opening remarks from Kirsty Williams, and, indeed, Simon Thomas earlier, that we must draw a distinction between devolution and the Government that we have here in Wales, which has been successfully led by the Labour Party. Well, I say 'successfully'—[Assembly Members: 'Oh.'] They have with success managed to form a Government, I should say. The important thing is that we focus on the delivery of the successive Governments that we have had in Wales. That is the purpose of the Welsh Conservative motion that we have before us. No-one can argue with the fact that it is a motion that is precisely in order in terms of the way in which it has been phrased.

Rwy'n cytuno â sylwadau agoriadol Kirsty Williams, a Simon Thomas yn gynharach yn wir, fod yn rhaid i ni wahaniaethu rhwng datganoli a'r Llywodraeth sydd gennym yma yng Nghymru, sydd wedi cael ei harwain yn llwyddiannus gan y Blaid Lafur. Wel, rwy'n dweud 'yn llwyddiannus'—[Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Maent wedi llwyddo i ffurfio Llywodraeth, dylwn ddweud. Y peth pwysig yw ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnodd Llywodraethau olynol yng Nghymru. Dyna yw pwrpas cynnig y Ceidwadwyr Cymreig sydd gennym ger ein bron. Ni all unrhyw un ddadlau â'r ffaith ei fod yn gynnig sy'n dilyn y drefn yn llwyr o ran y ffordd y mae wedi cael ei eirio.

I, of course, want to focus my attention on the Welsh national health service. For 15 years, Welsh Labour Ministers have been in charge of our national health service, running our national health service—or should I say running it into the ground? Under Welsh Labour, the NHS has persistently had long waiting times and constantly missed targets. The referral-to-treatment time targets for patients with urgent cases of suspected cancer have not been met since 2008, despite promise after promise from the First Minister himself. Waiting time targets in relation to patients not waiting more than four hours in accident and emergency departments have not been met since 2009. England is performing much better, First Minister. Ambulance response time targets have been met only once in the past 22 months. In fact, just this week, we learned that there were 28,000 999 calls—28,000—to which an ambulance did not respond for over an hour, including 321 blue-light, category A calls, eight stab and gunshot calls, and 736 incidents involving overdoses or poisoning. If you think that that is good enough, that this is an acceptable way to run the health service, and that this performance is acceptable, then we have a serious problem.

Rwyf am ganolbwyntio fy sylw, wrth gwrs, ar y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Ers 15 mlynedd, mae Gweinidogion Llafur Cymru wedi bod yn gyfrifol am ein gwasanaeth iechyd gwladol, gan arwain ein gwasanaeth iechyd cenedlaethol-neu ei arwain ar gyfeiliorn ddylwn i ddweud? O dan Lafur Cymru, amseroedd aros hir a methu â chyrraedd targedau yw hanes y GIG wedi bod yn gyson. Nid yw'r targedau amser atgyfeirio at driniaeth ar gyfer cleifion achosion brys lle ceir amheuaeth o ganser wedi'u cyrraedd ers 2008 er gwaethaf addewid ar ôl addewid gan y Prif Weinidog ei hun. Nid yw targedau amseroedd aros ar gyfer sicrhau nad yw cleifion yn aros mwy na phedair awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys wedi cael eu cyrraedd ers 2009. Mae Lloegr yn perfformio'n llawer gwell, Brif Weinidog. Dim ond unwaith y cyrhaeddwyd targedau amser ymateb ambiwlansys dros y 22 mis diwethaf. Mewn gwirionedd, yr wythnos hon, dysgwn am 28,000 o alwadau 999-28,000-pan na chyrhaeddodd ambiwlans o fewn awr, gan gynnwys 321 o alwadau golau glas, categori A, wyth galwad yn sgîl trywanu a saethu a 736 o ddigwyddiadau'n ymwneud â gorddosau neu wenwyno. Os ydych yn credu bod hynny'n ddigon da, fod hon yn ffordd dderbyniol o redeg y gwasanaeth iechyd a bod y perfformiad hwn yn dderbyniol, yna mae gennym broblem ddifrifol.

16:21

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You made reference to how well things are going in England; I would like to ask you, then, what your view is of the data that show that, currently, there are 32 NHS hospitals in England, or NHS trusts, that are at risk of going into administration because of the dire state of their financial system.

Rydych wedi cyfeirio at ba mor dda yw pethau yn Lloegr; hoffwn ofyn i chi felly beth yw eich barn am y data sy'n dangos bod 32 o ysbytai'r GIG yn Lloegr, neu ymddiriedolaethau GIG, ar hyn o bryd mewn perygl o fynd i ddwylo'r gweinyddwyr oherwydd cyflwr enbyd eu system ariannol.

16:22

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

What I can tell you about finances in England is this: the UK Conservative-led Government is increasing investment in the NHS, unlike your Government, which is decreasing it and imposing the biggest ever cuts—record-breaking cuts—that the national health service has ever seen, which are far bigger and deeper than those in any other part of the United Kingdom, as has been confirmed by independent research that has been undertaken by the King's Fund and our own Wales Audit Office, and, indeed, the National Audit Office over the border in England.

Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthych am drefniadau ariannol yn Lloegr yw hyn: mae Llywodraeth y DU o dan arweiniad y Ceidwadwyr yn cynyddu buddsoddiad yn y GIG, yn wahanol i'ch Llywodraeth chi, sy'n ei leihau ac yn cyflwyno'r toriadau mwyaf-toriadau sy'n torri'r record-a welodd y gwasanaeth iechyd gwladol erioed, sy'n llawer mwy a llawer dyfnach na'r toriadau mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, fel sydd wedi'i gadarnhau gan ymchwil annibynnol a wnaed gan Gronfa King's a Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn wir, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol dros y ffin yn Lloegr.

The NHS is not just an organisation, it is a lifeline. Welsh people depend on it day in, day out, and it simply is not performing as well as it should. Patients deserve better, as do the hard-working staff who work in our hospitals and our clinics, who are trying to deliver services under huge pressure. What is causing the pressure? It is the cuts; it is the deep cuts that your party is imposing upon our national health service. Record numbers of staff are off due to stress and poor health. Something has to be done. The backbench Member for the Rhondda suggested that this party is waging a war on Wales. We are not waging a war on Wales; we are waging a war on a failing Welsh Labour Government that is not delivering for the people of Wales. [Interruption.] Yes, a Government that you were a part of and which, no doubt, you are keen to get back into.

Nid dim ond sefydliad yw'r GIG, ond achubiaeth. Mae'r Cymry'n dibynnu arno ddydd ar ôl dydd, ac yn syml, nid yw'n perfformio cystal ag y dylai. Mae cleifion yn haeddu gwell, yn ogystal â'r staff sy'n gweithio'n galed yn ein hysbytai a'n clinigau, ac sy'n ceisio darparu gwasanaethau o dan bwysau enfawr. Beth sy'n achosi'r pwysau? Y toriadau; y toriadau dwfn y mae eich plaid yn eu gorfodi ar ein gwasanaeth iechyd gwladol. Mae'r nifer fwyaf erioed o staff yn absennol oherwydd straen ac afiechyd. Rhaid i rywbeth gael ei wneud. Awgrymodd yr Aelod dros y Rhondda ar y meinciau cefn fod y blaid hon yn mynd i ryfel yn erbyn Cymru. Nid ydym yn mynd i ryfel yn erbyn Cymru; rydym yn mynd i ryfel ar Lywodraeth Lafur Cymru sy'n methu â chyflawni ar gyfer pobl Cymru. [Torri ar draws.] Ie, Llywodraeth roeddech yn rhan ohoni ac rydych yn awyddus o fynd yn ôl yn rhan ohoni, mae'n siŵr.

It is not just our party that is saying that there are problems in the Welsh NHS; just about every commentator on the Welsh NHS is also highlighting failures. There are things, of course, that the Welsh NHS are doing well—of course there are—and Kirsty Williams referred to some of those earlier in her contribution. However, when we read the sort of reports that we have read from the Commissioner for Older People in Wales, the Wales Audit Office, Healthcare Inspectorate Wales and, indeed, read the report that was published this week into older people's care in Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, I do not think that we can bury our heads in the sand, agree that that is acceptable and not take urgent and immediate action to bring some remedy to these situations. All we have seen, frankly, over the past 15 years —and particularly over the past seven years that I have been a Member of the Assembly—are cancellations, cuts, beds being axed and a failure to meet performance targets. What are you doing to hold local health boards' feet to the fire? Nothing. When will we see improvements? It will be promised but they will then not be delivered. I believe, First Minister, that it is about time that you pulled your finger out and delivered some real improvements for the people of Wales, particularly in terms of their national health service.

Nid dim ond ein plaid sy'n dweud bod problemau yn y GIG yng Nghymru; mae bron iawn bob sylwebydd ar y GIG yng Nghymru hefyd yn tynnu sylw at y methiannau. Mae yna bethau, wrth gwrs, y mae GIG Cymru yn eu gwneud yn dda—wrth gwrs hynny—a chyfeiriodd Kirsty Williams at rai o'r rheini'n gynharach yn ei chyfraniad. Fodd bynnag, pan ddarllenwn y math o adroddiadau rydym wedi'u darllen gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac yn wir, yr adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos hon ar ofal pobl hŷn ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, nid wyf yn credu y gallwn gladdu ein pennau yn y tywod, cytuno bod hynny'n dderbyniol a pheidio â rhoi camau ar waith ar frys ac ar unwaith i geisio datrys peth ar y sefyllfaoedd hyn. A dweud y gwir, y cyfan a welsom dros y 15 mlynedd diwethaf—ac yn enwedig yn ystod y saith mlynedd diwethaf y bûm yn Aelod o'r Cynulliad—yw cansladau, toriadau, cael gwared ar welyau a methiant i gwrdd â thargedau perfformiad. Beth rydych chi'n ei wneud i gadw trefn ar fyrddau iechyd lleol? Dim byd. Pryd y gwelwn welliannau? Byddant yn cael eu haddo ond ni chânt eu cyflawni. Rwy'n credu, Brif Weinidog, ei bod yn bryd i chi dynnu eich bys allan a chyflawni gwelliannau go iawn i bobl Cymru, yn enwedig o ran eu gwasanaeth iechyd gwladol.

16:24

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Darren Millar needs to get out more, because the greatest argument for devolution on the street is that we do not have our NHS controlled from London. That is the biggest argument for devolution that we have, and that is the one that people are absolutely signed up to. If we did not have devolved responsibility, our NHS would be being fragmented, privatised, and having to compete, which is what is happening in England. If we did not have devolution, we would have Michael Gove's free school obsession, which has overrun by £800 million, has been set up in areas where there is no shortage of school places, and, most disgracefully, includes raiding £400 million from the emergency contingency fund, which was designed to create extra school places where they are needed. As a result, many children in England will not have a school to go to in September. How shameful is that?

Mae angen i Darren Millar fynd allan yn amlach, oherwydd y ddadl fwyaf dros ddatganoli a glywir ar y stryd yw'r ffaith nad yw ein GIG wedi'i reoli o Lundain. Dyna'r ddadl fwyaf o blaid datganoli sydd gennym a dyna'r un y mae pobl yn glynu wrthi. Pe na bai gennym gyfrifoldeb datganoledig, byddai ein GIG yn dameidiog, wedi'i breifateiddio ac yn gorfod cystadlu, sef yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Pe na bai datganoli wedi digwydd, byddai gennym obsesiwn Michael Gove am ysgolion rhydd, cynllun sydd wedi gorwario £800 miliwn, cynllun sydd wedi'i sefydlu mewn ardaloedd lle na cheir prinder lleoedd mewn ysgolion, ac yn fwyaf gwarthus, cynllun sy'n cynnwys ysbeilio £400 miliwn o'r gronfa argyfwng wrth gefn a luniwyd ar gyfer creu lleoedd ysgol ychwanegol lle mae eu hangen. O ganlyniad, ni fydd gan lawer o blant yn Lloegr ysgol i fynd iddi ym mis Medi. Pa mor gywilyddus yw hynny?

David Cameron came to power—

Daeth David Cameron i rym-

16:26

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:26

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

No. David Cameron came to power promising not to reorganise the NHS. As soon as he got in, there he was—a major reorganisation that utterly undermined people's—

Na wnaf. Daeth David Cameron i rym gan addo peidio ag ad-drefnu'r GIG. Cyn gynted ag y cafodd ei ethol, dyna lle'r oedd—ad-drefnu mawr a danseiliai ffydd pobl yn llwyr—

16:26

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:26

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not at the moment. It really undermined people's faith in the organisation that they were working for. Without effective leadership, the 'choose and book' service has been quietly buried. It could have saved over £50 million a year, but only half of the GPs in England used it. Without effective leadership, only two in five of NHS staff in England take pride in their organisation. Forced to compete rather than collaborate, they see excellence sold off to the highest bidder, or rather the lowest tender.

Ddim ar hyn o bryd. Mae'n tanseilio ffydd pobl yn llwyr yn y sefydliad y gweithient iddo. Heb arweinyddiaeth effeithiol, mae'r gwasanaeth 'dewis ac archebu' wedi'i gladdu'n dawel. Gallai fod wedi arbed dros £50 miliwn y flwyddyn ond dim ond hanner y meddygon teulu yn Lloegr a'i defnyddiai. Heb arweinyddiaeth effeithiol, dim ond dau o bob pump o staff y GIG yn Lloegr sy'n ymfalchïo yn eu sefydliad. Drwy gael eu gorfodi i gystadlu yn hytrach na chydweithredu, maent yn gweld rhagoriaeth yn cael ei werthu i'r sawl sy'n cyflwyno'r cynnig uchaf neu'n hytrach y tendr isaf.

16:26

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

16:26

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not at the moment. The chairman of the Care Quality Commission for England says that A&E demand is unsustainable, with 1 million more people turning up in A&E last year in England. Darren Millar, you try to present the problems that we have in A&E in Wales as somehow being completely isolated from some of the challenges being faced in England. We are not immune from the A&E pressures that are being experienced in England. No wonder, because the average age of in-patients in the Heath hospital, my acute hospital, is 85. We have to do a lot more to keep people from being despatched to hospital when they would be more comfortable and better looked after at home.

Ddim ar hyn o bryd. Mae cadeirydd y Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr yn dweud bod y galw am wasanaeth damweiniau ac achosion brys yn anghynaliadwy gydag 1 filiwn yn fwy o bobl yn mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys y llynedd yn Lloegr. Darren Millar, rydych yn ceisio cyflwyno'r problemau sydd gennym yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru fel rhywbeth sydd wedi'i ynysu'n gyfan gwbl oddi wrth rai o'r heriau sy'n wynebu Lloegr. Nid ydym yn ddiogel rhag y pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys sydd i'w gweld yn Lloegr. Nid yw'n rhyfedd, gan mai cyfartaledd oedran cleifion mewnol yn ysbyty'r Heath, fy ysbyty acíwt, yw 85. Mae'n rhaid i ni wneud llawer mwy i gadw pobl rhag cael eu hanfon i'r ysbyty pan fyddent yn fwy cyfforddus ac yn derbyn gofal gwell yn y cartref.

That is why it is really important to acknowledge the £50 million for the intermediate care fund that the Deputy Minister for Social Services has put in place, which enables the Wyn initiative in places such as Cardiff and Vale, which tackles delayed discharge so that people and the team around them can have a clear understanding of how they are going to get home as quickly as possible. We have the 'smart house' initiative, which helps older people at the points of admission and of discharge to understand what support can be provided in the home.

Dyna pam ei bod yn bwysig iawn cydnabod y £50 miliwn a ryddhaodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y gronfa gofal canolraddol, sy'n hwyluso menter Wyn mewn mannau megis Caerdydd a'r Fro, sy'n mynd i'r afael ag oedi cyn rhyddhau cleifion er mwyn i bobl a'r tîm sy'n ymwneud â hwy ddeall yn glir sut y maent yn mynd i gyrraedd adref cyn gynted ag y bo modd. Mae gennym fenter y 'tŷ technoleg', sy'n helpu pobl hŷn ar bwyntiau mynediad i'r ysbyty a rhyddhau o'r ysbyty i ddeall pa gymorth y gellir ei ddarparu yn y cartref.

To pick up on point (c) in the Tory motion, about one person in seven being on a waiting list in Wales, I fear that that reflects the impact of the 40% reduction in the Welsh Government capital budget. There is no doubt that the shortage of investment in up-to-date diagnostic equipment inevitably leads to queues in terms of people getting the interventions that are most appropriate to their condition. It is hard to know what we can do about that one in the short-term, because there is no sign that that capital budget is suddenly going to get better.

I gyfeirio at bwynt (c) yng nghynnig y Torïaid, sy'n nodi bod oddeutu un person o bob saith ar restr aros yng Nghymru, rwy'n ofni bod hynny'n adlewyrchu effaith y gostyngiad o 40% yng nghyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru. Nid oes amheuaeth fod diffyg buddsoddi yn yr offer diagnostig diweddaraf yn arwain yn anochel at giwiau o ran pobl yn cael yr ymyriadau mwyaf priodol i'w cyflwr. Mae'n anodd gwybod beth y gallwn ei wneud ynglŷn â hynny yn y tymor byr, gan nad oes arwydd bod y gyllideb cyfalaf yn mynd i wella'n sydyn.

However, there are other things that we can do that are not directly related to money. We can have better engaged staff who produce a better patient experience, fewer errors and higher staff morale, including reduced absenteeism. Engaging patients in their care produces appropriate interventions and better patient outcomes, and integrated care that requires integrated leadership within and outside the NHS. These are the key to transforming the NHS and the quality of its leadership and the engagement of its staff is absolutely the key to that. Nobody is arguing that the NHS is perfect, but, like democracy, it is better than every other system, and it is certainly a hell of a lot cheaper than the free market system they have in the United States.

Fodd bynnag, mae pethau eraill y gallwn eu gwneud nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag arian. Gallwn gael staff i ymgysylltu'n well er mwyn sicrhau profiad gwell i'r claf, llai o gamgymeriadau a morâl uwch ymhlith staff, gan gynnwys llai o absenoldeb. Mae cynnwys cleifion yn eu gofal yn sicrhau ymyriadau priodol a gwell canlyniadau i gleifion, a gofal integredig sy'n galw am arweiniad integredig o fewn a'r tu allan i'r GIG. Mae'r rhain yn allweddol er mwyn trawsnewid y GIG ac ansawdd ei arweinyddiaeth ac mae ymgysylltiad ei staff yn gwbl allweddol i hynny. Nid oes neb yn dadlau bod y GIG yn berffaith, ond fel democratiaeth, mae'n well na phob system arall ac mae'n sicr beth wmbreth yn rhatach na'r system farchnad rydd sydd ganddynt yn yr Unol Daleithiau.

16:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I ask Members to cast their minds back to the 1980s and 1990s in Wales. These are years, we are told by the Conservative benches, that were glory years, when the economy thrived; halcyon days, indeed, where we did not lose Duport steel, we did not lose most of Shotton, we did not lose our collieries and we did not see both collieries in the Bridgend county borough close on the exactly the same day in December 1985. We did not see mass unemployment, we did not see the YTS, we did not see a generation abandoned, and we did not see communities such as those in Blaenau Gwent abused, both economically and verbally, by a Conservative Government. In the 1990s, we did not see successive Secretaries of State who had no connection with Wales. We did not see one Secretary of State mocking our national anthem in his own party conference. All these things we did not see and apparently this is why, we are given to believe, in the parallel universe that is inhabited by the benches opposite, the Conservatives are of course so wildly popular in those former mining valleys and districts, which is why we in the Labour Party struggle so hard to get the votes of all those people who are so grateful for the Conservative rule that we saw in the 1980s and 1990s.

Gofynnaf i'r Aelodau geisio cofio'r 1980au a'r 1990au yng Nghymru. Dyma'r blynyddoedd y mae meinciau'r Ceidwadwyr yn eu galw'n flynyddoedd gogoneddus pan oedd yr economi'n ffynnu; dyddiau da yn wir, pan na chollasom waith dur Duport, pan na chollasom y rhan fwyaf o Shotton, pan na chollasom ein pyllau glo a phan na welsom y ddau waith glo ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cau ar yr un diwrnod yn union ym mis Rhagfyr 1985. Ni welsom ddiweithdra torfol, ni welsom y YTS, ni welsom droi cefn ar genhedlaeth o bobl ifanc ac ni welsom gymunedau fel rhai Blaenau Gwent yn cael eu cam-drin yn economaidd ac ar lafar gan Lywodraeth Geidwadol. Yn y 1990au, ni welsom Ysgrifenyddion Gwladol olynol heb unrhyw gysylltiad â Chymru. Ni welsom un Ysgrifennydd Gwladol yn gwatwar ein hanthem genedlaethol yng nghynhadledd ei blaid ei hun. Ni welsom y pethau hyn oll ac eto, dyma pam, yn ôl yr hyn y cawn ein gwahodd i gredu, yn y bydysawd cyfochrog y mae'r meinciau gyferbyn yn byw ynddo, y mae'r Ceidwadwyr wrth gwrs mor eithriadol o boblogaidd yn yr hen gymoedd ac ardaloedd glofaol a dyna pam rydym ni yn y Blaid Lafur ei chael hi mor anodd denu pleidleisiau'r holl bobl hynny sydd mor ddiolchgar am y llywodraeth Geidwadol a welsom yn y 1980au a'r 1990au.

We have seen Wales improve over the past 15 years. We have seen our economy go through difficult times, and yet improve. We know that our unemployment rate is the lowest in the UK. We have possibly the most successful job creation scheme for young people in Europe in Jobs Growth Wales. Youth unemployment is dropping; we have a significantly lower rate of unemployment, particularly for those between 16 and 17. In terms of those who are not in education, employment or training, that number has dropped. We know that, when it comes to education, more and more young people are getting good GCSE and A-level grades. Of course, there is always room for improvement, but there is no doubting that the percentage has gone up. We know in education that we see twenty-first century schools, with brand-new schools being built across Wales, at a time where none are being built across England. This is investment in the education of our young people. We know as well that, where they have free schools in England, where money has been siphoned away from the state sector to pay for those free schools, we do not have that in Wales. We know that, in England, those who are finding it the most difficult to go into FE colleges do not have the education maintenance allowance, but we do in Wales. We know that the Liberal Democrats, together with the Conservatives, have made it three times more expensive to study in England if you are an English student, than if you are a Welsh student. One of the most fundamental principles of Liberal Democrat policy thrown out of the window by Nick Clegg. The party of students they were; the party of students they no longer are. There is ân £18,000 difference in the cost of going to university between Wales and England.

Rydym wedi gweld Cymru yn gwella dros y 15 mlynedd diwethaf. Rydym wedi gweld ein heconomi'n mynd drwy gyfnodau anodd, ac eto'n gwella. Rydym yn gwybod mai ein cyfradd ddiweithdra yw'r isaf yn y DU. Gennym ni o bosibl y mae'r cynllun creu swyddi mwyaf llwyddiannus i bobl ifanc yn Ewrop ar ffurf Twf Swyddi Cymru. Mae diweithdra ieuenctid yn gostwng; mae gennym gyfradd sylweddol is o ddiweithdra, yn enwedig ymhlith rhai rhwng 16 a 17 oed. Mae nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng. O ran addysg, gwyddom fod mwy a mwy o bobl ifanc yn cael graddau TGAU a Safon Uwch da. Wrth gwrs, mae lle i wella bob amser ond nid oes amheuaeth fod y ganran wedi codi. Ym maes addysg, gwelwn ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, gydag ysgolion newydd sbon yn cael eu hadeiladu ar draws Cymru, ar adeg pan na fydd unrhyw ysgol yn cael ei hadeiladu ar draws Lloegr. Dyma yw buddsoddi yn addysg ein pobl ifanc. Efallai bod ganddynt ysgolion rhydd yn Lloegr lle cafodd arian ei sugno i ffwrdd o'r sector gwladol i dalu amdanynt, ond nid yw hynny'n digwydd yng Nghymru. Yn Lloegr, gwyddom nad yw'r rhai sy'n ei chael yn fwyaf anodd mynd i golegau addysg bellach yn cael lwfans cynhaliaeth addysg, ond nid yw hynny'n wir yng Nghymru. Yn Lloegr, gwyddom nad yw'r rhai sy'n ei chael yn fwyaf anodd i fynd i golegau AB yn cael y lwfans cynhaliaeth addysg, ond rydym yn ei ddarparu yng Nghymru. Gwyddom fod y Democratiaid Rhyddfrydol, ynghyd â'r Ceidwadwyr, wedi ei gwneud dair gwaith yn ddrutach i astudio yn Lloegr os ydych yn fyfyriwr o Loegr, na phe baech yn fyfyriwr o Gymru. Dyna un o egwyddorion mwyaf sylfaenol polisïau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cael ei daflu allan drwy'r ffenestr gan Nick Clegg. Plaid y myfyrwyr oedd hi; nid plaid y myfyrwyr yw hi mwyach. Mae £18,000 o wahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr o ran cost mynd i'r brifysgol.

Let us talk about the health service. Cancer waiting times in Wales are better than in England. In Wales, there are more staff per patient, more spending per head and more beds per head than in England. There is easier access to general practitioners; it is now far easier for our people to access GPs than it was in years gone by. However, let us not pretend that these things are easy, because we know that the health budget is 45% of our budget, and we have to manage this at a time when we see significant cuts in funding from the parties across the Chamber. You cannot on the one hand demand that more money is spent in every single area of public policy, while on the other demand austerity and cutting the budget to the Welsh Government and to the people of Wales. Let us remind ourselves of what the Conservatives were suggesting some two years ago: 12% cuts in local government. What does that mean for council tax? They suggested a cut of between 20% and 24%, depending who said it, in education, a 30% cut in spending on the economy and a 12% cut in spending on housing. Explain it.

Gadewch i ni siarad am y gwasanaeth iechyd. Mae amseroedd aros canser yng Nghymru yn well nag yn Lloegr. Yng Nghymru, mae mwy o staff i bob claf, mwy o wariant y pen a mwy o welyau y pen nag yn Lloegr. Mae mynediad haws at feddygon teulu; mae bellach yn llawer haws i'n pobl gael mynediad at feddygon teulu nag yn y blynyddoedd a fu. Fodd bynnag, gadewch i ni beidio ag esgus bod y pethau hyn yn hawdd oherwydd gwyddom fod y gyllideb iechyd yn 45% o'n cyllideb ac mae'n rhaid i ni reoli hyn ar adeg pan welwn doriadau sylweddol yn y cyllid gan y pleidiau ar draws y Siambr. Ni allwch alw ar y naill law am wario mwy o arian ym mhob maes polisi cyhoeddus a mynnu arbedion caledi a thorri'r gyllideb i Lywodraeth Cymru ac i bobl Cymru ar y llaw arall. Gadewch i ni atgoffa ein hunain o'r hyn yr awgrymodd y Ceidwadwyr tua dwy flynedd yn ôl: 12% o doriadau llywodraeth leol. Beth y mae hynny'n ei olygu ar gyfer y dreth gyngor? Awgryment doriad o rhwng 20% a 24% mewn addysg, yn dibynnu a'r bwy oedd yn ei ddweud, 30% o doriad yn y gwariant ar yr economi a 12% o doriad yn y gwariant ar dai. Eglurwch hynna.

16:33

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the First Minister for giving way. Of course, you are also making cuts in these areas, which you are not talking about, and you are also cutting the NHS as well. That is some trick, is it not, to have cuts across the board, without the sort of outcomes that we would like to see on this side?

Diolch i'r Prif Weinidog am ildio. Wrth gwrs, rydych chithau hefyd yn gwneud toriadau yn y meysydd hyn nad ydych yn siarad amdanynt ac rydych hefyd yn torri ar gyllid y GIG yn ogystal. Mae hynny'n rhywfaint o gamp, onid yw, i wneud toriadau ym mhob maes heb y math o ganlyniadau y byddem yn hoffi eu gweld ar yr ochr hon?

16:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have to deal with the situation as we find it. What we do not do is pretend, as your party does, that somehow there is a magic money tree somewhere that can be used to spend money in every single department of the Welsh Government, while at the same time failing to recognise that it is your party that has cut revenue spending and capital spending for the Welsh Government. You cannot have it both ways. There is always a palpable embarrassment on the Tory benches when they are reminded of that shadow budget that existed on half a page of A4, which was sent to the media, and what was contained in it. What it would mean, of course, is that we would see school places decimated, council tax through the roof—

Mae'n rhaid i ni ymdrin â'r sefyllfa fel y mae. Yr hyn nad ydym yn ei wneud yw esgus, fel y mae eich plaid chi yn ei wneud, fod coeden arian hud yn rhywle y gellir ei defnyddio i wario arian ym mhob adran o Lywodraeth Cymru, gan fethu â chydnabod ar yr un pryd mai eich plaid chi sydd wedi torri gwariant refeniw a gwariant cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ni allwch ei chael hi bob ffordd. Mae yna bob amser embaras amlwg ar feinciau'r Toriaid pan gânt eu hatgoffa am y gyllideb honno o eiddo'r wrthblaid ar hanner tudalen A4, a anfonwyd at y cyfryngau, a'r hyn a oedd wedi'i gynnwys ynddi. Beth fyddai'n ei olygu, wrth gwrs, yw y byddem yn gweld lleoedd ysgol yn cael eu diddymu, y dreth gyngor yn mynd drwy'r to-

16:34 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

In a second, of course.

Mewn eiliad, wrth gwrs.

We would see spending on attracting jobs to Wales cut by nearly a third. These are all significant and detrimental commitments that the Conservative party has made.

Byddem yn gweld bron i draean yn llai o wariant ar ddenu swyddi i Gymru. Mae'r rhain i gyd yn ymrwymiadau arwyddocaol a niweidiol a wnaed gan y blaid Geidwadol.

16:34 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Party of Wales clearly shares your concerns about the impact of the politics of austerity and the deep difficulties that will be faced by the people of Wales. Can we therefore take it from you that, if a Labour Government is elected to Westminster next year, those austerity cuts will be reversed?

Mae Plaid Cymru yn amlwg yn rhannu eich pryderon ynghylch effaith gwleidyddiaeth caledi a'r anawsterau dwfn y bydd pobl Cymru yn eu hwynebu. Gallwn gymryd felly, os caiff Llywodraeth Lafur ei hethol i San Steffan y flwyddyn nesaf, y caiff y toriadau caledi hynny eu gwrthdroi?

16:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

In time, yes. I certainly hope that that is the case. If I may, I will deal with the Plaid Cymru amendment. We cannot support it. I just do not see Scotland as the promised land, I am afraid. Scotland's economy does not significantly outperform that of Wales. We know that wealth per household in Scotland is significantly below that of Wales and we know, of course, that we in Wales have particular issues that we must resolve, as the people of Scotland do. I cannot see Scotland as a template that we must follow slavishly. And, of course, it is right to say, and I can say this quite openly, that Scotland is more generously funded via the Barnett formula, something that is not unconnected to the fact that Scotland is able to fund certain programmes, although, in terms of legislation, I am not sure what has gone through the Scottish Parliament in the course of the last three or four years.

Ymhen amser, gallwch. Rwy'n sicr yn gobeithio bod hynny'n wir. Os caf, hoffwn ymdrin â gwelliant Plaid Cymru. Ni allwn ei gefnogi. Nid wyf yn gweld yr Alban fel gwlad yr addewid, mae arnaf ofn. Nid yw economi'r Alban yn perfformio gymaint â hynny'n well nag economi Cymru. Gwyddom fod cyfoeth fesul aelwyd yn yr Alban yn sylweddol is nag yng Nghymru a gwyddom, wrth gwrs, fod gennym faterion penodol yng Nghymru sy'n rhaid eu datrys, fel sydd gan bobl yr Alban. Ni allaf weld yr Alban fel enghraifft y mae'n rhaid i ni ei dilyn yn slafaidd. Ac wrth gwrs, mae'n iawn dweud, a gallaf ddweud hyn yn gwbl agored, fod yr Alban yn cael mwy o arian drwy fformiwla Barnett, a diau fod cysylltiad rhwng hynny a'r ffaith fod yr Alban yn gallu ariannu rhaglenni penodol, er nad wyf yn siŵr, o ran deddfwriaeth, beth sydd wedi mynd drwy Senedd yr Alban yn ystod y tair neu bedair blynedd diwethaf.

If I may, I will now turn to some of the comments that have been made. Nick Ramsay's performance—I think that is the best way of describing it—was well rehearsed to a point. No-one would believe that there is an election tomorrow. He has done well, I believe, in looking to rehabilitate himself with his leader, unlike Byron Davies, who is not here, and Antoinette Sandbach, who is probably actively tweeting against her leader as we sit in the Chamber, such is the unity that we find on the Conservative benches. I also want to mention what Mark Isherwood said. Well, again, I point to the fact that we have more staff per head of population in the NHS in Wales. I do not believe that there has been a full public inquiry into the entire English NHS and I have to say to him that coming here and producing lots of anonymous and possibly imaginary people who have said things to him is not good enough. Evidence requires producing evidence that can be examined and scrutinised, not something that is brought out of a hat without any reference to who that person is or indeed any opportunity to scrutinise whether what they say is actually true. All I can say to him is that, whatever you do, never sit on a jury if that is the way you accept evidence. Of course I will give way.

Os caf, trof yn awr at rai o'r sylwadau a wnaed. Roedd perfformiad Nick Ramsay—rwy'n credu mai dyna'r ffordd orau o'i ddisgrifio—wedi'i ymarfer yn dda i bwynt. Ni fyddai unrhyw un yn credu bod etholiad yn cael ei chynnal yfory. Mae wedi gwneud yn dda, rwy'n credu, wrth geisio plesio'i arweinydd, yn wahanol i Byron Davies, nad yw yma, ac Antoinette Sandbach, sydd wrthi'n trydar yn erbyn ei harweinydd wrth i ni eistedd yn y Siambr yn ôl pob tebyg, cymaint o undod sydd yna ar y meinciau Ceidwadol. Rwyf hefyd am sôn am yr hyn y dywedodd Mark Isherwood. Wel, unwaith eto, rwy'n tynnu sylw at y ffaith fod gennym fwy o staff y pen o'r boblogaeth yn y GIG yng Nghymru. Nid wyf yn credu y bu ymchwiliad cyhoeddus llawn i'r GIG yn Lloegr yn ei gyfanrwydd ac mae'n rhaid i mi ddweud wrtho nad yw dod yma a chreu llawer o bobl ddienw a dychmygol o bosibl sydd wedi dweud pethau wrtho yn ddigon da. Mae tystiolaeth yn galw am gynhyrchu tystiolaeth y gellir ei harchwilio a chraffu arni, nid rhywbeth sy'n cael ei dynnu allan o het heb unrhyw gyfeiriad at bwy yw'r person hwnnw neu'n wir unrhyw gyfle i graffu ar wirionedd yr hyn y maent yn ei ddweud. Y cyfan y gallaf ei ddweud wrtho yw, beth bynnag a wnewch, peidiwch byth â mynd yn aelod o reithgor os mai dyna'r ffordd rydych yn derbyn tystiolaeth. Ildiaf wrth gwrs.

16:37

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I did quote directly from the BMA and the RCN. We are here to represent people and those people often do not want their names used publicly. That does not mean that we should not raise their concerns. I hope you would agree.

Dyfynnais yn uniongyrchol gan Gymdeithas Feddygol Prydain a'r Coleg Nyrsio Brenhinol. Rydym yma i gynrychioli pobl ac yn aml, ni fydd y bobl hynny'n dymuno i'w henwau gael eu defnyddio'n gyhoeddus. Nid yw hynny'n golygu na ddylem leisio eu pryderon. Rwy'n gobeithio y byddech yn cytuno.

16:37

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

However, do you not see that it is impossible to judge whether their claims are sound or how old their claims are and impossible, indeed, to scrutinise their claims? That is the difficulty. Anybody can produce an example out of a hat without offering the opportunity to scrutinise whether the example that has been given is sound. It is not evidence. It is hearsay at best.

Fodd bynnag, onid ydych yn gweld ei bod yn amhosibl barnu a yw'r hyn a honnant yn gadarn neu pa mor hen yw eu honiadau neu'n wir pa mor amhosibl yw craffu ar eu honiadau? Dyna'r anhawster. Gall unrhyw un dynnu enghraifft allan o het heb roi cyfle i graffu a yw'r enghraifft a roddwyd yn gadarn. Nid yw'n dystiolaeth. Achlust ydyw ar y gorau.

Let me deal with Mohammad Asghar's contribution. I will say two things to him. First of all, let us examine the Ryder Cup, the Ashes, the Rugby League World Cup, the Rugby World Cup, Euro 2020, the UEFA Super Cup and the NATO summit. All of these things occurred with a devolved Labour Government. None of these things came to Wales when his party was in charge. I accept, of course, that the NATO summit is the UK Government's summit, and I am grateful that the NATO summit is coming to Wales, but let us not pretend that, somehow, all these big events came to Wales with all the money they attract when the Conservatives ran Wales because they did not. The reason for that is that they did not bother to sell Wales and get these events into Wales with the money that has been attracted as a result.

Gadewch i mi ymdrin â chyfraniad Mohammad Asghar. Rwyf am ddweud dau beth wrtho. Yn gyntaf oll, gadewch i ni edrych ar y Cwpan Ryder, cyfres y Lludw, Cwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair, Cwpan Rygbi'r Byd, Ewro 2020, Cwpan Super UEFA ac uwchgynhadledd NATO. Digwyddodd yr holl bethau hyn o dan Lywodraeth Lafur ddatganoledig. Ni ddaeth yr un o'r pethau hyn i Gymru pan oedd ei blaid wrth y llyw. Rwy'n derbyn, wrth gwrs, mai uwchgynhadledd Llywodraeth y DU yw uwchgynhadledd NATO ac rwy'n ddiolchgar fod uwchgynhadledd NATO yn dod i Gymru, ond gadewch i ni beidio ag esgus, rywsut, fod yr holl ddigwyddiadau mawr hyn wedi dod i Gymru gyda'r holl arian y maent yn ei ddenu pan oedd y Ceidwadwyr yn rhedeg Cymru gan nad yw hynny'n wir. Y rheswm am hynny yw nad oeddent yn trafferthu i werthu Cymru a denu'r digwyddiadau hyn i Gymru gyda'r arian a ddeilliai o hynny.

I see that time is moving on so I will just finally make one comment if I may, Dirprwy Lywydd. He said that, in Ebbw Vale, there should not have been housing but a theme park. Disneyland, not dwellings, I would call that. On the one hand we have his spokesperson saying that there should be more houses. He is saying that there should be a theme park. I say one thing to him, and I make this point seriously: he said that Blaenau Gwent was part of the third world. That is what he said. Let me tell him that in third-world countries, as he calls them, people die of malaria and they die of polio. I went to Uganda in January. There was one hospital there that covered 4.5 million people with six consultants. If you had cancer, you died. If you had heart disease, you died. If you had any disease that required drugs that cost a lot of money, you died. That is what you describe as a third-world country or a developing country looks like. To describe Blaenau Gwent in those terms is a profound insult to the people who live there and a profound insult to people who live in developing countries who face very difficult lives, and I ask him to reconsider that point—

Gwelaf fod amser yn symud ymlaen felly rwyf am wneud un sylw os caf, Ddirprwy Lywydd. Dywedodd mai parc thema a ddylai fod yng Nglyn Ebwy, nid tai. Disneyland, nid cartrefi, rwy'n galw hynny. Ar y naill law mae ei lefarydd yn dweud y dylai fod mwy o dai. Mae'n dweud y dylid cael parc thema. Rwy'n dweud un peth wrtho ac rwyf o ddifrif ynglŷn â'r pwynt hwn: dywedodd fod Blaenau Gwent yn rhan o'r trydydd byd. Dyna'r hyn a ddywedodd. Yng ngwledydd y trydydd byd, fel y mae'n eu galw, gadewch i mi ddweud wrtho fod pobl yn marw o malaria ac maent yn marw o polio. Euthum i Uganda ym mis Ionawr. Roedd yno un ysbyty yn gwasanaethu 4.5 miliwn o bobl gyda chwe meddyg ymgynghorol. Os oeddech yn dioddef o ganser, byddech yn marw. Os oeddech yn dioddef o glefyd y galon, byddech yn marw. Os oeddech yn dioddef o unrhyw glefyd a fyddai'n galw am gyffuriau drud i'w drin, byddech yn marw. Dyna sut beth yw'r hyn y disgrifiwch fel gwlad yn y trydydd byd neu wlad sy'n datblygu. Mae disgrifio Blaenau Gwent yn y fath fodd yn sarhad dwys ar y bobl sy'n byw yno a sarhad dwys ar y bobl sy'n byw mewn gwledydd sy'n datblygu ac yn wynebu bywydau anodd iawn, a gofynnaf iddo ailystyried y pwynt hwnnw-

*Mohammad Asghar a gododd—*

*Mohammad Asghar rose—*

16:39

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am being told that I am out of time.

Rwy'n cael ar ddeall nad oes gennyf amser yn weddill.

We are proud of what we have done in Government, Dirprwy Lywydd. We will stand before the people of Wales both tomorrow and in elections to come because they will know that it is a Labour Government that delivers fairness, justice, equality and, of course, prosperity and, once again, they will reject the party opposite.

Rydym yn falch o'r hyn rydym wedi ei wneud yn y Llywodraeth, Ddirprwy Lywydd. Byddwn yn sefyll ger bron pobl Cymru yfory ac mewn etholiadau i ddod gan y byddant yn gwybod mai Llywodraeth Lafur sy'n sicrhau tegwch, cyfiawnder, cydraddoldeb ac wrth gwrs, ffyniant ac unwaith eto, byddant yn gwrthod y blaid gyferbyn.

16:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Andrew R.T. Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Andrew RT Davies i ymateb i'r ddadl.

16:39

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I welcome the opportunity to reply and to wrap up this debate today. Some people have said that it is a bit of a pantomime. Some people have said that it is an inappropriate debate. Given that, last week, after 15 years, many people in this institution and the institution itself were celebrating the creation of devolution, I do not think that, a week later, it is inappropriate to reflect on what the largest party here today, and in fairness the party that has been in Government for those 15 years, has achieved over those 15 years. I actually think that it is quite an appropriate time to debate and talk about those issues. I also find it a bit bemusing that Simon Thomas should be talking up the Scottish Government, in particular the Scottish Minister for health when, as we speak, he is facing a motion of no confidence in the Scottish Parliament. [Interruption.] So, I do not think that he should be offering too many examples of what is going on in Scotland.

Rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb ac i gloi'r ddadl hon heddiw. Mae rhai pobl wedi dweud ei bod yn dipyn o bantomeim. Mae rhai pobl wedi dweud ei bod yn ddadl amhriodol. O gofio bod llawer o bobl yn y sefydliad hwn a'r sefydliad ei hun yn dathlu 15 mlynedd ers datganoli yr wythnos diwethaf, nid wyf yn meddwl ei bod hi'n amhriodol, wythnos yn ddiweddarach, i ni fyfyrio ar yr hyn y mae'r blaid fwyaf yma heddiw ac er tegwch, y blaid a fu'n Llywodraeth dros y 15 mlynedd, wedi'i gyflawni yn yr amser hwnnw. Rwy'n meddwl mewn gwirionedd ei bod yn amser priodol i ni drafod a siarad am y materion hynny. Rwyf hefyd yn ei chael hi ychydig yn ddryslyd fod Simon Thomas yn canmol Llywodraeth yr Alban, yn enwedig Gweinidog iechyd yr Alban ac yntau yr eiliad hon yn wynebu cynnig o ddiffyg hyder yn Senedd yr Alban. [Torri ar draws.] Felly nid wyf yn credu y dylai fod yn cynnig gormod o enghreifftiau o'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban.

However, I do take the point that Kirsty Williams and others raised that there does need to be a distinction between the institution and the Government that comes—. I think that we are all in agreement on that front. Given the way that the institution was set up in its first guise, or certainly the first two Assemblies, there was just the one brand—the Assembly—and many people, to this day, do not divorce the institution from the Government. It falls to us all to educate people about that divorce and, above all, where the responsibility lies.

Fodd bynnag, rwy’n derbyn y pwynt a gododd Kirsty Williams ac eraill fod angen gwahaniaethu rhwng y sefydliad a’r Llywodraeth a ddaw—. Rwy’n meddwl ein bod i gyd yn gytûn ar hynny o beth. O ystyried y ffordd y cafodd y sefydliad ei sefydlu ar ei wedd gyntaf, neu’n sicr y ddau Gynulliad cyntaf, dim ond un brand a fodolai—y Cynulliad—ac mae llawer o bobl hyd heddiw nad ydynt yn ysgaru’r sefydliad oddi wrth y Llywodraeth. Ein lle ni yw addysgu pobl am y cyfryw ysgariad, ac yn anad dim, pwy sy’n gyfrifol.

Nick opened up quite clearly by outlining the three pillars that most people in the electorate out there understand: education, the economy and the health service. It is fair to say, on any estimation, that the delivery from successive Welsh Governments—not just this one, because we are looking at the whole 15 years—has been disappointing in some areas and appalling in other areas, frankly.

Agorodd Nick yn eithaf clir drwy amlinellu’r tair colofn y mae’r rhan fwyaf o bobl yn yr etholaethau yn eu deall: addysg, yr economi a’r gwasanaeth iechyd. Mae’n deg dweud bod darpariaeth Llywodraethau olynol yn ôl unrhyw gyfrif-nid hon yn unig, oherwydd rydym yn edrych ar y 15 mlynedd cyfan-wedi bod yn siomedig mewn rhai meysydd ac ofnadwy mewn meysydd eraill, a dweud y gwir.

Mohammad Asghar touched on the point about the Valleys, and in particular the lack of investment, and some of the misguided investment that has gone on in the Valleys. Even Labour politicians themselves have pointed to the missed opportunities. I was listening to Derek Vaughan, the lead candidate from the Labour Party for tomorrow’s election, saying that the first two tranches of Objective 1 and convergence funding have missed great opportunities. He is looking forward to the third tranche actually doing what the first tranche should have done, which is lift economic activities in the areas where that money is to be spent.

Crybwyllodd Mohammad Asghar y pwynt am y Cymoedd ac yn enwedig y diffyg buddsoddiad, a rhai o’r buddsoddiadau cyfeiliornus a ddigwyddodd yn y Cymoedd. Mae gwleidyddion Llafur eu hunain hyd yn oed wedi tynnu sylw at y cyfleoedd a gollwyd. Roeddwn yn gwrando ar Derek Vaughan, ymgeisydd arweiniol y Blaid Lafur yn yr etholiad yfory, yn dweud bod dwy gyfran gyntaf Amcan 1 ac arian cydgyfeirio wedi colli cyfleoedd gwych. Mae’n edrych ymlaen at weld y drydedd gyfran yn gwneud yr hyn y dylai’r gyfran gyntaf fod wedi’i wneud mewn gwirionedd, sef hybu gweithgareddau economaidd yn yr ardaloedd lle mae’r arian i gael ei wario.

So, when you do get Labour politicians on their own, or in more candid moments, they will admit that it is a failure of successive Labour Governments to utilise that money to drive up prosperity in some of our poorest communities. You only need to look at the GVA figures that we have at the moment—they do not lie; they are independently put together—to see that they are appalling. You, as a party, back in 2001 set the goal to be at 90% of GVA. What are we on? It is 72% or 74%, something like that. If you take west Wales and the Valleys, it is 64%. That is an appalling indictment of economic failure from successive Labour Governments.

Felly, pan fyddwch yng nghwmni gwleidyddion Llafur ar eu pen eu hunain, neu ar eiliadau mwy gonest, byddant yn cyfaddef mai methiant Llywodraethau Llafur olynol yw defnyddio’r arian hwnnw i ysgogi ffyniant yn rhai o’n cymunedau tlotaf. Dim ond edrych ar y ffigurau GYC sydd gennym ar hyn o bryd sydd angen i chi ei wneud—nid ydynt yn twyllo; maent yn cael eu cyfrif yn annibynnol—i weld eu bod yn warthus. Fel plaid, aethoch ati yn ôl yn 2001 i osod y nod ar 90% o’r GYC. Ble rydym ni? Mae’n 72% neu 74%, rhywbeth tebyg. Os edrychwch ar orllewin Cymru a’r Cymoedd, mae’n 64%. Mae’n feirniadaeth lem ofnadwy o fethiant economaidd Llywodraethau Llafur olynol.

When you look at the health service, and it was interesting to listen to Jenny—[Interruption.] If I could just make this point—. Go on, I will take the intervention.

Os edrychwch ar y gwasanaeth iechyd, ac roedd yn ddiddorol gwrando ar Jenny— [Torri ar draws.] A gaf fi wneud y pwynt—. Ewch ymlaen, rwy’n ildio i’r ymyriad.

16:42

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you accept that the GVA of Great Britain has fallen by 11.5% over the last five years but has actually gone up by 4% in Wales?

A fyddech yn derbyn bod GYC Prydain Fawr wedi gostwng 11.5% dros y pum mlynedd diwethaf ond mewn gwirionedd, ei fod wedi codi 4% yng Nghymru?

16:43

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

What I accept is that we have the fastest growing economy in western Europe, we have 30 million people in employment, and we have a record number of people taken out of tax in the country, because of what the UK Government has done to stabilise the finances of this country of ours, keep the confidence of the money markets and, above all, make sure that we have record low interest rates to support hard-pressed families. That is real economic achievement. What have these Labour benches achieved here? They have achieved economic failure over 15 years.

Yr hyn rwy'n derbyn yw mai gennym ni y mae'r economi sy'n tyfu gyflymaf yng ngorllewin Ewrop, mae gennym 30 miliwn o bobl mewn gwaith a'r nifer uchaf erioed o bobl nad ydynt bellach yn talu treth yn y wlad, oherwydd yr hyn y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud i sefydlogi trefniadau ariannol y wlad hon, i gynnal hyder y marchnadoedd arian ac yn anad dim, i wneud yn siŵr fod gennym gyfraddau llog is nag erioed er mwyn cefnogi teuluoedd dan bwysau. Mae hynny'n gyflawniad economaidd gwirioneddol. Beth y mae'r meinciau Llafur hyn wedi'i gyflawni yma? Maent wedi cyflawni methiant economaidd dros 15 mlynedd.

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose—*

16:43

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If I have time Mick, I will take your intervention, but I want to deal with Jenny's point about the NHS. I found it really interesting how she spent so much time focusing on what London was doing, rather than focusing on the record of your party here in Government. If you actually take three key performance indicators, for example ambulance response times, you will see that it was 55% of category A ambulance response times in March 2004. In England, it was 76.2% for category A. If you take diagnostic referrals that you talked about at length, you will see that 22,897 patients waited eight weeks or more for such a referral. That is 28.6% of the total. In England, 1.6% of patients waited more than six weeks for 15 key tests. If you look at referral times, you will see that 88% of patients in Wales are waiting 26 weeks to start treatment. In England, that figure is 89% for 18 weeks. You wait longer in Wales. You have a poorer outcome here in Wales. I did not hear you mention any of those facts and that, really, builds on the picture that we saw last week—

Os bydd gen i amser Mick, byddaf yn cymryd eich ymyriad, ond rwy'n awyddus i ymdrin â phwynt Jenny am y GIG. Roedd yn ddiddorol iawn sut y treuliodd hi gymaint o amser yn canolbwyntio ar yr hyn y mae Llundain yn ei wneud yn hytrach na chanolbwyntio ar record eich plaid yma yn y Llywodraeth. Os cymerwch dri dangosydd perfformiad allweddol, er enghraifft amseroedd ymateb ambiwlansys, gwelwch ei fod yn 55% o amseroedd ymateb ambiwlansys galwadau categori A ym mis Mawrth 2004. Yn Lloegr, roedd yn 76.2% ar gyfer categori A. Os cymerwch atgyfeiriadau diagnostig y siaradoch amdanynt yn hir, byddwch yn gweld bod 22,897 o gleifion wedi aros wyth wythnos neu fwy am atgyfeiriad o'r fath. Dyna 28.6% o'r cyfanswm. Yn Lloegr, 1.6% o gleifion a fu'n aros dros chwe wythnos am 15 o brofion allweddol. Os edrychwch ar amseroedd atgyfeirio, gwelwch fod 88% o gleifion yng Nghymru yn aros 26 wythnos i ddechrau triniaeth. Yn Lloegr, mae'r ffigur hwnnw'n 89% am 18 wythnos. Rydych yn aros yn hwy yng Nghymru. Mae eich canlyniadau'n waeth yma yng Nghymru. Ni chlywais i chi'n sôn dim am y ffeithiau hynny ac mae hynny, mewn gwirionedd, yn adeiladu ar y darlun a welsom yr wythnos diwethaf-

*Jenny Rathbone a gododd—*

*Jenny Rathbone rose—*

16:44

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am running against the clock here; sorry, Jenny.

Rwy'n rhedeg ras yn erbyn y cloc yma; mae'n ddrwg gennyf, Jenny.

That builds on the picture that we saw last week in Professor Andrews's report, which was a damning indictment of one hospital—that was one hospital—what is going on in the other hospitals across Wales? I pay huge tribute to each and every medic, clinician and member of domestic staff who works within our NHS and they are as frustrated as the parties in opposition at the catalogue of failures to lead our NHS in Wales. We heard the First Minister and his Labour colleagues trying to deflect the failures of the health service in Wales on to opposition parties; it just will not wash when you have patients telling inspectors that they are in hell. They are in hell. Is that a description that you want to hear from patients in our district general hospitals and, in particular, in the First Minister's own district general hospital, the Princess of Wales Hospital in Bridgend? That cannot be acceptable to anyone in this Chamber.

Mae hynny'n adeiladu ar y darlun a welsom yr wythnos diwethaf yn adroddiad yr Athro Andrews, a oedd yn feirniadaeth ddamniol o un ysbyty-un ysbyty oedd hwnnw-beth sy'n digwydd yn yr ysbytai eraill ar draws Cymru? Rwy'n talu teyrnged enfawr i bob meddyg, clinigydd ac aelod o staff domestig sy'n gweithio yn ein GIG ac maent yr un mor rhwystredig â phleidiau'r wrthblaid ynglŷn â'r rhestr faith o fethiannau i arwain ein GIG yng Nghymru. Clywsom y Prif Weinidog a'i gydweithwyr Llafur yn ceisio dargyfeirio methiannau'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru i'r gwrthbleidiau; nid yw hynny'n dal dŵr pan fo gennych gleifion yn dweud wrth yr arolygwyr eu bod yn uffern. Maent yn uffern. Ai dyna'r disgrifiad rydych eisiau ei glywed gan gleifion yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth ac yn benodol, ysbyty cyffredinol dosbarth y Prif Weinidog ei hun, Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr? Ni all hynny fod yn dderbyniol i unrhyw un yn y Siambr hon.

When you look at education and the international PISA ranking results that we have had, which benchmark us internationally, time and again, you see that we are going backwards, not forwards. In fairness, the First Minister has said that his Government and successive Labour Governments have taken their eye off the ball. The Member for the Rhondda asked about having qualified teachers in classrooms. It was Jane Davidson in the second Assembly who allowed unqualified teachers into classrooms to teach. The Member for the Rhondda—the backbench Member for the Rhondda, I might add—was telling his constituents that he was going to save their A&E department in the Royal Glamorgan Hospital and that he was going to save their school from closure. It is much like the rhetoric when he was a Minister; he did not deliver for the education fraternity in this country, because so much of our education standards have not been met—

Pan edrychwch ar addysg a chanlyniadau rhyngwladol safleoedd PISA a gawsom, sy'n ein meincnodi'n rhyngwladol, gwelwch dro ar ôl tro ein bod yn mynd yn ôl yn hytrach nag ymlaen. A bod yn deg, mae'r Prif Weinidog wedi dweud bod ei Lywodraeth a Llywodraethau Llafur olynol wedi tynnu eu llygaid oddi ar y bêl. Gofynnodd yr Aelod dros y Rhondda ynghylch cael athrawon cymwys yn yr ystafelloedd dosbarth. Jane Davidson yn yr ail Gynulliad a ganiataodd i athrawon heb gymhwyso ddod i mewn i ystafelloedd dosbarth i addysgu. Roedd yr Aelod dros y Rhondda-yr Aelod o'r Rhondda ar y meinciau cefn, gallwn ychwanegu-yn dweud wrth ei etholwyr ei fod yn mynd i achub eu hadran ddamweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg a'i fod yn mynd i achub eu hysgol rhag cau. Mae'n debyg iawn i'w rethreg pan oedd yn Weinidog; ni chyflawnodd ar gyfer y byd addysg yn y wlad hon am fod cymaint o'n safonau addysg heb eu cyrraedd-

16:46

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—under this Labour Government—

[Parhau.] —o dan y Llywodraeth Lafur hon—

16:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. The Member is not giving way, you must sit down.

Trefn. Nid yw'r Aelod am ildio, mae'n rhaid i chi eistedd.

16:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is the label that will be tied around this Labour Party and, in particular, this First Minister, who stood on a so-called record of delivery for this fourth Assembly. What he has not done is to deliver one iota of improvement here in Wales. The truth is, while he can have his bitter backbenchers bemoaning the fact—

Dyna'r label a fydd yn cael ei glymu wrth y Blaid Lafur hon ac yn enwedig y Prif Weinidog, a safai dros yr hyn a elwir yn record o gyflawni ar gyfer y pedwerydd Cynulliad hwn. Yr hyn nad yw wedi'i wneud yw cyflawni un iot o welliant yma yng Nghymru. Y gwir yw, er y gall ei feincwyr cefn gwyno'n chwerw am y ffaith—

16:47

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Give way.

Ildiwch.

16:47

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—that they are not delivering for their constituents—[Interruption.]

[Parhau.]—nad ydynt yn cyflawni ar gyfer eu hetholwyr—[Torri ar draws.]

16:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I have already dealt with this. The Member clearly is winding up and he is not giving way. You cannot just stand up and scream, 'Give way.' It is up to the Member, and he has declined. You must finish now.

Trefn. Rwyf eisoes wedi trafod hyn. Mae'r Aelod yn amlwg yn dirwyn i ben ac nid yw'n ildio. Ni allwch sefyll a sgrechian, 'Ildiwch.' Mater i'r Aelod yw hynny, ac mae wedi gwrthod. Rhaid i chi orffen yn awr.

16:47 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will gladly wind up, Deputy Presiding Officer. [Laughter.] I do not wish to wind up anyone else. However, it is a fact that unless the First Minister's Ministers act more proactively in the last two years of this Assembly, they will be damned like the other administrations that have not delivered for the people of Wales. I urge support for the motion before this house today to improve outcomes in Wales and make a real difference for the people of Wales.

Rwy'n falch o dynnu tua'r terfyn, Ddirprwy Lywydd. [Chwerthin.] Nid wyf yn dymuno tynnu ar unrhyw un arall. Fodd bynnag, oni bai bod Gweinidogion y Prif Weinidog yn gweithredu'n fwy rhagweithiol yn ystod y ddwy flynedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, cânt eu condemnio fel y gweinyddiaethau eraill nad ydynt wedi cyflawni ar gyfer bobl Cymru. Rwy'n eich annog i gefnogi'r cynnig gerbron y tŷ heddiw er mwyn gwella canlyniadau yng Nghymru a gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl Cymru.

16:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore, I will defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwrthwynebiad, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

16:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On a point of order, I call Alun Davies.

Ar bwynt o drefn, galwaf ar Alun Davies.

16:48 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. We are all used to robust debate, and we all welcome robust debate in this place. However, there are lines that cannot and should not be crossed. In his contribution to this debate this afternoon, the Conservative Member for South Wales East launched a vicious attack on the people of Blaenau Gwent. He did not criticise the record of Government, which is his right, but he criticised the people whom I represent. He also criticised the people whom he himself purports to represent. This is a matter of regret, and I believe that this was out of order under the rules of debate in this Chamber. Deputy Presiding Officer, I ask for your ruling on this matter, and I ask that the Conservative Member for South Wales East in question reflects on what he said, withdraws his remarks and apologises to the people of Blaenau Gwent.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rydym i gyd wedi arfer â dadlau bywiog ac rydym i gyd yn croesawu dadl gadarn yn y lle hwn. Fodd bynnag, mae llinellau na ellir ac na ddylid eu croesi. Yn ei gyfraniad i'r ddadl hon y prynhawn yma, ymosododd yr Aelod Ceidwadol dros Ddwyrain De Cymru yn giaidd ar bobl Blaenau Gwent. Nid oedd yn beirniadu record y Llywodraeth, rhywbeth y mae hawl ganddo i'w wneud, ond beirniadodd y bobl rwy'n eu cynrychioli. Hefyd, beirniadodd y bobl y mae ef ei hun yn honni ei fod yn eu cynrychioli. Mae hyn yn destun gofid a chredaf fod hyn yn afreolaidd o dan y rheolau dadlau yn y Siambr hon. Ddirprwy Lywydd, gofynnaf am eich dyfarniad ar y mater hwn ac rwy'n gofyn i'r Aelod Ceidwadol dan sylw dros Ddwyrain De Cymru fyfyrio ar yr hyn a ddywedodd, tynnu ei sylwadau yn ôl ac ymddiheuro i bobl Blaenau Gwent.

16:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I heard nothing that was out of order, and I was listening very carefully indeed. I intervened and advised the Member not to shout. Nothing that was said was out of order. You may not have liked it, but, as you said yourself, you expect robust debate in this Chamber and, often, you deliver it. Therefore, I am afraid that you have got to listen to it and repudiate it as best you can, and let the public decide. What was said was not out of order.

Trefn. Ni chlywais ddim a oedd yn afreolaidd ac roeddwn yn gwrando'n astud iawn yn wir. Cyflwynais ymyriad a chynghori'r Aelod i beidio â gweiddi. Ni ddywedwyd dim a oedd yn afreolaidd. Efallai nad oeddech yn hoffi'r hyn a ddywedwyd, ond fel y dywedasoch eich hun, rydych yn disgwyl dadl fywiog yn y Siambr hon ac yn aml, byddwch yn ei darparu. Felly mae arnaf ofn fod yn rhaid i chi wrando ar ddadlau o'r fath a'i ddiystyru gystal ag y gallwch a gadael i'r cyhoedd benderfynu. Nid oedd yr hyn a ddywedwyd yn afreolaidd.

## Dadl Plaid Cymru: Cymoedd De Cymru

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3 a 5 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 2 a 4 yn enw Aled Roberts.*

## Plaid Cymru Debate: The South Wales Valleys

*The following amendments have been selected: amendments 1, 3 and 5 in the name of Paul Davies, and amendments 2 and 4 in the name of Aled Roberts.*

16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to move the motion.

Galwaf ar Lindsay Whittle i symud y cynnig.

Cynnig NDM5511 Elin Jones

Motion NDM5511 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu bod rhannau o gymoedd de Cymru yn parhau i wynebu lefelau uchel o amddifadedd.

1. Regrets that parts of the south Wales valleys continue to experience high levels of deprivation.

2. Yn cydnabod bod trechu tlodi yn y Cymoedd yn ei gwneud yn ofynnol cael buddsoddiad parhaus ac ymyriad Llywodraeth Cymru.

2. Recognises that tackling poverty in the Valleys requires sustained investment and Welsh Government intervention.

3. Yn nodi'r potensial sylweddol i gymoedd de Cymru hyrwyddo eu treftadaeth gymdeithasol a diwylliannol.

3. Notes the significant potential for the south Wales valleys to promote their social and cultural heritage.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) cynorthwyo'n uniongyrchol fentrau ar lawr gwlad i drechu tlodi a gwella adfywiad ardaloedd ag amddifadedd yn y Cymoedd;

a) directly support grass roots initiatives to tackle poverty and improve regeneration of the deprived Valleys areas;

b) sicrhau bod digon o ofal plant fforddiadwy i ddiwallu anghenion rhieni;

b) ensure there is enough affordable child care to meet parents' needs;

c) sicrhau bod gan bob unigolyn sydd allan o waith yn y Cymoedd fynediad i hyfforddiant prentisiaeth neu sgiliau;

c) ensure every person out of work in the Valleys has access to an apprenticeship or skills training;

d) datblygu, drwy ymgynghori â'r cyhoedd, strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â'r problemau a meithrin cymunedau cynaliadwy yn y Cymoedd.

d) develop, through public consultation, a comprehensive strategy to tackle the problems and build sustainable communities in the Valleys.

16:49 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I am very proud to move the motion submitted here today in the name of Elin Jones.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o gynnig y cynnig a gyflwynir yma heddiw yn enw Elin Jones.

I am quite ambitious for the future of the south Wales Valleys, because they are my home and where I belong. I think that politicians have to have ambition to create a new society where our people can expect economic and social prosperity, as well as world-class health, education and social services. It is what we all aspire to. The future of the Valleys and the wellbeing of people who I call friends, neighbours, my family—who are in fact probably the best people in the world, although I am a bit biased—is something that actually motivates me and inspires passion in me absolutely every single day. If I win the lottery, I would live nowhere else in the world. Trust me, I do the lottery, and, trust me, I want to win. It is where I belong, as I have said. We know that the Valleys are beautiful, and their communities strong and resilient. While we have our challenges, we have a bright future ahead, but only if the right policies and actions are put in place.

Rwy'n eithaf uchelgeisiol ar gyfer dyfodol Cymoedd y de gan mai dyna fy nghartref a dyna lle rwy'n perthyn. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i wleidyddion gael uchelgais i greu cymdeithas newydd lle y gall ein pobl ddisgwyl ffyniant economaidd a chymdeithasol, yn ogystal ag iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol o safon fyd-eang. Dyna rydym holl yn dyheu amdano. Mae dyfodol y Cymoedd a lles pobl rwy'n eu galw'n ffrindiau, fy nghymdogion, fy nheulu-sef y bobl gorau yn y byd yn ôl pob tebyg, er fy mod ychydig yn rhagfarnllyd-yn rhywbeth sy'n fy ysbrydoli go iawn ac yn ysgogi angerdd ynof fi bob dydd. Pe bawn yn ennill y loteri, ni fyddwn yn byw yn unman arall yn y byd. Credwch fi, rwy'n gwneud y loteri, a chredwch fi, rwyf eisiau ennill. Dyna lle rwy'n perthyn, fel y dywedais. Gwyddom fod y Cymoedd yn hardd ac mae eu cymunedau'n gryf a gwydn. Er bod heriau'n ein hwynebu, mae gennym ddyfodol disglair o'n blaenau, ond dim ond os yw'r polisïau a'r camau gweithredu cywir yn cael eu rhoi ar waith.

The truth is that the Valleys have not always received the best policies from Government. If we look back at the past 100 years of Government policy from Westminster, of any party, we see that there is a catalogue of errors. Above all, the Valleys have been the victim of right-wing economics—damaging and divisive trickle-down economics designed to benefit the south-east of England, but not here. The economics of Margaret Thatcher, embraced by New Labour, are now been extended with callous vigour by the coalition, once again forcing us to think about the long-term challenges that face the Valleys.

Y gwir yw nad yw'r Cymoedd bob amser wedi cael y polisïau gorau gan y Llywodraeth. Os edrychwn yn ôl ar y 100 mlynedd diwethaf o bolisi unrhyw blaid yn Llywodraeth San Steffan, gwelwn restr hir o gamgymeriadau. Yn anad dim, mae'r Cymoedd wedi dioddef yn sgîl economeg adain dde—economeg niweidiol ac ymrannol o'r brig i lawr a luniwyd i fod o fudd i dde-ddwyrain Lloegr, ond nid yma. Mae economeg Margaret Thatcher, a groesawyd gan Lafur Newydd, bellach yn cael ei hymestyn yn haerllug o ddideimlad gan y glymblaid, gan ein gorfodi unwaith eto i feddwl am yr heriau tymor hir sy'n wynebu'r Cymoedd.

It is clear that it will be up to the progressives in Welsh politics to come up with solutions that will secure the sustainable future and economic security that our people have already waited far too long for. Intervention from Government, with the express aim of improving the outlook for the Valleys has not really been successful, although, to be fair, the intentions were pretty good. We have watched too many schemes fall by the wayside because their scope was not wide enough and because of weakness in implementation. The Heads of the Valleys programme—

Mae'n amlwg y bydd yn rhaid i'r blaengar yng ngwleidyddiaeth Cymru ddod o hyd i atebion a fydd yn sicrhau'r dyfodol cynaliadwy a sicrwydd economaidd y mae ein pobl eisoes wedi aros yn llawer rhy hir amdano. Nid yw ymyrraeth gan y Llywodraeth, gyda'r nod penodol o wella rhagolygon y Cymoedd, wedi bod yn llwyddiannus iawn, er a bod yn deg, roedd y bwriadau'n eithaf da. Rydym wedi gwylio gormod o gynlluniau yn syrthio'n fyr o'r nod am nad oedd eu cwmpas yn ddigon eang ac oherwydd gwendidau wrth eu gweithredu. Mae rhaglen Blaenau'r Cymoedd—

16:51

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:51

## Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, as long as it is constructive, because it is my diet day and I am hungry, and I am angry when I am hungry. [Laughter.]

Gwnaf, cyn belled â'i fod yn adeiladol. Dyma fy niwrnod deiet ac rwy'n llwglyd, ac rwy'n flin pan rwy'n llwglyd. [Chwerthin.]

16:52

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I will try to be constructive. You just mentioned sustainability. Would you agree with me, therefore, constructively, that it is very important that the next round of European structural funds and EU funding is spent constructively and on sustainable economic objectives and is not wasted like the last lot was?

Ceisiaf fod yn adeiladol. Rydych newydd grybwyll cynaliadwyedd. A fyddech yn cytuno â mi felly, yn adeiladol, ei bod yn bwysig iawn fod y cylch nesaf o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd ac arian yr UE yn cael ei wario'n adeiladol ac ar amcanion economaidd cynaliadwy ac nad yw'n cael ei wastraffu fel y cylch diwethaf?

16:52

## Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, indeed, and I am coming on to that. So, please be patient.

Byddwn yn wir, ac rwy'n dod at hynny. Felly byddwch yn amyneddgar.

The Heads of the Valleys Programme, which was scrapped just over a year ago, comes to mind, as does the Valleys Initiative. Billions in European funding, which should have transformed the viability of high-quality jobs and the successful growing SME sector in the Valleys, were targeted all too often in the wrong direction. So, there it is, Nick. There have been anti-poverty programmes that have failed to live up to expectations, and there are examples of promising ideas, too. We welcomed the city region approach, and we want to work with the wider regional area, as well as the core cities, to ensure that they benefit. We will work with the Government to obtain borrowing powers for infrastructure projects, and we will work to improve poverty programmes, where there is merit, and expand access to childcare.

Mae Rhaglen Blaenau'r Cymoedd, a gafodd ei diddymu ychydig dros flwyddyn yn ôl, yn dod i'r meddwl, fel y mae Menter y Cymoedd. Yn rhy aml, cafodd biliynau o bunnoedd o arian Ewropeaidd a ddylai fod wedi trawsnewid hyfywedd swyddi o ansawdd uchel a'r sector busnesau bach a chanolig llwyddiannus sy'n tyfu yn y Cymoedd ei dargedu i'r cyfeiriad anghywir. Felly, dyna ni, Nick. Cafwyd rhaglenni gwrthdlodi sydd wedi methu â chyflawni'r disgwyliadau ac mae enghreifftiau o syniadau addawol hefyd. Croesawyd y dull o weithredu ar sail dinas-ranbarthau gennym ac rydym yn awyddus i weithio gyda'r rhanbarth ehangach, yn ogystal â'r dinasoedd craidd, er mwyn sicrhau eu bod yn elwa. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i gael pwerau benthyca ar gyfer prosiectau seilwaith a byddwn yn gweithio i wella rhaglenni tlodi, lle ceir budd o wneud hynny, ac ehangu mynediad at ofal plant.

Of course, the Valleys have a rich and varied cultural heritage and a scenic beauty that we can all agree, but we need to do more to invest in this and promote it. Other speakers will refer to those aspects later. What is needed more than anything is major intervention from this Government. With respect, we will not get it from the coalition in London, and I do not really expect it, if I am a realist. The economic and social problems that we face are unique in their entrenchment. Solving them would require a concerted action in various different areas. The Valleys are home to around 30% of the population. So far, we have not managed to implement a long-term intervention programme that halts relative economic decline and, most importantly, starts to move us up into other directions. My idea of socialism is not to bring the rich people down, but to bring the poor people up to their level. That is what I want. We understand that we are limited by our lack of economic levers, but there are promising ideas going forward and policies that can be successfully implemented. My colleagues from Plaid Cymru will explore those in more detail throughout this debate. We strongly believe that there is no challenge that we cannot overcome, so long as we accept that where failings have been made in the past, we need to work to ensure that good ideas are successfully put into place. It is for the future of the Valleys. Diolch yn fawr.

Wrth gwrs, mae gan y Cymoedd dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol a harddwch gweledol y gallwn i gyd gytuno yn ei gylch ond mae angen i ni wneud mwy i fuddsoddi yn hyn a'i hyrwyddo. Bydd siaradwyr eraill yn cyfeirio at yr agweddau hynny yn nes ymlaen. Yr hyn sydd ei angen yn fwy na dim yw ymyrraeth sylweddol gan y Llywodraeth hon. Gyda phob parch, ni chawn hynny gan y glymblaid yn Llundain, ac rwy'n ddigon o realydd i beidio â disgwyl hynny. Mae'r problemau economaidd a chymdeithasol sy'n ein hwynebu yn unigryw o ran eu natur ddiysgog. Byddai eu datrys yn galw am weithredu ar y cyd mewn amryw o feysydd gwahanol. Mae'r Cymoedd yn gartref i tua 30% o'r boblogaeth. Hyd yn hyn, nid ydym wedi llwyddo i weithredu rhaglen o ymyrraeth hirdymor i atal dirywiad economaidd cymharol ac yn bwysicaf oll, i ddechrau ein symud i fyny i gyfeiriadau eraill. Nid fy syniad i o sosialaeth yw tynnu'r bobl gyfoethog i lawr, ond i ddod â'r bobl dlawd i fyny i'w lefel. Dyna rwyf ei eisiau. Deallwn ein bod wedi ein cyfyngu gan ein diffyg ysgogiadau economaidd, ond ceir syniadau addawol ar gyfer y dyfodol a pholisïau y gellir eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Bydd fy nghydweithwyr ym Mhlaid Cymru yn archwilio'r rhain yn fwy manwl drwy gydol y ddadl hon. Credwn yn gryf nad oes unrhyw her na allwn ei goresgyn, cyn belled â'n bod yn derbyn, lle bu diffygion yn y gorffennol, fod angen i ni weithio i sicrhau bod syniadau da yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Gwnawn hynny er mwyn sicrhau dyfodol i'r Cymoedd. Diolch yn fawr.

16:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the five amendments to the motion. I call on William Graham to move amendments 1, 3 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliannau 1, 3 a 5 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 1 and re-number accordingly:*

*1. Yn cydnabod yr effaith y mae polisi economaidd Llywodraeth y DU wedi'i chael ar gymoedd de Cymru o ran:*

*1. Acknowledges the impact that UK Government economic policy has had on the south Wales valleys in:*

*a) sefydlogi'r economi a hybu twf economaidd;*

*a) stabilising the economy and promoting economic growth;*

*b) rhoi hyder i gyflogwyr gynyddu cyfleoedd cyflogaeth;*

*b) giving employers the confidence to increase employment opportunities;*

*c) cefnogi creu cyfoeth a fydd yn cyllido ac yn cynnal darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.*

*c) supporting the creation of wealth that will fund and sustain public service provision.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Cynnwys is-bwynt 4a) newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new sub-point 4a) and renumber accordingly:*

*cydlynu'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r gymdeithas sifil yng nghymoedd de Cymru i sicrhau bod yr ardaloedd hynny yn manteisio i'r eithaf ar botensial twf economaidd Cymru.*

*co-ordinate the public and private sectors and civil society in the south Wales valleys to ensure that those areas realise the maximum potential of the Wales' economic growth.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y Cynnig:*

*Add as new point at end of Motion:*

*Yn gresynu bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi bod yn gymwys ar gyfer tri chylch o gyllid strwythurol yr UE gan eu bod yn is na 75% o gynnyrch mewnwladol crynswth yr UE.*

*Regrets that West Wales and the Valleys have qualified for three rounds of EU structural funding based on having less than 75% of EU GDP.*

16:54

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 1, 3 and 5, in the name of Paul Davies.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 1, 3 a 5 yn enw Paul Davies.

The International Monetary Fund acknowledges that the United Kingdom economy will be the fastest growing in the G7 this year. Howard Archer, the chief economist of IHS Global Insight explains that, encouragingly, UK growth is broad based and advanced by all sectors contributing to this growth. The first quarter of 2014 marked the fifth consecutive period of GDP growth.

Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol yn cydnabod mai economi'r Deyrnas Unedig fydd yn tyfu gyflymaf yn y G7 eleni. Mae'n galonogol fod Howard Archer, prif economegydd IHS Global Insight yn esbonio bod twf y DU yn eang ei sylfaen ac yn cael ei ysgogi wrth i bob sector gyfrannu tuag ato. Cafwyd pumed cyfnod olynol o dwf CMC yn chwarter cyntaf 2014.

The Welsh Conservatives acknowledge that, despite faster headline growth and falling unemployment, the full benefits of our recovery are currently not reaching everyone. However, they are beginning to be experienced. The latest earnings figures from the ONS indicate that weekly earnings have now caught up with inflation and thus will drive the recovery of living standards. Progressively, the benefits arising from our sustainable recovery will reach out across the south Wales Valleys to all areas of Wales and to all parts of the United Kingdom. The International Monetary Fund emphasised that the UK Government's efforts to raise capital spending, while staying within the medium-term fiscal envelope, should help bolster the recovery and long-term growth. Last month, Kevin Green, chief executive of the Recruitment and Employment Confederation, outlined how employer confidence is returning and how employers are keen to make offers of permanent work to more and more people.

Er gwaethaf prif dwf cyflymach a gostyngiad yn y nifer sy'n ddi-waith, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod nad yw manteision llawn ein hadferiad yn cyrraedd pawb ar hyn o bryd. Fodd bynnag, maent yn dechrau cael eu teimlo. Mae ffigurau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar enillion yn dangos bod enillion wythnosol bellach wedi dal i fyny â chwyddiant ac y byddant felly'n ysgogi adferiad mewn safonau byw. Yn gynyddol, bydd y manteision sy'n deillio o'n hadferiad cynaliadwy yn ymestyn ar draws Cymoedd y de i bob rhan o Gymru ac i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Pwysleisiodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol y dylai ymdrechion Llywodraeth y DU i godi gwariant cyfalaf, gan aros o fewn y cwmpas ariannol yn y tymor canolig, helpu i hybu adferiad a thwf hirdymor. Y mis diwethaf, amlinellodd Kevin Green, prif weithredwr y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth, sut y mae hyder cyflogwr yn dychwelyd a sut y mae cyflogwyr yn awyddus i gynnig gwaith parhaol i fwy a mwy o bobl.

Small businesses, as the backbone of the UK economy, are starting to surge with confidence, which can only be good news for job-seekers and the recovery. I thank Chwarae Teg for its thoughtful briefing for this debate. A thriving economy not only provides increased employment and training opportunities, but it allows people to create the businesses required within our communities, such as childcare that meets parents' needs. I outlined earlier how IHS Global Insight is encouraged that UK growth is broad based and advanced by all sectors contributing to this growth. We require, throughout the whole of Wales, for the public and private sectors and civil society to work in unison and to realise the massive potential of Wales's economic growth. It is a matter of fact and regret that west Wales and the Valleys qualified for a third round of EU structural funding, based on having less than 75% of EU GDP. It is a further challenge for our public and private sectors and civil society to come together and ensure that EU funding generates a rise in living standards throughout the whole of Wales. We can take a blinkered look at today, with the total picture shaded from view, unable to understand or build upon past experiences, and clinging like the shadow Chancellor to the fortunes of luck. Or, we can acknowledge the appraisal and the global economic analysis that the UK economy is recovering, that further economic growth is forecast and that living standards are increasing throughout Wales and throughout the United Kingdom.

Mae busnesau bach, fel asgwrn cefn economi'r DU, yn dechrau mynd o nerth i nerth yn hyderus, sy'n bendant yn newydd da i bobl sy'n chwilio am waith ac i adferiad. Diolch i Chwarae Teg am eu cyfarwyddyd meddylgar ar gyfer y ddadl hon. Mae economi sy'n ffynnu, nid yn unig yn cynnig mwy o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant, mae hefyd yn caniatáu i bobl greu busnesau sydd eu hangen yn ein cymunedau, megis gofal plant sy'n diwallu anghenion rhieni. Amlinellais yn gynharach sut y caiff IHS Global Insight ei argyhoeddi bod twf y DU yn eang ac yn cael ei ysgogi wrth i bob sector gyfrannu at y twf hwn. Drwy Gymru gyfan, rydym angen i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat a chymdeithas sifil weithio gyda'i gilydd a gwireddu potensial enfawr twf economaidd Cymru. Mae'n ffaith i resynu ati fod gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys ar gyfer trydydd cylch o gyllid strwythurol yr UE am fod eu CMC yn llai na 75% o CMC yr UE. Mae'n her bellach i'n sectorau cyhoeddus a phreifat a chymdeithas sifil ddod at ei gilydd a sicrhau bod cyllid yr UE yn cynhyrchu cynnydd mewn safonau byw ledled Cymru. Gallwn fwrw golwg gyfyngedig ar heddiw, gyda'r rhan fwyaf o'r darlun yn y cysgod o'r golwg, heb ddeall nac adeiladu ar brofiadau'r gorffennol a glynu fel Canghellor yr wrthblaid wrth ffawd. Neu gallwn gydnabod y gwerthusiad a'r dadansoddiad economaidd byd-eang fod economi'r DU yn gwella, fod twf economaidd pellach wedi'i ragweld a bod safonau byw yn gwella ledled Cymru a ledled y Deyrnas Unedig.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Eluned Parrott to move amendments 2 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 2 a 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 3 ar ôl 'gymdeithasol a diwylliannol', rhoi:*

*In point 3 after 'cultural heritage' insert:*

*'ac yn condemnio'r camreolaeth sydd wedi arwain at gau rhai o ganolfannau pwysig o werth cymdeithasol a diwylliannol sylweddol yn yr ardaloedd hynny'.*

*'and condemns mismanagement which has led to the closure of important centres of significant social and cultural value in those areas'.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Cynnwys is-bwynt 4d) newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new sub-point 4d) and renumber accordingly:*

*'annog awdurdodau lleol yn y Cymoedd i ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i ddynodi Asedau o Werth Cymunedol a gwarchod adeiladau pwysig rhag y perygl o orfod cau.'*

*'encourage local authorities in the Valleys to use powers under the Localism Act 2011 to designate Assets of Community Value and protect important buildings from the threat of closure.'*

16:57

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendments 2 and 4 in the name of Aled Roberts.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 2 a 4 yn enw Aled Roberts.

I would like to thank Plaid Cymru for bringing today's debate. I speak today not only as the Liberal Democrat spokesperson for the economy, but also—like the Member who introduced the debate—as a regional Member who represents some of the most deprived communities in Wales. Sadly, there is little in the motion today that I can disagree with. While the problems that the Valleys face have been recognised for many years—and I would suggest that they go back many generations in some communities—none of the interventions that have been tried has succeeded in lifting the economic fortunes of those communities up to anywhere near the UK or EU average. I really hope that the next round of EU funding will succeed where other rounds have failed. Frankly, however, I am cynical. I want to hope, but I am cynical. If that is going to happen, we need to have a clear and unified vision to take us into that future that we want to see. It is that vision and clear leadership that I think has been missing in the past. At a national level, we seem to have a plethora of advisory boards, panels and working groups delivering enterprise zones and city regions and the metro concept and the economic renewal programme. All of these policies have an impact on the economy of the Valleys, but the governance of these groups and how their work interrelates with that of our local authorities is ill-defined and needs some work.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl heddiw. Rwy'n siarad heddiw, nid yn unig fel llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar yr economi, ond hefyd-fel yr Aelod a gyflwynodd y ddadl-fel Aelod rhanbarthol sy'n cynrychioli rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn anffodus, nid oes llawer yn y cynnig heddiw y gallaf anghytuno ag ef. Er bod y problemau sy'n wynebu'r Cymoedd wedi cael eu cydnabod ers nifer o flynyddoedd-a byddwn yn awgrymu eu bod yn mynd yn ôl sawl cenhedlaeth mewn rhai cymunedau-nid oes yr un o'r ymyriadau y ceisiwyd eu gweithredu wedi llwyddo i godi ffawd economaidd y cymunedau hynny'n agos at gyfartaledd y DU neu'r UE. Rwy'n gobeithio mewn difrif y bydd y cylch nesaf o arian yr UE yn llwyddo lle methodd cylchoedd eraill. A dweud y gwir, fodd bynnag, rwy'n sinigaidd. Rwyf eisiau gobeithio ond rwy'n sinigaidd. Os yw hynny'n mynd i ddigwydd, mae angen i ni gael gweledigaeth eglur ac unedig i fynd â ni i mewn i'r dyfodol rydym am ei weld. Yn fy marn i, y weledigaeth a'r arweinyddiaeth glir honno sydd wedi bod ar goll yn y gorffennol. Ar lefel genedlaethol, ymddengys bod gennym lu o fyrddau ymgynghorol, paneli a gweithgorau yn darparu ardaloedd menter a dinas-ranbarthau a chysyniad y metro a rhaglen adnewyddu'r economi. Mae pob un o'r polisïau hyn yn cael effaith ar economi'r Cymoedd, ond nid yw'r gwaith o lywodraethu'r grwpiau hyn a sut y mae eu gwaith yn cydberthyn â gwaith ein hawdurdodau lleol wedi'i ddiffinio'n dda ac mae angen gwaith ar hyn.

As our amendment 2 states as well, the result of this lack of co-ordination strategy is that important assets—assets that could help us boost that regional economy—are under threat and could be lost to our communities forever. On Wednesday last week, for example, the Rhondda Cynon Taf cabinet met to decide a programme of cuts to leisure and cultural facilities across the county, including the Muni Arts Centre in Pontypridd, which has attracted high-profile support for a campaign to save it. It is a facility that is hugely valued by local people, and a big crowd turned out to demonstrate and lobby cabinet members to save it. Sadly, those pleas fell on deaf ears. Again, the cynic in me might suggest that they never really stood a chance in this instance, and the cynic in me might wonder how the MP for Pontypridd, Owen Smith, came to be discussing the decision in his column in the 'Pontypridd Observer' on the Thursday, when the copy deadline for that column is on the Monday. I know that because I have a column in that publication, too. If a democratic and open decision was made on a Wednesday afternoon, how could the MP be writing about it on Monday? What is the point of holding public council meetings and having accessible, democratic processes if all the decisions have apparently already been taken behind closed doors? No wonder people feel disenfranchised. I believe that powers in the Localism Act to allow communities to protect assets of committee value would not only give people a sense of power and ownership in their communities, but could also make a significant contribution to the kind of empowered regeneration that I believe Plaid Cymru is proposing in its motion today.

Fel y mae ein gwelliant 2 yn nodi hefyd, canlyniad diffyg strategaeth cydgysylltu o'r fath yw bod asedau pwysig—asedau a allai ein helpu i hybu'r economi ranbarthol honno—dan fygythiad a gellid eu colli am byth o'n cymunedau. Ddydd Mercher yr wythnos diwethaf, er enghraifft, cyfarfu cabinet Rhondda Cynon Taf i benderfynu ar raglen o doriadau i gyfleusterau hamdden a diwylliant ar draws y sir gan gynnwys Canolfan Gelf y Miwni ym Mhontypridd, sydd wedi denu cefnogaeth proffil uchel at yr ymgyrch i'w hachub. Mae'n gyfleuster sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol a daeth tyrfa fawr ynghyd i brotestio a lobïo aelodau cabinet i'w achub. Yn anffodus, trowyd clustiau byddar tuag at yr apeliadau. Unwaith eto, gallai'r sinig ynof awgrymu nad oedd unrhyw obaith ganddynt o'r cychwyn yn yr achos hwn, a gallai'r sinig feddwl tybed sut y gallai Aelod Seneddol Pontypridd, Owen Smith, fod yn trafod y penderfyniad yn ei golofn yn y 'Pontypridd Observer' ar y dydd Iau, pan fo'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r golofn ar y dydd Llun. Gwn hynny am fod gennyf golofn yn y cyhoeddiad hefyd. Os gwnaed penderfyniad democrataidd ac agored ar brynhawn dydd Mercher, sut y gallai'r AS ysgrifennu am y peth ar y dydd Llun? Beth yw pwynt cynnal cyfarfodydd cyngor cyhoeddus a chael prosesau hygyrch, democrataidd os yw'n ymddangos bod yr holl benderfyniadau eisoes wedi'u gwneud y tu ôl i ddrysau caeedig? Nid yw'r rhyfedd fod pobl yn teimlo'u bod wedi'u difreinio. Rwy'n credu y byddai pwerau yn y Ddeddf Lleoliaeth i alluogi cymunedau i ddiogelu asedau o werth pwyllgor nid yn unig yn rhoi ymdeimlad o rym a pherchnogaeth i bobl yn eu cymunedau, ond gallai hefyd gyfrannu'n sylweddol at y math o adfywiad wedi'i rymuso y mae Plaid Cymru yn ei argymell yn ei gynnig heddiw yn fy marn i.

It is not just the manner of it that angers people; it is the fact that, year after year, valuable, cultural and social facilities have been allowed to die on the vine, because nobody is taking responsibility for keeping them alive. Libraries, day centres, arts centres, and museums—all valued by local people—all capable of playing a role in the regeneration of our Valleys, particularly if we want to see that regeneration grow from the grass roots, but sadly, also all closing.

Nid yn unig y modd y mae'n cael ei wneud sy'n cythruddo pobl, ond y ffaith fod cyfleusterau gwerthfawr, diwylliannol a chymdeithasol yn cael caniatâd i farw cyn dwyn ffrwyth, flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan nad oes neb yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu cadw'n fyw. Llyfrgelloedd, canolfannau dydd, canolfannau celfyddydau ac amgueddfeydd- caiff pob un ei werthfawrogi gan bobl leol-ac mae gan bob un y gallu i chwarae rôl yn y gwaith o adfywio ein Cymoedd, yn enwedig os ydym am weld yr adfywiad hwnnw'n tyfu o lawr gwlad, ond yn anffodus mae pob un hefyd yn cau.

We talk about how education has the power to lift people out of poverty. We talk about how digital exclusion blights people's ability to engage with the modern world. Then, they shut the libraries where our children learn to love books, and where many people in our more deprived communities access the internet. We talk about how we can regenerate our town centres, by encouraging a day-to-night economy, and by bringing people into towns for leisure and not just for shopping. Then they close the Muni Arts Centre, in the heart of our county town. We talk about how arts and culture are critical to drawing tourists to Wales and how they are the heart, the keystone, of what is important and unique about the Welsh offer in terms of tourism. Then they close museums like the Cynon valley museum, too. Where is the long-term strategy? Where is the strategy in that? We have an extraordinary heritage in the south Wales Valleys, and a naturally beautiful landscape that also happens to be the cradle of a revolution that changed the world. It changed the face of the world. Where else in the world has so much untapped potential?

Rydym yn sôn am y pŵer sydd gan addysg i godi pobl allan o dlodi. Rydym yn sôn sut y mae allgau digidol yn difetha gallu pobl i ymgysylltu â'r byd modern. Yna, maent yn cau'r llyfrgelloedd lle bydd ein plant yn dysgu i garu llyfrau a lle bydd llawer o bobl yn ein cymunedau mwy difreintiedig yn gallu mynd ar y rhyngrwyd. Rydym yn sôn sut y gallwn adfywio canol ein trefi, drwy annog economi o ddydd i nos a thrwy ddod â phobl i mewn i drefi at ddibenion hamdden, yn hytrach nag ar gyfer siopa'n unig. Yna maent yn cau Canolfan Gelf y Miwni, yng nghanol ein tref sirol. Rydym yn sôn sut y mae'r celfyddydau a diwylliant yn hanfodol i ddenu twristiaid i Gymru a sut y maent yn galon, yn gonglfaen, i'r hyn sy'n bwysig ac yn unigryw am y cynnig Cymreig o ran twristiaeth. Yna maent yn cau amgueddfeydd fel Amgueddfa Cwm Cynon hefyd. Ble mae'r strategaeth hirdymor? Ble mae'r strategaeth yn hynny? Mae gennym dreftadaeth hynod yng Nghymoedd de Cymru a thirlun naturiol hardd sydd hefyd yn digwydd bod yn grud i chwyldro a newidiodd y byd. Newidiodd wyneb y byd. Ble arall yn y byd sydd â chymaint botensial nas gwireddwyd?

We really must support the cultural infrastructure of the Valleys, because it is not just about preserving the past. This is about building the future that our communities want and allowing our communities to lead that regeneration.

Mae gwir angen i ni gefnogi seilwaith diwylliannol y Cymoedd gan nad yw'n ymwneud yn unig â chadw'r gorffennol. Mae'n ymwneud ag adeiladu dyfodol y mae ein cymunedau ei eisiau a chaniatáu i'n cymunedau arwain yr adfywiad hwnnw.

17:02

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n dda gennyf gyfrannu at ddadl am ardal sy'n bwysig i mi o ran fy magwraeth yng Nghwm Cynon, yn Aberdâr, a minnau'n cynrychioli o hyd ran o'r ardal yng nghymoedd y gorllewin—yn wir, byddwn i'n cynnwys Llanelli fel rhan o'r Cymoedd, cyn belled ag y mae natur a hanes yn ymwneud â'r lle.

I am pleased to contribute to a debate about an area that is important to me in terms of my upbringing in the Cynon Valley, in Aberdare, and as I still represent a part of the area in the western Valleys—indeed, I would include Llanelli as part of the Valleys, in terms of the nature and history of the place.

Rwyf am siarad yn benodol am y rhan o'r ddadl sy'n ymwneud â gofal plant, ond cyn imi wneud hynny, byddwn yn hoffi ymateb i un peth a ddywedodd Eluned Parrott am rywbeth yn ein cynnig ni, sef yr angen i ddefnyddio pob cyfle i hyrwyddo treftadaeth y Cymoedd. Rwy'n cytuno'n llwyr fod cau lle rwyf i'n gyfarwydd iawn ag ef, sef amgueddfa Cwm Cynon, gyda'r camau mwyaf gwag y gall unrhyw lywodraeth leol eu cymryd. Bu brwydr hir iawn i sefydlu'r amgueddfa honno, ac mae ei gweld yn cau, gyda nifer fawr o bobl yn mynd iddi, yn siom. Rwy'n gwybod ei bod yn siom i'r rhai o'm teulu sydd yn dal yn byw yng Nghwm Cynon, ac i nifer o bobl yn yr ardal yn ogystal. Mae hefyd yn tanlinellu'r ffaith bod treftadaeth a hanes y Cymoedd yn bwysig, nid yn unig o ran y chwyldro diwydiannol, ond o ran y chwyldro gwleidyddol hefyd, achos, yng Nghymoedd de Cymru y sefydlwyd sosialaeth, a'r chwyldro gwerinol cyntaf yn nherfysg Merthyr, yn ôl yn 1832. Mae'n hynod bwysig ein bod yn cofio'r pethau hyn-mae cofio'r pethau hyn yn rhan o gofio yn y Cymoedd yn ogystal. Dyna pam y mae treftadaeth leol yn bwysig i mi.

I want to speak specifically about the part of the debate relating to childcare, but before I do that, I would like to respond to one thing that Eluned Parrott said about something in our motion, namely the need to use every opportunity to promote the heritage of the Valleys. I completely agree that to close a place with which I am very familiar, namely the Cynon Valley museum, is one of the emptiest steps that any local government could take. There was a very long battle to establish the museum, and to see it closed, despite attracting a large number of visitors, is a disappointment. I know that it is a disappointment to some of my family who still live in the Cynon Valley, and for many other people in the area as well. It also underlines the fact that the heritage and history of the Valleys are important, not only in terms of the industrial revolution, but also in terms of the political revolution, because it is in the south Wales Valleys that socialism was established and the first proletarian revolution was seen, in the Merthyr riots, back in 1832. It is extremely important that we remember these things—this is part of the Valleys' heritage. That is why local heritage is important to me.

Trof yn awr at ran arall o'r cynnig, sef yr un sy'n ymwneud â gofal plant a pha mor bwysig yw hyrwyddo gofal plant fel rhan o batrwm o adfywio economaidd yn y Cymoedd. Rydym eisoes yn gwybod bod gofal plant yn gyffredinol ym Mhrydain gyda'r drutaf i'w gael yng ngwledydd OECD, ac ar gyfartaledd, mae gofal plant yn costio mwy na morgais. Rwy'n meddwl bod hynny efallai yn rhannol oherwydd cyfraddau llog morgais, ond mae hefyd yn tanlinellu pa mor ddrud yw gofal plant bellach.

I turn now to another part of the motion, in relation to childcare and the importance of promoting childcare as part of a pattern of economic regeneration in the Valleys. We already know that, in general, childcare in Britain is among the most expensive in OECD countries, and that, on average, childcare costs more than a mortgage. I think that that is partly, perhaps, because of mortgage interest rates, but it also underlines how expensive childcare is now.

Nid oes dwywaith bod gofal plant a'i ehangu, yn enwedig i fenywod sydd o hyd yn brif ofalwyr i'r plant yn ein heconomi ni, yn mynd i ddod â hwb a budd sylweddol i'r economi. Nid oes tystiolaeth—mae eisiau tanlinellu hyn—fod sefyllfa gofal plant yn niweidiol o gwbl o'i gymharu â sefyllfa gartref. Mae'r naill fel y llall yn gallu bod yr un mor gefnogol a buddiol i ddatblygiad yn addysgiadol, yn gymdeithasol ac ati. Os edrychwn ar ehangu gofal plant yn benodol, mae modd inni weld cynnydd sylweddol iawn. Mae'r IPPR wedi gweld bod cynnydd o 5% yn unig yng nghanran y mamau sy'n gweithio yn arwain at £0.75 biliwn o fudd economaidd drwy dalu treth ond hefyd drwy arbed i'r wladwriaeth o ran budd-daliadau ac ati. Os edrychwn yn gyffredinol ar ofal plant fel rhan o ehangu a chynyddu cyrhaeddiad plant a thorri'r cyswllt rhwng cyrhaeddiad addysgiadol a thlodi, rydym wedi gweld adroddiad y comisiwn tlodi plant yn cydnabod bod hyn werth 4% o GDP unrhyw wlad sy'n gwneud hynny o fewn cenhedlaeth. Mae honno'n wobr fawr i'w hennill, os ydym yn gallu ehangu gofal plant.

There is no doubt that childcare and its expansion, particularly for women who remain main carers for children in our economy, will be a boost and bring significant benefits to the economy. There is no evidence—this should be underlined—that childcare is harmful at all compared to the situation at home. One can be as supportive and beneficial as the other to educational and social development et cetera. If we look at expanding childcare, in particular, we can see very significant improvement. The IPPR found that an increase of only 5% in the percentage of working mothers adds £0.75 billion in economic benefit, by way of more tax yields and also by saving on state benefits et cetera. If we look in general at childcare as part of expanding and increasing childhood attainment and breaking the link between educational attainment and poverty, a child poverty commission report acknowledges that this is worth 4% of the GDP of any country within a generation. That is a great prize to be won, if we can expand childcare.

O edrych ar enghraifft o arfer da, gweithiodd Quebec i gyflwyno gofal plant rhad—nid am ddim, ond yn rhatach—o 1997 ymlaen. Erbyn hyn yn Quebec, mae 8% yn fwy o famau mewn gwaith nag yng ngweddill Canada. Gan fod Quebec yn wahanol i weddill Canada, mae'n batrwm rydym yn gallu edrych arno a dysgu ohono. Rydym eisoes yn gwybod hefyd mai dim ond chwarter awdurdodau lleol Cymru sydd â gofal plant digonol i blant o dan ddwy oed ac nad oes digon o gwbl mewn unrhyw ran o Gymru ar gyfer gweithwyr sifft nos ac, wrth gwrs, pobl sydd â chytundebau dim oriau—'zero-hour contracts'. Mae'n anodd iawn cael gofal plant os ydych ar y contractau hynny.

Looking at an example of good practice, Quebec worked to introduce low-cost childcare—not free of charge, but cheaper—from 1997 onwards. In Quebec, 8% more women are now in work than in the rest of Canada. As Quebec is different to the rest of Canada, it is a pattern that we can consider and learn from. We already know that only a quarter of Welsh local authorities have sufficient childcare for children under the age of two and there is insufficient provision in all parts of Wales for night-shift workers and, of course, people on zero-hour contracts. It is very difficult to get childcare if you are on those contracts.

We see child care as part of a real economic revival that could happen in the Valleys, underpinned by the skills and education agenda—some good work is already going on there. It is about childcare that is linked to social support in its wider context and an infrastructure that really addresses the Valleys as they are today. We have an infrastructure that dealt with the Valleys 100 and 150 years ago. A proper approach to a city region, linking in with a Valleys metro and proper infrastructure across the Valleys as well as down the Valleys will help to rejuvinate them and make them, once again, as they have always been to me, a wonderful place to live and work.

Rydym yn gweld gofal plant fel rhan o adfywiad economaidd gwirioneddol a allai ddigwydd yn y Cymoedd, yn seiliedig ar yr agenda sgiliau ac addysg—mae rhywfaint o waith da eisoes yn digwydd yno. Mae'n ymwneud â gofal plant wedi'i gysylltu â chymorth cymdeithasol yn ei gyd-destun ehangach a seilwaith sy'n mynd i'r afael â'r Cymoedd fel y maent heddiw mewn gwirionedd. Mae gennym seilwaith a oedd yn addas i'r Cymoedd 100 a 150 mlynedd yn ôl. Bydd agwedd briodol tuag at ddinas-ranbarth, gan gysylltu â metro'r Cymoedd a seilwaith priodol ar draws y Cymoedd yn ogystal ag i lawr y Cymoedd yn helpu i'w hadnewyddu a'u gwneud yn lle gwych i fyw ac i weithio ynddo unwaith eto, fel y maent bob amser wedi bod i mi.

17:07

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

For the second time this afternoon, I will change the speech that I was going to deliver. I tore up my speech for the previous debate completely because it was quite clear from the opening speech that it was no longer a serious debate. However, this debate has been approached in a very constructive tone and I want to contribute in a similar spirit.

Am yr ail dro y prynhawn yma, byddaf yn newid yr araith roeddwn yn mynd i'w chyflwyno. Rhwygais fy araith ar gyfer y ddadl flaenorol yn llwyr am ei bod yn eithaf clir o'r araith agoriadol nad oedd bellach yn ddadl ddifrifol. Fodd bynnag, mae'r agwedd at y ddadl hon yn adeiladol iawn ac rwyf am gyfrannu ati yn yr un ysbryd.

I think that it is fair to say that the challenges facing the Valleys have scarcely been assisted by the austerity policies of the UK Government and the £1.7 billion of cuts being imposed on the Welsh Government and, specifically, the cuts to welfare benefits. I am going to talk about some of the positive things that have been done over time in Government, including by the One Wales Government—

Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud mai prin y cafodd yr heriau sy'n wynebu'r Cymoedd eu cynorthwyo gan bolisïau caledi Llywodraeth y DU a'r £1.7 biliwn o doriadau a orfodir ar Lywodraeth Cymru ac yn benodol, y toriadau i fudd-daliadau lles. Rwy'n mynd i siarad am rai o'r pethau cadarnhaol a wnaethpwyd dros gyfnod o amser yn y Llywodraeth, yn cynnwys Llywodraeth Cymru'n Un—

17:08

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

17:08

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a moment.

Mewn munud.

I am going to talk about some of the positive things that we have been able to implement, including within the regeneration portfolio, which I was pleased to hold between 2007 and 2009.

Rwy'n mynd i siarad am rai o'r pethau cadarnhaol rydym wedi gallu eu cyflawni, gan gynnwys o fewn y portffolio adfywio yr oeddwn yn falch o fod yn gyfrifol amdano rhwng 2007 a 2009.

17:08

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to Leighton Andrews for giving way. You always make some very interesting points, but you have mentioned repeatedly, in the last debate and in this one, the cuts being imposed on this place. You must accept that your party—the UK Labour Party—takes a fair share of the blame for building up the level of debt that has made these cuts, sadly, inevitable.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Leighton Andrews am ildio. Rydych bob amser yn gwneud rhai pwyntiau diddorol iawn ond rydych wedi crybwyll dro ar ôl tro yn y ddadl ddiwethaf ac yn yr un yma y toriadau a orfodir ar y lle hwn. Mae'n rhaid i chi dderbyn y dylai eich plaid chi—Plaid Lafur y DU—gymryd cyfran deg o'r bai am godi lefel y ddyled sydd wedi gwneud y toriadau hyn yn anochel, yn anffodus.

17:08

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I do not, in fact, because we faced a global recession in 2008. During the period of the Labour Government from 1997 to 2010, GDP per head was growing faster in the UK than in France, Germany or Italy and we had the second largest growth in productivity in terms of GDP per head, after the United States. So, I think that we saw the successful management of the economy until we had a global economic crisis, in which we had to intervene to address it.

Na, nid wyf yn derbyn hynny mewn gwirionedd oherwydd roeddem yn wynebu dirwasgiad byd-eang yn 2008. Dros gyfnod Llywodraeth Lafur 1997-2010, roedd CMC y pen yn tyfu'n gyflymach yn y DU nag yn Ffrainc, yr Almaen neu'r Eidal a gennym ni oedd y twf mwyaf ond un mewn cynhyrchiant o ran CMC y pen ar ôl yr Unol Daleithiau. Felly credaf ein bod wedi gweld rheolaeth lwyddiannus ar yr economi nes i ni wynebu'r argyfwng economaidd byd-eang, pan fu'n rhaid i ni ymyrryd er mwyn ymdrin ag ef.

Going back to the Valleys, since I have been diverted for a moment, I think that the programmes that we put in place that recognise the need for a concentrated focus on place, such as the Heads of the Valleys programme—which Lindsay Whittle rightly referred to at the beginning—were important programmes. The importance of a co-ordinated approach to place-based action has been recognised recently by Professor Dave Adamson and Dr Mark Lang in their report on Tredegar, specifically. They used that report on Tredegar to look at how to develop a new settlement for the Valleys through implementing policies of 'deep place', as they call it. They draw on the work of economists like Professor Karel Williams on the foundational economy: that is, the part of the economy that supports about 40% of jobs, social care, utilities, telecommunications and food, for example. That work has come out of the Centre for Regeneration Excellence Wales, and is one of the things I was pleased to establish when I held the portfolio of Deputy Minister for Regeneration. It has given us some pointers for the future.

Gan droi'n ôl at y Cymoedd, ar ôl cael fy nargyfeirio am funud, rwy'n meddwl bod y rhaglenni rydym yn eu rhoi ar waith sy'n cydnabod yr angen am ffocws dwys ar le, megis rhaglen Blaenau'r Cymoedd—y cyfeiriodd Lindsay Whittle yn briodol ati ar y dechrau—yn rhaglenni pwysig. Mae pwysigrwydd ymagwedd gydgysylltiedig i weithredu sy'n seiliedig ar le wedi cael ei gydnabod yn ddiweddar gan yr Athro Dave Adamson a Dr Mark Lang yn eu hadroddiad ar Dredegar, yn benodol. Defnyddiasant yr adroddiad ar Dredegar i edrych ar sut i ddatblygu setliad newydd ar gyfer y Cymoedd drwy weithredu polisïau 'lle dwfn', fel y maent yn eu galw. Maent yn pwyso ar waith economegwyr fel yr Athro Karel Williams ar yr economi sylfaenol: hynny yw, y rhan o'r economi sy'n cynnal tua 40% o swyddi, gofal cymdeithasol, cyfleustodau, telathrebu a bwyd, er enghraifft. Mae'r gwaith hwnnw wedi deillio o Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru ac mae'n un o'r pethau roeddwn yn falch o'i sefydlu pan oeddwn yn gyfrifol am bortffolio'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio. Mae wedi cynnig rhai awgrymiadau ar gyfer y dyfodol.

One of the clear lessons, though, is that we have to have co-ordination across local authority boundaries; we found that in the Heads of the Valleys programme in the past. I think that the leadership that can be supplied by the Welsh Government in that is critical. For example, we were able to establish the rebranding and marketing of the Valleys in a creative way through 'The Valleys: Heart and Soul of Wales' campaign, which Lindsay will remember because he was involved in discussions with me at the time. However, it is not just about tourism. It is also about the perception of the Valleys more broadly, and I think that that was an important campaign. As the Assembly Member who represents several of the places in which the comedy drama 'Stella' is filmed, you would expect me to care about tourism, but I have to say that in 11 years of representing the Rhondda, I have never yet been called 'presh'.

Un o'r gwersi clir, fodd bynnag, yw bod yn rhaid i ni sicrhau cydgysylltiad ar draws ffiniau awdurdodau lleol; gwelsom hynny yn rhaglen Blaenau'r Cymoedd yn y gorffennol. Rwy'n meddwl bod yr arweinyddiaeth y gall Llywodraeth Cymru ei chynnig yn hanfodol. Er enghraifft, gallasom ail-frandio a marchnata'r Cymoedd mewn modd creadigol drwy ymgyrch 'Y Cymoedd: Calon ac Enaid Cymru' y bydd Lindsay yn ei chofio am ei fod yn rhan o'r trafodaethau gyda mi ar y pryd. Fodd bynnag, nid yw'n ymwneud â thwristiaeth yn unig. Mae'n ymwneud hefyd â'r canfyddiad ehangach o'r Cymoedd ac rwy'n meddwl bod honno'n ymgyrch bwysig. Fel yr Aelod Cynulliad sy'n cynrychioli nifer o'r mannau lle caiff y ddrama gomedi 'Stella' ei ffilmio, byddech yn disgwyl i mi boeni am dwristiaeth ond rhaid i mi ddweud, yn yr 11 mlynedd y bûm yn cynrychioli'r Rhondda, nid oes neb wedi fy ngalw'n 'presh' eto.

The second example I want to give of leadership is the Gwent Heritage Office. That is now located in the general office in Ebbw Vale, in the constituency of my colleague the Member for Blaenau Gwent. However, it is there because the Welsh Government found out that the local authorities in Gwent were planning to place the Gwent Heritage Office in Cardiff. It seemed to us not a wise decision that it should move out of the historic county of Gwent; therefore, with some incentives at the time, we were able to develop what is now a fantastic facility, I think people recognise, in the general office in Ebbw Vale. It includes many historic records, such as those of Aneurin Bevan, the Tredegar working men's medical society and, indeed, the records of Jasper Tudor. There is quite a wide range represented there.

Yr ail enghraifft o arweinyddiaeth rwyf am ei rhoi yw Swyddfa Treftadaeth Gwent. Mae hi wedi'i lleoli bellach yn y swyddfa gyffredinol yng Nglyn Ebwy, yn etholaeth fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Flaenau Gwent. Fodd bynnag, mae hi yno oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi darganfod bod yr awdurdodau lleol yng Ngwent yn bwriadu lleoli Swyddfa Treftadaeth Gwent yng Nghaerdydd. Roedd yn ymddangos i ni nad oedd y penderfyniad i'w symud allan o sir hanesyddol Gwent yn un doeth; felly, gyda rhai cymhellion ar y pryd, gallasom ddatblygu'r hyn sydd bellach yn gyfleuster gwych, fel y mae pobl yn cydnabod rwy'n credu, yn y swyddfa gyffredinol yng Nglyn Ebwy. Mae'n cynnwys llawer o gofnodion hanesyddol megis rhai Aneurin Bevan, cymdeithas feddygol gweithwyr Tredegar ac yn wir, cofnodion Jasper Tudor. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o bethau.

However, the reality is that deep public spending cuts now mean that we need to find new ways of supporting community facilities. I want to congratulate the group in Maerdy in my constituency co-ordinated by Councillor Kieron Montague and Rhondda Fach Communities First, which has drawn up a plan for a Maerdy community learning centre, including a library facility.The reality is that we will see more social enterprises like that needed, such as the social enterprise being constructed in Pontypridd to try to support continuation of the Muni.

Fodd bynnag, y realiti yw bod toriadau gwariant cyhoeddus dwfn bellach yn golygu bod angen i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi cyfleusterau cymunedol. Rwyf am longyfarch y grŵp ym Maerdy yn fy etholaeth a gydgysylltir gan y Cynghorydd Kieron Montague, a Cymunedau yn Gyntaf Rhondda Fach sydd wedi llunio cynllun ar gyfer canolfan ddysgu gymunedol Maerdy, gan gynnwys cyfleuster llyfrgell. Y gwir amdani yw y byddwn yn gweld angen am fwy o fentrau cymdeithasol fel hyn, megis y fenter gymdeithasol sy'n cael ei datblygu ym Mhontypridd i geisio cefnogi parhad y Miwni.

I also want to mention in the context of community engagement the extraordinary and powerful 'Give and Gain Day' held in Penygraig on Friday, where there were 200 volunteers, including 80 from GE Aviation in Nantgarw, painting, planting and repairing. That was co-ordinated by RCT Homes, Valleys Kids, Mid Rhondda Communities First and Business in the Community. Of course, RCT Homes exists because of a vote by the tenants, and it has created a regeneration agency in our Valleys.

Rwyf hefyd am sôn, yng nghyd-destun ymgysylltu â'r gymuned, y 'Diwrnod Rhoi a Derbyn' rhyfeddol a phwerus a gynhaliwyd ym Mhen-y-graig ddydd Gwener, lle'r oedd 200 o wirfoddolwyr, gan gynnwys 80 o GE Aviation yn Nantgarw, yn paentio, plannu ac atgyweirio. Cafodd ei gydgysylltu gan Cartrefi RhCT, Plant y Cymoedd, Cymunedau yn Gyntaf Rhondda Ganol a Busnes yn y Gymuned. Wrth gwrs, mae Cartrefi RhCT yn bodoli oherwydd pleidlais y tenantiaid, ac mae wedi creu asiantaeth adfywio yn ein Cymoedd.

17:13

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Today's debate has provided this Assembly with an opportunity to consider the social, economic and political characteristics of one of our nation's regions. For too long, an air of hopelessness has surrounded discussions on the future of our Valleys communities. Since the decline of heavy industry and the social and political turmoil that accompanied that decline, those communities have sought a new, post-industrial purpose. It is in that spirit, looking forward, that the Valleys will continue their reinvention, their renewal.

Mae'r ddadl heddiw wedi rhoi cyfle i'r Cynulliad ystyried nodweddion cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol un o ranbarthau ein cenedl. Am gyfnod rhy hir, mae teimlad o anobaith wedi perthyn i drafodaethau ar ddyfodol ein cymunedau yn y Cymoedd. Ers dirywiad diwydiant trwm a'r cythrwfl cymdeithasol a gwleidyddol a ddaeth yn sgîl y dirywiad, mae'r cymunedau hynny wedi chwilio am bwrpas newydd, ôl-ddiwydiannol. Wrth edrych i'r dyfodol yn yr ysbryd hwnnw, bydd y Cymoedd yn parhau i ddarganfod eu hunain o'r newydd, yn parhau i adnewyddu.

I wanted to take this opportunity today to talk about an issue that is relevant and important to all parts of our country—north and south, east and west, urban and rural. It is an issue that politicians rarely address in a substantive way since the globalisation, digitalisation and prevalence of free market economies. That issue is community.

Roeddwn i eisiau manteisio ar y cyfle hwn heddiw i siarad am fater sy'n berthnasol ac yn bwysig i bob rhan o'n gwlad—y gogledd a'r de, y dwyrain a'r gorllewin, trefol a gwledig. Mae'n fater nad yw gwleidyddion yn aml yn ei drafod yn iawn ers globaleiddio, digideiddio a bodolaeth cymaint o economïau marchnad rydd. Y mater hwnnw yw: cymuned.

What defines a community today is not entirely clear. What defines and impacts community spirit is also more elusive than perhaps it was in times when the vast majority of the population in a town or village shared the same employer, before commuting long distances became a daily occurrence. However, when significant events threaten people, like the floods like year, or when the global free market collapses and leads people to unemployment and an increased need for support, or when state policies are adopted that single out and hurt the most vulnerable people in our society, it is community resilience and neighbourly solidarity that restores hope and provides the basis for support.

Nid yw'r hyn sy'n diffinio cymuned heddiw yn gwbl glir. Mae'r hyn sy'n diffinio ac yn effeithio ar ysbryd cymunedol hefyd yn fwy anodd ei ddiffinio nag yr arferai fod, efallai, mewn cyfnodau pan oedd y mwyafrif helaeth o boblogaeth tref neu bentref yn rhannu'r un cyflogwr, cyn i gymudo dros bellter maith ddod yn ddigwyddiad pob dydd. Fodd bynnag, pan fydd digwyddiadau arwyddocaol yn bygwth pobl, fel llifogydd y llynedd, neu pan fydd y farchnad rydd fyd-eang yn methu ac yn arwain pobl at ddiweithdra a mwy o angen am gymorth, neu pan fydd gwladwriaeth yn mabwysiadu polisïau sy'n pigo ar, ac yn brifo'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, cadernid cymunedol ac undod cymdogol sy'n adfer gobaith ac yn darparu sylfaen i gymorth.

The issue of maintaining and strengthening strong and sustainable communities is not a matter for nostalgic indulgence; it is about putting the building blocks in place now, at a local level, that can aid in building a just and prosperous nation.

Nid mater o ymfoddhad hiraethus yw cynnal a chryfhau cymunedau cryf a chynaliadwy; mae'n ymwneud â gosod y cerrig sylfaen yn eu lle yn awr ar lefel leol i helpu i greu cenedl gyfiawn a ffyniannus.

I would like to briefly explore three elements that are central to community resilience in this respect. First is the economic element, second is the social, and, finally, the cultural.

Hoffwn archwilio tair elfen sy'n ganolog i gadernid cymunedol yn y cyswllt hwn. Y gyntaf yw'r elfen economaidd, yr ail yw'r elfen gymdeithasol, ac yn olaf, yr elfen ddiwylliannol.

For too long, headline macro-economic indicators have detracted from what is actually a reality in our communities across the country. By starting with the community and evaluating its full potential, we can create highly skilled and highly paid opportunities working alongside small and medium sized enterprises. For those jobs that are not more universally available, a national integrated infrastructure must link communities and population centres so that further opportunities can be made available.

Am gyfnod rhy hir, mae'r prif ddangosyddion macroeconomaidd wedi tynnu sylw oddi ar yr hyn sydd mewn gwirionedd yn realiti yn ein cymunedau ar draws y wlad. Drwy ddechrau gyda'r gymuned a gwerthuso ei photensial llawn, gallwn greu cyfleoedd sgiliau uwch sy'n talu'n dda gan weithio ochr yn ochr â mentrau bach a chanolig eu maint. Ar gyfer y swyddi hynny nad ydynt ar gael yn fwy cyffredinol, rhaid i seilwaith integredig cenedlaethol gysylltu cymunedau a chanolfannau poblogaeth fel y gellir sicrhau bod cyfleoedd pellach ar gael.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:16.*

*The Presiding Officer took the Chair at 17:16.*

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Socially, a centralised and distant approach to social protection has created a disconnect and missed opportunities for communities to have a say and a role in the composition and delivery of social protection. We need to focus more on welfare and less on state, when it comes to debate of the welfare state. It is worth remembering that when social protection was decentralised prior to 1929, many of our Valleys communities stood in defiance of a regressive Westminster coalition in defence of the most vulnerable people.

Yn gymdeithasol, mae ymagwedd ganolog, o bell, tuag at ddiogelwch cymdeithasol wedi creu datgysylltiad a cholli cyfleoedd i gymunedau gael llais a rôl yng nghyfansoddiad diogelwch cymdeithasol a'r broses o'i ddarparu. Mae angen canolbwyntio mwy ar les a llai ar wladwriaeth wrth drafod y wladwriaeth les. Mae'n werth cofio, pan ddatganolwyd diogelwch cymdeithasol cyn 1929, fod llawer o'n cymunedau yn y Cymoedd wedi gwrthsefyll clymblaid anflaengar yn San Steffan er mwyn diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed.

Culturally, many of us will have visited miners' institutes and libraries built by workers that fostered a cultural and educational dimension and enriched the lives of so many people. Sadly, in the context of narrow austerity, so many of our cultural assets are now being lost at great cost to many of our local communities. However, our communities can play a leading role in a cultural and linguistic renaissance that could see the Welsh language regaining ground and the return of a cultural vibrancy to our communities that has not been seen for a generation. If we want that to happen, we will need political will.

Yn ddiwylliannol, bydd llawer ohonom wedi ymweld â sefydliadau a llyfrgelloedd glowyr a adeiladwyd gan weithwyr a hyrwyddai ddimensiwn diwylliannol ac addysgol ac a gyfoethogai fywydau cymaint o bobl. Yn anffodus, yng nghyd-destun caledi cul, mae llawer o'n hasedau diwylliannol yn awr yn cael eu colli ar gost fawr i lawer o'n cymunedau lleol. Fodd bynnag, gall ein cymunedau chwarae rhan flaenllaw mewn dadeni diwylliannol ac ieithyddol a allai arwain at adennill tir i'r Gymraeg a dychweliad bywiogrwydd diwylliannol i'n cymunedau nas gwelwyd ers cenhedlaeth. Os ydym am i hynny ddigwydd, bydd angen ewyllys gwleidyddol.

I hope that this debate today will mark the beginning of a new conversation on how we can reframe our thinking on the role of communities. Do we have the political will to rebuild and renew our communities for the common good and for the long term?

Rwy'n gobeithio bod y ddadl hon heddiw yn ddechrau ar drafodaeth newydd ynglŷn â sut y gallwn ail-fframio ein ffordd o feddwl ynghylch rôl cymunedau. A oes gennym ewyllys gwleidyddol i ailadeiladu ac adnewyddu ein cymunedau er lles pawb ac ar gyfer y tymor hir?

17:18

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

While we welcome the opportunity provided for west Wales and the Valleys by a third round of EU structural funding, we regret that this results from Welsh Government failure to close the prosperity gap. West Wales and the Valleys qualifies because the qualifying rate is GDP per capita below 75% of the EU average; the latest official figures in March showed that Wales's GDP per capita had fallen again to 74% of the EU average, which is an 11% drop since 2000. In west Wales and the Valleys, including four north Wales counties, it had fallen by 8% to just 64% of the EU average during the first three terms of Labour-led Welsh Government from 1999. It is, therefore, concerning that the Plaid Cymru motion refers to only the south Wales Valleys, rather than to the wider of area of Wales requiring sustained investment and effective intervention.

Er ein bod yn croesawu'r cyfle a roddir i orllewin Cymru a'r Cymoedd gan drydydd cylch o gyllid strwythurol yr UE, mae'n anffodus fod hyn yn deillio o fethiant Llywodraeth Cymru i gau'r bwlch ffyniant. Mae gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys am mai'r gyfradd gymhwyso yw CMC y pen islaw 75% o gyfartaledd yr UE; dangosai'r ffigurau swyddogol diweddaraf ym mis Mawrth fod CMC y pen Cymru wedi disgyn eto i 74% o gyfartaledd yr UE, sef gostyngiad o 11% ers 2000. Yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys pedair sir yng ngogledd Cymru, roedd wedi gostwng 8% i 64% yn unig o gyfartaledd yr UE dros dri thymor cyntaf Llywodraeth Lafur Cymru ers 1999. Mae'n destun pryder felly mai at Gymoedd de Cymru yn unig y mae cynnig Plaid Cymru yn cyfeirio, yn hytrach na'r ardal ehangach o Gymru sydd angen buddsoddiad parhaus ac ymyrraeth effeithiol.

The latest tranche of European structural funding from 2014 to 2020 comprises £1.7 billion for west Wales and the Valleys and £350 million for east Wales, where Flintshire and Wrexham, although outside west Wales and the Valleys, have seen GDP fall to 85% of the EU average, down 18% since 2000.

Mae'r gyfran ddiweddaraf o arian strwythurol Ewropeaidd rhwng 2014 a 2020 yn cynnwys £1.7 biliwn ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd a £350 miliwn i ddwyrain Cymru, lle mae Sir y Fflint a Wrecsam, er bod CMC y tu allan i orllewin Cymru a'r Cymoedd wedi disgyn i 85% o gyfartaledd yr UE, 18% yn is nag yn 2000.

When Wales first qualified for this type of funding in 2000 and received £1.6 billion, First Secretary Rhodri Morgan called it a once-in-a-generation opportunity to transform our economy and make a major difference to the lives of people in west Wales and the Valleys. However, we were given another opportunity when, for a second time, we were one of the poorer parts of the EU and in 2007 were awarded £1.8 billion—in fact, just as Plaid Cymru took ministerial responsibility for the Welsh economy. With the Welsh Government responsible for economic development, Wales has now qualified for the third time in a row because it remains one of the poorer parts of the EU.

Pan ddaeth Cymru'n gymwys gyntaf ar gyfer y math hwn o gyllid yn 2000 a chael £1.6 biliwn, cafodd ei alw gan y Prif Ysgrifennydd, Rhodri Morgan, yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i drawsnewid ein heconomi a gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl yn y gorllewin a'r Cymoedd. Fodd bynnag, cawsom gyfle arall pan oeddem yn un o rannau tlotaf yr UE am yr ail dro a dyfarnwyd £1.8 biliwn i ni yn 2007—yn wir, wrth i Blaid Cymru gymryd cyfrifoldeb gweinidogol dros economi Cymru. Gyda Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddatblygu economaidd, mae Cymru bellach wedi cymhwyso am y trydydd tro yn olynol am ei bod yn parhau i fod yn un o rannau tlotaf yr UE.

Although the number of working-age people not in employment in Wales has fallen by 60,000 since the UK general election, the latest figure of 567,000 bucked the UK trend and rose by 15,000 over the first quarter of 2014. Although unemployment for January to March in Wales fell by 0.3 percentage points on the previous quarter, there were also 18,000 fewer people in employment in Wales. In fact, Wales and the west midlands of England are the only areas in the UK where the number of people in work or looking for work has fallen, compared with the same period last year.

Er bod nifer y bobl o oedran gweithio nad ydynt mewn cyflogaeth yng Nghymru wedi gostwng 60,000 ers etholiad cyffredinol y DU, mae'r ffigur diweddaraf o 567,000 yn mynd yn groes i'r duedd yn y DU ac wedi codi 15,000 dros chwarter cyntaf 2014. Er bod diweithdra Ionawr-Mawrth wedi disgyn 0.3 pwynt canran ers y chwarter blaenorol, roedd 18,000 yn llai o bobl mewn gwaith yng Nghymru. Yn wir, Cymru a gorllewin canolbarth Lloegr yw'r unig ardaloedd yn y DU lle mae nifer y bobl mewn gwaith neu'n chwilio am waith wedi gostwng o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

As the Federation of Small Businesses said in response to the Welsh Government's consultation on the last round of EU structural funding,

Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cylch diwethaf o gyllid strwythurol yr UE,

'qualifying for the highest level of support available is not something to be proud of and the "lessons learnt" should note that there has been some concern within the private sector with the types of projects previous Objective 1 money has been spent on. The feeling among many is that instead of creating a strong and sustainable economy, money has been ploughed into short-term community projects, whereas private enterprises create wealth.'

'nad yw cymhwyso ar gyfer y lefel uchaf o gymorth sydd ar gael yn rhywbeth i fod yn falch ohono, ac y dylai gwersi i'w dysgu nodi y bu rhywfaint o bryder yn y sector preifat ynglŷn â'r mathau o brosiectau y gwariwyd arian Amcan 1 blaenorol arnynt. Yn hytrach na chreu economi gref a chynaliadwy, y teimlad ymysg llawer yw bod arian wedi cael ei fuddsoddi mewn prosiectau cymunedol tymor byr, tra gall mentrau preifat greu cyfoeth.'

As the director of the Confederation of British Industry Wales said last month, to set the right conditions to attract more private sector investment and reduce regulation, the Welsh Government, first and foremost, needs a whole-Government commitment to economic growth, measuring the performance of all departments by how they relieve the burden on businesses and support growth.

Fel y dywedodd cyfarwyddwr Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru y mis diwethaf, er mwyn gosod yr amodau cywir i ddenu buddsoddiad o'r sector preifat a lleihau rheoleiddio, yn gyntaf ac yn bennaf, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ymrwymiad Llywodraeth gyfan i dwf economaidd, gan fesur perfformiad pob adran yn ôl y modd y maent yn lleddfu'r baich ar fusnesau ac yn cynorthwyo twf.

Construction4Growth Wales has stated that the cost of Wales-specific regulation to the sector means that companies, particularly small and medium-sized enterprises, are increasingly unable to compete. In addition, the Council of Mortgage Lenders has warned that the Welsh Government's Housing (Wales) Bill could deter investment in the housing market.

Mae Construction4Growth Cymru wedi datgan bod y gost o osod rheoliadau penodol i Gymru ar gyfer y sector yn golygu bod cwmnïau, yn enwedig busnesau bach a chanolig eu maint, yn llai a llai abl i gystadlu. Yn ogystal, mae Cyngor y Benthycwyr Morgeisi wedi rhybuddio y gallai Bil Tai (Cymru) Llywodraeth Cymru rwystro buddsoddiad yn y farchnad dai.

As new Office for National Statistics figures show, UK wealth and inequality today is broadly the same as before the recession. In fact, it is as it was in 2006. In Wales, under Labour, the poverty gap has widened and social mobility has stalled since 1999, with child poverty and youth unemployment rising since 2004, because micromanagement from the centre of Government as a way of improving society is just not working. The Government cannot combat loneliness and isolation, and promote independence and wellbeing on its own. The Government can drive through improvement by liberating the third, voluntary and independent sectors as real partners in strategy and delivery. As the Wales Council for Voluntary Action has said:

Fel y mae ffigurau newydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos, mae cyfoeth y DU ac anghydraddoldeb heddiw yn lled debyg i'r hyn ydoedd cyn y dirwasgiad. Yn wir, mae'n union fel yr oedd yn 2006. Yng Nghymru, o dan Lafur, mae'r bwlch tlodi wedi lledu a symudedd cymdeithasol wedi arafu ers 1999 ac mae tlodi plant a diweithdra ymhlith pobl ifanc ar gynnydd ers 2004, yn syml am nad yw microreoli o ganol y Llywodraeth fel ffordd o wella cymdeithas yn gweithio. Ni all y Llywodraeth fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd, a hyrwyddo annibyniaeth a lles ar eu pen eu hunain. Gall y Llywodraeth ysgogi gwelliant trwy ryddhau'r trydydd sector, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol fel partneriaid go iawn yn y strategaeth a'r broses o gyflawni. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi dweud bod:

'To move beyond rhetoric to action does mean a greater sharing of responsibilities between government, communities and citizens'.

'Symud y tu hwnt i rethreg i weithredu yn golygu rhannu mwy o gyfrifoldebau rhwng y llywodraeth, cymunedau a dinasyddion'.

By getting out of the way and letting citizens and communities run their own affairs, we can restore civic pride, democratic accountability, and economic growth and build a stronger, fairer Wales in a stronger, fairer Britain.

Drwy symud o'r ffordd a gadael i ddinasyddion a chymunedau ofalu am eu materion eu hunain, gallwn adfer balchder dinesig, atebolrwydd democrataidd a thwf economaidd, ac adeiladu Cymru gryfach a thecach mewn Prydain gryfach a thecach.

17:23

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Many of the speakers in this debate today have outed themselves as Valleys AMs, or something along those lines, so I will, too. I was born in Aberdare, grew up in Merthyr, and I live in the Neath valley now. Growing up in Merthyr, I think you share in a collective sense of stigma. When I moved to Aberystwyth to go to university, people were scared of me without knowing why, by virtue of the thought that we all came from the Gurnos estate. So, I sort of let people believe that so that they would continue to be scared of me.

Mae llawer o'r siaradwyr yn y ddadl hon heddiw wedi disgrifio'u hunain fel Aelodau'r Cynulliad o'r Cymoedd, neu rywbeth tebyg, felly gwnaf innau hynny hefyd. Cefais fy ngeni yn Aberdâr, fy magu ym Merthyr ac rwy'n byw yng nghwm Nedd bellach. Wrth dyfu i fyny ym Merthyr, rwy'n meddwl bod rhywun yn rhannu teimlad cyfunol o stigma. Pan symudais i Aberystwyth i fynd i'r brifysgol, roedd pobl yn fy ofni heb wybod pam, yn rhinwedd y ffaith eu bod yn meddwl ein bod i gyd yn dod o stad y Gurnos. Felly rwy'n rhyw adael i bobl gredu hynny er mwyn iddynt barhau i fy ofni.

To be serious, however, what we need to try to do is instil a sense of confidence in people that they do not have these hang-ups. I do it by looking back at our history. I have said it here before, and I will say it again: if we look back at what Merthyr did in terms of the uprising in 1831, when the flag of socialism was raised for the first time, it instilled in people a sense of empowerment to be able to stand up to the likes of Crawshay and Guest and to say, 'No. We believe that we should have rights as workers and we need to be respected'. I think that is what we need to try to take away from this debate today. It is not about trying to say that it is all doom and gloom, but to show that there is that fervour, there was that fervour, and that they used that. That is conjunction also with the heritage and educational communities that existed in the town at the time.

I fod yn ddifrifol er hynny, yr hyn sydd angen i ni geisio ei wneud yw meithrin ymdeimlad o hyder mewn pobl er mwyn iddynt osgoi rhwystredigaethau o'r fath. Rwy'n gwneud hynny drwy edrych yn ôl ar ein hanes. Rwyf wedi dweud yma o'r blaen ac rwy'n ei ddweud eto: os edrychwn yn ôl ar yr hyn a wnaeth Merthyr o ran y terfysg yn 1831, pan godwyd baner sosialaeth am y tro cyntaf, cymhellodd ymdeimlad o rym mewn pobl i'w galluogi i herio pobl fel Crawshay a Guest a dweud, 'Na. Credwn y dylem gael hawliau fel gweithwyr ac mae angen i ni gael ein parchu'. Rwy'n meddwl mai dyna beth sydd angen i'r ddadl hon ei roi i ni heddiw. Nid yw'n ymwneud â cheisio dweud bod y cyfan yn ddu i gyd, ond yn hytrach bod yna frwdfrydedd a bod y bobl wedi defnyddio'r brwdfrydedd hwnnw, ochr yn ochr â'r dreftadaeth a'r cymunedau addysgol a oedd yn bodoli yn y dref ar y pryd.

Notwithstanding that, Merthyr was a town where the Chartists were very successful as well, after the uprising. Where I grew up, in the village of Heolgerrig, many meetings of the Chartists took place. It was a hive of activity by people who were totally disenfranchised. Now we have young people in Valleys communities who question why they should vote. That is the tragedy of the situation. Somehow, we need to turn it around so that they see that it is worth their voting. It is really hard to convince them, I have to say. We will all know this, because we are standing on the doorsteps campaigning at the moment. We are telling them that the tax office is going to be cutting jobs in towns such as Merthyr, that the Land Registry is going to be privatised, that probation services are going to be privatised, and they are suffering from the bedroom tax, as we have already noted. So, how do we make people in these communities feel that they have a role to play and that they have a valid place in our society? That is why we have to take our political structures out to people further to encourage them to take action for themselves. That is why I and others here have said time and again why joining a trade union is so important, as is getting involved in any type of political activity that can inspire them to change the way they live.

Er gwaethaf hynny, roedd Merthyr yn dref lle'r oedd y Siartwyr yn llwyddiannus iawn hefyd, ar ôl y terfysg. Lle cefais fy magu, ym mhentref Heolgerrig, cynhaliwyd llawer o gyfarfodydd y Siartwyr. Roedd yn fwrlwm o weithgarwch gan bobl a oedd wedi'u difreinio llwyr. Yn awr mae gennym bobl ifanc mewn cymunedau yn y Cymoedd sy'n cwestiynu pam y dylent bleidleisio. Dyna drasiedi'r sefyllfa. Rywsut, mae angen i ni wrthdroi hyn er mwyn iddynt weld ei bod hi'n werth iddynt bleidleisio. Mae'n anodd iawn eu hargyhoeddi, rhaid i mi ddweud. Rydym i gyd yn gwybod hyn am ein bod yn sefyll ar gerrig drysau'n ymgyrchu ar hyn o bryd. Rydym yn dweud wrthynt fod y swyddfa dreth yn mynd i gael gwared ar swyddi mewn trefi fel Merthyr, bod y Gofrestrfa Tir yn mynd i gael ei phreifateiddio, bod y gwasanaethau prawf yn mynd i gael eu preifateiddio ac maent yn dioddef yn sgîl y dreth ystafell wely, fel y nodwyd gennym eisoes. Felly sut y mae gwneud i bobl yn y cymunedau hyn deimlo bod ganddynt rôl i'w chwarae a bod lle dilys iddynt yn ein cymdeithas? Dyna pam y mae'n rhaid i ni fynd â'n strwythurau gwleidyddol allan at y bobl i'w hannog ymhellach i weithredu drostynt eu hunain. Dyna pam rwyf fi ac eraill yma wedi dweud dro ar ôl tro pam y mae ymuno ag undeb llafur mor bwysig, fel y mae cymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgaredd gwleidyddol a all eu hysbrydoli i newid y ffordd y maent yn byw.

To link it to the heritage aspect, I think that is important, because it is not just about how people live in an economic situation; it is also about how people see the context of their community. I was speaking to my colleague, Lindsay, before I stood up to speak. I know that the Triangle business park in Merthyr has gone, that the ironworks have mostly gone, that Bethesda chapel was demolished, that the Joseph Parry cottages have been saved, but not all of them, and that the Hoover building is in a state of disrepair. We need to nurture these areas so that our young people can understand their history and take pride in it. That is why I have asked John Griffiths to consider creating more apprenticeships in the cultural sector, because, if a 16-year-old in a town like Merthyr is not feeling inspired, perhaps if they could do a project on industrialism and have some sort of support through an apprenticeship to help them look at what they could build the town into, that might make them feel that they have more ownership of their community.

Rwy'n meddwl bod cysylltu hynny â'r agwedd dreftadaeth yn bwysig oherwydd nid yw'n ymwneud yn unig â sut y mae pobl yn byw mewn sefyllfa economaidd; mae hefyd yn ymwneud â sut y mae pobl yn gweld cyd-destun eu cymuned. Roeddwn yn siarad â fy nghydweithiwr, Lindsay, cyn i mi godi i siarad. Gwn fod parc busnes Triongl ym Merthyr wedi mynd, bod y gwaith haearn wedi mynd bron yn llwyr, bod capel Bethesda wedi'i ddymchwel, bod bythynnod Joseph Parry wedi'u cadw, ond nid pob un ohonynt, a bod adeilad Hoover mewn cyflwr gwael. Mae angen i ni feithrin y mannau hyn fel y gall ein pobl ifanc ddeall eu hanes ac ymfalchïo ynddo. Dyna pam y gofynnais i John Griffiths ystyried creu mwy o brentisiaethau yn y sector diwylliannol, oherwydd os nad yw rhai 16 mlwydd oed mewn tref fel Merthyr yn teimlo ysbrydoliaeth, efallai y gallent wneud prosiect ar ddiwydiannaeth a chael rhyw fath o gymorth drwy brentisiaeth i'w helpu i edrych ar yr hyn y gallent ei wneud i'r dref, a fyddai'n gwneud iddynt deimlo mwy o berchnogaeth o'u cymuned.

I agree with Eluned Parrott with regards to the Muni Arts Centre. People from the area have asked me to raise this in my capacity as my party's culture spokesperson. As a young teenager, I went to the Muni on the bus most weekends to see plays; perhaps I was tragic, I do not know —I had a different type of social life to other people, as I liked to go to dramas and productions. If that is taken away, more young people are not going to be able to grow up with art and culture as an integral part of their lives. It is not something that they are born into, because they do not have the money perhaps to go to the millennium centre down the bay; they have to have that cheaper alternative. So, I would urge the Government to look at that, and I would urge people to consider this debate in a non-stigmatised way, and in such a way that we can try to present the Valleys in a positive light.

Rwy'n cytuno ag Eluned Parrott ynglŷn â Chanolfan Gelf y Miwni. Mae pobl o'r ardal wedi gofyn i mi godi'r mater hwn yn rhinwedd fy swydd fel llefarydd fy mhlaid ar ddiwylliant. Fel merch ifanc yn fy arddegau, roeddwn i'n mynd i'r Miwni ar y bws ar y rhan fwyaf o benwythnosau i weld dramâu; efallai fy mod yn drist, nid wyf yn gwybod— roedd fy mywyd cymdeithasol yn wahanol i un pobl eraill gan fy mod yn hoffi mynd i weld dramâu a chynyrchiadau. Os daw hynny i ben, ni fydd pobl ifanc eraill yn gallu tyfu fyny gyda chelf a diwylliant yn rhan annatod o'u bywydau. Nid yw'n rhywbeth y maent yn cael eu geni iddo, efallai am nad oes ganddynt arian i fynd i ganolfan y mileniwm i i lawr yn y bae; rhaid iddynt gael y dewis arall rhatach hwnnw. Felly byddwn yn annog y Llywodraeth i edrych ar hynny a byddwn yn annog pobl i ystyried y ddadl hon heb fod stigma'n perthyn iddi ac yn y fath fodd fel y gallwn geisio cyflwyno'r Cymoedd mewn golau cadarnhaol.

17:28

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Deputy Minister for Tackling Poverty to reply on behalf of the Government—Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi i ymateb ar ran y Llywodraeth-Vaughan Gething.

17:28

## Vaughan Gething [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for Tackling Poverty*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Presiding Officer. I welcome today's debate on the challenges of deprivation in the south Wales Valleys, and confirm that the Government will support the motion. I would like to thank Members for the broadly constructive way in which they have engaged in the debate.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n croesawu'r ddadl heddiw ar heriau amddifadedd yng Nghymoedd y de ac yn cadarnhau y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau adeiladol ar y cyfan i'r ddadl.

We know that parts of the south Wales Valleys continue to experience higher levels of deprivation than the Welsh average. The recent recession, the global economic downturn, and welfare reform, continue to have a profound impact on our communities. Regenerating the south Wales Valleys requires sustained investment and collaboration with partners. This, of course, includes the opportunities provided by European funds.

Rydym yn gwybod bod rhannau o Gymoedd y de yn parhau i brofi lefelau uwch o amddifadedd na chyfartaledd Cymru. Mae'r dirwasgiad diweddar, y dirywiad economaidd byd-eang a diwygio lles yn parhau i gael effaith fawr ar ein cymunedau. Mae adfywio Cymoedd y de yn gofyn am fuddsoddiad parhaus a chydweithio â phartneriaid. Mae hyn, wrth gwrs, yn cynnwys y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan gronfeydd Ewropeaidd.

The Welsh Government used the current round of European structural funds to invest nearly £1.4 billion in helping people into work and training. The tackling poverty action plan commits us to using 20% of European social funds going forward to tackle poverty, and the Welsh Government has also proposed tackling poverty as a cross-cutting theme for all European structural and investment funds.

Defnyddiodd Llywodraeth Cymru y cylch presennol o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd i fuddsoddi bron i £1.4 biliwn ar gyfer helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant. Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi yn ein hymrwymo i ddefnyddio 20% o'r cronfeydd cymdeithasol Ewropeaidd yn y dyfodol ar drechu tlodi ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnig trechu tlodi fel thema drawsbynciol ar gyfer holl gronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd.

We recognise that housing can be a key driver for the redevelopment and regeneration of communities, a point mentioned in Leighton Andrews's contribution. Long-term investment in the Welsh housing quality standard is not just about improving the quality of properties. On a recent visit to Caerphilly, I saw not just the improvements in bricks and mortar but also the real way that they had managed to have more effective and wide-ranging tenant participation as a result of the work that they are undertaking.

Rydym yn cydnabod y gallai tai fod yn sbardun allweddol ar gyfer ailddatblygu ac adfywio cymunedau, pwynt a grybwyllwyd yng nghyfraniad Leighton Andrews. Nid ymwneud â gwella ansawdd eiddo'n unig y mae buddsoddi hirdymor yn safon ansawdd tai Cymru. Ar ymweliad diweddar â Chaerffili, gwelais y gwelliannau brics a morter ond hefyd, gwelais y ffordd roeddent wedi llwyddo go iawn i gynnwys tenantiaid yn fwy effeithiol ac yn eang yn sgîl y gwaith y maent yn ei wneud.

Housing associations and community mutuals are key players in their wider role as investors in the regeneration of the local communities that they serve. Last year, they spent just over £1 billion in Wales, half of which was spent directly on housing-led regeneration, and we are looking to encourage more of them to gain, in a proactive and consistent way, the jobs and training dividend that can, and should, be gained from housing regeneration. This was a point that I saw on my recent visit to RCT Homes. Other housing interventions that have been taken forward include the £100 million Vibrant and Viable Places programme. Of the 11 targeted regeneration investments, five of these are taking place in the Valleys.

Mae cymdeithasau tai a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol yn allweddol yn eu rôl ehangach fel buddsoddwyr yn adfywiad y cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu. Y llynedd, o'r ychydig dros £1 biliwn a wariasant yng Nghymru, gwariwyd ei hanner yn uniongyrchol ar adfywio a arweinir gan dai, ac rydym yn ceisio annog mwy ohonynt i fynd ati'n rhagweithiol ac yn gyson i elwa ar y difidend swyddi a hyfforddiant y gellir ac y dylid ei gael o adfywio tai. Roedd hwn yn bwynt a welais ar fy ymweliad diweddar â Cartrefi RhCT. Mae ymyriadau tai eraill sydd wedi'u datblygu yn cynnwys y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gwerth £100 miliwn. O'r 11 buddsoddiad adfywio a dargedwyd, mae pump o'r rhain yn digwydd yn y Cymoedd.

I recognise the points made about links to culture and heritage. When identifying opportunities for regeneration, we recognise—

Rwy'n cydnabod y pwyntiau a wnaed ynghylch cysylltiadau â diwylliant a threftadaeth. Wrth nodi cyfleoedd ar gyfer adfywio, rydym yn cydnabod—

17:30 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for taking the intervention. Just on that point, I completely agree with you that it is important that the housing stock is maintained, but we need to make sure that the work is entirely necessary. I have heard of one case recently where there was an attempt to replace a roof for the second time within two years when it was still under a 10-year guarantee. So, we need monitoring to make sure that all the money is going to what is absolutely necessary.

Diolch i chi am ildio, Ddirprwy Weinidog. Ar y pwynt hwnnw, rwy'n cytuno'n llwyr â chi ei bod yn bwysig cynnal y stoc tai ond mae angen i ni wneud yn siŵr fod y gwaith yn gwbl angenrheidiol. Clywais am un achos yn ddiweddar lle'r oedd ymgais i ailosod to am yr eildro o fewn dwy flynedd pan oedd yn dal o dan warant 10 mlynedd. Felly mae angen monitro i wneud yn siŵr fod yr holl arian yn mynd at yr hyn sy'n gwbl angenrheidiol.

17:31 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would not take that as a representative example of the investment programme that is going into Welsh housing. If there are particular examples, by all means take them up either with me or with the Minister for housing directly, and we will happily look into those particular issues.

Ni fyddwn yn cymryd hynny fel enghraifft gynrychioliadol o'r rhaglen fuddsoddi ar dai Cymru. Os oes enghreifftiau penodol, ar bob cyfrif, dowch â hwy i fy sylw i neu'r Gweinidog tai yn uniongyrchol a byddwn yn hapus i edrych ar y materion penodol hynny.

When identifying opportunities for regeneration, we recognise the potential to promote the social and cultural heritage of the south Wales Valleys. The recent reports from Professor Dai Smith and Baroness Kay Andrews are informing the approach that we are taking in Wales on the link between culture and heritage and tackling poverty. The Minister for Culture and Sport outlined yesterday that a delivery report, taking forward the culture and poverty report, will be published in the autumn, providing a framework to help organisations come together and deliver the vision that I hope we would all share. This builds on excellent examples that already exist of work that has already been taken forward within the Valleys. One example, already mentioned earlier today, is Valleys Kids, a pioneering charity that uses the arts to engage with young people.

Wrth nodi cyfleoedd ar gyfer adfywio, rydym yn cydnabod y potensial i hyrwyddo treftadaeth gymdeithasol a diwylliannol Cymoedd de Cymru. Mae'r adroddiadau diweddar gan yr Athro Dai Smith a'r Farwnes Kay Andrews yn llywio ein hagwedd yng Nghymru tuag at y cysylltiad rhwng diwylliant a threftadaeth a threchu tlodi. Ddoe, nododd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon y bydd adroddiad cyflawni, i symud yr adroddiad diwylliant a thlodi yn ei flaen, yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref, gan ddarparu fframwaith i helpu sefydliadau ddod at ei gilydd i gyflawni'r weledigaeth rwy'n gobeithio ein bod i gyd yn ei rhannu. Mae hyn yn adeiladu ar enghreifftiau rhagorol sy'n bodoli'n barod o waith sydd eisoes ar y gweill yn y Cymoedd. Un enghraifft y soniwyd amdani eisoes heddiw yw Plant y Cymoedd, elusen arloesol sy'n defnyddio'r celfyddydau i ymgysylltu â phobl ifanc.

I want to turn to Communities First, which has a significant role to play, with 28 out of the 52 Communities First clusters across Wales located in the south Wales Valleys. Communities First already provides tailored help to get people back into employment, by working with partners like Jobcentre Plus and Jobs Growth Wales. These targeted programmes have been added to recently by the Lift programme. This will provide work and training opportunities to people living in households where no-one currently works. Four of the eight Lift areas are in the south Wales Valleys.

Rwyf am droi at Cymunedau yn Gyntaf, sydd â rôl sylweddol i'w chwarae, gan fod 28 o'r 52 clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ar draws Cymru wedi'u lleoli yng Nghymoedd y de. Mae Cymunedau yn Gyntaf eisoes yn darparu cymorth wedi'i deilwra i gael pobl yn ôl i waith drwy weithio gyda phartneriaid fel Canolfan Byd Gwaith a Twf Swyddi Cymru. Yn ddiweddar, ychwanegwyd rhaglen Esgyn at y rhaglenni hyn sydd wedi'u targedu. Bydd yn darparu gwaith a chyfleoedd hyfforddi i bobl sy'n byw mewn cartrefi lle nad oes unrhyw un yn gweithio ar hyn o bryd. Mae pedwar o'r wyth ardal Esgyn yng Nghymoedd y de.

I note that the motion talks about skills and apprenticeships; I think that this Government has a record to be proud of. We know that, through the Young Recruits programme, we have successfully encouraged more employers to take on more apprentices and, importantly, we have record completion rates for apprentices in Wales, outstripping the example in England.

Nodaf fod y cynnig yn sôn am sgiliau a phrentisiaethau; rwy'n meddwl bod gan y Llywodraeth hon record i fod yn falch ohoni. Drwy'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc, gwyddom ein bod wedi annog mwy o gyflogwyr i gyflogi mwy o brentisiaid ac yn bwysig, mae gennym gyfraddau cwblhau gwell nag erioed ymhlith prentisiaid yng Nghymru, sy'n well na'r enghraifft yn Lloegr.

I note that Simon Thomas made comments on affordable childcare. I want to reiterate that the Welsh Government is committed to improving access to affordable childcare in all parts of Wales. Flying Start obviously has significant coverage in Wales; it provides an element of free childcare in every Welsh county. Our evaluation shows that Flying Start engagement has resulted in a heightened awareness of referral to, and take-up of, parenting programmes to support parents, whether at home or at work. However, we recognise that access to affordable childcare is a significant issue for many families, and we will continue to take action. I am currently considering options to improve childcare provision, with further work being done over the summer, and I look forward to making announcements in due course. It is important to remember the context in which we are operating. Help for families in the Valleys and across Wales has been reduced, and not by accident. The working families tax credit has been cut, maternity and paternity pay has been cut, and childcare support for working parents has been cut. It is within this challenging context that we are looking to improve childcare provision and support for families.

Nodaf fod Simon Thomas wedi tynnu sylw at ofal plant fforddiadwy. Rwyf am ailadrodd bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella mynediad at ofal plant fforddiadwy ym mhob rhan o Gymru. Yn amlwg, mae cyrhaeddiad sylweddol gan Dechrau'n Deg yng Nghymru; mae'n cynnig elfen o ofal plant rhad ac am ddim ym mhob sir yng Nghymru. Mae ein gwerthusiad yn dangos bod ymgysylltiad Dechrau'n Deg wedi arwain at ymwybyddiaeth uwch o atgyfeiriadau at raglenni rhianta i gefnogi rhieni, a defnydd ohonynt, boed yn y cartref neu yn y gwaith. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mynediad at ofal plant fforddiadwy yn fater o bwys i lawer o deuluoedd a byddwn yn parhau i weithredu. Ar hyn o bryd, rwy'n ystyried opsiynau ar gyfer gwella darpariaeth gofal plant a bydd gwaith pellach yn digwydd dros yr haf. Rwy'n edrych ymlaen at wneud cyhoeddiadau maes o law. Mae'n bwysig cofio'r cyd-destun rydym yn gweithredu ynddo. Mae cymorth i deuluoedd yn y Cymoedd ac ar draws Cymru wedi cael ei leihau, ac nid trwy ddamwain. Mae'r credyd treth i deuluoedd sy'n gweithio wedi cael ei dorri, mae tâl mamolaeth a thadolaeth wedi cael ei dorri, ac mae cymorth gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio wedi cael ei dorri. Rydym yn ceisio gwella darpariaeth gofal plant a chymorth i deuluoedd o fewn y cyd-destun heriol hwn.

I will now turn to the amendments in the last minute that I have. We will oppose amendment 1. We do not share the Conservative enthusiasm for the record of the UK Government. We think that it could, and should, already have done more to stimulate growth. We want to see a recovery that delivers for the many. We believe that the current recovery could well end up leaving poorer-paid workers behind. Our emphasis is on not just more jobs, but better-paid jobs.

Trof yn awr at y gwelliannau yn ystod y funud olaf sydd gennyf. Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 1. Nid ydym yn rhannu brwdfrydedd y Ceidwadwyr ynghylch record Llywodraeth y DU. Credwn y gallai ac y dylai fod wedi gwneud mwy eisoes i ysgogi twf. Rydym am weld adferiad sy'n cyflawni ar gyfer y lliaws. Credwn y gallai'r adferiad presennol adael gweithwyr ar lai o gyflog ar ôl. Nid ar fwy o swyddi'n unig y mae ein pwyslais, ond ar swyddi sy'n talu'n well.

We will oppose amendment 2. I was particularly disappointed by the contribution on this particular point. I find it utterly obnoxious to hear coalition parties coming here and blaming anybody and everybody else for failing to undo the deliberate damage that they have chosen to inflict. We will support amendment 3. We will oppose amendment 4 because the assets of community value measures are not currently in force in Wales so we will not encourage local authorities to undertake something that is not actually in place, and we will of course oppose amendment 5.

Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 2. Roeddwn yn arbennig o siomedig â'r cyfraniad ar y pwynt penodol hwn. Mae clywed pleidiau'r glymblaid yn dod yma a beio unrhyw un a phawb arall am fethu â dadwneud y difrod bwriadol y maent wedi dewis ei achosi yn fy llenwi â ffieidd-dod. Byddwn yn cefnogi gwelliant 3. Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 4 oherwydd nad oes asedau ar gyfer mesur gwerth cymunedol ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru, felly ni fyddwn yn annog awdurdodau lleol i ymgymryd â rhywbeth nad yw'n weithredol mewn gwirionedd, a byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 5 wrth gwrs.

The simple fact is that we cannot compensate for the £1.7 billion that has been deliberately taken out of communities in Wales through decisions by the UK Government—and that is just from our budget. That does not take account of the deliberate tax and benefit decisions that will hit and hurt the most vulnerable hardest. Nonetheless, this Government remains committed to tackling poverty and raising aspiration. We do not underestimate the challenges of today. We will continue to invest in the Valleys. We will continue to work with and for communities that have given so much to our past and have so much more to give to our collective shared future.

Mae'n ffaith syml na allwn wneud iawn am yr £1.7 biliwn a gymerwyd yn fwriadol allan o gymunedau yng Nghymru drwy benderfyniadau Llywodraeth y DU—a dim ond o'n cyllideb ni y mae hynny. Nid yw'n cynnwys y penderfyniadau bwriadol ynghylch treth a budd-daliadau a fydd yn taro ac yn brifo'r bobl fwyaf agored i niwed galetaf. Serch hynny, mae'r Llywodraeth hon yn parhau'n ymrwymedig i drechu tlodi a chodi dyheadau. Rydym yn llawn werthfawrogi'r heriau sy'n ein hwynebu heddiw. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y Cymoedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda, ac ar gyfer cymunedau sydd wedi rhoi cymaint i'n gorffennol ac sydd â chymaint mwy i'w roi i'r dyfodol a rannwn.

17:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to reply to the debate.

Galwaf ar Lindsay Whittle i ymateb i'r ddadl.

17:36 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, from Ammanford to Blaenavon, I hope that people have been listening. I think that it has been quite an important debate, actually, and I have really been encouraged by some of the very good points that were discussed. I am sorry that not all Valleys AMs stayed to listen, but there you have it.

Wel, o Rydaman i Flaenafon, rwy'n gobeithio y bydd pobl wedi bod yn gwrando. Rwy'n credu iddi fod yn ddadl eithaf pwysig, mewn gwirionedd, ac rwyf wedi cael fy nghalonogi gan rai o'r pwyntiau da iawn a drafodwyd. Mae'n ddrwg gennyf nad yw pob un o'r Aelodau Cynulliad dros y Cymoedd wedi aros i wrando, ond dyna ni.

I would like to deal with some of the amendments. The amendments tabled in the name of Aled Roberts but spoken to so eloquently by Eluned Parrott are important because we have lost important cultural treasures from the Valleys. My colleague Bethan touched on some of those. Throughout the Valleys, we have lost chapels, cottages, workmen's institutes and farms in the base of the Valleys—the list goes on. We must make better use of existing laws and work to improve planning rules relating to buildings and landscapes of historic natural and cultural heritage. Of course, we must take advantage of this heritage. It is a bit patchy in the Valleys. In some areas, like my home town of Caerphilly, we have managed it quite successfully. However, we are quite lucky because we have a very large castle, so that helps a lot. However, other areas require more support and I would urge you to utilise iconic buildings, even if they are derelict. Utilise them because it will help.

Hoffwn ymdrin â rhai o'r gwelliannau. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts, ond a fynegwyd mor huawdl gan Eluned Parrott, yn bwysig gan ein bod wedi colli trysorau diwylliannol pwysig yn y Cymoedd. Mae fy nghydweithiwr, Bethan, wedi cyffwrdd â rhai o'r rheini. Drwy'r Cymoedd, rydym wedi colli capeli, bythynnod, sefydliadau gweithwyr a ffermydd yng ngwaelod y Cymoedd—mae'r rhestr yn faith. Rhaid i ni wneud gwell defnydd o gyfreithiau presennol a gweithio i wella rheolau cynllunio sy'n ymwneud ag adeiladau a thirweddau treftadaeth naturiol, diwylliannol a hanesyddol. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni fanteisio ar y dreftadaeth hon. Mae'n dameidiog braidd yn y Cymoedd. Mewn rhai ardaloedd, fel fy nhref enedigol, sef Caerffili, rydym wedi llwyddo i wneud hynny'n eithaf llwyddiannus. Fodd bynnag, rydym yn eithaf ffodus oherwydd bod gennym gastell mawr iawn, felly mae hynny'n help mawr. Fodd bynnag, mae ardaloedd eraill angen mwy o gefnogaeth a byddwn yn eich annog i ddefnyddio adeiladau eiconig, hyd yn oed os ydynt yn adfeiliedig. Defnyddiwch hwy, oherwydd bydd hynny'n help.

In relation to the amendments tabled by the Conservatives in the name of Paul Davies, I agree with the sentiments expressed in many of them. With regard to amendment 5, it is very much a regret that Wales, despite already receiving billions of pounds in EU structural and convergence funds, still qualifies for more. We qualify for more aid because every previous round has largely failed to achieve what it was meant to do. Just imagine the position Wales would be in if we did not have that money. That is what you have to appreciate. However, of course, Conservative economic theory embraced by the whole UK political establishment is the reason why we qualified in the first place. I agree entirely with Vaughan Gething, the Deputy Minister, that we should reject amendment 1. To claim that the UK Government has helped to stimulate economic growth and the creation of wealth in the Valleys is, of course, quite ludicrous, and no-one in the Valleys could accept that—[Interruption.] Go to the Valleys. I have been canvassing in the Valleys. You clearly have not because you would not be welcome. [Laughter.]

O ran y gwelliannau a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yn enw Paul Davies, rwy'n cytuno â'r teimladau a fynegwyd yn llawer ohonynt. O ran gwelliant 5, mae'n bendant yn drueni fod Cymru, er ei bod eisoes yn derbyn biliynau o bunnoedd o gronfeydd strwythurol a chydgyfeirio'r UE, yn dal yn gymwys i gael rhagor. Rydym yn gymwys i gael mwy o gymorth am fod pob cylch blaenorol i raddau helaeth wedi methu â chyflawni'r hyn roedd i fod i'w wneud. Dychmygwch y sefyllfa y byddai Cymru ynddi pe na bai'r arian hwnnw gennym. Dyna sy'n rhaid i chi ei sylweddoli. Ond wrth gwrs, theori economaidd y Ceidwadwyr, a groesawyd gan sefydliad gwleidyddol cyfan y DU, yw'r rheswm pam roeddem yn cymhwyso yn y lle cyntaf. Cytunaf yn llwyr â Vaughan Gething, y Dirprwy Weinidog, y dylem wrthod gwelliant 1. Mae honni bod Llywodraeth y DU wedi helpu i ysgogi twf economaidd a chreu cyfoeth yn y Cymoedd yn gwbl chwerthinllyd wrth gwrs, ac ni allai unrhyw un yn y Cymoedd dderbyn— [Torri ar draws.] Ewch i'r Cymoedd. Rwyf wedi bod yn canfasio yn y Cymoedd. Mae'n amlwg na fuoch chi am na fyddech yn cael croeso. [Chwerthin.]

May I quickly talk about some of the contributions? William Graham does accept that recovery has not reached everyone, and he mentioned that jobs are coming. Well, I am afraid, William Graham, that they are not well paid. That is what we want. We want well-paid jobs. Eluned Parrott, as I said, made a very good contribution. She made valid points about the Muni. We even talk about this building in one word—the 'Muni'. We all know what we are talking about. You have got to try to save that. Nick Ramsay's contribution and intervention was about the EU and what would happen if we did not have this money. Simon Thomas talked about childcare costs. Is it not good to hear a father talking about childcare? Too many grandparents in the Valleys are just simply there now to look after their grandchildren. They love them, of course, but without those grandparents, there are many people who could not afford to go to work, and that is what you have to look at.

A gaf fi siarad yn gyflym am rai o'r cyfraniadau? Mae William Graham yn derbyn nad yw adferiad wedi cyrraedd pawb a soniodd bod y swyddi yn dod. Wel, mae arnaf ofn, William Graham, nad ydynt yn swyddi sy'n talu'n dda. Dyna'r hyn rydym ei eisiau. Rydym am gael swyddi sy'n talu'n dda. Fel y dywedais, roedd cyfraniad Eluned Parrott yn dda iawn. Gwnaeth bwyntiau dilys am y Miwni. Rydym hyd yn oed yn cyfeirio at yr adeilad mewn un gair—y 'Miwni'. Rydym i gyd yn gwybod am beth y soniwn. Mae'n rhaid i chi geisio ei achub. Roedd cyfraniad ac ymyrraeth Nick Ramsay yn ymwneud â'r UE a beth fyddai'n digwydd pe na bai'r arian hwn gennym. Siaradodd Simon Thomas am gostau gofal plant. Onid yw'n braf clywed tad yn siarad am ofal plant? Unig bwrpas gormod o deidiau a neiniau yn y Cymoedd yn awr yw edrych ar ôl eu hwyrion. Maent yn eu caru wrth gwrs, ond heb y teidiau a'r neiniau hynny, mae llawer o bobl na allent fforddio mynd i'r gwaith, a dyna sy'n rhaid i chi edrych arno.

Leighton Andrews, I agree with everything you said. I will not call you 'presh' but instead say 'well done, butty'. How is that—that's a good Valleys term, is it not? However, I will not call you 'presh'—nothing personal. [Laughter.] Leanne Wood talked about community resilience and brought us back from this romantic view of the Valleys. She was more realistic and she told us how it is. I think that that is great.

Leighton Andrews, rwy'n cytuno â phopeth a ddywedasoch. Ni wnaf eich galw'n 'presh', ond yn hytrach, rwy'n dweud 'da iawn, byt'. A oedd hynny'n iawn—mae'n ymadrodd da o'r Cymoedd, onid yw? Fodd bynnag, ni wnaf eich galw'n 'presh'—dim byd personol. [Chwerthin.] Soniodd Leanne Wood am gadernid cymunedol a'n tynnu'n ôl oddi wrth yr olwg ramantus hon ar y Cymoedd. Roedd hi'n fwy realistig a dywedodd wrthym sut mae hi yno. Rwy'n meddwl fod hynny'n wych.

Bethan Jenkins was clearly standing up for her hometown and all of the valleys that she has lived in as well. She was talking about where she belongs and speaking with passion. She had no written speech as I have, but, in fact, spoke from the heart and that is what people do best, I suppose. I also thank Vaughan Gething, the Deputy Minister, for your support.

Roedd Bethan Jenkins yn amlwg yn achub cam ei thref enedigol a phob un o'r cymoedd y mae hi wedi byw ynddynt yn ogystal. Roedd hi'n sôn ynglŷn â lle mae'n perthyn ac yn siarad gydag angerdd. Nid oedd ganddi araith ysgrifenedig fel sydd gennyf fi, ond siaradai'n wirioneddol o'r galon a dyna'r hyn y mae pobl yn ei wneud orau, rwy'n tybio. Diolch hefyd i Vaughan Gething, y Dirprwy Weinidog, am eich cefnogaeth.

The key point for me in this debate is about proper intervention across all areas, because, at the moment, and for a long time now, what we have been offered is not large enough in scope or ambition, despite claims of the Valleys receiving all of this enormous help, which largely has not been the case. However, we can see, as Leighton wanted me to point out, I think, the result of sustained intervention in the performance at Merthyr Tydfil since 2011. Chwarae teg, Merthyr has had decades worth of good, co-ordinated investment in education, public services, transport and economic development, which have all come to fruition. The Merthyr Tydfil that I know now is different to what it was 15 years ago. You have to say it and give praise where praise is due. As a result, we have seen Merthyr Tydfil buck the trend of other areas in the Valleys, despite setbacks to its private sector. It has a lower unemployment rate now than many of its neighbours; I think it is 9.8%, which is not far above Cardiff, which is 9%. So, it is getting there, but I am not denying that there is still a lot to do in Merthyr Tydfil. There are still serious problems, but the point is that sustained Government intervention can actually achieve results.

Mae'r pwynt allweddol i mi yn y ddadl hon yn ymwneud ag ymyrraeth briodol ym mhob maes, oherwydd ar hyn o bryd, ac ers amser hir, nid yw'r hyn rydym wedi cael ei gynnig yn ddigon mawr o ran ei gwmpas na'i uchelgais, er gwaethaf yr honiadau fod y Cymoedd yn derbyn yr holl o gymorth enfawr hwn, ac nid yw hynny'n wir i raddau helaeth. Fodd bynnag, fel roedd Leighton eisiau i mi ei nodi rwy'n credu, gallwn weld canlyniad ymyrraeth barhaus o ran perfformiad Merthyr Tudful ers 2011. Chwarae teg, mae Merthyr wedi cael gwerth degawdau o fuddsoddi da, cydgysylltiedig mewn addysg, gwasanaethau cyhoeddus, trafnidiaeth a datblygu economaidd ac mae'r rhain oll wedi dwyn ffrwyth. Mae tref Merthyr Tudful fel rwy'n gyfarwydd â hi yn wahanol yn awr i'r hyn ydoedd 15 mlynedd yn ôl. Rhaid i chi ddweud hynny a chanmol lle mae clod yn ddyledus. O ganlyniad, rydym wedi gweld Merthyr Tudful yn mynd yn groes i duedd ardaloedd eraill yn y Cymoedd, er gwaethaf anawsterau a wynebodd ei sector preifat. Mae cyfradd ddiweithdra'r dref yn is na llawer o'i chymdogion bellach; rwy'n credu mai 9.8% yw'r gyfradd, fawr uwch na Chaerdydd ar 9%. Felly mae cynnydd i'w weld, ond nid wyf yn gwadu bod llawer i'w wneud ym Merthyr Tudful o hyd. Mae problemau difrifol o hyd, ond y pwynt yw y gall ymyrraeth barhaus y Llywodraeth sicrhau canlyniadau yn wir.

We must not bank on the latest shaky and unsustainable economic recovery cycle. The next round of EU structural funds must be better spent in these areas, and involving the people themselves is the most important aspect. The best examples of action that have succeeded in helping to tackle poverty and inequality are the ones that are grass-roots orientated and run by the people with buy-in from the entire community. We must accept now that top-down schemes simply do not work. Let us re-examine our whole attitude to community engagement. Improving the funding and bidding process for the third sector would also help to foster long-term community efforts and provide stability to those that are already successful. Poverty elimination will take action on the economy and in our communities, but the key point is that the approach is still not on the scale or does not have the co-ordinated effort that we need in the Valleys and certain approaches are just not going to work. A public consultation with the people and businesses of the Valleys from all walks of life, in my opinion, will be a good start to this fight back. Of course we are confident that the Valleys will turn a corner; that is what we want, but in many ways, we already have. However, we have a lot of work to do and the point of this debate is that the wait cannot continue. The pace needs to be increased, the approach needs to be rethought—think outside the box.

Rhaid i ni beidio â dibynnu ar y cylch sigledig ac anghynaliadwy diweddaraf o adferiad economaidd. Rhaid gwario'r cylch nesaf o gronfeydd strwythurol yr UE yn well yn yr ardaloedd hyn, a chynnwys y bobl eu hunain yw'r agwedd bwysicaf. Yr enghreifftiau gorau o weithredu a lwyddodd i helpu i drechu tlodi ac anghydraddoldeb yw'r rhai sy'n deillio o lawr gwlad ac yn cael eu rhedeg gan y bobl gyda chefnogaeth y gymuned gyfan. Mae'n rhaid i ni dderbyn yn awr, yn syml iawn, nad yw cynlluniau o'r brig i lawr yn gweithio. Gadewch i ni ail-edrych ar ein holl agwedd tuag at ymgysylltu â'r gymuned. Byddai gwella cyllid a'r broses ymgeisio ar gyfer y trydydd sector hefyd yn helpu i feithrin ymdrechion cymunedol hirdymor a chreu sefydlogrwydd i'r rhai sydd eisoes yn llwyddiannus. Bydd dileu tlodi yn galw am weithredu ar yr economi ac yn ein cymunedau, ond y pwynt allweddol yw nad yw'r dull o weithredu ar y raddfa o hyd neu nid yw'n cynnwys yr ymdrech gydgysylltiedig sydd ei hangen arnom yn y Cymoedd ac yn syml, mae rhai dulliau nad ydynt yn mynd i weithio. Yn fy marn i, bydd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i bobl a busnesau'r Cymoedd o bob cefndir yn ddechrau da i'r frwydr hon. Wrth gwrs, rydym yn hyderus y bydd y Cymoedd yn troi'r gornel; dyna rydym ei eisiau, ond mewn llawer o ffyrdd, rydym eisoes wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mae gennym lawer o waith i'w wneud a phwynt y ddadl hon yw na all yr aros barhau. Mae angen cyflymu, ac mae angen ailystyried y dull o weithredu—a dod ati o gyfeiriadau gwahanol.

We have known some very tough times in our history in the Valleys, we have paid the price of coal, and I am sure that there are tough times ahead as well, but we can overcome them and what we need now is a Government that will work with us, so that we can do that. The Valleys is famous for choirs and famous for singing. Well, it is up to us to sing our success and to sing our determination, our confidence and our pride. I am proud to stand here and sing for the pride of the Valleys where I belong.

Rydym wedi wynebu rhai adegau anodd iawn yn ein hanes yn y Cymoedd, rydym wedi talu pris am lo ac rwy'n siŵr bod cyfnodau anodd o'n blaenau hefyd, ond gallwn eu goresgyn a'r hyn sydd ei angen arnom yn awr yw Llywodraeth a fydd yn gweithio gyda ni, er mwyn i ni allu gwneud hynny. Mae'r Cymoedd yn enwog am eu corau ac am eu canu. Wel, ein lle ni yw canu am ein llwyddiant a chanu am ein penderfyniad, ein hyder a'n balchder. Rwy'n falch o sefyll yma a chanu am falchder y Cymoedd lle rwy'n perthyn.

17:43

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Go on, sing.

Ewch ymlaen, canwch.

17:43

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will spare you all that. [Laughter.]

Arbedaf i chi rhag hynny. [Chwerthin.]

17:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, no singing. You are out of time, so there is no singing. [Laughter.]

Na, dim canu. Mae eich amser ar ben. Felly ni fydd canu. [Chwerthin.]

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There are objections, therefore I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau, felly gohiriaf bob pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio*

*Voting deferred until voting time*

17:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Business Committee agreed that voting would take place after the business and before the short debate, so unless three Members object, I intend to move straight to the vote.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r bleidlais yn digwydd ar ôl y busnes a chyn y ddadl fer, felly oni bai bod tri Aelod yn gwrthwynebu, bwriadaf symud yn syth at y bleidlais.

17:43 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could we ring the bell?

A gawn ganu'r gloch?

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you asking for the bell to be rung?

A ydych yn gofyn am i'r gloch gael ei chanu?

17:43 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydym.

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want three people to ask for that, please. I see that there are three, so please ring the bell.

Rwyf am i dri o bobl ofyn am hynny, os gwelwch yn dda. Gwelaf fod tri, felly canwch y gloch.

*Canwyd y gloch i alw'r Aelodau I'r Siambr.*

*The bell was rung to call Members to the Chamber.*

17:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are there any Members due to come? I see that they are all here. If no Member objects, now that Darren Millar has arrived, we can move on before the five minutes are up. [Laughter.] Are you comfortable with that? I see that you are. Thank you very much.

A oes unrhyw Aelodau i ddod eto? Gwelaf eu bod i gyd yma. Os nad oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, gan fod Darren Millar wedi cyrraedd, gallwn symud ymlaen cyn i'r pum munud ddod i ben. [Chwerthin.] A ydych yn fodlon â hynny? Gwelaf eich bod. Diolch yn fawr iawn i chi.

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5512

Result of the vote on motion NDM5512

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 15, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 15, Against 28, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5512

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5512

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 6, Yn erbyn 22, Ymatal 15.*

*Amendment not agreed: For 6, Against 22, Abstain 15.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5511

Result of the vote on motion NDM5511

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 28, Against 15, Abstain 0.*

17:49

## Dadl Fer: Sgrinio ar gyfer Dyslecsia yng Nghymru

## Short Debate: Screening for Dyslexia in Wales

Senedd.tv Fideo Video

**Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Mae'n debyg nad dyma'r sesiwn orau i gael eich dewis ar gyfer dadl fer ar ddiwedd hanner tymor a hefyd diwrnod cyn etholiadau Ewrop.

I suppose that this is not the best session to have been selected for a short debate, being at the end of the half term and the day before the European elections.

Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig fy mod yn ceisio codi ymwybyddiaeth ynglŷn â sefyllfa dyslecsia yng Nghymru. Rwy'n gwneud hynny oherwydd achosion sydd wedi dod i fy sylw yn y gogledd ac oherwydd trafodaethau yr wyf wedi eu cael gyda nifer o elusennau sy'n ymwneud â dyslecsia yng Nghymru. Mae'r elusennau hynny yn dweud wrthym fod tua 12% o'r boblogaeth yn dioddef o'r cyflwr, sef tua 360,000 o'n poblogaeth yng Nghymru. Rwy'n siŵr bod y rhai hynny ohonom sy'n aelodau o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi dysgu nifer o wersi y bore yma, wrth inni ymchwilio i sefyllfa gwasanaethau iechyd a gofal plant yng Nghymru, gan weld bod thema sy'n gyffredin i'r problemau a'r anawsterau y mae rhieni a phlant yn eu hwynebu o ran eu sefyllfa ar hyn o bryd, sef nad yw'r ymyrraeth gan wasanaethau cyhoeddus yn digwydd yn ddigon cynnar ac, o achos hynny, fod y plant a'u rhieni yn wynebu anawsterau.

However, I think that it is important that I endeavour to raise awareness of the situation in relation to dyslexia in Wales. I do so because of cases that have been brought to my attention in north Wales and discussions that I have had with a number of charities that are involved with dyslexia in Wales. Those charities tell us that some 12% of the population is dyslexic, which equates to approximately 360,000 people in Wales. I am sure that those of us who are members of the Children, Young People and Education Committee have learned a number of lessons this morning, as part of our inquiry into children's health and care services in Wales, having seen that there is a theme common to all of the problems and difficulties that parents and children face in terms of the problems they experience at present, namely that intervention by public services does not happen at an early enough stage and that, as a result, both the children and their parents face difficulties.

Ar hyn o bryd, mae tua 25% o'n plant ysgol yng Nghymru yn cael cymorth addysg arbennig. Felly, mae'n bwysig inni ymyrryd cyn gynted â phosibl a bod yr ymyrraeth yn cael ei chyflwyno drwy sgrinio yn hytrach na thrwy brofi yn unig.

At present, almost 25% of school pupils in Wales are given assistance because of special educational needs. Therefore, it is important that we intervene as soon as possible, and that that intervention should be delivered through screening rather than simply through testing.

Fel un sy'n dod o'r gogledd, mae'n rhaid imi ofyn i'r Gweinidog i ddweud wrthym, wrth iddo ymateb i'r ddadl, pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth o ran profion drwy gyfrwng y Gymraeg wrth ystyried bod 27% o'n plant ni yn mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

As someone from north Wales, I must ask the Minister to tell us, as he responds to this debate, exactly what plans his Government has in terms of Welsh-language testing and screening, bearing in mind that 27% of our children are in Welsh-medium education in the primary sector.

Today, I am trying to raise awareness of this issue, to actually cite success and progress that is being made, and to ask the Government whether it sees developments in relation to the debate that we will be entering into as far as additional learning needs are concerned. I am told by Dyslexia Wales alone that, currently, it receives approximately 140 telephone calls and e-mail enquiries from parents per month.

Heddiw, rwy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o'r mater hwn, a chyfeirio mewn gwirionedd at lwyddiant a chynnydd sy'n cael ei wneud, ac i ofyn i'r Llywodraeth a yw'n gweld datblygiadau o ran y ddadl y byddwn yn ei chael ar anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd, dywedodd Dyslecsia Cymru wrthyf eu bod hwy yn unig yn cael tua 140 o alwadau ffôn ac ymholiadau e-bost gan rieni bob mis.

There is, of course, a standard test that has been used for many years, namely the dyslexia screening test, which is used for children from the age of seven upwards. To give credit where credit is due, a Welsh-medium version of the screening has recently been introduced by the charity, which is now being used in Welsh-medium settings. In the past, of course, it was necessary for Welsh-medium children to be assessed through the medium of English. That, in itself, created problems as far as confidence in the test results themselves were concerned.

Wrth gwrs, defnyddiwyd prawf safonol ers blynyddoedd lawer, sef y prawf sgrinio dyslecsia ar gyfer plant o saith oed i fyny. I roi clod lle y mae'n ddyledus, mae'r elusen wedi cyflwyno fersiwn Gymraeg o'r prawf sgrinio yn ddiweddar, ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Yn y gorffennol, wrth gwrs, roedd yn rhaid asesu plant cyfrwng Cymraeg drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hynny ynddo'i hun yn creu problemau o ran hyder yng nghanlyniadau'r profion eu hunain.

Last week, I met a mother who had been pressing for the school to screen her nine-year-old for dyslexia for some considerable time. She was a nursery nurse and she felt that there were issues with regard to her child's development, and, approximately two years ago, she had to reluctantly accept the advice that perhaps it was too early for the child to be screened. It has taken her approximately 18 months to achieve an assessment of her child, and she tells me that the response from the school was that her child had scored one point below the threshold where support services were actually provided by the local authority.

Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm â mam a oedd wedi bod yn pwyso ar yr ysgol i sgrinio ei phlentyn naw oed ar gyfer dyslecsia ers cryn amser. Roedd hi'n nyrs feithrin a theimlai fod problemau'n codi gyda datblygiad ei phlentyn a thua dwy flynedd yn ôl, bu'n rhaid iddi dderbyn y cyngor efallai ei bod yn rhy gynnar i'r plentyn gael ei sgrinio, er ei bod yn anfoddog ynglŷn â hynny. Mae wedi cymryd tua 18 mis i asesu ei phlentyn ac mae hi'n dweud wrthyf mai ymateb yr ysgol oedd bod ei phlentyn wedi sgorio un pwynt yn is na'r trothwy i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau cymorth.

Those assessments in schools are currently undertaken by educational psychologists. That can mean that there can be a wait of several years for a full assessment. Some schools will carry out screening interventions, but others do not. The same applies as far as inconsistency is concerned from one local authority to the next. If you are lucky enough to live in a school catchment area where a teacher has undertaken dyslexia training, or if you are lucky enough to live within a local authority where the support staff provide that early intervention, the likelihood is that your child's developmental needs will be addressed. In the meantime, children elsewhere can fall behind and enter into a downward spiral, in some instances, of bad behaviour or withdrawal.

Ar hyn o bryd, mae seicolegwyr addysgol yn cynnal yr asesiadau hyn mewn ysgolion. Gallai hynny olygu aros am nifer o flynyddoedd i gael asesiad llawn. Bydd rhai ysgolion yn cynnal ymyriadau sgrinio ond nid pob un. Mae'r un peth yn wir o ran anghysondeb rhwng un awdurdod lleol a'r llall. Os ydych yn ddigon ffodus i fyw yn nalgylch ysgol lle mae athro wedi cael hyfforddiant dyslecsia neu os ydych yn ddigon ffodus i fyw mewn awdurdod lleol lle mae'r staff cymorth yn darparu ymyrraeth gynnar, mae'n debygol y bydd anghenion datblygiadol eich plentyn yn cael sylw. Yn y cyfamser, mae'n bosibl y bydd plant mewn mannau eraill yn cael eu gadael ar ôl ac yn llithro i batrymau ymddygiad gwael neu'n encilio mewn rhai achosion.

Although a diagnosis is important, it is just as important to carry out early interventions. Although specialist teachers are able to undertake full assessments, local authorities often apply variable criteria that can impact adversely on the support that a child can expect to receive. There is, within Wales, a huge shortage of specialist teachers with skills in dyslexia. Currently, initial teacher training—which I know that the Minister has reviewed—includes modules for identifying dyslexia, but the charities concerned still believe that not enough is being done in the classroom to identify dyslexia for pupils exhibiting the signs. I accept that the dyslexia test itself can be quite time-consuming. A test for the severity of dyslexia can take up to three hours. However, the screening tool itself can be relatively short in practice and can spare a young child and the family many years of anguish. That is why the charity has currently been developing an earlier tool from the DST-J manual, which would provide screening at the higher end of the infant stage. However, there is currently no funding available for the development of a Welsh version of that tool, even though the tool itself has already been tested in pilot schools across Wales, and 600 children have been used to develop a baseline score within Wales. Extending this screening and making the screening available through the medium of Welsh could make an enormous difference to a huge number of children in Wales's schools. We in the Assembly—and, more importantly, the Welsh Government—have the ability to bring about that change.

Er bod diagnosis yn bwysig, mae cynnal ymyriadau cynnar yr un mor bwysig. Er bod athrawon arbenigol yn gallu cynnal asesiadau llawn, mae awdurdodau lleol yn aml yn defnyddio meini prawf amrywiol sy'n gallu cael effaith andwyol ar y gefnogaeth y gall plentyn ei disgwyl. Yng Nghymru, mae prinder enfawr o athrawon arbenigol gyda sgiliau ym maes dyslecsia. Ar hyn o bryd, mae hyfforddiant cychwynnol athrawon—y gwn fod y Gweinidog wedi'i adolygu—yn cynnwys modiwlau ar gyfer nodi dyslecsia, ond mae'r elusennau dan sylw yn dal i gredu nad oes digon yn cael ei wneud yn y dosbarth i ganfod dyslecsia mewn disgyblion sy'n arddangos yr arwyddion. Rwy'n derbyn y gall y prawf dyslecsia ei hun gymryd cryn dipyn o amser. Gall prawf i ganfod pa mor ddifrifol yw dyslecsia bara hyd at dair awr. Fodd bynnag, gall yr adnodd sgrinio ei hun fod yn gymharol fyr yn ymarferol a gall arbed blynyddoedd lawer o loes i blentyn ifanc a'r teulu. Dyna pam y mae'r elusen wedi bod yn datblygu adnodd cynharach ar hyn o bryd o'r llawlyfr DST-J a fyddai'n sgrinio cyn i'r cyfnod babandod ddod i ben. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes arian ar gael ar gyfer datblygu fersiwn Gymraeg o'r adnodd er bod yr adnodd ei hun eisoes wedi'i brofi mewn ysgolion peilot ledled Cymru a bod 600 o blant wedi'u defnyddio i ddatblygu sgôr sylfaenol yng Nghymru. Gallai ymestyn y sgrinio a sicrhau ei fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg wneud gwahaniaeth enfawr i nifer fawr o blant yn ysgolion Cymru. Mae gallu gennym yn y Cynulliad—ac yn bwysicach, Llywodraeth Cymru—i sicrhau newid o'r fath.

There is a difference, as I have already mentioned, between screening and testing. Currently in Wales, there is no national screening system. Schools and local authorities operate inconsistently and with varying degrees of success. I have been quite surprised, in looking into this subject, that authorities themselves adopt different threshold scores. I have not been able to understand how those threshold scores have been adopted within local authorities. The information that I have received from those involved with dyslexia tells me that they themselves fail to accept—other than gatekeeping as far as funding arrangements are concerned—the basis of those thresholds.

Fel rwyf eisoes wedi sôn, mae gwahaniaeth rhwng sgrinio a phrofi. Ar hyn o bryd yng Nghymru, ni cheir system sgrinio genedlaethol. Ceir anghysondeb o ran y modd y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn gweithredu a graddau amrywiol o lwyddiant a gânt. Wrth edrych ar y pwnc, cefais fy synnu'n fawr fod awdurdodau eu hunain yn mabwysiadu gwahanol sgoriau trothwy. Nid wyf wedi gallu deall sut y cafodd y sgoriau trothwy hynny eu mabwysiadu mewn awdurdodau lleol. Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i chael gan y rhai sy'n ymwneud â dyslecsia yn dangos eu bod hwy eu hunain yn methu â derbyn y sail dros y trothwyon hynny—ar wahân i borthgadw trefniadau ariannu.

I have to acknowledge that there have been positive developments. The Minister may refer to the development of so-called dyslexia-friendly schools. However, there are questions regarding how effective those are in some instances. Accreditation of a dyslexia-friendly school is left to the local authority. Again, there is some concern that there is a lack of consistency with regard to the adoption of criteria. Ultimately, early intervention and support can be the difference between a life fulfilled and a life of failure. Last year's data from the pupil level annual school census revealed that almost one in four pupils in Welsh schools—about 104,000, currently—have identified special educational needs. However, those figures themselves are based on needs that have already been identified.

Rhaid i mi gydnabod y bu datblygiadau cadarnhaol. Efallai y bydd y Gweinidog yn cyfeirio at ddatblygiad yr hyn a elwir yn ysgolion dyslecsia-gyfeillgar. Fodd bynnag, mae cwestiynau'n codi ynghylch pa mor effeithiol yw'r rheini mewn rhai achosion. Gadewir i'r awdurdod lleol achredu ysgol dyslecsia-gyfeillgar. Unwaith eto, mae rhywfaint o bryder fod diffyg cysondeb o ran mabwysiadu'r meini prawf. Yn y pen draw, gall ymyrraeth a chefnogaeth gynnar olygu'r gwahaniaeth rhwng bywyd llawn a bywyd o fethiant. Dangosodd data y llynedd o'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion fod gan bron un o bob pedwar disgybl mewn ysgolion Cymraeg—tua 104,000 ar hyn o bryd—anghenion addysgol arbennig dynodedig. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hynny eu hunain yn seiliedig ar anghenion sydd eisoes wedi'u dynodi.

Many more pupils are subject to that identification process before they receive the additional learning support that they need. Given those figures, will the Government and the Minister consider that the high numbers in need of additional support might indicate that regardless of how many new initiatives we come up with, until dyslexia screening and other forms of screening are a normal part of early years assessment, we cannot be sufficiently confident that the chances of improvement for pupils and, ultimately, education standards in Wales can be achieved?

Mae llawer mwy o ddisgyblion yn ddarostyngedig i'r broses ddynodi hon cyn eu bod yn cael y cymorth dysgu ychwanegol sydd ei angen arnynt. O ystyried y ffigurau hynny, waeth faint o fentrau newydd a luniwn, hyd nes y bydd sgrinio dyslecsia a mathau eraill o sgrinio yn rhan arferol o asesiadau'r blynyddoedd cynnar, a wnaiff y Llywodraeth a'r Gweinidog ystyried y gallai'r niferoedd uchel sydd angen cymorth ychwanegol ddangos na allwn fod yn ddigon hyderus y gallwn sicrhau gwelliant i ddisgyblion, ac yn y pen draw, i safonau addysg yng Nghymru?

The effect of failing to intervene can be catastrophic. A pupil with unidentified, and therefore unsupported, dyslexia will not be given extra time to sit tests or examinations such as GCSEs in the school system, thereby having an impact on the individual with regard to attainment and on the school's performance with regard to banding. I would therefore ask the Minister whether he has given any consideration to a straightforward screening test for children at the end of the early years. As I have said, although a test for the severity of dyslexia can take up to three hours, screening is relatively short in practice, and dyslexia organisations tell me that teachers are literally queuing up to gain the level 4 qualification, which can help to identify the signs of dyslexia. Once screening has been completed, a whole range of options becomes available, and rather than shutting down a pupil's potential for learning, we might open up a whole new world of opportunity.

Gall effaith methu ag ymyrryd fod yn drychinebus. Ni fydd disgybl â dyslecsia nad yw wedi'i ddynodi, ac nad yw felly'n derbyn cymorth, yn cael amser ychwanegol i sefyll profion neu arholiadau megis TGAU yn y system ysgolion, gan arwain at effaith ar yr unigolyn o ran cyrhaeddiad ac ar berfformiad yr ysgol o ran bandio. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog felly a yw wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i brawf sgrinio syml ar gyfer plant ar ddiwedd y blynyddoedd cynnar. Fel y dywedais, er y gall prawf i ganfod pa mor ddifrifol yw dyslecsia gymryd hyd at dair awr, mae'r broses sgrinio yn gymharol fyr yn ymarferol ac mae sefydliadau dyslecsia yn dweud wrthyf fod athrawon yn llythrennol yn ciwio i ennill y cymhwyster lefel 4 sy'n gallu helpu i adnabod arwyddion dyslecsia. Ar ôl cwblhau'r sgrinio, mae amrywiaeth eang o opsiynau ar gael, ac yn hytrach na chyfyngu ar botensial disgybl i ddysgu, efallai y byddwn yn agor byd newydd o gyfle ar ei gyfer.

I think it unlikely that any of us here today, certainly not the Minister, would disagree with any of the aims of the dyslexia charities. They state that dyslexia is a difference and not a disability, and I genuinely believe that adding an already devised screening test to the existing early years development and assessment framework would make a huge difference to the future life of many thousands of our young people.

Credaf ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw un ohonom yma heddiw, nid y Gweinidog yn bendant, yn anghytuno ag unrhyw un o amcanion yr elusennau dyslecsia. Maent yn datgan mai gwahaniaeth nid anabledd yw dyslecsia ac rwy'n credu'n wirioneddol y byddai ychwanegu prawf sgrinio sydd eisoes wedi'i ddyfeisio at fframwaith asesu datblygiad y blynyddoedd cynnar sydd eisoes yn bodoli yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau miloedd lawer o'n pobl ifanc yn y dyfodol.

18:02

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

18:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv
Fideo Video

I begin by thanking Aled Roberts for bringing forward this debate this afternoon. As a Welsh Government, we are committed to improving standards in literacy and to supporting all of our learners, including, of course, those with dyslexia and other specific learning difficulties. Our new literacy and numeracy framework and the national reading tests already provide mainstream teachers with initial screening tools that help to identify learners who are falling behind their peers and require that kind of targeted and focused intervention. The literacy and numeracy framework sets out the skills that we expect learners from the age of five to 14 to develop throughout their time in school.

Dechreuaf drwy ddiolch i Aled Roberts am gyflwyno'r ddadl hon y prynhawn yma. Fel Llywodraeth Cymru, rydym wedi ymrwymo i wella safonau llythrennedd ac i gefnogi ein holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd â dyslecsia ac anawsterau dysgu penodol eraill wrth gwrs. Mae ein fframwaith llythrennedd a rhifedd newydd a'r profion darllen cenedlaethol eisoes yn rhoi adnoddau sgrinio cychwynnol i athrawon prif ffrwd i helpu i nodi pa ddysgwyr sydd ar ei hôl hi o gymharu â'u cyfoedion ac sydd angen y math hwn o ymyrraeth â ffocws ac wedi'i thargedu. Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn nodi'r sgiliau rydym yn disgwyl i ddysgwyr rhwng 5 a 14 oed eu datblygu drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

I accept absolutely that the LNF is not designed specifically to identify learners with dyslexia, but it does help teachers to identify learners who are struggling with specific aspects of literacy acquisition, such as letter knowledge and phonological awareness. These are known difficulties for learners with dyslexia, so this early indication can alert the teacher to the fact that the learner requires additional support. Similarly, the national reading tests provide a useful means to identify learners who are struggling with their literacy skills. These tests were designed to allow as many learners as possible to have access to them, and have been standardised against the population in Wales. This provides a useful baseline to identify learners who are falling behind. Again, these tests were not designed to identify learners with dyslexia, but because they contain aspects of literacy that are known to challenge dyslexic learners, they can be used as initial indicators that learners may require additional support.

Rwy'n derbyn yn llwyr nad yw'r FfLlRh wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer nodi pa ddysgwyr sydd â dyslecsia ond mae'n helpu athrawon i glustnodi dysgwyr sy'n cael trafferth gydag agweddau penodol o gaffael llythrennedd, fel adnabod llythrennau ac ymwybyddiaeth seinyddol. Mae'r rhain yn anawsterau cyfarwydd i ddysgwyr â dyslecsia felly gallai'r arwyddion cynnar hyn dynnu sylw'r athro at angen y dysgwr am gymorth ychwanegol. Yn yr un modd, mae'r profion darllen cenedlaethol yn cynnig dull defnyddiol ar gyfer clustnodi dysgwyr sy'n cael trafferthion gyda'u sgiliau llythrennedd. Mae'r profion hyn wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan gymaint o ddysgwyr â phosibl ac maent wedi eu safoni yn erbyn y boblogaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnig llinell sylfaen ddefnyddiol ar gyfer clustnodi pa ddysgwyr sydd ar ei hôl hi. Unwaith eto, ni luniwyd y profion hyn ar gyfer clustnodi dysgwyr â dyslecsia ond oherwydd eu bod yn cynnwys agweddau ar lythrennedd y gwyddys eu bod yn herio dysgwyr dyslecsig, gellir eu defnyddio fel dangosyddion cychwynnol y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr.

In order to help teachers to use the reading tests as an initial screening tool, we are in the process of publishing reading test guidance. This guidance will explain how the reading test can be used as an early indicator of dyslexia and specific learning difficulties, and it will also suggest appropriate support strategies that can be used in mainstream settings.

Er mwyn helpu athrawon i ddefnyddio'r profion darllen fel adnodd sgrinio cychwynnol, rydym yn y broses o gyhoeddi canllawiau ar y prawf darllen. Bydd y canllawiau'n esbonio sut y gellir defnyddio'r prawf darllen fel dangosydd cynnar ar gyfer dyslecsia ac anawsterau dysgu penodol a bydd hefyd yn awgrymu strategaethau cymorth priodol y gellir eu defnyddio mewn lleoliadau prif ffrwd.

Of course, we all want schools to adopt an inclusive approach to all learners, and those who show early indications of falling behind their peers should expect to be supported by timely, targeted intervention programmes. These interventions provide a useful early indication that a learner may have a specific difficulty, such as dyslexia. Evidence suggests that learners who do not respond well to quality interventions are likely to have an additional learning need and will probably require additional assessment and support. Teachers are considered to be good judges of learner progress and can often pick up when a learner is struggling with a particular aspect of literacy development. To support teachers, we want them to be better trained to identify children who are failing to acquire letter knowledge and appropriate levels of phonological awareness.

Wrth gwrs, rydym i gyd eisiau i ysgolion fabwysiadu dull cynhwysol mewn perthynas â phob dysgwr a dylai'r rhai sy'n dangos arwyddion cynnar eu bod ar eu hôl hi o gymharu â'u cyfoedion ddisgwyl cael cefnogaeth drwy raglenni ymyrraeth amserol, wedi'u targedu. Mae'r ymyriadau hyn yn cynnig arwydd cynnar defnyddiol y gallai dysgwr fod ag anhawster penodol, megis dyslecsia. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod dysgwyr nad ydynt yn ymateb yn dda i ymyriadau o ansawdd yn debygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n debyg y byddant angen asesiad a chymorth ychwanegol. Ystyrir bod athrawon yn dda am farnu cynnydd dysgwyr ac yn aml gallant sylwi pan fydd dysgwr yn cael trafferth gydag agwedd benodol o ddatblygiad llythrennedd. I gefnogi athrawon, rydym am iddynt fod wedi'u hyfforddi'n well i nodi pa blant sy'n cael trafferth gydag adnabod llythrennau a lefelau priodol o ymwybyddiaeth seinyddol.

The national support programme is training all teachers to become proficient in teaching literacy and there have already been sessions relating to dyslexia. What is critical is that, through workforce development, we raise the capacity of teachers and schools to better meet the learning needs of pupils with SEN, including those with dyslexia. A review has commenced to assess the skills base of the general education workforce across Wales in relation to those who provide universal provision to children and young people with SEN. This review will be completed by July.

Mae'r rhaglen gymorth genedlaethol yn hyfforddi pob athro i ddod yn hyfedr mewn addysgu llythrennedd a chynhaliwyd sesiynau ar ddyslecsia eisoes. Drwy ddatblygu'r gweithlu, yr hyn sy'n hanfodol yw ein bod yn gwella gallu athrawon ac ysgolion i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion ag AAA, gan gynnwys disgyblion â dyslecsia. Mae adolygiad ar y gweill i asesu sylfaen sgiliau'r gweithlu addysg yn gyffredinol ar draws Cymru mewn perthynas â'r rhai sy'n cyflwyno darpariaeth gyffredinol i blant a phobl ifanc sydd ag AAA. Bydd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf.

When we developed the national literacy programme back in 2012, we wanted to make sure that there was a consistent approach to supporting and developing literacy in Wales. I have mentioned some of the innovations that have already taken place, but there is, as Aled indicated, more to be done. I am committed to ensuring that learners with dyslexia have the appropriate screening, assessment and targeted intervention, but I also want to ensure that the approaches that we recommend are of a high quality and that we offer comparable support for Welsh and English learners. We need to adopt approaches for dyslexia and specific learning difficulties that build on our current education policies, so that we have a consistent and robust approach across Wales, which Aled has indicated, quite rightly, is ân issue-consistency, I mean.

Pan ddatblygwyd y rhaglen llythrennedd genedlaethol gennym yn ôl yn 2012, roeddem yn awyddus i wneud yn siŵr fod dull cyson o gefnogi a datblygu llythrennedd ar waith yng Nghymru. Rwyf wedi sôn am rai o'r datblygiadau arloesol sydd eisoes wedi digwydd, ond mae rhagor i'w wneud, fel y nododd Aled. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod dysgwyr â dyslecsia yn cael eu sgrinio a'u hasesu'n briodol a'n bod yn targedu ymyrraeth ar eu cyfer, ond rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod y dulliau gweithredu rydym yn eu hargymell o ansawdd uchel a'n bod yn cynnig cymorth tebyg i ddysgwyr Cymraeg a Saesneg. Mae angen mabwysiadu dulliau gweithredu ar gyfer dyslecsia ac anawsterau dysgu penodol sy'n adeiladu ar ein polisïau addysg cyfredol, fel bod gennym drefniadau cyson a chadarn ledled Cymru, sy'n broblem y mae Aled wedi tynnu sylw ati, yn gwbl briodol—cysondeb, hynny yw.

To support this work, we are developing a framework for pupils with specific learning difficulties, such as dyslexia. This framework will aim to provide a consistent approach to dyslexia and specific learning difficulties across Wales, ensuring that screening, assessment and intervention processes are in place. It will also identify new or existing high-quality Welsh and English resources for dyslexia. To inform this work, we have already established a task and finish group, members of which have appropriate expertise and experience in relation to SpLD. Part of its remit is to build on current policies and recommend a rigorous and consistent approach to early identification through screening and assessment. The group will no doubt be aware of the recently developed Welsh-medium screening techniques that have been referred to. Part of its brief will be to consider whether such screening tools can be used to complement existing policy developments in literacy.

I gefnogi'r gwaith hwn, rydym yn datblygu fframwaith ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol megis dyslecsia. Nod y fframwaith fydd darparu ymagwedd gyson tuag at ddyslecsia ac anawsterau dysgu penodol ledled Cymru, gan sicrhau bod prosesau sgrinio, asesu ac ymyrryd ar waith. Bydd hefyd yn nodi adnoddau o ansawdd uchel sy'n bodoli'n barod neu rai newydd yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer dyslecsia. Er mwyn llywio'r gwaith, rydym eisoes wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, ac mae gan ei aelodau arbenigedd a phrofiad priodol mewn perthynas ag anawsterau dysgu penodol. Rhan o'i gylch gwaith yw adeiladu ar bolisïau cyfredol ac argymell dull trylwyr a chyson o nodi anhawster yn gynnar drwy sgrinio ac asesu. Diau y bydd y grŵp yn ymwybodol o'r technegau sgrinio cyfrwng Cymraeg a ddatblygwyd yn ddiweddar ac y cyfeiriwyd atynt. Rhan o'i brîff fydd ystyried a oes modd defnyddio adnoddau sgrinio o'r fath i ategu datblygiadau polisi presennol ym maes llythrennedd.

I want to be assured that the support that we recommend for learners is of the highest quality, so I have asked the task and finish group to consider whether the screening and assessment tools and intervention strategies used currently are effective and whether this can be backed up by robust, independent evidence. Its findings will form part of the final dyslexia/SpLD framework. As Members will know, our overarching plan is to replace the current statutory framework for the assessment and planning of provision for children and young people with special education needs, including those with dyslexia, with a simpler, more person-centred system. A second phase of formal consultation, setting out the detailed proposals for reform, will commence very shortly. These proposals seek to create an integrated, collaborative process of assessment, planning and monitoring, which facilitates early, timely and effective interventions for children and young people with additional learning needs. The reforms will provide a more equitable, person-centred system that increases the rights of children and their families and ensures that they are involved throughout the process. The overall impact will be to support children and young people in Wales with additional learning needs, including those with dyslexia, to reach their full potential.

Rwyf am gael sicrwydd fod y cymorth rydym yn ei argymell ar gyfer dysgwyr o'r ansawdd gorau, felly rwyf wedi gofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried a yw'r adnoddau sgrinio ac asesu a'r strategaethau ymyrryd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn effeithiol ac a oes tystiolaeth gadarn, annibynnol yn sail iddynt. Bydd ei ganfyddiadau'n ffurfio rhan o'r fframwaith dyslecsia/anawsterau dysgu penodol terfynol. Fel y gŵyr yr Aelodau, ein cynllun trosfwaol yw gosod system symlach sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn lle'r fframwaith statudol presennol ar gyfer asesu a chynllunio darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys y rhai sydd â dyslecsia. Bydd ail gam o ymgynghori ffurfiol, yn nodi cynigion manwl ar gyfer diwygio, yn dechrau'n fuan iawn. Mae'r cynigion hyn yn ymgais i greu proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro, sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y diwygiadau'n cynnig system decach sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cynyddu hawliau plant a'u teuluoedd ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses. Yr effaith gyffredinol fydd cynorthwyo plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd â dyslecsia, i gyrraedd eu potensial llawn.

Young learners with dyslexia deserve the same opportunity and support to succeed as their peers. As Minister, I am determined to ensure that they get that chance.

Mae dysgwyr ifanc â dyslecsia yn haeddu'r un cyfle a chymorth i lwyddo â'u cyfoedion. Fel Gweinidog, rwy'n benderfynol o sicrhau eu bod yn cael y cyfle hwnnw.

Once again, I thank Aled for bringing this very important issue to the Chamber this afternoon. I hope that my contribution underlines what I believe is unanimity of purpose across parties within the Chamber.

Unwaith eto, diolch i Aled am gyflwyno'r mater pwysig hwn i'r Siambr y prynhawn yma. Rwy'n gobeithio y bydd fy nghyfraniad yn tanlinellu'r hyn rwy'n ei gredu y mae'r pleidiau i gyd yn y Siambr yn unfryd yn ei gylch.

18:10

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. That brings today's business to a close.

Diolch i chi, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:10.*

*The meeting ended at 18:10.*